# Dadansoddiad o ddata a gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Llesiant ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Phen y Bont ar Ogwr

**Practice Solutions Ltd**
Ionawr 2022

# Cynnwys


Cyflwyniad a Chefndir ..... 7
Cyflwyniad ..... 7
Cefndir ..... 7
Methodoleg ..... 10
Ffynonellau Casglu Data ..... 10
Ymgysylltu â phartneriaid allweddol ..... 10
Grŵp Data CAG ..... 11
Dadansoddiad a Chanfyddiadau ..... 11
Nodau Llesiant ..... 12
Effaith Covid-19 ..... 14
Beth mae'r pandemig wedi'i ddweud wrthym am ein rhanbarth? ..... 14
Cymunedau a phobl ..... 15
Demograffeg Allweddol (Poblogaeth) ..... 17
Data Poblogaeth ..... 17
Dadansoddiad yn ôl Ardal ..... 21
Grwpiau Lleiafrifol ..... 23
Hunaniaeth Rywiol ..... 23
Y Piler Cymdeithasol ..... 25
Cyflwyniad ..... 25
Oedolion ..... 25
Beth ydym ni'n ei wybod? ..... 25
Llesiant Meddyliol ..... 26
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ..... 26
Cryfderau: ..... 30
Cyfleoedd ..... 30
Gordewdra ..... 31
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ..... 31
Cryfderau ..... 33
Cyfleoedd ar gyfer Datblygu ..... 34
Diabetes ..... 34
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ..... 35
Cryfderau ..... 39
Cyfleoedd ar gyfer Datblygu ..... 39
Dementia ..... 39
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ..... 39

Cryfderau ........ 41
Cyfleoedd ar gyfer Datblygu ........ 42
Plant a Theuluoedd ........ 42
Beth ydym ni’n ei wybod? ........ 42
Plant sy'n derbyn Gofal a Chymorth ........ 43
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 43
Ymyrraeth Gynnar ac Atal ........ 46
Cryfderau ........ 49
Cyfleoedd ........ 49
Llesiant Meddyliol ........ 49
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 50
Cryfder ........ 54
Cyfleoedd ........ 54
Gordewdra ........ 55
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 55
Cyfleoedd ........ 60
Troseddau Ieuenctid ........ 60
Cryfderau ........ 61
Cyfleoedd ........ 61
Cydlyniant Cymunedol ........ 62
Beth ydym ni’n ei wybod? ........ 62
Ymdeimlad o gymuned ........ 62
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 62
Cryfderau ........ 64
Cyfleoedd ........ 65
Tai a Digartrefedd ........ 65
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 66
Cefnogi Pobl ........ 68
Cefnogi Pobl Pen-y-bont ar Ogwr ........ 69
Cefnogi Pobl Merthyr Tudful ........ 70
Cryfderau ........ 71
Cyfleoedd ........ 71
Diogelwch Cymunedol ........ 71
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ........ 72
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ........ 72
Teimlo'n Ddiogel ........ 72
Troseddau a Gofnodwyd ........ 73

Trais ... 76
Trais heb anaf ... 77
Troseddau Rhywiol ... 78
Trais a Cham-drin Domestig ... 80
Trais Domestig gydag Anaf ... 80
Trais Domestig heb Anaf ... 80
Troseddau rhywiol domestig difrifol eraill ... 81
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol (VAWDASV) ... 81
Gwasanaethau VAWDASV ... 82
Cryfderau ... 83
Troseddau Casineb ... 83
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ... 86
Trais Difrifol ... 88
Dyletswydd Trais Difrifol ... 89
Iechyd ... 90
Unigrwydd ... 90
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 90
Iechyd Cyffredinol ... 92
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 92
Cefnogaeth ar gyfer Lles yn y Gymuned ... 93
Cryfderau ... 94
Cyfleoedd ... 95
Crynodeb ... 95
Y Golofn Economaidd ... 97
Beth ydym ni'n ei wybod? ... 97
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 97
Cyflogaeth ac Incwm ... 97
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ... 101
Incwm Isel Absoliwt ... 102
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 102
Defnyddio Banciau Bwyd ... 105
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 105
Aelwydydd Sengl ... 105
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 105
Addysg a Chyflogaeth ... 107
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? ... 107
Lefelau Cyrhaeddiad a Chymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim ... 107

Gweithgarwch Economaidd ........ 109
Cyflogaeth Pobl Anabl........ 111
Anweithgarwch Economaidd ........ 113
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?........ 113
Credyd Cynhwysol........ 115
Cryfderau ........ 121
Cyfleoedd........ 121
Busnesau ........ 123
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?........ 123
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd........ 124
Cryfderau ........ 124
Cyfleoedd........ 125
Casgliadau ........ 126
Y Piler Amgylcheddol ........ 127
Beth ydym ni'n ei wybod? ........ 127
Rhagymadrodd ........ 127
Trosolwg........ 128
Asesiad o les amgylcheddol ........ 129
Mynediad a hamdden ........ 129
Cyfleoedd........ 135
Ansawdd Aer ........ 137
Cyfleoedd........ 140
Seinweddau a Llygredd Sŵn ........ 140
Llifogydd ........ 141
Cyfleoedd........ 146
Iechyd dŵr ........ 147
Cyfleoedd........ 151
Tanau gwyllt ........ 151
Mapiau a siart gan GTADC a nodyn briffio CNC ........ 152
Cyfleoedd........ 153
Bioamrywiaeth........ 153
Cyfleoedd........ 157
Adnoddau ........ 159
Cyfleoedd........ 161
Tipio anghyfreithlon ........ 161
Cyfleoedd........ 162
Tirlithriadau........ 163

Cyfle ..... 164
Crynodeb..... 165
Piler Diwylliannol..... 166
Cyflwyniad..... 166
Yr hyn rydym ni’n ei wybod ..... 166
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?..... 167
Y Gymraeg ..... 167
Dathlu'r Gymraeg a Diwylliant Cymru ..... 168
Treftadaeth..... 170
Llyfrgelloedd..... 173
Gwirfoddoli ..... 175
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr ..... 175
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful ..... 177
Awdurdodau Lleol..... 177
Y Celfyddydau a’r Theatr..... 178
Pen-y-bont ar Ogwr – Awen ..... 180
Neuadd y Dref Maesteg ..... 181
Chwaraeon a Hamdden..... 182
ParkRun..... 186
Nofio am Ddim ..... 187
Cryfderau..... 189
Cyfleoedd..... 191
Y Gymraeg..... 191
Y Celfyddydau a’r Theatr ..... 191
Treftadaeth ..... 191
Llyfrgelloedd ..... 191
Gweithgareddau Chwaraeon a Hamdden ..... 192
Gwirfoddoli..... 192
Trafnidiaeth..... 193
Crynodeb..... 193
Cyfeiriadau..... 194

# Cyflwyniad a Chefndir

## Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Llesiant yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) ac mae i'w gynnal bob 5 mlynedd. Cynhaliwyd yr Asesiad Llesiant cyntaf yn 2017. Mae Deddf LlCD yn ymgorffori llesiant Cymru mewn deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth i wella llesiant yn eu cymunedau lleol.

Ystyrir Llesiant Cymru drwy saith nod llesiant (gweler ymhellach isod) a ategir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Wrth ystyried yr elfennau hyn, ni ellir eu hystyried ar eu pen eu hunain gan fod y themâu yn torri ar draws ei gilydd mewn sawl ffordd. Adlewyrchir hyn yn y data a'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Asesiad Llesiant hwn yn cynnwys cyfres o ddogfennau ategol, sef:

- Adroddiad Data (y ddogfen hon)
- Taflenni crynodeb – negeseuon allweddol o'r prif adroddiad
    - Cymdeithasol – yn cynnwys Llesiant Meddyliol a Chorfforol, Cydlyniant Cymunedol, Tai a Digartrefedd
    - Economaidd
    - Amgylcheddol
    - Diwylliannol
- Ystorfa ddata – taenlenni yn cynnwys data llawn
- Adroddiad Ymgysylltu

Bydd hyn yn ffurfio'r wybodaeth a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Llesiant terfynol sydd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2023.

## Cefndir

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) wedi'u sefydlu o dan Ddeddf LlCD ac maent yn endidau cydweithredol o gyrff cyhoeddus. Aelodau statudol y bwrdd yw:

- Awdurdod Lleol
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Awdurdod Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'n ofynnol iddynt gyflawni'r dyletswyddau statudol sy'n cynnwys cyhoeddi asesiad o lesiant lleol, paratoi cynlluniau llesiant lleol a darparu adroddiadau blynyddol ar gynnydd eu cynlluniau. Maent yn gweithio gyda chyrff a sefydliadau allweddol sy'n arfer swyddogaethau

o natur gyhoeddus a all wneud cyfraniad i gynorthwyo i gyflawni amcanion y BGC.  Mae'r cyrff hyn yn cynnwys y canlynol y mae'n rhaid eu gwahodd i gymryd rhan:[1]

- Heddlu
- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Corff sy'n cynrychioli'r Mudiadau Gwirfoddol lleol
- Cynrychiolydd gwasanaethau prawf

Ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont a Chwm Taf, maent yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid lleol i gyflawni gofynion statudol Deddf LlCD.  Mae'r ddau fwrdd presennol yn gweithio ar wahân, ond mae hwn, sef Asesiad Llesiant ar y cyd, yn adlewyrchiad o'r hyn sy'n bwysig ar draws y ddwy ardal gan arwain at y camau nesaf o ddod yn un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg.

### Asesiad Llesiant

Mae'r Asesiad Llesiant yn gasgliad a dadansoddiad o ddata sy'n cynnwys ystod o ddata ystadegol cenedlaethol a lleol a dogfennau ymchwil perthnasol yn ogystal ag ymgysylltiad â chymunedau lleol.  Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ymwneud â LlCD (a ddangosir isod) ac fe'i hamlinellir o dan y pedwar piler, sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol.




Mae'r Asesiad Llesiant yn rhoi darlun o gyflwr llesiant presennol yr ardal yn ogystal ag ystyried anghenion y dyfodol.  Bydd yr asesiad hwn yn dangos beth sy'n gweithio'n dda, cyfleoedd i wella a beth sydd angen i ni ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

Yr Asesiad Llesiant hwn yw'r rhan gyntaf o'r broses o asesu llesiant cymunedau, a'r camau nesaf fydd adnabod y blaenoriaethau y mae angen i ni eu hystyried er mwyn sicrhau bod llesiant cymunedau yn parhau i wella ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

[1] Natur gyhoeddus - yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn arfer pwerau statudol, yn cymryd lle llywodraeth ganolog neu awdurdodau lleol neu'n darparu gwasanaeth cyhoeddus

Wrth ddatblygu'r asesiad mae gofyniad i nodi 'ardaloedd cymunedol' sy'n fannau o fewn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.  Penderfynwyd nodi 7 ardal:

- Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr
- Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- Cwm Rhondda
- De Cwm Cynon
- Gogledd Cwm Cynon
- Merthyr Tudful

Dewiswyd yr ardaloedd hyn gan eu bod yn adlewyrchu ardaloedd clwstwr y byrddau iechyd a ddangosir yn y map isod:



# Methodoleg

Wrth baratoi'r asesiad hwn rydym wedi defnyddio ystod o ddata o ffynonellau cenedlaethol a lleol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod gennym y data angenrheidiol i allu darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r wybodaeth a gasglwyd. Mae'r data wedi'i gasglu gan ystyried y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.

Yn sgil sefydlu'r Grŵp Gweithredu Asesiad Cymunedol (CAG), daeth aelodau allweddol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ynghyd i oruchwylio datblygiad yr Asesiad Llesiant a'r Asesiad Anghenion Poblogaeth (sy'n cael ei gynnal gan y BPRh). Sefydlwyd dau is-grŵp i gymryd cyfrifoldeb am elfennau data ac ymgysylltu y ddau asesiad.

Ymgynghorwyd â grŵp data CAG a darparwyd arweiniad a chymorth wrth ddatblygu'r adroddiad data. Cyfarfu'r grŵp yn rheolaidd a rhoddwyd gwybodaeth iddynt am gynnydd ac roeddent o gymorth wrth gefnogi'r gwaith o gasglu a darparu data ar lefel leol.

## Ffynonellau Casglu Data

Casglwyd data o'r ffynonellau cenedlaethol canlynol a oedd yn cynnwys:

- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Stats Cymru
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Arsyllfa Ddata Gofal Cymdeithasol Cymru
- Stats Xplore – data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid

Casglwyd gwybodaeth hefyd gan sefydliadau allweddol eraill:

- Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Sefydliadau Trydydd Sector lleol BAVO, Interlink a VAMT

Dadansoddwyd data i'r ardaloedd cymunedol lle'r oedd ar gael, lle nad oedd hyn ar gael defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Mae'r data a gasglwyd wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad lle bo'n bosibl ac fe'i cynrychiolir mewn graffeg, tablau a graffiau. Mae rhywfaint o ddata wedi'i grynhoi ac mae ar gael mewn ystorfa ddata ar wahân a fydd ar gael o dan themâu Cymdeithasol, Diwylliannol, Economaidd ac Amgylcheddol.

## Ymgysylltu â phartneriaid allweddol

Er mwyn sicrhau bod y data a'r dadansoddiad yn cael eu cefnogi gan wybodaeth am wasanaethau lleol, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda gwasanaethau a grwpiau allweddol. Roedd hyn yn galluogi trafodaeth bellach a phrofi dadansoddiad o ddata yn ogystal â chasglu gwybodaeth am yr hyn oedd yn cael ei ddarparu yn yr ardaloedd lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd â gwasanaethau a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Cymunedol RhCT – yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell a'r Gymraeg
- Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaethau Cefnogi Pobl a Thai Pen-y-bont ar Ogwr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynllunio a Chomisiynu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Awen
- Mental Health Matters

## Grŵp Data CAG

Fel y soniwyd uchod, cyfarfu'r grŵp i drafod y data yn ymwneud â Chymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol ac roedd yn cynnwys ystod o unigolion o wasanaethau perthnasol.  Roedd aelodaeth y grŵp i gynnwys y rhai a oedd yn gyfrifol am ddata o fewn eu gwasanaethau priodol.  Gofynnwyd i'r aelodau ddarparu gwybodaeth am ddata a gasglwyd ganddynt yn ogystal â chymorth i nodi unrhyw ddata lle'r oedd bylchau.

Roedd y grŵp yn gallu darparu ystod o wybodaeth i gefnogi datblygiad yr Asesiad Llesiant ac roedd rhai yn allweddol wrth gasglu gwybodaeth gan eu sefydliadau nad oedd ar gael yn rhwydd trwy ystadegau cenedlaethol.

## Dadansoddiad a Chanfyddiadau

Wrth i ddata gael ei gasglu cafodd ei ddadansoddi a'i ddehongli i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Mae siartiau, mapiau a thablau yn adlewyrchu canfyddiadau'r data a gwybodaeth arall a gasglwyd gan y rhanddeiliaid allweddol amrywiol.

Mae data wedi'i ddadansoddi a'i wirio gyda gwasanaethau perthnasol lle'r oedd hynny'n bosibl.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi lefel sylweddol o fewnbwn i adran yr Amgylchedd; roeddent yn gallu darparu swm sylweddol o ddata a gwybodaeth i lywio'r dadansoddiad.  Mae'r adran sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol wedi'i darparu o waith rhwng Heddlu De Cymru a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a ddarparodd ddata a dadansoddiad.

# Nodau Llesiant

Fel y nodwyd uchod, mae gorgyffwrdd rhwng y DdCD a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n rhedeg drwy'r Asesiad Llesiant hwn, Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol.  Mae'r matrics isod yn dangos y themâu trawsbynciol.

Mae 7 nod llesiant cysylltiedig ar gyfer Cymru.  Y rhain yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

| 1 Llewyrchus | 2 Cydnerth | 3 Iachach | 4 Mwy Cyfartal | 5 Cydlynus | 6 Diwylliant | 7 Byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Y Piler Cymdeithasol** | | | | | | | |
| | Oedolion | | | | | | | |
| | Plant a Theuluoedd | | | | | | | |
| | Cydlyniant Cymunedol | | | | | | | |
| | Iechyd | | | | | | | |
| | **Y Piler Economaidd** | | | | | | | |
| | Cyflogaeth ac Incwm | | | | | | | |
| | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | | | | | | | |
| | Incwm Isel Absoliwt | | | | | | | |
| | Defnydd o Fanciau Bwyd | | | | | | | |
| | Aelwydydd Sengl | | | | | | | |
| | Addysg a Chyflogaeth | | | | | | | |
| | Anweithgarwch Economaidd | | | | | | | |
| | Credyd Cynhwysol | | | | | | | |
| | Busnes | | | | | | | |
| | **Amgylcheddol** | | | | | | | |
| | Mynediad a Hamdden | | | | | | | |
| | Ansawdd Aer | | | | | | | |
| | Seinweddau a Llygredd Sŵn | | | | | | | |
| | Llifogydd | | | | | | | |
| | Iechyd Dŵr | | | | | | | |
| | Tanau Gwyllt | | | | | | | |
| | Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tipio Anghyfreithlon | | | | | | | |
| | Tirlithriadau | | | | | | | |
| | **Diwylliannol** | | | | | | | |
| | Y Gymraeg | | | | | | | |
| | Treftadaeth | | | | | | | |
| | Llyfrgelloedd | | | | | | | |
| | Gwirfoddoli | | | | | | | |
| | Celfyddydau a Theatr | | | | | | | |
| | Chwaraeon a Hamdden | | | | | | | |

# Effaith Covid-19

## Beth mae'r pandemig wedi'i ddweud wrthym am ein rhanbarth?

Yn yr asesiad llesiant hwn, roeddem am fyfyrio ar yr ymateb i'r pandemig, rôl sefydliadau partner a gwasanaethau cyhoeddus, sut ymatebodd pobl, a'r hyn y gallwn ei ddysgu ar gyfer y dyfodol.

Yn sgil cyflwyno'r set gyntaf o gyfyngiadau ym mis Mawrth 2020, ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym
i'r her o sicrhau bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel, lle gallai pobl gael mynediad at gyngor a chymorth, ac ymateb i'r pryderon ariannol unigol fel y dreth gyngor a budd-daliadau.

Fel rhanbarth, roedd heriau sylweddol eraill yn ein hwynebu ar yr adeg pan darodd y pandemig ein cymunedau. Yn Rhondda Cynon Taf roeddem yn delio â chanlyniad y llifogydd gyda llawer o bobl yn methu ag aros yn eu cartrefi – roedd digartrefedd a materion llesiant sylweddol eisoes yn bodoli, ac yn parhau i gael eu teimlo.

**Gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn cydweithio**

Amlygodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned o effaith Covid a'r ymateb iddo ar draws y rhanbarth nid yn unig yr heriau ond hefyd y ffordd yr oedd sefydliadau'n cydweithio i gefnogi pobl, swyddi a gwasanaethau lleol. Roedd yr heriau yn amlochrog, ac yn cynnwys:

- Mwy o ansicrwydd busnes a'r risg o ddiweithdra, gyda degau o filoedd o weithwyr ar ffyrlo ar draws y rhanbarth; 31% o'r holl gyflogaethau cymwys.
- Roedd pobl yn wynebu caledi ariannol a gwnaed £1.8 miliwn mewn taliadau cymorth brys (EAP) a thaliadau cymorth unigol (IAP) ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
- Cynnydd yn nifer y bobl, yn enwedig y boblogaeth hŷn, a oedd yn wynebu unigrwydd ac arwahanrwydd, gyda nifer y rhai a adroddodd eu bod yn dioddef o iselder cymedrol neu ddifrifol yn y rhanbarth yn dyblu yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn gweithio o gartref, ar yr un pryd â darparu addysg gartref i'w plant, lle dywedodd 68% o rieni a gofalwyr plant ag anghenion addysgol arbennig eu bod yn cael trafferth addysgu eu plant gartref.
- Ysgolion yn gorfod newid y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â disgyblion ac er gwaethaf ymdrechion staff, dim ond 28% o rieni a gofalwyr a deimlai fod eu hysgol yn darparu lefel dda o gefnogaeth.

Yn ogystal â'r canlyniadau i'n gwasanaethau iechyd, ym maes gofal sylfaenol ac ysbyty, wrth i'r pandemig fynd rhagddo, roedd angen rheoli'r cynnydd yn nifer y cleifion â Covid a'r effaith ganlyniadol ar wasanaethau iechyd eraill fel llawdriniaeth ddewisol. Ymatebodd awdurdodau lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn gyflym wrth gynllunio ymatebion gwasanaethau lleol. Gyda'n gilydd rydym wedi cydweithio ar draws y rhanbarth ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu ymateb strategol.

Cafodd Cynllun Atal ac Ymateb Covid-19 ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ei gydgysylltu ag awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Disgrifiodd yn fanwl y rolau, yr amcanion allweddol a'r mesurau ar gyfer chwe ffrwd waith wahanol sy'n cael eu goruchwylio

gan grŵp trosolwg strategol rhanbarthol, a gadeirir gan gyfarwyddwr gweithredol iechyd y cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Roedd effeithiau cynnar y pandemig, a'r camau a gymerwyd i ymateb, yn cynnwys:

- Sicrhau prydau cymunedol i'r henoed yn eu cartrefi
- Ymateb i geisiadau a newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer Budd-dal Tai a Chymorth Treth y Cyngor gan unigolion a theuluoedd
- Hawliau prydau ysgol am ddim ychwanegol
- Darparu pecynnau bwyd i ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim
- Darpariaeth gofal plant brys mewn ysgolion ar gyfer plant agored i niwed rhwng 4-19 oed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, gofalwyr ifanc, a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol
- Nodi miloedd o bobl gan y GIG fel rhai sy'n agored i Covid-19
- Creu canolfannau cymunedol i gefnogi llawer o blant a theuluoedd agored i niwed
- Cynnal gwasanaethau hanfodol
- Lleoli staff yn y rhaglen Profi Olrhain Diogelu ac ymateb i ddigwyddiadau neu achosion

Ledled Cymru mae'r trydydd sector hefyd wedi ymateb yn gyflym ac mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Adroddiad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, "Effaith Covid 19 ar y Sector Gwirfoddol" a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Dywedodd y Pwyllgor:

> *"Mae'r sector gwirfoddol wedi chwarae rhan amhrisiadwy gydol y pandemig. Mae'r digwyddiadau wedi dangos pa mor hanfodol yw'r sector o ran cefnogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau statudol, yn ogystal â darparu cefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n helaeth at angen lleol. Mae'r sector wedi dangos cryn ystwythder ac ymatebolrwydd, ac mae angen cipio a harneisio hyn i gyd fel y gallwn adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol."*

Yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg er enghraifft, mae'r trydydd sector wedi bod ar flaen y gad yn yr ymdrechion i ymateb i heriau Covid, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol. Cydlynodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) weithgarwch gwirfoddoli i gefnogi 850 i 950 o bobl ar anterth y pandemig, nad oeddent yn gallu cyflawni elfennau arferol o'u bywydau yn ystod y cyfyngiadau symud, fel siopa a chasglu meddyginiaethau.

Darparodd sefydliadau cenedlaethol lawer iawn o gymorth hefyd. Ym mhob mis ers mis Mawrth 2020, mae Gweithredu dros Blant wedi postio gwahanol becynnau gofal, gan gynnwys gemau, offer, danteithion ac anrhegion i ofalwyr ifanc i'w helpu drwy gyfnod anodd. Ychwanegodd y trydydd sector gapasiti a thrwy allgymorth, gallant gynorthwyo llawer o bobl a oedd yn cael trafferth yn ystod y cyfyngiadau symud.

## Cymunedau a phobl

Dangosodd COVID, fel yr ymateb i'r llifogydd, gryfder sylweddol cymunedau'r rhanbarth gydag ymateb cydgysylltiedig gan asiantaethau. Mae hwn yn gryfder a fydd yn arwyddocaol wrth adeiladu cymunedau cydnerth yn y dyfodol.

Mae gwirfoddoli wedi'i amlygu fel un o'r canlyniadau amlwg yn ystod y pandemig. Mae llawer o bobl wedi ymrwymo i geisiadau gwirfoddoli ffurfiol gan sefydliadau trydydd sector,

tra bod tystiolaeth anecdotaidd yn cadarnhau bod llawer o bobl wedi cefnogi eu cymdogion a'u cymunedau'n anffurfiol, gan helpu gyda phresgripsiynau, siopa a phrydau bwyd er enghraifft. Daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad bod *"nifer y bobl a gamodd ymlaen i helpu eraill yn ystod y pandemig wedi bod yn ysbrydoledig. Mae pob un o'r gweithredoedd caredig unigol hyn wedi uno i gefnogi gwasanaethau statudol a chymunedau mewn ffordd sydd wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth wedi'i dderbyn. Yng Nghymru roeddem eisoes yn dechrau o sylfaen dda, gyda strwythur cadarn i helpu i gefnogi'r gwirfoddoli hwn."*

Yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, gweithredodd awdurdodau lleol fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth i'r unigolion a'r grwpiau hynny oedd eisiau gwirfoddoli, gan eu cyfeirio at ein partneriaid trydydd sector allweddol sydd eisoes wedi'u hen sefydlu yn y rhanbarth, fel BAVO, Interlink a GGMT.

Yn gyffredinol, mae ymateb i'r pandemig wedi atgyfnerthu natur ryngberthnasol y pedwar 'piler' yn yr asesiad llesiant ac yn ein cyfeirio at orfod dod o hyd i atebion yn gyffredinol, gyda phwysigrwydd cymunedau cydnerth ac asiantaethau amrywiol yn gallu bod yn ymaddasol yn y dyfodol. Nid problem iechyd yn unig oedd Covid ond un a effeithiodd ar fywoliaeth pobl ac a achosodd ansicrwydd yn y farchnad swyddi. Newidiodd ein patrymau gwaith a bywyd beunyddiol, gan gynyddu unigrwydd i lawer yn y gweithlu lle'r oedd pobl yn gweithio gartref, ond cynyddodd hefyd werthfawrogiad o'r awyr agored. Sicrhawyd effeithiau amgylcheddol pellach trwy wneud llai o ddefnydd o geir.

# Demograffeg Allweddol (Poblogaeth)

## Data Poblogaeth

Mae data poblogaeth yn rhoi syniad o dueddiadau poblogaeth y dyfodol. Bydd y niferoedd rhagamcanol o bobl sy'n byw yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM) yn rhoi syniad o'r cynnydd tebygol yn y boblogaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae ffigurau poblogaeth yn seiliedig ar ddata 2018 yn dangos y bydd cynnydd bach yn y boblogaeth yn gyffredinol ar draws y rhanbarth. Mae rhai amrywiadau yn y gwahanol ystodau oedran gyda'r boblogaeth yn gostwng ar gyfer y rhai dan 15 oed a chynnydd parhaus yn y boblogaeth dros 65 oed.

Mae'r siartiau canlynol yn dangos y tueddiadau ar gyfer pob ystod oedran:

**Siart 1: Amcangyfrifon poblogaeth 15 oed ac iau**




Ffynhonnell: Stats Cymru

Er bod amrywiadau yn y grŵp oedran poblogaeth dan 15, yn gyffredinol rhagwelir y bydd gostyngiad o 3% yn RhCT, 1% ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 4% ym Merthyr Tudful rhwng 2021 a 2043.

Adlewyrchir y gostyngiad yn y boblogaeth iau yn y gyfradd genedigaethau sydd hefyd yn gostwng. Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y genedigaethau yn gostwng ar draws yr ardaloedd CTM sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu ledled Cymru.

**Siart 2: Nifer y Genedigaethau Byw**




Ffynhonnell: Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ar gyfer Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r gwahaniaeth yn nifer y genedigaethau byw yn uwch yn RhCT gyda gostyngiad o 18% rhwng 2005 a 2020. Mae gan Ferthyr Tudful ostyngiad o 6% tra bod gan Ben-y-bont ar Ogwr ostyngiad o 12% sydd yr un peth â Chymru.

Mae beichiogi hefyd yn lleihau ar draws yr ardaloedd fel y dangosir yn y siart isod:

**Siart 3: Cyfradd beichiogi ar gyfer pob oed fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed**




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 75.6 | 77.9 | 77.9 | 82.1 | 78.6 | 77.3 | 77.7 | 74.8 | 76 | 72.6 | 74.1 | 73.3 | 71.5 |
| Merthyr Tudful | 81.2 | 77.4 | 72.2 | 75.3 | 83.2 | 73.9 | 80.5 | 83 | 77.4 | 80.7 | 78.5 | 76.7 | 73.4 |
| Pen y Bont ar Ogwr | 73.1 | 74.2 | 75.2 | 76.8 | 77.5 | 76.7 | 71.1 | 73.8 | 74.6 | 73.1 | 75.3 | 70.2 | 69.2 |
| Cymru | 74.5 | 74.2 | 74.7 | 75.7 | 75.1 | 73.8 | 72.6 | 72.9 | 72.4 | 72.1 | 71.8 | 69.9 | 68.6 |

Ffynhonnell: Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ar gyfer Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae gan RhCT a Merthyr Tudful gyfradd gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr (71.1) ar gyfradd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (72.6) yn 2013 ond mae pob ardal wedi gweld gostyngiad rhwng 2007 a 2019.

Dangosir cyfraddau ffrwythlondeb yn y siart isod.

**Siart 4: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb**




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1.9 | 1.88 | 1.8 | 1.78 | 1.77 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.99 | 1.83 | 1.83 | 1.77 | 1.74 |
| Merthyr Tudful | 1.95 | 1.96 | 1.7 | 1.89 | 1.9 |
| Pen y Bont ar Ogwr | 2.1 | 1.98 | 1.86 | 1.78 | 1.82 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Noder: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb (TFR) yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i fenyw pe bai'r patrymau ffrwythlondeb presennol yn parhau drwy gydol ei hoes yn esgor.

Mae'r siart yn dangos bod y cyfraddau wedi gostwng rhwng 2011 a 2015 ar draws pob ardal gyda Merthyr Tudful yn gweld cynnydd bach yn 2014. Mae'r gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb i'w weld ar draws y DU a'r Undeb Ewropeaidd fel y dangosir yn y siart isod:

**Siart 5: Cyfraddau Ffrwythlondeb – data OECD**




Ffynhonnell OECD https://data.oecd.org/pop/fertility-rates.htm#indicator-chart

Mae'r rhesymau a adroddwyd am y cyfraddau ffrwythlondeb is yn cynnwys gohirio dechrau teulu a lleihau maint teuluoedd. Y cynnydd yn nifer y menywod sy'n cael plant yn ddiweddarach gyda 49%, bron i hanner y merched a anwyd ym 1989, heb blant erbyn eu pen-blwydd yn 30 oed o gymharu â 38% o genhedlaeth eu mamau (1961). Oedran cymedrig safonol mamau yn 2019 oedd 30.7 oed, sef y lefel uchaf erioed. Mae'n debygol mai rhai o'r rhesymau dros ohirio rhoi genedigaeth yw (SYG 2020):

- Mwy o gyfranogiad mewn addysg uwch
- Gohirio priodas a/neu ffurfio partneriaeth
- Eisiau cael gyrfa waith hirach cyn dechrau teulu
- Ansicrwydd y farchnad lafur a'r bygythiad o ddiweithdra

Mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth mewn dynameg teulu, menywod yn gweithio yn ogystal â dynion a menywod yn cael gyrfaoedd cyn bod eisiau dechrau teulu yn cyfrannu at y gostyngiad mewn cyfraddau geni a ffrwythlondeb. Y canlyniad cyffredinol yw bod y boblogaeth iau yn gostwng. Gan edrych i'r dyfodol mae hyn yn debygol o arwain at lai o boblogaeth hŷn o gymharu â'r niferoedd uwch yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd cael teuluoedd llai yn parhau i effeithio ar y sector gofal cymdeithasol yn yr ystyr, wrth i'r boblogaeth hon heneiddio efallai na fydd ganddynt y strwythur cymorth teulu ehangach i ofalu amdanynt.

**Siart 6: Amcangyfrifon poblogaeth 16 i 64**




Mae'r grŵp oedran 16 i 64 yn RhCT yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall tan 2029 pan fydd yn dechrau gostwng.

**Siart 7: Amcangyfrif poblogaeth 65 ac uwch**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth Stats Cymru

Yn gyffredinol, cynyddodd y grwpiau oedran hŷn dros 65 ar draws holl ardaloedd CTM. Dengys data fod gan RhCT 22%, Pen-y-bont ar Ogwr 33% a Merthyr Tudful 25% gynnydd yn y grŵp poblogaeth hwn.

Mae maint a dadansoddiad demograffig y boblogaeth yn dylanwadu ar yr ystod o bwysau a brofir. Mae cynnydd yn y galw am dai yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd naturiol ac mae demograffeg benodol yn debygol o roi pwysau ar wasanaethau.

## Dadansoddiad yn ôl Ardal

Mae ardaloedd clwstwr wedi'u nodi fel y data lefel leol at ddibenion yr Asesiad Llesiant hwn. Maent yn cael eu nodi fel:

- **Rhondda Cynon Taf** – Rhondda, Cynon (gogledd a de) a Thaf Elai
- **Pen-y-bont ar Ogwr** – Gogledd, Gorllewin a Dwyrain
- **Merthyr Tudful**

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd a nodir uchod:




Mae'r data lefel poblogaeth wedi'i gymryd o'r data lefel Cynnyrch Ehangach Uwch ac fe'i dangosir yn y tablau isod:

Tabl 1: Rhondda Cynon Taf – Canol Blwyddyn 2020

| | 0 i 15 oed | 16 i 64 oed | 65 + oed | Pob oed |
|---|---|---|---|---|
| RhCT | **44887** | **150231** | **46755** | **241873** |
| Clwstwr Cynon | 11530 | 37529 | 12130 | 61189 |
| Clwstwr Rhondda | 15813 | 52939 | 17106 | 85858 |
| Clwstwr Taf Elai | 17544 | 59763 | 17519 | 94826 |

Tabl 2: Pen-y-bont ar Ogwr – Canol Blwyddyn 2020

| | 0 i 15 oed | 16 i 64 oed | 65 + oed | Pob oed |
|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | **26185** | **91186** | **30168** | **147539** |
| Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr | 9603 | 32511 | 9883 | 51997 |
| Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr | 7336 | 25187 | 9820 | 42343 |
| Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr | 9246 | 33488 | 10465 | 53199 |

Tabl 3: Merthyr Tudful – Canol Blwyddyn 2020

| | 0 i 15 oed | 16 i 64 oed | 65 + oed | Pob oed |
|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | **11577** | **37453** | **11394** | **60424** |
| Gogledd Merthyr | 5608 | 17348 | 5116 | 28072 |
| De Merthyr | 5969 | 20105 | 6278 | 32352 |

Mae lefel poblogaeth uwch yn ardal RhCT nag yn y ddwy ardal arall, a Merthyr Tudful yw'r ardal sydd â'r boblogaeth leiaf yng Nghymru. Mae gan RhCT hefyd arwynebedd mwy, sef 424KMsq na'r ddwy ardal arall, gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn 246KMsq a Merthyr Tudful yn 111KMsq. Mae dwysedd poblogaeth uwch yn yr ardaloedd hyn fel rhan o glwstwr De-ddwyrain Cymru sydd â'r dwysedd poblogaeth uchaf yng Nghymru, sef 545.5 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 151.4.

Mae dwysedd poblogaeth CTM yn cynyddu ac fel y dangosir yn y siart isod.

**Siart 8: Dwysedd poblogaeth fesul cilometr sgwâr o arwynebedd tir – 2018 i 2020 (amcangyfrifon canol blwyddyn)**




Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae rhagamcanion poblogaeth yn dangos y bydd y boblogaeth yn cynyddu rhwng 2020/21 a 2042/43 yn ôl y ganran ganlynol ym mhob ardal:

- Cynnydd o 7.5% ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Cynnydd o 5% yn RhCT
- Cynnydd o 5% ym Merthyr Tudful

## Grwpiau Lleiafrifol

Dangosir grwpiau ethnig lleiafrifol yn y siart isod:

**Siart 9: Canran y bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig rhwng 2017 a 2020**




Yn gyffredinol, mae canran y grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ardal CTM yn is na chyfartaledd Cymru. Mae cynnydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2020 sy'n adlewyrchu'r un peth ar draws Cymru. Mae'r cynnydd yn RhCT rhwng 2018 a 2019 yn uchel o'i gymharu ag ardaloedd eraill ond mae wedi gostwng ychydig yn 2020.

O ran y rhai sy'n ceisio lloches sy'n cael eu cefnogi yn ardaloedd CTM, mae hyn wedi bod yn gyfyngedig. Mae rhai wedi adsefydlu yn yr ardal o dan y 'cynllun adsefydlu pobl agored i niwed'; yn Ch2 2019 derbyniodd RhCT 7 o bobl ac yn Ch1 2020 derbyniodd Pen-y-bont ar Ogwr 8 o bobl.

## Hunaniaeth Rywiol

Mae'r tabl isod yn dangos hunaniaeth rywiol y rhai yn y gwahanol ranbarthau. Dim ond ar y lefel hon y mae'r data ar gael gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei dangos ar gyfer y blynyddoedd 2017 i 2019 yn gynwysedig. Mae'r lefelau hyder yn y data wedi'u categoreiddio fel 'derbyniol' oherwydd y gyfradd ymateb isel, ond mae'n rhoi syniad o'r lefelau yn yr ardal ar gyfer y cyfnod amser a roddwyd.

**Siart 10: Hunaniaeth rywiol 2017 - 2019**



# Y Piler Cymdeithasol

Mae ffactorau cymdeithasol yn cynnwys dylanwadau ar y boblogaeth sy'n ymwneud â ffordd o fyw sy'n effeithio ar iechyd sy'n cael effaith ar bobl a chymunedau. Mae'n ymwneud â'n llesiant a'r pethau sy'n effeithio ar ein bywydau ar draws yr ystod oedran, gall y rhain ymwneud â'n cefndir cymdeithasol a'n rhwydwaith cymdeithasol.

## Cyflwyniad

Fel y nodwyd uchod, rhagwelir y bydd y boblogaeth o bobl dros 65 oed yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall am yr 20 mlynedd nesaf. Tra bod y boblogaeth hŷn yn cynyddu, mae'r boblogaeth iau yn gostwng yn enwedig yn y grŵp oedran 0 i 15.

Mae teuluoedd yn fwy gwasgaredig gan olygu bod rhai pobl yn teimlo'n fwy unig, nid yn unig y boblogaeth hŷn ond pobl iau hefyd. Mae ffyrdd o fyw yn newid gyda datblygiad technoleg a dulliau cyfathrebu. Mae tlodi a mynediad at fwy o fwyd afiach yn effeithio ar ddewisiadau ffordd iach o fyw.

## Oedolion

Mae gallu ystyried proffil y boblogaeth oedolion yng nghyd-destun llesiant yn bwysig. Mae cymunedau ffyniannus gyda phobl yn byw yn hirach, a bywydau iachach, yn cymryd rhan yn eu cymunedau lleol, yn ddibynnol iawn ar lesiant cymdeithasol y boblogaeth.

### Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae ffigurau poblogaeth yn seiliedig ar ddata 2018 yn dangos y bydd cynnydd bach yn y boblogaeth yn gyffredinol ar draws y rhanbarth. Mae rhai amrywiadau yn y gwahanol ystodau oedran gyda'r boblogaeth yn gostwng ar gyfer y rhai dan 15 oed a chynnydd parhaus yn y boblogaeth dros 65 oed. Mae hyn yn unol â'r disgwyliadau ledled Cymru lle rydym yn parhau i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw'n hirach, ond yn aml ag amrywiaeth o gyflyrau.

Gellir mesur iechyd a llesiant oedolion ledled ein rhanbarth mewn sawl ffordd. Gwyddom ein bod yn parhau i weld heriau o ran sut mae pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach a bod y cyd-destunau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol yn benderfynyddion sylweddol yn ein llwyddiant. Mae hyn hefyd yn wir am yr her ledled Cymru.

Yn ôl adroddiad Llesiant Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Roedd disgwyliad oes wedi bod yn codi, er yn arafach yn y degawd diwethaf. Fodd bynnag,
  mae wedi gostwng am y cyfnod diweddaraf, gan adlewyrchu effaith pandemig COVID-19
- Mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn waeth i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond nid oes tystiolaeth bod y bwlch yn cynyddu
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd sylweddol mewn cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag,
  mae'n rhy gynnar i ddweud ai dyma ddechrau tuedd barhaus
- Bu cynnydd o ran pobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol sy'n ymddangos fel pe bai'n gwrthdroi tuedd ar i lawr

Yn yr asesiad hwn rydym yn ystyried materion iechyd meddwl a llesiant, gordewdra, diabetes a dementia.

## Llesiant Meddyliol

*Her: Sicrhau mynediad i ystod o weithgareddau a chefnogaeth mewn cymunedau sy'n gwella iechyd meddwl ac yn darparu cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen i atal gwaethygu. Bydd adferiad o effaith y pandemig yn ystyriaeth allweddol yn hyn o beth.*

*Adborth o ymgysylltu ynglŷn â beth allai weithio'n well: Gwasanaethau Iechyd Meddwl: mynediad at wasanaethau ac amseroedd aros i gael eich gweld*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae llesiant meddyliol yn newid wrth i ni fynd trwy fywyd, mae'n cael ei brofi gan bawb ar gontinwwm a all effeithio ar fywydau pobl mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r ystod o gymorth sy'n ymwneud â llesiant meddyliol yn eang ac yn cynnwys cymorth teulu a ffrindiau yn ogystal â chymorth ac ymyriadau cymunedol a statudol. Mae'r holl elfennau hyn yn bwysig i gynnal a gwella ein llesiant meddyliol.

Mae llesiant meddyliol yn ffactor pwysig yn iechyd cyffredinol person. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn adrodd ar lefelau llesiant gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS) (Warwick 2007). Mae WEMWBS yn casglu gwybodaeth am deimlad ac agweddau gweithrediad ar lesiant meddyliol, a geir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW). Mae sgorau llesiant yn cael eu categoreiddio yn ôl llesiant meddyliol isel (14-40), llesiant meddyliol canol (41-59) a llesiant meddyliol uchel (60-70). Dim ond hyd at 2019 y mae data'n ymwneud â'r WEMWBS ledled Cymru ar gael.

Mae'r siart isod yn dangos bod y sgoriau sy'n ymwneud ag ardal Cwm Taf Morgannwg (CTM) yn cynyddu sy'n dangos bod llesiant meddyliol yn gwella.

**Siart 11: Graddfa WEMWBS fesul awdurdod lleol a bwrdd iechyd**




Mae Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn is na chyfartaledd Cymru sy'n dangos lefel is o lesiant, mae gan y ddwy ardal hyn y lefelau uchaf o amddifadedd yn ardal CTM. Mae Pen-y-bont ar Ogwr ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Er bod Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn is na'r cyfartaledd mae'n dangos cynnydd yn lefel llesiant o 2016/17 gyda Merthyr Tudful yn gweld y lefelau uwch o gynnydd.

Mae proffiliau poblogaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dangos bod canran y rhai â phroblemau Iechyd Meddwl yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr (10%) a RhCT (11%) yn uwch na chyfartaledd Cymru o 9% (ffigurau 2017-19). Roedd adborth gan wahanol gymunedau yn ystod ymgysylltu yn gyson yn nodi Iechyd Meddwl fel problem o ran cael gafael ar gymorth yn ogystal â bod yn her ar gyfer y dyfodol. Mae rhywfaint o gydberthynas rhwng lefelau uwch o iechyd meddwl a'r pryderon a godwyd gan bobl yn yr ardal.

Dangosir data yn ymwneud ag iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu yn yr ardaloedd clwstwr isod yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Y gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru yw 23.2.

Mae'r tablau isod yn rhoi syniad o'r 3 lefel uchaf a'r 3 lefel isaf ym mhob ardal glwstwr:

Tabl 4: Cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddygon Teulu Pen-y-bont ar Ogwr (cyfradd fesul 100) 2019

| | Cyfradd Uwch | Safle Malc | | Cyfradd Is | Safle MALIC |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Pen-y-bont ar Ogwr (cyfradd gyfartalog 26)** | | | **Ardal Pen-y-bont ar Ogwr** | | |
| **Bracla 3 (Dwyrain)** | 40.6 | 60 | **Bro Ogwr 1** (Gogledd) | 16.8 | 912 |
| **Caerau 1 (Gogledd)** | 43.1 | 5 | **Bro Ogwr 2** (Gogledd) | 16.6 | 401 |
| **Sarn 1 (Gogledd)** | 36.2 | 188 | Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr 1 (Gorllewin) | 16.6 | 1894 |

Mae'r data'n dangos y ddwy ardal sydd â'r gyfradd uchaf o iechyd meddwl wedi'u cofnodi gyda meddygon teulu yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cyfraddau yn y ddwy ardal hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 24 o'r 31 ardal yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr ac 16 o'r 20 ardal yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr. Yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, mae 9 allan o 20 ardal uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae'r ardaloedd gyda'r lefelau uwch o gyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd o fewn y 10% uchaf o ardaloedd o amddifadedd gyda'r gyfradd is yn yr ardaloedd sydd yn 30% ac uwch.

Mae Mental Health Matters Wales (MHMW) yn darparu gwasanaeth yn yr ardal sy'n cynnwys ystod o grwpiau ac ymyriadau. Mae yna hefyd wasanaeth y tu allan i oriau'r 'Encil Llesiant' sy'n fenter gydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru a phartneriaid trydydd sector eraill. Lansiwyd y gwasanaeth hwn ym mis Rhagfyr 2020 i leihau rhwystrau rhag cael mynediad at gymorth iechyd meddwl ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan gefnogi'r rhai sy'n profi 'argyfwng cymdeithasol' a'u cyfeirio at wasanaethau lleol am gymorth parhaus. Yn gweithredu ar ddydd Mercher, dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul mae ar agor rhwng 5pm ac 11pm a cheir atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol a thrydydd sector. Hyd yma maent wedi derbyn 600 o atgyfeiriadau gyda'r nifer uchaf yn Ionawr 2021 fel y gwelir yn y tabl isod:

Siart 12: Atgyfeiriadau i'r Encil Llesiant a dderbyniwyd rhwng Rhagfyr 2020 a Mehefin 2021




Ffynhonnell: Adroddiad bob chwe mis MHMW

Mae'r nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer menywod, mae'r ystod oedran yn weddol gyfartal gyda chanran uwch rhwng 18 a 25 oed. Y prif faterion a nodwyd yw gorbryder ac iselder, unigedd, straen a dyled. Mae'r adborth a gasglwyd yn gadarnhaol gyda 100% yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gwrandawiad. Isod mae adborth a dderbyniwyd gan berson a fynychodd yr encil:

> *"Rydw i wedi defnyddio'r Encil Llesiant pan rydw i wedi bod yn cael trafferth mawr gyda fy iechyd meddwl. Ers y cyfyngiadau symud, prin yw'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael. Pan rydw i wedi mynychu'r encil, rydw i wedi teimlo'n gartrefol gyda'r staff, maen nhw wedi gwrando heb farnu ac wedi gwneud i mi deimlo eu bod yn wirioneddol ofalgar. Mae'r awyrgylch yn hamddenol ac yn ddeniadol. Rwyf wedi cael fy nghyfeirio at gwnsela trwy'r encil. Rwy'n meddwl bod y gwasanaeth hwn yn rhywbeth a fyddai'n fuddiol i lawer o bobl eraill fel fi yn enwedig gyda gwasanaethau iechyd meddwl dan bwysau. Does dim llawer ar gael fel yr encil. Rwy'n meddwl ei fod yn syniad da iawn yn enwedig ar adegau o anobaith a thrallod. Mae'n lle diogel i rannu profiadau a siarad â rhywun".*

Mae'n ymddangos bod yr Encil Llesiant yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd wedi cael mynediad iddo ac mae'n enghraifft dda o weithio partneriaeth rhwng y gwasanaethau statudol a'r trydydd sector.

Mae nifer uwch o bobl wedi bod yn defnyddio gwasanaethau MHMW yn gyffredinol ers Covid. Yn anecdotaidd mae rhai yn ystyried bod cael amser gartref wedi golygu nad yw eu hiechyd meddwl cystal ag y dylai fod. Mewn amgylchiadau eraill, mae anhwylderau bwyta a hunan-niweidio wedi bod yn anoddach eu cuddio rhag aelodau'r teulu. Gwelodd y grŵp hunan-niwed gynnydd mewn atgyfeiriadau yn chwarter 2 2020 a oedd yn ystod y cyfnod cloi cyntaf, roedd y nifer uwch o atgyfeiriadau ar gyfer menywod a'r ystod oedran 35 i 44 oed (gallai hyn fod yn ddynion a menywod). Er bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae nifer fach o fynychwyr sy'n mynychu o'r tu allan i'r ardal (roedd hyn yn uwch gyda grwpiau ar-lein).

Tabl 5: Rhondda Cynon Taf – cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddygon Teulu (cyfradd fesul 100)

| | Cyfradd Uwch | Safle Malc | | Cyfradd Is | Safle Malc |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal RhCT (cyfradd gyfartalog 23.9)** | | | **Ardal RhCT** | | |
| **Llanhari 2** (Taf Elai) | 35.6 | 257 | **Llanilltud Faerdref 2** (Taf Elai) | 13.6 | 1879 |
| **Penrhiwceiber 1** (Cynon) | 35.1 | 6 | **Pentre'r Eglwys 3** (Taf Elai) | 14.1 | 1907 |
| **Tyn y Nant 3** (Taf Elai) | 34.5 | 149 | **Trefforest 2** (Taf Elai) | 16.5 | 839 |

Llanhari sydd â'r gyfradd uchaf o gyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd yn RhCT ac er mai'r safle cyffredinol o fewn Malc yw 257, o fewn y maes 'iechyd', maent yn safle 84 sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig. Mae'r cyfraddau yng nghlwstwr Cynon yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn 30 o'r 49 ardal. Mae cyfraddau clwstwr Taf yn dangos 19 o'r 42 ardal uwchlaw cyfartaledd Cymru ac mae'r Rhondda yn dangos 22 allan o 49 ardal o fewn y clwstwr.

Tabl 6: Merthyr Tydfil – cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddygon Teulu (cyfradd fesul 100)

| | Cyfradd Uwch | Safle Malc | | Cyfradd Is | Safle Malc |
|---|---|---|---|---|---|
| **Merthyr Tudful (cyfradd gyfartalog 25.5)** | | | **Merthyr Tudful** | | |
| **Penydarren 1** | 32.3 | 7 | **Treharris 1** | 17.9 | 1662 |
| **Parc 3** | 31.1 | 153 | **Treharris 2** | 20.6 | 777 |
| **Dowlais 1** | 30.9 | 127 | **Ynyswen 3** | 20.7 | 967 |

Mae 28 o'r 36 ardal ym Merthyr Tudful yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae pob un o'r tair ardal gyda'r cyfraddau uchaf o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Yn gyffredinol, ym mhob ardal mae cyfraddau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu yn dangos bod y lefelau uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r cyfraddau is yn dangos ystod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. **Mae'r data llawn gyda dadansoddiad ardal ar gael yn y taenlenni cysylltiedig o'r enw 'Adroddiad MALIC dadansoddiad ardal'.**

Dangosir data sy'n ymwneud â'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau cysylltiedig ag iechyd meddwl ym mhob ardal isod:

Tabl 7: Budd-daliadau Cysylltiedig ag Iechyd Meddwl DWP Chwefror 2021

| Ardal | Budd-daliadau cysylltiedig ag Iechyd Meddwl (%) |
|---|---|
| **Cymru** | 3.3 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 3.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 4.7 |
| **Merthyr Tudful** | 4.6 |

Ffynhonnell: Adroddiad Mewnwelediad Cymunedol

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod cyfradd hawlwyr yr elfen hon ym mhob ardal yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos ei bod yn ymddangos bod iechyd meddwl y boblogaeth ledled ardal CTM yn gwaethygu gyda mwy o bobl yn dod ymlaen gyda phryderon am eu hiechyd meddwl. Mae yna bobl sy'n profi lefelau amrywiol o lesiant meddyliol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau uchod. Fodd bynnag, bydd rhai sy'n cael cymorth mewn gwahanol ffyrdd a chan wasanaethau anstatudol lleol sy'n cynnwys sefydliadau trydydd sector.

Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl hefyd wedi nodi bod anghenion cronig cynyddol yn y boblogaeth bellach, gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r rhain yn faterion sy'n cyd-ddigwydd ac mae angen cryn dipyn o gefnogaeth arnynt. Mae gwasanaethau sy'n cael eu hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai a reolir gan y Tîm Cefnogi Pobl sy'n darparu llety a chymorth i'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl ag angen canolig neu uwch.

Mae data a dderbyniwyd gan Cefnogi Pobl Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod o wybodaeth a gesglir gan y gwasanaethau sy'n darparu cymorth. Yn benodol, mae gan y data defnyddwyr gwasanaeth (Ionawr i Fehefin 2020) sy'n ymwneud â Iechyd Meddwl fel yr Angen Arweiniol tua 330 sy'n cael eu cefnogi. O'r rhain, roedd gan tua 130 o bobl ail a thrydydd angen o ran camddefnyddio sylweddau a hanes o droseddu yn cyd-ddigwydd.

### Cryfderau:

- Mae menter newydd yn cael ei datblygu ar draws CTM drwy'r Grant Cymorth Tai gydag ymagwedd aml-asiantaeth i nodi a chefnogi'r rhai mewn llety dros dro ag anghenion cymhleth.
- Mae ystod o wasanaethau yn yr ardal CTM sy'n darparu cymorth iechyd meddwl i'r rhai nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer ymyrraeth statudol. Gall hyn ddarparu dull ataliol ac ymyrraeth gynnar i leihau'r risg o iechyd meddwl yn gwaethygu ac felly angen cymorth mwy dwys.
- Mae Mental Health Matters Pen-y-bont ar Ogwr wedi darparu gwasanaeth y tu allan i oriau sy'n gweld nifer cynyddol o bobl yn cael eu hatgyfeirio o'r tîm argyfwng iechyd meddwl. Mae'r rhain yn bobl a fyddai fel arall yn rhoi pwysau ar yr heddlu ac adnoddau iechyd, mae hwn yn wasanaeth cadarnhaol gyda dull partneriaeth aml-asiantaeth.

### Cyfleoedd

- Mae ymgysylltu wedi dangos bod iechyd meddwl yn bryder i'r boblogaeth, roedd hyn yn amlwg ar draws yr ardal. Roedd cymdeithasu yn cael ei ystyried yn elfen gref i wella llesiant meddyliol ynghyd â bod yn yr awyr agored, o'u profiadau yn ystod cyfyngiadau Covid. Mae'r ddau yn torri ar draws y **pileri Diwylliannol** ac **Amgylcheddol** sy'n rhoi cyfle i ystod o wahanol wasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth i wella llesiant meddyliol yn yr ardal. Mae gan ardal CTM ystod eang o fannau gwyrdd agored o'r cymoedd i'r arfordir sy'n cynnig y cyfle i ddianc a phrofi llonyddwch. Mae gwneud defnydd da o'r mannau hyn a hybu eu buddion ar gyfer iechyd meddwl yn gyfle i wasanaethau weithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth ataliol a chynnar i wella iechyd meddwl.
- Nododd yr ymgysylltu hefyd yr anawsterau o ran cael gafael ar gymorth iechyd meddwl gan wasanaethau iechyd gyda rhestrau aros hir. Mae hyn ynghyd â data Cefnogi Pobl sy'n dangos anghenion cynyddol sy'n ymwneud â materion sy'n cyd-ddigwydd yn ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn dangos bod angen cymorth mwy dwys ar rai. Mae cyfle i'r gwasanaethau hyn gydweithio, ac

mae'r manteision i'w gweld ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel y nodir uchod (Encil Llesiant) yn ogystal â datblygu menter newydd i nodi'r rhai sy'n 'anodd eu cyrraedd' a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

- Nodwyd gofalwyr hefyd fel grŵp a brofodd broblemau iechyd meddwl. Amlygwyd hyn yn yr ymgysylltiad yn benodol â materion yn ymwneud â gofalwyr hŷn. Canfuwyd nad oedd llawer yn cyrchu cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl eu hunain. Mewn trafodaethau teimlai llawer fod angen mwy o wybodaeth a chyfleusterau i gefnogi'r grŵp hwn o ofalwyr gan ystyried eu cyfrifoldebau gofalu a phwysigrwydd seibiant. Mae cyfleoedd i ddatblygu cefnogaeth yn y cymunedau gan wneud defnydd o grwpiau a lleoliadau cyfredol i wneud gwasanaethau yn hygyrch. Oherwydd natur cyfrifoldebau gofalwr o ofalu am rywun, bydd angen iddynt allu cyrchu gwasanaethau sy'n agos neu yn eu cartref eu hunain.

- Mae ymchwil wedi dangos bod pobl â salwch meddwl tua dwywaith yn fwy tebygol o ysmygu nag eraill nad ydynt yn dioddef o broblemau iechyd meddwl https://llyw.cymru/uchelgais-i-gael-cymru-ddi-fwg-erbyn-2030-gyda-smygun-parhau-i-fod-yn-brif-achos-marwolaethau-cyn. Mae hyn yn tanlinellu natur gydgysylltiedig materion. Cwestiwn - a allai mynd i'r afael ag iechyd meddwl hefyd fynd i'r afael â'r uchelgais i roi'r gorau i ysmygu?

## Gordewdra

*Her: Annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu ymddygiad iach i gefnogi pwysau iach*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Yn genedlaethol mae cyfraddau gordewdra yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gyda 29% o'r rhain y nodir eu bod yn ordew yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Siart 13: Ffordd o fyw oedolion yn ôl amddifadedd ardal, 2020-21 – Mynegai Màs y Corff**




Ffynhonnell: Stats Cymru 2020-21 chwarter 4 Ion–Mawrth 2021

Mae'r siart uchod yn dangos bod lefelau gordewdra yn y cwintel cyntaf a'r ail yn uwch na'r rhai yn y cwintelau uwch.  Mae nifer uwch hefyd yn y categori o dan bwysau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r cwintelau eraill.

Dangosir y ganran o ordewdra ar gyfer ardal CTM yn y siart isod.

**Siart 14: Ffordd o fyw oedolion - 2016-17 i 2019-20**




Ffynhonnell: Stats Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Iechyd y boblogaeth

Mae'r data uchod yn dangos bod canran y rhai sydd dros bwysau neu'n ordew, ac yn ordew yn uwch na chyfartaledd Cymru yn gyffredinol yn ardal bwrdd iechyd CTM.  Mewn cymhariaeth, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ganran ychydig yn uwch yn yr un categorïau.  Mae gan Ferthyr Tudful ganran ychydig yn is o bobl sy'n ordew na chyfartaledd Cymru.  RhCT sydd â'r gyfradd uchaf o ordewdra yn yr ardal, sef 28%.

Ystyrir bod diet iach yn bwysig er mwyn sicrhau ffordd iach o fyw.  Gan ystyried yr argymhelliad o 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaeth o ran cymeriant rhwng ardaloedd o amddifadedd

**Siart 15: Ffordd o fyw oedolion yn ôl ardal o amddifadedd 2020-21: Ffrwythau a Llysiau**




Ffynhonnell: Stats Cymru, iechyd y boblogaeth

Mae'r siart yn dangos bod canran uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig sydd wedi bwyta rhywfaint o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol; mae canran uwch yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sydd wedi bwyta o leiaf 5 dogn. Mae'r ganran sydd heb fwyta unrhyw ffrwythau a llysiau yn uwch yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Fodd bynnag, dim ond adroddiad sy'n rhoi ciplun yw hwn o'r 'diwrnod blaenorol'.

Mae cysylltiadau â lefelau gordewdra a diabetes a *salwch cyhyrysgerbydol a ddangosir isod.

Tabl 8: Oedolion yn nodi fod ganddynt gyflyrau cronig dethol yn ôl gordewdra, canran wedi'i safoni yn ôl oedran, pobl 16+ oed, Cymru, 2016/17

| Cyflwr cronig | Mesur | Canran |
|---|---|---|
| **Diabetes** | Ddim yn ordew | 3.8 |
| **Diabetes** | Gordew | 10.0 |
| **Diabetes** | Cymru | 5.3 |
| **Salwch cyhyrsgerbydol** | Ddim yn ordew | 15.0 |
| **Salwch cyhyrsgerbydol** | Gordew | 24.2 |
| **Salwch cyhyrsgerbydol** | Cymru | 17.3 |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gordewdra yng Nghymru

*Mae salwch cyhyrysgerbydol yn cynnwys: arthritis, cryd cymalau, ffibrositis, problemau cefn, disg wedi llithro, problemau asgwrn cefn, gwddf neu broblemau eraill gydag esgyrn/cymalau/cyhyrau

Mae'r tabl yn dangos bod canran uwch na chyfartaledd Cymru o'r rhai sy'n ordew ac sydd â diabetes neu salwch cyhyrysgerbydol.

Mae yna hefyd nifer cynyddol o ddigwyddiadau bariatrig yn ardal CTM; gyda'r Gwasanaeth Tân yn cael eu galw i helpu i symud pobl o'u cartrefi lle nad yw'r gwasanaeth ambiwlans yn gallu gwneud hynny. Mae hyn yn golygu bod y Gwasanaeth Tân yn mynychu i wneud gwaith strwythurol i er mwyn gallu symud y person. Bu 92 o achosion yn ystod y 3 blynedd diwethaf yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall fel y nodir isod:

- 2018/19 – 25
- 2019/20 – 28
- 2020/21 – 39

Mae'r niferoedd uchod ar gyfer y blynyddoedd ariannol llawn gyda'r flwyddyn gyfredol yn cofnodi 21 digwyddiad hyd yma yn 2021/22.

Mae lefelau gordewdra mewn oedolion ledled Cymru yn gyffredinol yn cynyddu, yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae dros 60% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew gyda 24% o'r rheini'n ordew (ICC 2019). Mae'r adroddiad hefyd yn nodi os bydd y duedd yn parhau y bydd cyfradd y rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yn parhau i godi, erbyn 2030 mae'n debygol o fod yn 64%.

Yn ôl data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, mae cyfradd gordewdra yn uwch ymhlith dynion nag ymhlith menywod. Mae dynion rhwng 45 a 64 oed yn fwy tebygol o fod yn ordew. Yn ôl Astudiaeth Heneiddio Dynion Ewrop mae data'n dangos bod gordewdra yn gysylltiedig â ffactorau ffordd o fyw gan gynnwys statws ysmygu, lefel gweithgaredd corfforol a chyrhaeddiad addysg ymhlith dynion Ewropeaidd rhwng 40 a 79 oed (Han et al 2016).

### Cryfderau

Mae yna fentrau sydd wrthi'n cael eu datblygu ac yn cael eu gweithredu fel:

- Peilot cyn-diabetes – lleol a chenedlaethol (Arweinydd Ymgynghorol Iechyd y Cyhoedd CTM – Rebecca Cushen)
  Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae CTM wedi bod yn derbyn cyllid gan LIC ar gyfer buddsoddi ym meysydd Atal a Blynyddoedd Cynnar. Un o'r meysydd y dewisodd CTM fuddsoddi ynddo oedd cynllun peilot gofal sylfaenol o nodi cyn diabetes yn gryno ac addasu risg drwy atgyfeirio ac ymyrryd â ffordd o fyw. Cymerodd practisau De Cynon ran yn y peilot hwn, a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Awst 2022. Yn dilyn hyn, caiff ei werthuso gan Uned Ymchwil Diabetes Prifysgol Abertawe. Bydd y gwerthusiad yn asesu effaith yr ymyriad hwn ar HbA1c, ynghyd â pha mor dderbyniol ydyw ymhlith staff a chleifion. Fe'i defnyddir hefyd i ystyried y camau nesaf gyda'r rhaglen CTM, gan gynnwys y meini prawf dethol ar gyfer atgyfeirio ar gyfer cymorth rheoli ffordd o fyw, a pherthynas â model a fframwaith NHSE. Roedd adroddiad interim wedi nodi 987 o gleifion â chyn-diabetes (ac eithrio rhai eiddil, salwch terfynol, beichiogrwydd ac ati) sy'n rhoi nifer yr achosion o tua 3.2% yn Ne Cynon.

### Cyfleoedd ar gyfer Datblygu

- Yn ystod yr ymgysylltu roedd llawer o gyfeiriadau at yr amgylchedd naturiol o fewn yr ardal ac amlygwyd hyn yn yr hyn yr oedd pobl yn ei feddwl oedd y pethau gorau am fyw yn yr ardal. Amlygwyd agosrwydd yr arfordir, mynyddoedd a chefn gwlad gyda gwerthfawrogiad o’r dirwedd a’r cyfleoedd y mae’n eu darparu ar gyfer gweithgaredd hamdden a nodir mewn dyfyniad gan gyfranogwr ‘*Mae gennym ni amgylchoedd hardd, mannau gwyrdd i ymarfer, reidio beiciau, cerdded. Mae'r ardal wedi gwella'n aruthrol dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae'n parhau i wneud hynny*. Mae arolwg Parc Rhanbarthol y Cymoedd (a drafodwyd yn **Adran yr Amgylchedd**) hefyd yn nodi bod pobl yn defnyddio'r amgylchedd naturiol yn fwy ar gyfer cerdded a beicio. Cefnogodd Bryngarw astudiaethau a gynhaliwyd ledled y DU a ddangosodd fod mwy o bobl yn ailgysylltu â’u mannau agored a gwyrdd lleol yn ystod y cyfnod cloi, er mwyn eu llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Yn dilyn ailagor y parc ym mis Gorffennaf 2020, gyda’r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith, ymwelodd nifer digynsail o bobl ym mis Awst (48,864). Gan adeiladu ar yr holl ffactorau hyn, yn enwedig defnyddio’r awyr agored yn ystod Covid, mae cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo gweithgareddau trwy fentrau cymunedol lleol, ysgolion a chlybiau.
- Mae dysgu o werthusiad y cynllun peilot Cyn-diabetes hefyd yn gyfle i roi mesurau ar waith mewn meysydd eraill yn ogystal â sut y gall gwasanaethau gydweithio i gefnogi ffordd iach o fyw.

## Diabetes

*Her: Hyrwyddo ymddygiad iach sy'n annog ffyrdd egnïol ac iach o fyw. Addysgu pobl i ddeall pwysigrwydd rheoli diabetes yn effeithiol i atal cyflyrau iechyd niweidiol rhag gwaethygu*.

Mae diabetes math 2 yn gysylltiedig â ffactorau ffordd o fyw fel bod dros bwysau neu'n anweithgar yn ogystal â hanes o ddiabetes yn y teulu (GIG). Mae nifer yr achosion o ddiabetes yn cynyddu ac yn ôl Diabetes UK, (https://www.diabetes.org.uk/in_your_area/wales/diabetes-in-wales ) Cymru sydd â’r nifer uchaf yn y DU â diabetes. Yn 2020, cafwyd 10,695 diagnosis ychwanegol yng Nghymru gan gynyddu nifer y bobl â diabetes i 209,015 (8% o’r boblogaeth). O'r rhain mae gan 90% ddiabetes math 2. Os bydd y duedd bresennol yn parhau fe allai 311,000 o bobl fod â

diabetes yng Nghymru erbyn 2030, gan roi pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol.  Y gost ar hyn o bryd i'r GIG yng Nghymru yw tua £500m y flwyddyn, 10% o'i gyllideb flynyddol (Diabetes UK).

Mae cysylltiad agos rhwng diabetes math 2 a gordewdra, a chredir mai'r 'math Gorllewinol o ddeiet gyda llawer o egni ar y cyd â ffordd o fyw eisteddog yw prif achos diabetes Math 2' (Kolb, Martin 2017).

Gellir rheoli diabetes gyda deiet da a meddyginiaeth, yn ogystal â bod yn bresennol ar gyfer archwiliadau rheolaidd.  Gall yr elfennau hyn leihau effaith diabetes a all achosi clefyd y galon a strôc ac, mewn rhai achosion lle na chaiff wlserau/anafiadau eu rheoli, trychiadau.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Darparwyd data yn ymwneud â diabetes yn ardal CTM gan y bwrdd iechyd o'r wybodaeth Atlas Diabetes sy'n dangos y nifer â diabetes yn y tabl isod:

Tabl 9: Nifer y bobl â diabetes fesul 10k – ardal bwrdd iechyd 2021

| **Ardal** | Pobl â Diabetes fesul 10k |
|---|---|
| **Cymru** | 753 |
| **CwmTaf** | **810** |
| **De Cynon** | 906 |
| **Gogledd Rhondda** | 895 |
| **Gogledd Cynon** | 850 |
| **De Rhondda** | 848 |
| **Gogledd Merthyr Tudful** | 845 |
| **Aneurin Bevan** | **770** |
| **Gogledd Pen-y-bont** | 898 |
| **Gorllewin Pen-y-bont** | 803 |

Mae'r niferoedd uchod yn dangos bod cyfradd y bobl sydd â diabetes yn yr ardaloedd lleol yn uwch na chyfartaledd Cymru ac ardal y bwrdd iechyd.  De Cynon sydd â'r gyfradd uchaf fesul 10K.

Mae ffactorau risg sy'n ymwneud â diabetes yn cael eu nodi mewn perthynas â phwysau ac ysmygu.

**Siart 16:** Pwysau iach oedolion




Er bod gan CTM ganran ychydig yn is o oedolion â phwysau iach o gymharu â chyfartaledd Cymru; RhCT sydd â'r ganran isaf o oedolion â phwysau iach yn yr ardal.

**Siart 17: Pobl hŷn â phwysau iach**




O ran pobl hŷn, mae canran y rhai â phwysau iach yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru, gyda Merthyr Tudful â'r ganran isaf yn yr ardal a Rhondda Cynon Taf â’r uchaf.

Mae canran y bobl sy’n ysmygu yn ardal Cwm Taf yn uwch na chyfartaledd Cymru (17%) ar gyfer oedolion. Merthyr Tudful sydd â’r ganran uchaf o oedolion sy’n ysmygu ar 23% a RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr ar 18% sydd ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Er bod y gyfradd ysmygu yn uchel mae'r ganran sydd heb ysmygu erioed yn uwch ar draws yr ardal.

**Siart 18: Ffordd o Fyw Oedolion:  Ysmygu a defnyddio e-sigaréts** - 2018-19 & 2019-20




Ffynhonnell: Stats Cymru: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r siart isod yn dangos canran y trychiadau yn yr ardal o gymharu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

**Siart 19: Pobl â diabetes yn cael trychiadau yn ôl oedran (cyfran o gyfansymiau byrddau iechyd – nid fel canran o bobl â diabetes)**




Mae mwy o ddynion na merched sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes yn ardal CTM sy'n cael trychiadau fel y dengys y siart isod:

**Siart 20: Cymharu diagnosis gwrywaidd a benywaidd**




Fel y nodwyd uchod, gall ymddygiad ffordd o fyw a diffyg rheolaeth ar ddiabetes arwain at drychiadau. Mae hwn yn fater sylweddol i'r gwasanaeth iechyd ac i ofal cymdeithasol o ran y gofal sydd ei angen ar y rhai sy'n cael trychiad. Yn ôl y data uchod mae mwyafrif y rhai sy'n cael trychiad yn ddynion rhwng 50 a 79 oed. Mae'r gost gysylltiedig i'r bwrdd iechyd o ran trychiadau a gofal parhaus yn sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o'r trychiadau yn ardal CTM yn llawdriniaethau bysedd y traed (53%) a choesau (27%).

Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â diabetes a ddangosir uchod yn nodi bod mwy o ddynion na menywod yn cael diagnosis o ddiabetes yn ogystal â bod â chyfradd uwch o drychiadau. Wrth ystyried y data ar ordewdra mae lefel uwch o ordewdra ar gyfer gwrywod rhwng 45 a 64 oed. Mae hyn yn dangos cysylltiad tebygol rhwng gordewdra a diabetes math 2 yn yr ardal.

### Cryfderau

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Ne Cynon ar gyn-diabetes a drafodwyd uchod yn fenter gadarnhaol i nodi a lleihau cynnydd diabetes ar gyfer y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio ac sy'n ymgysylltu.

### Cyfleoedd ar gyfer Datblygu

- Dylid ystyried bod y cyfleoedd hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r uchod mewn perthynas â gordewdra.
- Canolbwyntio ar ymyriadau cynnar gyda gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar atal rhai o’r materion sy’n arwain at afiechyd ac sy’n effeithio’n gadarnhaol ar allu pobl i fyw bywydau iachach. Roedd adborth o’r ymgysylltu yn gadarnhaol yn ymwneud â byw bywydau iach, cadw’n heini a mwynhau’r amgylchedd naturiol a oedd yn dangos bod pobl yn ymwybodol o’r angen i ddilyn ffyrdd iach o fyw. Mae rhai elfennau y dangosir eu bod yn anymarferol i rai a nododd y gost o gael mynediad i gyfleusterau hamdden yn ogystal â phroblemau gyda thrafnidiaeth yn yr ardal lle maent yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i leoliadau a gwasanaethau. Nodwyd trafnidiaeth fel mater yn bennaf i'r rheini yn yr ardaloedd tlotach gan eu bod yn llai tebygol o gael eu trafnidiaeth eu hunain ac felly'n dibynnu'n bennaf ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd datblygu Metro De Cymru drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu rhai cyfleoedd i wella trafnidiaeth yn yr ardaloedd sydd â llai o hygyrchedd ar hyn o bryd.
- Mae'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau bariatrig yn dangos lefel uwch o ordewdra yn dod i'r amlwg yn y Rhanbarth. Mae dewisiadau ffordd iach o fyw nid yn unig yn delio â materion gordewdra, maent hefyd yn cefnogi iechyd meddwl ac yn lleihau'r tebygolrwydd o ddiabetes math 2 a gallant leihau'r tebygolrwydd o ddementia i rai.

## Dementia

**Her:** *Mae dementia yn y rhanbarth yn cynyddu gyda chynnydd syfrdanol yn RhCT o gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr. Bydd mentrau yn y cymunedau ac mewn gwaith sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth am ddementia yn cynorthwyo'r rhai sy'n byw gyda dementia yn ogystal â gofalwyr, teulu a ffrindiau.*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae nifer y bobl sy’n cael diagnosis o ddementia yn cynyddu ac yn ôl y rhagfynegiadau bydd yn parhau i gynyddu’n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Yn ôl Alzheimer’s Research UK mae 4,264 o achosion o ddementia yn ardal bwrdd iechyd Cwm Taf, sef 1.44% o’r boblogaeth. Dangosir y cynnydd a ragwelir mewn dementia yn y siart isod:

**Siart 21: Nifer yr oedolion 65+ a Ragwelir â Dementia 2020 i 2040**




Ffynhonnell: Arsyllfa ddata Gofal Cymdeithasol Cymru

Dangosir y nifer a gafodd ddiagnosis yn ardaloedd Clwstwr Meddygon Teulu ledled CTM isod:

**Siart 22: Diagnosis o ddementia yn ardal clwstwr meddygon teulu 2019-20 (rhif)**



**Siart 23: Diagnosis o ddementia yn ardal clwstwr meddygon teulu 2019-20 (cyfradd)**




Ffynhonnell: Adroddiadau Awdurdodau Lleol Gofal Cymdeithasol Cymru

Yr ardaloedd â'r lefel uchaf o ddiagnosis ym mhob ardal awdurdod lleol yw De Rhondda a Gogledd Merthyr ond mae gan Ben-y-bont ar Ogwr y lefelau uchaf yng nghlystyrau rhwydwaith y Dwyrain a Gorllewin.

Mae sawl ffactor risg ar gyfer dementia, ond y ffactorau mwyaf yw heneiddio a genynnau.

Gall elfennau eraill gyfrannu at hyn gan gynnwys (Cymdeithas Alzheimer):

- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Ffordd o fyw gan gynnwys ysmygu a gorddefnyddio alcohol
- Bod yn agored i lygredd aer

Elfennau a all leihau'r ffactorau risg yw

- Gweithgarwch corfforol
- Deiet cytbwys
- Ymarfer y meddwl
- Peidio ag ysmygu.
- Lleihau yfed alcohol
- Cadw'ch meddwl yn heini

Mae'r holl elfennau hyn yn gyraeddadwy, ac mae cymorth ar gael gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn y cymunedau lleol. Mae natur ac ansawdd yr amgylchedd yn ffactorau a bydd gwelliannau mewn ansawdd aer a mynediad parod i fannau gwyrdd yn cefnogi newidiadau. Gall y rhain, yn ogystal â gweithgareddau a ddarperir yn y llyfrgelloedd a'r canolfannau cymunedol lleol, helpu i leihau ffactorau risg (gweler Diwylliant)

### Cryfderau

- Mae mentrau fel cymunedau cyfeillgar i ddementia yn gefnogol i'r rhai sy'n byw gyda dementia ac yn cael eu datblygu mewn rhai ardaloedd. Mae yna hefyd weithgareddau fel nofio cyfeillgar i ddementia, a chaffis cofio yn y gymuned a all gefnogi pobl i fyw yn dda gyda dementia.

- Mae gan Halo Leisure raglen weithgareddau 'Teimlo'n Dda Gydol Oes' sydd nid yn unig yn darparu gweithgareddau ar gyfer y rhai sy'n byw gyda dementia ond y rhai sy'n teimlo'n unig neu'n isel o ran eu hwyliau.  Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth a oedd yn cynnwys iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a grwpiau cymunedol.  Mae'r ddarpariaeth wedi ennill gwobr yn 2020 am ei 'Effaith drwy weithgarwch corfforol' ar gyfer y gweithgareddau cyfeillgar i ddementia.
- Datblygodd RhCT Maerdy fel Pentref sy'n Gyfeillgar i Ddementia yn 2015 sydd wedi parhau i dyfu.  Mae gweithgareddau wedi cynnwys hyfforddiant Cyfeillion Dementia i'r preswylwyr i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia.  Mae grwpiau yn cyfarfod yn rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel 'canu i'r ymennydd', cyfarfod am baned a sgwrs yn ogystal â bowlio dan do.
- Mae gwasanaethau llyfrgell yn RhCT hefyd wedi cynnal gweithdai Dementia ac Atgofion mewn cartrefi gofal cyn Covid.  Roedd y gweithdai yn hynod boblogaidd ac roedd rhaglen allgymorth dementia gyda chartrefi gofal yn dechrau cael ei sefydlu. Mae'r gwasanaeth yn edrych ar y cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth hwn fel gwasanaeth rhyngweithiol ar-lein wrth symud ymlaen.

### Cyfleoedd ar gyfer Datblygu

Nododd adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu fod angen gwell iechyd a gofal cymdeithasol gyda mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol.  Cafwyd trafodaeth am fwy o ddefnydd o ragnodi cymdeithasol i wella llesiant a mwy o ystyriaeth i rôl gofalwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am rywun sy'n byw gyda dementia.  Cipiodd un cyfranogwr hyn yn y dyfyniad a ganlyn:  *'Mae angen ailfodelu'r gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd yn arbennig ar gyfer yr henoed a all fod ar eu pen eu hunain, â dementia, problemau symudedd. Ar ôl profi hyn yn uniongyrchol gyda fy mam, mae angen mwy o fuddsoddiad yn y maes hwn ar gyfer anghenion y gofalwyr a'r bobl sy'n derbyn gofal.'*

Mae cynlluniau eisoes yn cael eu datblygu i ymdrin â'r cynnydd mewn gwasanaethau a chymorth dementia y bydd eu hangen yn y dyfodol o safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddarparu mwy o adnoddau yn y gymuned sy'n cael eu datblygu fel yr Hybiau Iechyd a Lles yng Nghwm Taf.

# Plant a Theuluoedd

Mae deall proffil y genhedlaeth iau a'u teuluoedd yn hanfodol er mwyn deall sut mae angen i gyrff cyhoeddus ymateb.  Y nod yw sicrhau dyfodol lle mae cymunedau'n fwy diogel ac yn ffynnu, lle gall y genhedlaeth iau brofi bywydau hirach ac iachach na'r genhedlaeth flaenorol a bod yn rhan o economi sy'n eu hannog a'u gwobrwyo.  Mae'r asesiad hwn yn archwilio'r heriau a'r cyd-destun y mae plant a theuluoedd yn bodoli ynddynt.

### Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae gennym lefel sylweddol o ddata a gwybodaeth am yr heriau y mae plant a theuluoedd yn eu hwynebu yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ac rydym yn deall y darlun ledled Cymru. Yn ôl adroddiad Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021, , y prif sylwadau oedd:

- Mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn waeth i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond nid oes tystiolaeth bod y bwlch yn cynyddu.
- Mae cyfran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y ffigurau isaf yn 2014 a 2015.
- Roedd cyfran y plant oedd wedi cael eu himiwneiddiadau arferol erbyn pedair blwydd oed yn 88% eleni, yr uchaf ers adrodd am y mesur hwn gyntaf.

- Mae cyfranogiad pobl ifanc (19 i 24 oed) mewn addysg a'r farchnad lafur wedi cynyddu dros y cyfnod ers dirwasgiad 2008 cyn lefelu'n fwy diweddar.

Un o'r dangosyddion allweddol am yr heriau a wynebir gan blant a theuluoedd yw nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth, efallai drwy drefniadau ffurfiol lle mae plant mewn gofal, neu lle mae eu teuluoedd yn cael eu cefnogi ar adegau o anhawster.  Yn aml mae amrywiaeth o resymau pam fod angen cymorth ar blant a theuluoedd, ac mae'r data'n dangos bod y prif resymau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a cham-drin domestig.  Bydd plant hefyd yn wynebu amrywiaeth o heriau o ran eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol eu hunain, gyda rhai wedi'u hadnabod drwy droseddau ieuenctid.

## Plant sy'n derbyn Gofal a Chymorth

*Her: Ymateb i arwyddion cynnar ACE i ddarparu cymorth cynnar ac ymyriadau i atal yr achosion rhag gwaethygu a'u cyfeirio at wasanaethau statudol*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae data'n dangos bod nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn amrywio ar draws ardal CTM fel y dangosir yn y siart isod.

**Siart 24: Nifer y Plant sy'n derbyn gofal a chymorth fesul awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae dadansoddiad o'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn dangos amrywiadau yn y niferoedd sy'n cael eu cefnogi ar draws ardal CTM.  Rhwng 2019 a 2020 gwelodd RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr gynnydd tra bod niferoedd Merthyr Tudful yn dangos gostyngiad.

Mae'r categori angen yn ymwneud yn bennaf â Chamdriniaeth neu Esgeulustod, Teulu dan Straen Acíwt neu Deulu Camweithredol a ddangosir yn y tabl isod.

Tabl 10: Nifer y Plant sy'n derbyn gofal a chymorth fesul awdurdod lleol a chategori angen

| Categori Angen | Blwyddyn | Pen-y-bont ar Ogwr | Rhondda Cynon Taf | Merthyr Tudful | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Chamdriniaeth neu Esgeulustod** | **2017** | 525 | 1125 | 330 | 7940 |
| | **2018** | 480 | 1050 | 350 | 8075 |
| | **2019** | 550 | 880 | 325 | 8245 |
| | **2020** | 565 | 775 | 220 | 8250 |
| **Teulu dan Straen Aciwt** | **2017** | 35 | 300 | 15 | 1425 |
| | **2018** | 25 | 150 | 30 | 1345 |
| | **2019** | 25 | 255 | 30 | 1385 |
| | **2020** | 25 | 395 | 20 | 1620 |
| **Teulu Camweithredol** | **2017** | 160 | 85 | 20 | 1900 |
| | **2018** | 120 | 135 | 60 | 2045 |
| | **2019** | 105 | 140 | 65 | 1980 |
| | **2020** | 85 | 160 | 40 | 1895 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae'r niferoedd sy'n ymwneud â Chamdriniaeth neu Esgeulustod yn cynyddu ledled Cymru, fodd bynnag nid yw hyn yn wir yn RhCT a Merthyr Tudful sydd wedi gweld gostyngiad dros amser rhwng 2017 a 2020. Er bod Pen-y-bont ar Ogwr yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n ymwneud â Chamdriniaeth neu Esgeulustod, mae niferoedd yn gostwng mewn perthynas â Theuluoedd dan Straen Acíwt a Theuluoedd Camweithredol tra bod y rhain yn cynyddu yn RhCT a Merthyr Tudful.

Mae data sy'n ymwneud â ffactorau yn ymwneud â rhieni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn dangos bod y prif resymau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a cham-drin domestig. Mae'r siartiau canlynol yn dangos y gwahanol elfennau ym mhob ardal awdurdod lleol:

**Siartiau 25 i 27 Ffactorau yn ymwneud â rhieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn**









Ffynhonnell: Stats Cymru

Sefydlwyd Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i ymdrin â'r tair elfen, gan ddarparu cymorth dwys i deuluoedd i atal plant rhag mynd i ofal. Mae asesiadau yn RhCT yn dangos bod y nifer yr ymgymerwyd â hwy ar eu huchaf ar gyfer iechyd meddwl (n280) fel mater unigol ac mae 204 o asesiadau yn ymwneud â'r tri ffactor yn bresennol. Mae'r ffigurau'n cyd-fynd â'r ffactorau yn ymwneud â rhieni uchod.

Mae’r tair prif elfen a nodwyd yn y ffactorau yn ymwneud â rhieni wedi’u nodi fel tri ffactor yn yr astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) (Bellis et al 2015). Mae'n hysbys bod effaith y ffactorau hyn yn effeithio ar blant wrth iddynt ddatblygu, yn enwedig yng nghamau cynnar datblygiad yr ymennydd. Roedd cael 4 neu fwy o’r ACE yn awgrymu canlyniadau gwaeth i blant yn ddiweddarach mewn bywyd os nad eir i’r afael â nhw yn gynnar.

O ystyried yr ACE mae’n debygol bod rhieni’r plant sy’n destun ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol hefyd wedi profi’r ffactorau hyn yn ystod plentyndod ond nad oeddynt wedi cael sylw, gan arwain at eu hymddygiad diweddarach sy’n niweidio iechyd.

Mae astudiaeth bellach yn ymwneud ag ACE yng Nghymru (Ashton et al 2016) yn nodi bod yr oedolion hynny sydd â 4 ACE neu fwy bum gwaith yn fwy tebygol o fod â llesiant meddyliol isel na’r rhai heb unrhyw ACE. Mae'r wybodaeth uchod (Llesiant Meddyliol Oedolion) sy'n ymwneud â sgorau WEMWBS yn gosod RhCT a Merthyr Tudful â lefelau is o lesiant meddyliol ymhlith oedolion.

## Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal bellach wedi’u hymgorffori yn y cymorth i blant a theuluoedd gyda’r rhaglenni Dechrau’n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae gan y ddwy raglen hyn flaenoriaeth ar gyfer cymorth yn y blynyddoedd cynnar. Darperir y rhaglenni drwy’r Grant Plant a Chymunedau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Grant yn cynnwys 7 rhaglen sy'n anelu at liniaru neu ddileu anfantais i bobl agored i niwed.

Y 7 rhaglen yw:

- Gofal Plant a Chwarae
- Cymunedau dros Waith a Mwy
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Y Gronfa Waddol
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc

Ar draws ardal CTM mae’r gwasanaethau a ddarperir yn cael elfen o gymorth blynyddoedd cynnar gan ymwelwyr iechyd yn ogystal â darpariaeth cymorth ieuenctid, rhianta a Thîm o Amgylch y Teulu sy’n un o ofynion y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae’r Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn yn RhCT yn darparu cymorth i deuluoedd sy’n defnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu (TAF). Mae hyn yn gweithio ar fodel aml-asiantaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael y gwasanaeth cywir pan fyddant yn barod. Gall y gwasanaeth gyfeirio at ystod o gefnogaeth yn lleol. Mae ciplun o’r gwasanaeth i’w weld yn y tabl isod ar gyfer Hydref 2020 i Fawrth 2021:

Tabl 11: Deilliannau Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn RhCT

| Mesur | Data |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau | 858 |
| • Ail-atgyfeiriadau | 375 (44%) |
| • Ag anabledd | 182 (21%) |
| Prif ffynonellau atgyfeirio: | |
| • Gwasanaethau Plant | 198 (23%) |
| • Hunan-atgyfeirio | 148 (17%) |
| • Ymwelydd Iechyd | 139 (16%) |
| • Ysgolion cynradd | 102 (12%) |
| • Ysgol uwchradd | 92 (11%) |
| • Heddlu | 32 (4%) |
| • Gwasanaethau gofal sylfaenol | 27 (3%) |
| • CAMHS | 21 (2%) |
| Nifer yr asesiadau: | 608 |
| • Ail-atgyfeiriadau | 274 (45%) |
| • Ag anabledd | 216 (36%) |
| Nifer y cynlluniau a ddatblygwyd (wedi'u llofnodi): | 556 |
| • Ail-atgyfeiriadau | 229 (41%) |
| • Ag anabledd | 222 (40%) |
| Achosion a gaewyd: | 509 |
| • Ail-atgyfeiriadau | 248 (49%) |
| • Ag anabledd | 201 (39%) |
| Deilliannau: | |
| • Gwell gwydnwch | 396 (78%) |
| • Wedi ymddieithrio yn y gwerthusiad (camau gweithredu wedi'u cwblhau) | 27 (5%) |
| • Camu i fyny at y Gwasanaethau Plant | 26 (5%) |
| • Nid yw gwydnwch wedi gwella | 17 (3%) |
| • Cefnogaeth wedi'i gwrthod | 12 (2%) |
| • Wedi ymddieithrio (camau heb eu cwblhau) | 29 (6%) |

Fel y gwelir, y nifer uwch o atgyfeirwyr yw'r rhai sydd â chyswllt cynnar â phlant yn ogystal â hunan-atgyfeiriadau. Bydd hunan-atgyfeiriadau yn elfen bwysig sy'n dangos bod rhieni wedi cydnabod bod angen cymorth arnynt a'u bod wrthi'n ceisio'r cymorth hwnnw. Mae'r deilliannau'n dangos bod y mwyafrif wedi gwella eu gwydnwch gyda dim ond nifer fach naill ai'n methu â gwella neu'n ymddieithrio heb gwblhau camau gweithredu.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Hybiau Cymunedol sy'n darparu gwasanaeth lleol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned i'r rhai sy'n cael cymorth. Gall hyn helpu gyda defnydd gwasanaethau yn y dyfodol yn ôl yr angen.

Roedd angen i'r gwasanaeth flaenoriaethu teuluoedd yn ystod cyfyngiadau Covid a gwnaeth hynny trwy gyfyngu ar gyswllt wyneb yn wyneb â'r teuluoedd oedd yn wynebu'r risg fwyaf. Cynigwyd a darparwyd cymorth rhithwir i deuluoedd eraill.

Mae gwasanaethau cymorth rhianta yn wasanaeth cyffredinol a ddarperir ar draws yr ardal. Yn ystod cyfyngiadau Covid roeddent yn gallu parhau â'u cefnogaeth trwy weithio'n wahanol. Roedd gwasanaethau o bell yn cynnwys deunyddiau'r rhaglen yn cael eu ffilmio a'u cyhoeddi ar dudalen Facebook Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd RhCT rhwng mis Hydref a mis Mawrth, a oedd yn cynnwys:

- 9 fideo cymorth rhianta
- 25 fideos iaith gynnar
- 2 fideo sesiwn grŵp rhieni
- 40 sesiwn amser stori
- 7 fideo amser canu

Gwyliwyd yr uchod 15,304 o weithiau

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr** wedi cefnogi nifer o deuluoedd gydag amrywiaeth o faterion. Dangosir y niferoedd mwyaf arwyddocaol y gweithiwyd â nhw yn Nhabl 12 isod:

| **Disgrifiad o'r deilliant** | **Niferoedd y gweithiwyr â hwy** | **% wedi gwella** |
|---|---|---|
| Nifer y plant a wellodd eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 257 | 59% |
| Nifer a % y rhieni sy'n cymryd rhan sydd â gallu gwell i gefnogi anghenion dysgu a datblygiad eu plentyn. | 257 | 63% |
| Nifer a % y cyfranogwyr â llesiant emosiynol/meddyliol gwell | 458 | 79% |
| Nifer a % yr unigolion sy'n nodi gwelliant yn eu gwytnwch eu hunain | 291 | 78% |
| Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi gwelliant mewn gwydnwch teuluol | 280 | 73% |
| Nifer a % y teuluoedd sy'n dweud eu bod yn teimlo y gallant gyfrannu at newidiadau i'w ffordd o fyw/ymddygiad | 318 | 83% |
| Nifer a % yr unigolion sy'n adrodd am well perthnasoedd teuluol | 465 | 86% |
| Nifer a % y rhieni sy'n cael budd o ymyriad rhianta | 280 | 77% |

Mae’r deilliannau cadarnhaol i’r teuluoedd hyn yn cyfrannu at weld teuluoedd yn bod yn fwy gwydn a hyderus.  Gall hyn atal materion rhag gwaethygu yn ogystal â lleihau effaith unrhyw Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar blant yn y teulu.  Mae’r holl elfennau hyn yn lleihau’r tebygolrwydd y bydd anghenion teuluoedd yn cynyddu i’r pwynt o fod angen ymyriadau statudol.

Mae Dechrau’n Deg yn darparu cymorth cynnar i deuluoedd â phlant 0 i 4 oed sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig.  Mae'r ymyriad hwn yn darparu cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, rhianta a gofal plant.  Mae’r cynnig gofal plant yn cael ei ddefnyddio’n dda yn RhCT a Merthyr Tudful gyda dros 90% yn manteisio ar y ddarpariaeth, mae’r ganran yn llai ym Mhen-y-bont ar Ogwr.  Mae darpariaeth y cynnig gofal plant yn rhoi gweithgareddau i blant ddatblygu eu sgiliau yn barod ar gyfer yr ysgol.

Mae rhieni'n gallu cael mynediad i gyrsiau rhianta ffurfiol ac anffurfiol ond mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y rhain yn is ym Merthyr Tudful (61% 18/19) a RhCT (66%) ar gyfer cyrsiau rhianta strwythuredig.  Mae plant hefyd yn cael mynediad at Therapi Iaith a Lleferydd fel rhan o’r cynnig sy’n wasanaeth hollbwysig i’r rhai ag anghenion cyfathrebu.  Gall effaith peidio â delio â materion cyfathrebu yn gynnar gael effaith andwyol ar blant wrth iddynt symud ymlaen drwy’r ysgol, felly mae’n elfen bwysig o’r cynnig.

### Cryfderau

- Mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig yn parhau i weithio gyda theuluoedd i atal plant rhag mynd i ofal yn ogystal â'u cefnogi i ddychwelyd at eu teuluoedd (lle mae hyn yn ddiogel).  Er bod nifer y rhieni sy'n profi'r tair elfen o iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig yn amrywio mewn perthynas â phlant yn ymwneud â gwasanaethau statudol, mae rhai arwyddion calonogol o ostyngiad mewn rhai ardaloedd.
- Mae mentrau ymyrraeth gynnar ac atal yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd yn unol â'r deilliannau a gofnodwyd.  Mae cysylltiadau da yn cael eu gwneud gyda Hybiau Cymunedol sy'n elfen gadarnhaol i gefnogi teuluoedd yn eu cymunedau lleol

### Cyfleoedd

Gan adeiladu ar y gefnogaeth bresennol a ddarperir yn y cymunedau, mae cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo'r gwasanaethau o fewn yr Hybiau Cymunedol i gefnogi teuluoedd. Mae’r rhain ar waith ym mhob ardal ac yn darparu cymorth ar draws y cenedlaethau, sy’n bwysig i deuluoedd yn eu cyfanrwydd.  Mae cyfleoedd i ehangu'r gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol fel gwasanaethau addysg, gofal cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar wrth gynllunio a datblygu'r gwasanaethau.  Soniodd pobl ifanc a gyfrannodd at y sesiynau ymgysylltu am beidio â chael unrhyw le addas i gwrdd â ffrindiau, byddai defnyddio’r Hybiau o fudd i bobl ifanc gyfarfod yn ogystal â chael mynediad at unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt mewn amgylchedd anffurfiol.  Yn benodol, nodwyd bod bwlch yn y gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc 13 i 17 oed mewn perthynas â darpariaeth ieuenctid, yn enwedig i'r rhai mewn ardaloedd tlotach gan fod llawer heb gludiant i allu mynd y tu allan i'w hardal.

## Llesiant Meddyliol

*Her: Sicrhau bod materion iechyd meddwl yn cael eu cydnabod yn gynnar a bod cymorth ar gael yn gynnar i alluogi ymyrraeth effeithiol i atal pethau rhag gwaethygu.*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae data sy'n ymwneud â gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn dangos mai disgyblion blwyddyn 9 Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yw'r nifer uchaf sy'n derbyn y gwasanaeth ond ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae hyn yn amrywio rhwng blynyddoedd 9 a 10. Mae'r siart isod yn dangos y niferoedd cyffredinol sy'n cael cwnsela ac yn dangos cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer Merthyr Tudful a RhCT hyd at 2018/2019. Mae'n bosibl bod y data ar gyfer 2019/20 wedi'i ystumio oherwydd Covid a'r cyfyngiadau dilynol. Yn gyffredinol, ar gyfer Cymru, Merthyr Tudful sydd â'r nifer uchaf o blant fesul 100 o drigolion o blant 10 i 18 oed sy'n cael cwnsela yn 2019/20.

**Siart 28: Nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cwnsela fesul Ardal a Blwyddyn**




Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae'r data hefyd yn dangos bod nifer uwch o fenywod yn defnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

Y prif faterion[2] sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau yw

- Dicter
- Gorbryder
- Teulu
- Hunanwerth
- Straen

Mae'r rhain yn ymwneud â bechgyn a merched. Mae niferoedd uwch o faterion yn ymwneud â hunan-niweidio a hunanladdiad ar gyfer bechgyn a merched yn ardal Merthyr Tudful; yn arbennig mae'r niferoedd yn uwch yn 2018/19.

Dangosir data sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn y tabl isod.

---

[2] Prif fater yw'r mater(ion) sylfaenol a nodir yn ystod y broses gwnsela. Er enghraifft, efallai mai dicter yw'r mater a gyflwynir gan berson ifanc, ond trwy'r broses gwnsela, efallai y daw i sylweddoli mai'r prif fater yw perthnasoedd teuluol.

Tabl 13: Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau i holl wasanaethau CAMHS

| Blwyddyn | Holl atgyfeiriadau | Benywod | Gwrywod | Rhywedd heb ei gofnodi |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2019/Mawrth 2020** | 2,689 | 1480 | 1205 | 4 |
| **Ebrill 2020/Mawrth 2021** | 2115 | 1264 | 846 | 5 |

Tabl 14: Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau i holl wasanaethau CAMHS yn ôl oedran

| Rhywedd Cymysg | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **0-4 oed** | **5-11 oed** | **12-17 oed** |
| **Ebrill 2019/Mawrth 2020** | 10 | 669 | 2010 |
| **Ebrill 2020/Mawrth 2021** | 5 | 479 | 1630 |

Roedd yr atgyfeiriadau'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion a ddangosir yn y siart isod:

**Siart 29: Rheswm dros atgyfeiriadau - pob atgyfeiriad, oedran/rhywedd cymysg Ebrill 2019 - Mawrth 2021**




Fel y gwelir, y prif resymau dros atgyfeirio yw Gorbryder, Syniadaeth Hunanladdiad a Hwyliau Isel. Mae hyn yn debyg i faterion cwnsela mewn ysgolion gyda gorbryder yn fwy cyffredin. Mae nifer y merched sy'n cael eu hatgyfeirio hefyd yn uwch ac mae'r ystod oedran rhwng 12 ac 17 oed yn sylweddol uwch na'r oedrannau eraill a atgyfeiriwyd. Mae hyn eto'n adlewyrchu'r wybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion gyda blynyddoedd 9 a 10 o fewn ystod oedran tebyg.

Roedd 918 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau brys rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2021 a dangosir y rhesymau dros atgyfeirio yn y siart a ganlyn:

**Siart 30: Cyflyrau Clinigol (rheswm dros atgyfeirio) rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2021**




Mae ffrydiau gwaith Plant a Phobl Ifanc a Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cynnwys y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant fel dull ataliol.  Tra bod hyn yn cael ei gyflwyno yn yr ysgolion, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael yn ganolog am ymyriadau a dulliau cyflwyno.  Bydd ymyriadau'n cael eu cyflwyno'n wahanol mewn gwahanol ysgolion er mwyn bodloni anghenion y disgyblion.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a ragwelir o blant ag 'anhwylderau meddyliol' dros yr 20 mlynedd nesaf.  Fel y gwelir mae'r niferoedd yn parhau'n debyg dros amser gyda chynnydd bychan yn 2025 ond mae'r duedd ar i lawr ym mhob ardal.

Tabl 15: Nifer y plant ag anhwylderau meddwl a ragwelir

| Ardal | Blwyddyn | Nifer |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2020 | 1,936 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2025 | 2,013 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2030 | 1,975 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2035 | 1,930 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2040 | 1,907 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2020 | 3,280 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2025 | 3,313 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2030 | 3,159 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2035 | 3,081 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2040 | 3,079 |
| **Merthyr Tudful** | 2020 | 835 |
| **Merthyr Tudful** | 2025 | 872 |
| **Merthyr Tudful** | 2030 | 856 |
| **Merthyr Tudful** | 2035 | 819 |

| | | |
|---|---|---|
| **Merthyr Tudful** | 2040 | 807 |

Ffynhonnell: Arsyllfa ddata Gofal Cymdeithasol Cymru - Platfform Rhagamcanion Poblogaeth

Rhagfynegir y wybodaeth uchod o safbwynt cyn Covid. Rhyddhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad (2021) ar lesiant meddyliol pobl ifanc yn ystod y pandemig. Ystyriodd yr elfennau a oedd yn lleihau'r effeithiau negyddol yn ogystal â'r rhai a oedd yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc.

Roedd y gweithgareddau a leihaodd yr effeithiau negyddol yn cynnwys:

- Treulio amser y tu allan
- Cadw'n gorfforol actif
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a hobïau
- Bod yn ymwybodol o natur
- Rwtinau
- Cadw mewn cysylltiad â ffrindiau

O ystyried yr holl elfennau uchod, mae ganddynt gydberthynas gref â'r amgylchedd, iechyd, diwylliant a chydlyniant.

Roedd yr elfennau a gafodd effaith negyddol yn cynnwys:

- Roedd rhieni'n ei chael yn anodd ymdopi, a theimladau o unigrwydd ac unigedd oherwydd ymbellhau cymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth i bobl ifanc.
- Roedd tarfu ar addysg, cau ysgolion, a diffyg mynediad at gymorth yn yr ysgol yn gyfrifol am lawer o'r pryderon a'r gorbryderon y mae plant a phobl ifanc wedi bod yn eu profi.

Canfuwyd o'r astudiaeth bod mwy o bobl ifanc a phobl ifanc yn arddangos gorbryder ac iselder o gymharu â grwpiau oedran iau ac oedolion. Ymhellach, roedd merched yn fwy tebygol o gael eu heffeithio na bechgyn.

Mae gwybodaeth bellach yn ymwneud â rhagfynegiadau Awtistiaeth hefyd yn dangos patrwm tebyg ar gyfer niferoedd fel y gwelir yn y tabl isod:

Tabl 16: Rhagfynegiadau Awtistiaeth – Ystod oedran 0 – 17 oed

| Ardal | Blwyddyn | Nifer |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2020 | 541 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2025 | 553 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2030 | 544 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2035 | 536 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2040 | 537 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2020 | 917 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2025 | 916 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2030 | 887 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2035 | 875 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2040 | 885 |
| **Merthyr Tudful** | 2020 | 238 |

| | | |
|---|---|---|
| **Merthyr Tudful** | 2025 | 243 |
| **Merthyr Tudful** | 2030 | 236 |
| **Merthyr Tudful** | 2035 | 230 |
| **Merthyr Tudful** | 2040 | 231 |

Ffynhonnell: Arsyllfa ddata Gofal Cymdeithasol Cymru - Platfform Rhagamcanion Poblogaeth

### Cryfder

Mae pryderon cynyddol yn ymwneud ag iechyd meddwl pobl ifanc nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Mae'r Comisiynydd Plant wedi rhyddhau adroddiad 'Dim Drws Anghywir' sy'n nodi bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn aros yn rhy hir i gael cymorth pan fyddant yn profi trallod gyda phroblemau iechyd meddwl, llesiant emosiynol ac ymddygiad. Mae'n nodi eu bod yn cael eu 'bownsio rhwng gwasanaethau nad ydynt yn gallu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal'. Mae'r adroddiad yn nodi bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael y cyfle i weithio i ddod â gwasanaethau ynghyd i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn eu gwaith, gan ddefnyddio dull cydgynhyrchiol sy'n cynnwys eu pryderon ynghylch iechyd a llesiant emosiynol.

### Cyfleoedd

Mae Rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n Ddiogel a Hybu (NYTH) yn fframwaith sydd wedi'i ddatblygu i atal anawsterau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc yn ogystal â helpu'r rhai sy'n cael trafferth. Mae'r fframwaith yn ymateb i'r dull 'Dim Drws Anghywir' ac mae i'w ddefnyddio gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth gyflawni eu hasesiadau gan ddefnyddio dull partneriaeth. Datblygwyd y fframwaith yn seiliedig ar ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys plant a phobl ifanc yn ogystal â rhieni. Mae'n cydnabod bod llawer angen cymorth ychwanegol ar wahanol adegau yn ein bywydau (plant neu oedolion) a'i nod yw gallu ymateb yn briodol ac yn effeithiol.

Mae cynrychiolaeth weledol y fframwaith i'w weld isod ac mae'n offeryn i'w ddefnyddio wrth gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru (GIG Cymru).




Yn seiliedig ar adborth o ymgysylltu â phobl ifanc, roeddent yn pryderu am iechyd meddwl ac yn ystyried bod angen mwy o gymorth.  Yn ystod Hackathon yn ymwneud ag iechyd meddwl, amlygwyd y meysydd canlynol gan bobl ifanc:

- Mwy o gefnogaeth i feithrin gwytnwch yn ymwneud ag adferiad o Covid, yn arbennig delio â'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, problemau teuluol, bwlio a delio â hyn, codi hyder, cymryd risgiau a gwneud penderfyniadau
- Pontio ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a chymorth i ofalwyr ifanc
- Gwneud lleoedd diogel a chryfhau cydlyniant - mae angen mannau diogel ar bobl ifanc o fewn eu cymunedau a chael gwrandawiad ar lefel cymiunedol a lefel gwneud penderfyniadau

Mae pryderon y bobl ifanc i gyd yn cyd-fynd â'r elfennau a gyflwynir yn fframwaith NYTH uchod ac yn cymryd i ystyriaeth yr holl bobl/gwasanaethau a all wneud gwahaniaeth i'r bobl ifanc. Mae gweithio gyda'r bobl ifanc, gwrando a gweithredu ar eu meddyliau a'u pryderon yn gyfle i reoli a chefnogi eu datblygiad a gwella iechyd meddwl.

## Gordewdra

*Her: Cyflwyno plant i ffordd iach ac egnïol o fyw yn gynnar er mwyn atal ymddygiadau afiach sydd wedi'u gwreiddio yn y dyfodol sy'n arwain at fagu pwysau afiach.  Addysgu plant am bwysigrwydd deiet amrywiol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud dewisiadau da.*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae'r gyfradd gordewdra yn CTM yn uwch na chyfartaledd Cymru gyda Merthyr Tudful â'r lefel uchaf o ordewdra yng Nghymru.  Mae Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful wedi gweld lefelau uwch o ordewdra gyda RhCT yn gostwng rhwng 2017/18 a 2018/19.  Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn ymwneud â mesur taldra a phwysau plant yn y dosbarth derbyn ledled Cymru sy'n darparu cymhariaeth ar draws y wlad ar gyfer pwysau plant.  Mae'r siart isod yn rhoi cymhariaeth o blant yn y blynyddoedd derbyn o 2016/17 i 2018/19.

**Siart 31: Rhaglen Mesur Plant – % Gordew**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Siart 32: Rhaglen Mesur Plant – % Dros bwysau neu'n Ordew**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r siart uchod yn dangos bod plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer bod dros bwysau neu'n ordew. Yn 2018/19 mae gan RhCT lefel is o ordewdra na chyfartaledd Cymru.

**Siart 33: Rhaglen Mesur Plant – % Pwysau Iach neu Dan bwysau**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r siart uchod yn dangos bod lefel y plant sydd â phwysau iach neu o dan bwysau yn RhCT yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2018/19. Mae Merthyr Tudful yn gyson ar lefel is o lawer nag ardaloedd eraill o fewn ardal CTM. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi dangos lefel llawer is o blant yn y categori pwysau hwn ar gyfer 2018/19 o gymharu â 2017/18 lle'r oeddent uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Mae data hefyd yn dangos bod gan fechgyn gyfraddau uwch o ordewdra na merched fel y dangosir yn y siart isod.

**Siart 34: Gordewdra mewn Bechgyn a Merched - 5 mlynedd 2014/15 - 2018/19 gyda'i gilydd**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r rhaglen wedi treialu mesur plant ym Mlwyddyn 4 yn 2012/13 (ICC 2015) fel dilyniant i'r mesuriad taldra a phwysau cychwynnol. Cynhaliwyd y peilot ar gyfer ardal CTM a dangosodd fod nifer yr achosion o ordewdra ym mlwyddyn 4 yn uwch nag yn y flwyddyn dderbyn. Fe wnaethant hefyd ystyried y canlyniadau mewn perthynas â'r lefel amddifadedd, dangosodd hyn fod gan y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ail ardaloedd mwyaf difreintiedig lefel uwch o blant a oedd dros bwysau neu'n ordew.

Mae'r achosion o ordewdra yn bennaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac felly mae'r cysylltiad rhwng tlodi a'r gallu i fforddio bwyd iach a maethlon yn debygol o gyfrannu at hyn. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr achosion o ordewdra mewn ardaloedd o amddifadedd o'r lleiaf i'r mwyaf:

Tabl 17: Lefelau Amddifadedd Rhaglen Mesur Plant: Tablau Data 5 mlynedd wedi'u cyfuno 2014/15 – 2018/19

| | Pwysau Iach neu Dan bwysau (%) | Dros bwysau neu'n ordew (%) |
|---|---|---|
| **Cymru** | **73.4** | **26.6** |
| **Pumed lleiaf difreintiedig** | 78.9 | 21.1 |
| **Lleiaf difreintiedig nesaf** | 74.4 | 25.6 |
| **Difreintiedig Canol** | 73.1 | 26.9 |
| **Mwyaf difreintiedig nesaf** | 71.5 | 28.5 |
| **Pumed mwyaf difreintiedig** | 70.8 | 29.2 |

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn ôl ystadegau Dechrau'n Deg, mae canran y plant sydd â phwysau iach yn is na'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

Tabl 18: Nifer yr achosion o blant mewn categorïau 'pwysau iach' ar gyfer plant 4-5 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, 2016/17 a 2017/18 gyda'i gilydd

| | Holl Blant | | Bechgyn | | Merched | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol (c)** | **Dechrau'n Deg** | **Heb fod yn Dechrau'n Deg** | **Dechrau'n Deg** | **Heb fod yn Dechrau'n Deg** | **Dechrau'n Deg** | **Heb fod yn Dechrau'n Deg** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 68.2% | 74.1% | 68.6% | 74.1% | 67.8% | 74.2% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 67.8% | 72.8% | 67.3% | 72.9% | 68.3% | 72.7% |
| **Merthyr Tudful** | 63.7% | 68.4% | 62.8% | 67.3% | 64.5% | 69.5% |

Noder: Mae pwysau iach yn cynnwys pwysau iach a than bwysau

Ffynhonnell: Rhaglen Mesur Plant Cymru ICC

Fel y nodwyd uchod (Oedolion – Diabetes) mae gordewdra yn cael effaith hirdymor ar iechyd gyda thebygolrwydd uwch o ddiabetes math 2 yn ddiweddarach mewn bywyd yn ogystal â salwch eraill sy'n cyfyngu ar fywyd. Bydd mynd i'r afael â'r mater yn gynnar yn atal anghenion iechyd cymhleth yn ddiweddarach.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru astudiaeth yn ymwneud â ffactorau risg gordewdra ymhlith plant gan archwilio'r amgylchedd bwyd yng Nghymru 'Adroddiad Dwysedd Bwyd Cyflym'. Buont yn ystyried y diffiniad o fwyd cyflym ac yn nodi'r mannau gwerthu hynny:'

*'sy'n gwerthu bwyd sawrus dwys o ran egni a allai ddarparu pryd wedi'i baratoi y tu allan i'r cartref sydd ar gael yn gyflym':*

Roedd hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bariau byrgyr, siopau cebab a chyw iâr, siopau sglodion, siopau tecaê Indiaidd, siopau tecawê Tsieineaidd a siopau pizza.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canlyniadau'r wybodaeth a gasglwyd ac fe'i dangosir fel nifer y mannau gwerthu bwyd cyflym fesul 100,000 o'r boblogaeth. Y cymedr ar gyfer Cymru yw 100.65 o fannau gwerthu fesul 100,000 o'r boblogaeth:

Tabl 19: Mannau Gwerthu Bwyd Cyflym fesul 100,000 o'r Boblogaeth fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru, Tachwedd 2018

| Awdurdod lleol | Mannau gwerthu bwyd cyflym fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|---|---:|
| Blaenau Gwent | 125.00 |
| Pen-y-bont | 108.80 |
| Caerffili | 99.00 |
| Caerdydd | 93.99 |
| Sir Gaerfyrddin | 89.01 |
| Ceredigion | 99.86 |
| Conwy | 132.59 |
| Sir Ddinbych | 107.14 |
| Sir y Fflint | 99.23 |
| Gwynedd | 132.58 |
| Ynys Môn | 107.45 |
| Merthyr Tudful | 118.33 |
| Sir Fynwy | 73.72 |
| Castell-nedd Port Talbot | 104.86 |
| Casnewydd | 89.77 |
| Sir Benfro | 76.98 |
| Powys | 80.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 107.49 |
| Abertawe | 101.83 |
| Torfaen | 97.51 |
| Bro Morgannwg | 88.75 |
| Wrecsam | 80.38 |
| **Cymru** | **100.65** |

Mae lefel y mannau gwerthu bwyd cyflym a ddangosir yn nodi bod y cyfraddau ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ardaloedd CTM.  Mae gan Gonwy a Gwynedd y lefelau uwch ar gyfer Cymru gyfan gyda Blaenau Gwent yn rhanbarth De Cymru yn dangos y dwysedd uchaf ar gyfer yr ardal hon.  Mae heriau o ran lleihau nifer y mannau gwerthu ac addysg sy'n ymwneud ag ymddygiadau ffordd iach o fyw.  Mae angen mynd i'r afael â'r ddwy elfen, ond mae ffactorau sy'n cystadlu yn yr economi leol o ran dod â phobl i ardal a chyfleoedd gwaith.

### Cyfleoedd

Wrth ymgysylltu ag oedolion a phobl ifanc, gwelwyd eu bod yn ymwybodol o'r angen i fyw bywyd iach.  Mae cyfle i ddatblygu hyn ac annog y bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a mentrau sy'n cefnogi'r hyn y maent wedi'i nodi am fyw'n dda.

Yr ystyriaeth bwysicaf i bobl ifanc oedd cael rhywfaint o le i wneud gweithgareddau a oedd yn ddiogel ac i rai, roedd angen i'r rhain fod yn briodol i'w hoedran ac yn rhad neu am ddim. Mae pobl eisiau gweld mwy o weithgareddau a digwyddiadau sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i wella iechyd corfforol a meddyliol.  Gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol a mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau a phobl ifanc.  Mae’r dyfyniad isod o’r adroddiad ymgysylltu yn nodi’r hyn roedd pobl ifanc yn ei deimlo:

*‘Does dim llawer i’w wneud i bobl ifanc yn eu harddegau a dwi’n meddwl mai dyna pam maen nhw’n hongian o gwmpas cymaint ar y strydoedd.  Dydw i ddim bob amser yn meddwl eu bod yn achosi trwbwl, ond gall edrych yn annymunol.  Mwy o gynhwysiant cymdeithasol i bobl o bob oed, gallu a hil.*

*‘Gweithgareddau mwy cynhwysol lle gallem fynd a pheidio â theimlo’n wahanol.  Peidio â chael eraill yn syllu arnom, ein gwawdio na gwneud i ni deimlo nad ydym yn perthyn’.’*

## Troseddau Ieuenctid

*Her: Cynnal yr ymyriadau sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a'u teuluoedd.*

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf (GTI) a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu cymorth i droseddwyr ifanc a'r rhai sydd ar gyrion troseddu. Mae mwyafrif y troseddwyr yn yr ardal yn ddynion rhwng 15 ac 17 oed, er bod y nifer hwn yn gostwng o’r naill flwyddyn i’r llall o 85 yn 2016/17 i 56 yn 2018/19.  Mae nifer y merched sy'n troseddu yn is, ac mae'r nifer ar gyfer y garfan hon hefyd yn gostwng.

Gydag arian gan y Grant Plant a Chymunedau mae Gwasanaeth Atal Ieuenctid Cwm Taf yn gweithio gyda theuluoedd a phobl ifanc.  Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac yn broses dau gam. Niferoedd cyfyngedig o bobl ifanc sy'n symud ymlaen i gam 2 o'r broses sy'n dangos bod y rhieni wedi gallu ymateb yn effeithiol i'r wybodaeth a gânt gan y gwasanaeth.  Darperir elfennau eraill drwy’r gwasanaeth hwn ac o’r 188 o bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â’r YOS yn 2020/21

- Nid oedd gan 148 unrhyw gofnodion YGG pellach (79%).
- Nid oedd gan 149 unrhyw ddigwyddiadau troseddu pellach (79%)
- Aeth 0 i'r ddalfa

Mae’r rhain yn ganlyniadau cadarnhaol i’r bobl ifanc.

Mae yna hefyd wasanaeth ataliol a gynigir i bob person ifanc y nodir eu bod mewn perygl o droseddu neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol.  Bydd gwasanaeth atal yr YOS yn asesu, cynllunio a chynnal ymyriad, gan roi adborth i'r asiantaeth atgyfeirio yn ôl yr angen.

Mae gwasanaethau dargyfeiriol eraill ar waith i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth adferol lle bo angen ac i ddarparu cymorth amlasiantaeth i'r rhai sy'n cael anawsterau mewn addysg, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu gofynion y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid Cymru o ran hyrwyddo plant sy'n derbyn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ataliol wedi'u targedu ar y pwynt cynharaf, er mwyn osgoi rhagor o ymddygiad troseddol/euogfarnau.
Mae'r gwaith hwn eisoes wedi profi'n wasanaeth hynod fuddiol i Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n byw mewn dau gartref gofal yn yr ardal.

### Cryfderau

Mae llwyddiant yr ymyriadau a roddwyd ar waith ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd yn yr ardal yn gadarnhaol gyda newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud sy'n gwella eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

### Cyfleoedd

Nododd gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu beio am broblemau cymdeithasol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaethau sy'n arwain at faterion yn ymwneud â chydlyniant cymdeithasol. Roedd hyn yn amlwg yn yr ymatebion yn ystod y cyfnod ymgysylltu gyda rhai yn nodi ''*Plant yn hongian o gwmpas wrth y siopau tecawê ac wrth ymyl y ganolfan hamdden. ''Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel pan mae'n dywyll a dyw'r ysgol ddim yn gwneud dim byd''*. Tra bod pobl ifanc yn sôn am yr her o fod heb lawer i'w wneud a chael eich amau o ymddygiad gwael am ddim rheswm. *'Does dim llawer i bobl ifanc ei wneud a hyd yn oed os ydym ond yn cyfarfod, mae pobl yn meddwl ein bod ni'n gwneud trwbwl.'* Mae cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol â phobl ifanc i ddeall eu hanghenion ac i sicrhau eu bod yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ac nad ydynt yn cael eu 'beio' am ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i gyfarfod â ffrindiau.

# Cydlyniant Cymunedol

### Beth ydym ni'n ei wybod?

Ar draws y rhanbarth mae ein cyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i gefnogi pobl i fyw mewn cymunedau cydlynol a nodweddir fel rhai diogel a chryf, lle mae gennym ymdeimlad o berthyn ac ymgysylltiad. Mae'r asesiad llesiant yn cyfeirio yn y rhan gyntaf, y piler cymdeithasol, at bwysigrwydd cartrefi a thai, yr ymgyrch i sicrhau diogelwch cymunedol ac adeiladu cymunedau sy'n cydweithio.

Yn ôl adroddiad Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd sylweddol mewn cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai dyma ddechrau tuedd barhaus.
- Bu cynnydd o ran pobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol sy'n ymddangos fel pe bai'n gwrthdroi tuedd ar i lawr a welwyd yn y ddwy set flaenorol o ganlyniadau.
- Mae nifer yr achosion o droseddau casineb hiliol a gofnodwyd wedi gostwng ychydig yn 2019-20.

## Ymdeimlad o gymuned

Mae cael ymdeimlad o gymuned yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol mewn ardal. Mae'r ffactorau sy'n gysylltiedig â hyn yn cynnwys ymdeimlad o berthyn, pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda a phobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

Mae canfyddiadau allweddol Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei ddadansoddiad o gyfweliadau yn 2018/19 yn dangos bod y canlynol yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod gan eu hardal leol ymdeimlad o gymuned:

- Bod yn hŷn.
- Bod â llesiant meddyliol uchel.
- Teimlo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd (e.e. cerdded yn yr ardal ar ôl iddi dywyllu).
- Bod yn fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw.
- Meddu ar ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae;'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar gyfer y gymuned.
- Teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol.
- Teimlo'n fodlon ag argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae'r tablau isod yn dangos ystod o'r ymatebion sy'n adlewyrchu rhai o ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Mae boddhad â'r ardal leol yn gwestiwn sy'n gofyn 'Ar y cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'ch ardal leol fel lle i fyw?'.

Ledled Cymru mae'r canrannau ar gyfer y rhai sy'n fodlon yn debyg fel y dangosir yn y siart isod:

**Siart 35: Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw**




Caiff hyn ei ddadansoddi ymhellach ar gyfer ardal CTM o 2016/17 i 2018/19, gan amrywio o bodlon i anfodlon:

Tabl 20: Boddhad â'r ardal leol fel lle i fyw (%)

| Awdurdod lleol | Bodlon | | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | Anfodlon | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2016/17 | 2018/19 | 2016/17 | 2018/19 | 2016/17 |
| **Cymru** | 85 | 86 | 7 | 7 | 7 | 7 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 83 | 86 | 7 | - | 10 | 7 |
| **RhCT** | 79 | 80 | 10 | 11 | 11 | 10 |
| **Merthyr Tudful** | 84 | 81 | - | 10 | - | 9 |

Yn gyffredinol, ar draws Cymru roedd y cyfraddau boddhad gan fwyaf dros 80% gyda Cheredigion uchaf gyda 94% yn dweud eu bod yn 'fodlon' yn 2018/19. Yr ardal gyda'r gyfradd boddhad isaf oedd Blaenau Gwent gyda 66% yn ogystal â'r ganran uwch ar gyfer bod yn anfodlon ar 21%. Bu gostyngiad bach mewn cyfraddau bodlonrwydd yn RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr a chynnydd bach mewn anfodlonrwydd, fodd bynnag mae Merthyr Tudful wedi gweld cynnydd bach mewn boddhad o gymharu â 2016/17.

Pan gaiff hyn ei ddadansoddi ymhellach i statws economaidd, yn 2018/19 mae canran uwch o'r rhai sy'n fodlon ac mewn cyflogaeth (86%) o gymharu â'r rhai sy'n ddi-waith (73%). Mae cyfradd bodlonrwydd is hefyd yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig (75%) o gymharu â'r lleiaf difreintiedig (93%).

O fewn ardal mae'n bwysig bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu i wella cydlyniant cymunedol. Mae'r siart isod yn dangos y ganran gyffredinol ar gyfer pob ardal o fewn CTM:

**Siart 36: Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch**




Mae'r siart hwn yn dangos bod canran y bobl ym Merthyr Tudful sy'n credu bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac yn trin ei gilydd â pharch dros y 2 flynedd ddiwethaf wedi cynyddu ac yn 2020/21 mae'n uwch na chyfartaledd Cymru.  Er nad ydynt yn uwch na chyfartaledd Cymru, mae'r ddwy ardal arall wedi dangos cynnydd canrannol sylweddol hyd at 2020/21.  Mae'n ddiddorol nodi bod y cynnydd wedi bod yn fwy sylweddol yn ystod y cyfnod hwn pan oedd y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar waith.  Gallai hyn adlewyrchu'r cymorth cymunedol a ddatblygodd i helpu'r rhai yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod hwn.  Adlewyrchir hyn yn nifer y gwirfoddolwyr a ddaeth ymlaen i gefnogi pobl a oedd yn ynysu neu'n ynysig a thrafodir hyn ymhellach yn **Diwylliant a Gwirfoddoli.**

Ar draws yr ystodau oedran mae'r ganran uwch o'r rhai sy'n cytuno bod pobl yn trin ac yn parchu ei gilydd ar ei huchaf yn yr ystod oedran 75 a hŷn gyda'r ystod oedran isaf rhwng 25 a 44.

Roedd adborth o'r broses ymgysylltu â'r gymuned BAME yn nodi bod rhai'n teimlo'n ynysig ac nad oeddent yn rhan o'r gymuned a gellid gweld bod hyn yn gwrth-ddweud yr ystadegau. Roedd un cyfranogwr wedi byw yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd ond yn dal i deimlo nad oedd ganddo lawer o ffrindiau da.  Roeddent eisiau mwy o gyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a datblygu cyfeillgarwch.  Maen nhw eisiau ymdeimlad o berthyn ond dywedodd un '*Rydw i eisiau gwneud hwn yn gartref i mi, ond rydw i'n teimlo fel rhywun o'r tu allan'*. Er bod y niferoedd o'r gymuned BAME a ymatebodd yn isel, mae'n amlwg bod peth pryder ynghylch perthyn.

## Cryfderau

Mae yna ymdeimlad bod pobl sy'n byw yn y cymunedau lleol yn dod ymlaen yn dda ar y cyfan ac yn cefnogi ei gilydd.  Roedd cydlyniant cymdeithasol yn nodwedd gref yn yr ymatebion ymgysylltu gan nodi pwysigrwydd cymunedau yn cyd-dynnu a chefnogi ei gilydd ac roedd yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o lesiant cymdeithasol.  Cyfeiriwyd yn aml at 'ysbryd cymunedol' wrth sôn am fyw yn yr ardal.

*"Gyda llifogydd a'r firws, mae cymunedau a chymdogion wedi bod mor bwysig a dwi'n meddwl bod hynny'n rhywbeth sydd wastad wedi bod yn dda yn y cymoedd. Rydyn ni'n edrych allan am ein gilydd"*

Cefnogir hyn hefyd gan y data sy'n nodi cyfradd boddhad uchel o'r ardal fel lle i fyw.

### Cyfleoedd

Mae balchder amlwg yn y ffordd y mae cymunedau yn dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd ar adegau anodd. Mae hyn yn gryfder yn yr ardal. Fodd bynnag, mae elfen o ymbellhau ar gyfer y rheini o gefndiroedd gwahanol sy’n teimlo’n ynysig ac nad ydynt yn perthyn, fel y canfuwyd yn ystod yr ymgysylltiad. Mae cyfleoedd i ddod â’r cymunedau ynghyd a fydd yn cefnogi dealltwriaeth o gefndiroedd a diwylliant ei gilydd. Gallai’r fenter ‘Llyfrgell Ddynol’ sy’n cael ei datblygu yn RhCT sy’n cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu eu profiadau diwylliannol fod yn ffordd o ddod â’r cymunedau ynghyd a chael gwell dealltwriaeth o’i gilydd.

## Tai a Digartrefedd

*Her: Mae’r mentrau i gefnogi’r digartref sy’n byw ar y strydoedd yn ystod Covid wedi bod yn llwyddiannus i rai o ran ymgysylltu â gwasanaethau. Bydd gallu parhau i gefnogi'r rhai sy'n ddigartref yn? wrth symud ymlaen leihau'r nifer sy'n byw ar y strydoedd.*

Mae gennym lefel sylweddol o ddata a gwybodaeth am bwysigrwydd cartrefi, yr her o ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd a chydweithio i atal digartrefedd. Yn ôl adroddiad Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Mae cyflwr tai Cymru wedi gwella dros y 10 mlynedd diwethaf, gan leihau'r risg bosibl i iechyd y preswylwyr. Mae anheddau tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn parhau i gynyddu, gyda 99% o anheddau'n cydymffurfio (gan gynnwys methiannau derbyniol).
- Dangosodd Arolwg diweddaraf Cyflwr Tai Cymru fod 82% o anheddau yn rhydd o’r peryglon mwyaf difrifol (categori 1) yn 2017-18, o gymharu â 71% yn 2008. Roedd gwelliannau ym mhob deiliadaeth..
- Yn ystod 2019-20 bugostyngiad yn nifer yr aelwydydd a oedd wedi cysylltu â’u hawdurdod lleol am gymorth oherwydd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd, gyda dros ddwy ran o dair o’r rhain wedi’u hatal rhag bod yn ddigartref yn llwyddiannus. Yn ystod pandemig COVID-19 mae llawer o aelwydydd a oedd yn ddigartref yn flaenorol wedi cael eu cefnogi i lety dros dro brys.
- Er body gyfradd atal digartrefedd wedi aros yn gyson yn 2019-20, trawsnewidiwyd gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n wynebu digartrefedd yn ystod y pandemig gyda llawer o aelwydydd yn cael eu cefnogi i lety dros dro brys.
- Yn ystod 2019-20, aseswyd bod bron i 10,000 o aelwydydd yng Nghymru dan fygythiad o ddigartrefedd, sef gostyngiad o 7% o gymharu â 2018-19.
- Llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis mewn 67% o'r achosion hyn. Mae’r gyfradd atal digartrefedd yn llwyddiannus wedi aros yn gyson ers 2017-18.

Pan edrychwn ar yr ystod o dai ar draws ein rhanbarth, nid dim ond edrych ar adeiladau yr ydym. Rydym yn edrych ar gartrefi, yn cefnogi unigolion a theuluoedd sy’n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth, y mae tai yn rhoi ymdeimlad o le iddynt, yn angor i’w cymuned.

Mae cymunedau ffyniannus yn dibynnu ar dai o ansawdd da a digon i letya'r rhai sy'n dymuno byw yma. Wrth sicrhau’r nifer cywir o gartrefi, gan weithio gyda’n partneriaid ar draws llywodraeth leol i sicrhau ein bod yn cynllunio ein hanghenion tai ar gyfer y dyfodol, rydym wedi datblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda darparwyr tai cymdeithasol a chontractwyr i sicrhau bod gennym y cymysgedd cywir o ddarpariaeth.

Mae unigolion a theuluoedd mewn cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn byw bywydau iachach. Mae tai, iechyd a llesiant economaidd-gymdeithasol i gyd yn cael eu heffeithio gan ansawdd y tai y gall pobl gael mynediad iddynt. Mae cysylltiadau clir ar draws ystod o ddangosyddion llesiant â thai:

- Mae ansawdd yr amgylchedd lleol a mynediad i fannau gwyrdd lleol yn ffactorau pwysig ar brofiad byw pobl mewn cartrefi, gyda chysylltiadau â'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae hyn yn darparu cyfraniad ataliol a hirdymor i faterion iechyd meddwl a llesiant a nodir mewn mannau eraill.
- Ansawdd ein hadeiladau gyda safonau da o insiwleiddio gwres a sŵn, sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â her tlodi tanwydd, a gwneud tai newydd yn fwy gwydn i'r tebygolrwydd o ragor o lifogydd.
- Nid yw tai o ansawdd da yn ymwneud â rhoi'r cyfle i bobl leol aros a gweithio'n lleol yn unig, mae hefyd yn ymwneud â pha mor ddeniadol yw'r amgylchedd adeiledig y gallai busnesau a phobl geisio lleoli ynddo.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Darperir niferoedd stoc tai i ddangos sut mae anghenion tai yn cael eu diwallu. Mae’r tabl isod yn dangos y niferoedd o fis Mawrth 2017:

Tabl 21: Stoc Tai ar Rent Cymdeithasol 2016/17 i 2020/21

| Awdurdod lleol | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 8,787 | 8,867 | 8,943 | Amh. | 9,179 |
| Rhondda Cynon Taf | 15,607 | 15,734 | 15,651 | Amh. | 16,004 |
| Merthyr Tudful | 5,871 | 5,843 | 5,837 | Amh. | 5,838 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Noder: Yn19/20 ni chasglodd LlC y data hwn oddi wrth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oherwydd bod yr ymateb i Covid-19 yn flaenoriaeth

Mae'r data uchod yn dangos bod stoc tai ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cynyddu yn RhCT (2.5%) a Phen-y-bont ar Ogwr (4.4%) ond wedi gweld gostyngiad bach ym Merthyr Tudful (-0.6%).

Nid yw’r data’n cynnwys:

- Eiddo y codir tâl amdano ar wahân i renti cymdeithasol, gan gynnwys y rhai y codir rhenti canolradd neu rent y farchnad, a daliadaethau canolradd
- Eiddo dibreswyl
- Anheddau ar brydles i gartrefu'r digartref dros dro
- Unrhyw anheddau sy’n cael eu rheoli fel asiantaeth gosod tai cymdeithasol ar ran landlord cymdeithasol arall (e.e. eiddo Cartrefi Hafod)
- Anheddau rhanberchnogaeth â grisiau llawn
- Hawl i brynu
- Eiddo buddsoddi lle mae cyfran ecwiti dan berchnogaeth nes bod perchennog y tŷ yn gwerthu (e.e. Homestep Plus)

Felly yn RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr, efallai mai dyma pam mai dim ond cynnydd o 397 a 392 o unedau yn y drefn honno o Dai Fforddiadwy Ychwanegol sydd, pan fo’r data isod yn dangos bod RhCT wedi darparu 943 o unedau a Phen-y-bont ar Ogwr 623 o unedau dros y cyfnod amser hwn.

Tabl 22: **Darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol fesul Awdurdod Lleol**

| | Cyflawnwyd 2016-17 | Cyflawnwyd 2017-18 | Cyflawnwyd 2018-19 | Cyflawnwyd 2019-20 | Cyflawnwyd 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 154 | 61 | 148 | 94 | 166 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 244 | 230 | 96 | 135 | 238 |
| **Merthyr Tudful** | 22 | 31 | 21 | 21 | 49 |

Mae cost rhent preifat yn uwch na rhent landlordiaid cymdeithasol. Mae rhent landlordiaid cymdeithasol yn ardaloedd CTM yn gyffredinol is na chyfartaledd Cymru. Mae'r sector rhent preifat yn uwch na'r sector cymdeithasol fel y gwelir yn y tabl isod:

Tabl 23: Rhent cyfartalog ar gyfer Landlordiaid Preifat a Chymdeithasol 2019

| Ardal | Rhent Preifat (llety 3 ystafell wely) | Rhent Cymdeithasol |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | £577.13 | £417.47 |
| **RhCT** | £501.25 | £388.53 |
| **Merthyr** | £493.57 | £375.87 |
| **Cymru** | £598.19 | £487.29 |

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a wnaeth nifer o newidiadau yn ymwneud â deddfwriaeth ddigartrefedd statudol.

Creodd rhan dau o'r Ddeddf Tai newidiadau lluosog yn y ffordd yr ymdrinnir â digartrefedd yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i helpu i atal digartrefedd i unrhyw un sy'n gofyn am help
- cynnwys pobl wrth ddylunio eu hatebion eu hunain, trwy ddatblygu Cynllun Tai Personol ar y cyd sy'n edrych nid yn unig ar broblemau tai uniongyrchol ond hefyd ar unrhyw faterion sylfaenol
- ymyrryd yn gynnar – o fewn 56 diwrnod i ddigartrefedd – i atal sefyllfaoedd pobl rhag gwaethygu
- cael gwared ar angen blaenoriaethol awtomatig ar gyfer y sawl sy'n gadael carchar
- gosod dyletswyddau newydd ar gymdeithasau tai i gydweithredu i atal digartrefedd; a
- caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau digartrefedd gyda chynnig o lety rhent preifat heb ganiatâd yr ymgeisydd. (Lloches 2015)

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer dull mwy rhagweithiol o atal digartrefedd a phwyslais ar weithio ar y cyd â gwahanol wasanaethau tai. Mae'r nifer sy'n gallu aros yn eu cartrefi yn is na'r rhai sy'n cael cymorth i ddod o hyd i lety arall fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 24: Achosion lle llwyddodd gweithredu cadarnhaol i atal/lleihau digartrefedd 2018-2019

| Awdurdod lleol | Rhwystrwyd Digartrefedd | Cynorthwywyd i gael llety arall |
|---|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | 87 | 735 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 21 | 549 |
| **Merthyr** | 51 | 141 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae cyfradd llwyddiant atal digartrefedd yn uwch ym Merthyr Tudful gyda'r prif faes cymorth yn ymwneud â materion ariannol, cyfryngu a chymodi. Ar draws pob ardal roedd y rhai a gafodd gymorth i gael llety arall yn cael eu rhoi mewn tai cymdeithasol.

Yn ystod llifogydd 2020 roedd angen darparu llety dros dro oherwydd bod pobl yn cael eu symud o'u cartrefi tra bod gwaith atgyweirio'n cael ei wneud. Disgwylir i'r tebygolrwydd o lifogydd gynyddu felly mae'n debygol y bydd galw cynyddol cyfatebol am dai dros dro. Gweler yr adran Amgylchedd.

Mae awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er enghraifft yn gweithio mewn partneriaeth â Shelter Cymru i adeiladu ar ei ddarpariaeth atal digartrefedd bresennol, gan helpu pobl gyda chyngor ar ddyledion, cymorth a gwaith eiriolaeth. Rhwng Tachwedd 2019 ac Ebrill 2021, cyfeiriodd y cyngor 445 o aelwydydd at y gwasanaeth, sef bron i draean yr holl bobl a oedd yn gwneud cais am gymorth tai.

Mae Strategaeth Digartrefedd 2018-22 yn Rhondda Cynon Taf yn amlinellu'r amcanion strategol y bydd y Cyngor, gyda chymorth partneriaid a rhanddeiliaid, yn ymdrechu i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Mae camau gweithredu manwl wedi'u nodi o dan bob un o'r tri amcan strategol:

- Amcan 1: Atal digartrefedd a digartrefedd mynych rhag digwydd, lle bynnag y bo modd, gan leihau digartrefedd felly.
- Amcan 2: Sicrhau bod cefnogaeth a llety priodol, gan gynnwys llety dros dro a llety brys, ar gael i ddiwallu anghenion pobl ddigartref a phobl a allai fod yn ddigartref.
- Amcan 3: Sicrhau bod pobl ag anghenion cymorth tai yn cael asesiad llawn o'r rhain a bod ganddynt fynediad at wasanaethau i barhau i fyw'n annibynnol.

## Cefnogi Pobl

**Y Weledigaeth:** *"Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, ac mae gan bawb gartref diogel lle gallant ffynnu"*.

Mae Cefnogi Pobl yn fenter a ariennir gan grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'n darparu cymorth cynnar ac ymyrraeth i'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd; eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety â chymorth. Nod y cynllun yw cefnogi pobl i'w hatal rhag dod yn ddigartref, ac wrth wneud hynny mae'n helpu pobl i fynd i'r afael â materion fel iechyd meddwl, dyled, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.

## Cefnogi Pobl Pen-y-bont ar Ogwr

Darperir data sy'n ymwneud â'r cymorth a ddarparwyd a'u statws digartrefedd ar ddechrau a diwedd y cymorth isod:

Tabl 25: Statws Digartrefedd ar ddechrau a diwedd y cymorth

| Cyfnod | Statws | Nifer ar y dechrau | Nifer ar y diwedd |
|---|---|---|---|
| **Ionawr i Ragfyr 2018** | Digartref | 886 | 199 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 423 | 68 |
| | Mewn llety interim | 216 | 136 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 912 | 137 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynnol (6 mis +) | | 841 |
| **Ionawr i Mehefin 2019 (dim ond am 6 mis y mae'r data hwn)** | Digartref | 578 | 96 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 385 | 30 |
| | Mewn llety interim | 162 | 88 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 959 | 58 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynno l (6 mis +) | | 443 |
| **Ionawr i Ragfyr 2020** | Digartref | 1,373 | 173 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 605 | 99 |
| | Mewn llety interim | 659 | 443 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 1,245 | 41 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynnol (6 mis +) | | 939 |

Ffynhonnell: Gwasanaethau Cefnogi Pobl Pen-y-bont ar Ogwr

Yn seiliedig ar y data uchod, statws y mwyafrif sy'n derbyn cymorth yw digartrefedd neu gefnogaeth i aros yn eu cartref eu hunain.  Yn seiliedig ar y data terfynol, mae'n dangos bod nifer sylweddol wedi'u cefnogi allan o ddigartrefedd neu i atal dod yn ddigartref.  Mae yna hefyd nifer uchel sy'n cynnal llety sefydlog am 6 mis neu fwy.

Mae data Cefnogi Pobl Pen-y-bont ar Ogwr a ddarparwyd yn dangos, rhwng Ionawr 2018 a Rhagfyr 2020, bod y mwyafrif o'r rhai sy'n cael eu cefnogi yn derbyn cefnogaeth trwy Gymorth fel y bo'r Angen i atal digartrefedd.  Pan ddaw cymorth i ben y prif reswm yw bod 'Anghenion cymorth cysylltiedig â thai wedi'u bodloni'.  Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau'r cymorth a gofnodwyd yn unol â'r camau a gyflawnwyd, sef:

- Cam 1 – Dim cynnydd
- Cam 2 – Camau cychwynnol dilyniant at nodau
- Cam 3 – Peth cynnydd o ran nodau amser penodol
- Cam 4 – Cynnydd sylweddol o ran nodau amser penodol

- Cam 5 – Cyflawnwyd y nod

**Siart 37: Deilliannau Cymorth (%)**




## Cefnogi Pobl Merthyr Tudful

Mae data Cefnogi Pobl Merthyr Tudful, yn Nhabl 26 isod, yn dangos patrymau tebyg i Ben-y-bont ar Ogwr uchod.

| Cyfnod | Statws | Nifer ar y dechrau | Nifer ar y diwedd |
|---|---|---|---|
| **Ionawr i Fehefin 2019** | Digartref | 145 | 10 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 47 | 10 |
| | Mewn llety interim | 76 | 52 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 927 | 49 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynnol (6 mis +) | | 189 |
| **Ionawr i Fehefin 2020** | Digartref | 162 | 13 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 26 | 0 |
| | Mewn llety interim | 61 | 6 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 931 | 0 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynnol (6 mis +) | | 1130 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorffennaf i Ragfyr 2020** | Digartref | 77 | 0 |
| | Bygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod | 46 | 0 |
| | Mewn llety interim | 98 | 0 |
| | Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hun | 1223 | 1 |
| | Cynnal llety sefydlog yn annibynnol (6 mis +) | | 70 |

Fel y gwelir yn y data uchod, mae'r canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n cael cymorth yn dangos nifer llai o ddigartrefedd. Y rhesymau pennaf dros adael y ddarpariaeth cymorth yw bod ‘Anghenion cymorth tai wedi’u bodloni’ sef prif ddiben y fenter.

Yn gyffredinol, mae'r rhai sydd wedi cael cymorth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful wedi bod ag anghenion amrywiol. Y prif angen oedd eu bod angen cefnogaeth generig fel y bo’r angen i atal digartrefedd. Un o'r prif anghenion eraill wrth gefnogi pobl oedd pobl â phroblemau iechyd meddwl a drafodir uchod fel angen cynyddol.

### Cryfderau

- Mae enghreifftiau o gefnogaeth gadarnhaol i'r rhai sy'n cael trafferth cadw eu llety. Mae’r nifer sy’n cael eu hatal rhag bod yn ddigartref yn cynyddu ac o ddata a ddarparwyd gan gefnogi pobl mae’r deilliannau’n dda. Mae'r cymorth cyfannol a ddarperir i'r rhai sy'n cael cymorth gan ddarparwyr Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth i'w llesiant cyffredinol yn ogystal â thai.
- Bu cynnydd bychan mewn tai yn yr ardal gyfan. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweld cynnydd uwch mewn tai cymdeithasol o gymharu â RhCT a Merthyr Tudful.

### Cyfleoedd

Wrth ymgysylltu â'r cymunedau, gwelwyd bod fforddiadwyedd tai yn bryder sylweddol i lawer naill ai ar gyfer prynu eiddo neu rentu. Roedd argaeledd llety priodol a diogel i'w rentu hefyd yn bryder. Mae data’n dangos bod cost rhent preifat yn uwch na thai cymdeithasol a fydd yn effeithio ar y math o dai sydd ar gael a fforddiadwyedd i’r rhai ar incwm is neu fudd-daliadau. Dywedodd un ymatebwr *‘I mi’n bersonol, mae’n fater o ddod o hyd i safon o lety ar rent sy’n addas i bobl fyw ynddo ac sy’n fforddiadwy’.*

Nodwyd tai fforddiadwy a digartrefedd fel heriau ar gyfer y dyfodol yn bennaf yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae cynlluniau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys cymorth ar gyfer adeiladu tai i fynd i’r afael â materion hyfywedd sy’n atal cynnydd datblygiadau tai newydd yn yr ardal. Efallai y bydd hyn yn datrys rhai o’r problemau, ond bydd tai fforddiadwy yn elfen y mae angen mynd i’r afael â hi.

## Diogelwch Cymunedol

Mae bod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel yn cael effaith sylweddol ar ein llesiant. Gall dioddefwyr troseddau ddioddef canlyniadau hirdymor ac mae ofn trosedd yn effeithio ar ein gallu i gymryd rhan yn ein cymunedau a'n mwynhad o'n gweithgareddau bob dydd.

### Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae cryfder llesiant cymdeithasol yng Nghwm Taf Morgannwg yn dod o'n cymunedau ni. Mae teimlo'n ddiogel yn eich cymuned yn elfen bwysig o gydlyniant cymunedol. Sefydlwyd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP) mewn ymateb i Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae dwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, un yn cwmpasu Rhondda Cynon Taf a Merthyr a phartneriaeth ar wahân yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r partneriaethau'n dod ag asiantaethau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i weithio gyda'i gilydd i leihau trosedd, anrhefn, ac ofn trosedd yn lleol i wella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd byw a gweithio mwy diogel yn eu hardal.

Mae gan bob partneriaeth gyfrifoldeb statudol i gynnal adolygiadau blynyddol o drosedd ac anhrefn yn eu hardal. Mae'r adolygiad yn helpu partneriaid i ddeall natur trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal a datblygu strategaeth diogelwch cymunedol sy'n manylu ar y camau sydd angen eu cymryd i leihau'r problemau hyn ac yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y camau gweithredu'n effeithiol.

Bydd yr asesiad llesiant hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad strategol o drosedd ac anhrefn.

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

### Teimlo'n Ddiogel

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn a yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau lleol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. ar ôl iddi dywyllu; naill ai wrth gerdded neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Rhwng 2016 a 2018 pan ofynnwyd cwestiwn yr arolwg, bu gostyngiad yng nghanran y bobl a oedd yn teimlo'n ddiogel ledled Cymru ac roedd hyn yr un mor wir am Ben-y-bont ar Ogwr, a Merthyr, fodd bynnag, dangosodd RhCT gynnydd yn y ganran o bobl a oedd yn teimlo'n ddiogel rhwng 2016 a 2018.

O gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru roedd holl ardaloedd Cwm Taf Morgannwg yn is na chyfartaledd Cymru yn 2018. Allan o 22 ardal leol, roedd RhCT yn safle 13, Pen-y-bont ar Ogwr yn 18 a Merthyr yn 22.

Ym Merthyr dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel o gymharu â Cheredigion lle dywedodd dros 90% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal.

Tabl 27: Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymuned

| **% y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio** | | |
|---|---|---|
| | **Blwyddyn Ariannol Ebrill 2016-17** | **Blwyddyn Ariannol Ebrill 2018-19** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 73.0 | 64.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 68.6 | 69.6 |
| **Merthyr Tudful** | 62.8 | 58.6 |
| **Cymru** | **73.0** | **71.0** |

Mewn cyferbyniad, roedd Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer troseddau a gofnodwyd

Mae’r dadansoddiad diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) (https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/pa-ffactorau-syn-gysylltiedig-a-phobl-yn-teimlon-ddiogel-yn-eu-hardal-leol.pdf) yn nodi mai’r ffactorau sy’n peri i bobl deimlo’n fwy diogel yn eu hardal leol yw eu bod:

- Yn ddynion
- Rhwng 25 a 34 oed
- Ddim mewn amddifadedd materol

Pobl hŷn 75 oed a hŷn oedd leiaf tebygol o deimlo’n ddiogel. Dadansoddwyd hyn ymhellach yn y dadansoddiad sy'n dangos bod menywod yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn cerdded yn yr ardal leol a theimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu.

Mae’r dadansoddiad hwn ar gyfer Cymru gyfan ac nid yw’n rhannu’n ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn gofyn i ymatebwyr a ydynt yn credu bod trosedd wedi cynyddu ‘ychydig’ neu ‘lawer’ yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae’r canlyniadau’n genedlaethol yn gyffredinol ond mae’n ystyried parth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) (Cyflogaeth) ar gyfer y rhai sy’n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Teimlai 50% o bobl yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig fod trosedd wedi cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a dim ond 33% yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig a deimlai fod trosedd wedi cynyddu. Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys dadansoddiad o ddiogelwch cymunedol sy'n ystyried lefelau trosedd ac anhrefn yn ogystal â theimladau o ddiogelwch. Er bod 4 o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ardal Cwm Taf Morgannwg, ar gyfer y maes diogelwch cymunedol yn unig, mae ardaloedd yn ardal Cwm Taf Morgannwg yn isel. Gall hyn awgrymu gwahaniaeth rhwng teimladau o ddiogelwch ac achosion gwirioneddol o drosedd ac anhrefn mewn cymunedau yng Nghwm Taf Morgannwg.

Yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu roedd rhywfaint o bryder ynghylch rhai’n teimlo’n ddiogel yn cerdded ar ôl iddi dywyllu, yn enwedig rhai’n poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol a gangiau’n ymgasglu. Mewn perthynas â llesiant cymdeithasol a theimlo’n anniogel, roedd pryder gan fenywod ynghylch cerdded ar eu pen eu hunain ar ôl iddi dywyllu yn ogystal â diodydd yn cael eu sbeicio.

## Troseddau a Gofnodwyd

Mae cyfraddau troseddu cyffredinol yn ardal Cwm Taf Morgannwg yn is o gymharu â’n dinasoedd mawr yng Nghymru.

Mae’r cyfraddau troseddu ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol rhwng 2015 a 2017 wedi’u nodi yn siart 38 isod.




Ar gyfer y blynyddoedd hynny roedd RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfartaledd Cymru a Merthyr yn uwch.  Mae'r siartiau isod yn dangos y troseddau a gofnodwyd rhwng 2018 a 2021 yn ôl pob Ardal Partneriaeth Diogelwch Cymunedol:  Mae'r niferoedd a gofnodir ar gyfer 2020/21 yn debygol o fod wedi'u hystumio oherwydd y cyfyngiadau Covid a osodwyd.

**Siart 39 & 40: Partneriaethau Diogelwch Cymunedol: Nifer y troseddau a gofnodwyd ar gyfer y prif droseddau**






Ffynhonnell: SYG: Trosedd yng Nghymru a Lloegr: Tablau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae nifer y troseddau a gofnodwyd yn dangos mai 'trais yn erbyn y person' yw'r drosedd gofnodedig uchaf ar draws CTM o hyd, gyda chynnydd yn Ardaloedd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf.

Mae trais yn erbyn y person yn cael ei rannu i wahanol gategorïau. Mae'r rhain yn dangos bod nifer y troseddau 'stelcian ac aflonyddu' wedi bod yn uwch na'r categorïau eraill ers mis Mawrth 2019. Gallai hyn fod oherwydd bod pobl yn cael eu hannog i adrodd am ddigwyddiadau a hefyd mewn ymateb i ymgyrchoedd cenedlaethol a chodi ymwybyddiaeth am stelcian seiber. Mae trais ag anaf yn uwch na thrais heb anaf. Mae yna hefyd gynnydd mewn troseddau cyffuriau a meddu ar arfau.

Troseddau dwyn, gan gynnwys bwrgleriaeth yw'r ail gategori uchaf ar gyfer y ddwy ardal bartneriaeth ac mae'r ddwy wedi dangos gostyngiad cyson yn y niferoedd dros y pedair blynedd. Mae'r diagramau isod yn dangos troseddau fesul 1000 o'r boblogaeth ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Roedd y gyfradd uchaf o fwrgleriaeth yn cyfateb i tua 3 trosedd fesul 20,000 o bobl ac roedd dwyn yn cyfateb i tua 6 trosedd fesul 10,000 o bobl.

**Bwrgleriaeth – siart 41 a 42**



**Dwyn**




Mae troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus wedi cynyddu yn y ddwy ardal dros y pedair blynedd diwethaf tra bod difrod troseddol a llosgi bwriadol wedi gostwng yng Nghwm Taf.

Mae'r tabl isod o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dangos troseddwyr a gafodd eu dedfrydu yn Uned Darparu Prawf Cwm Taf Morgannwg Rhwng 01/01/2018 a 31/12/2021.

**Siart 43: Troseddwyr a gafodd eu dedfrydu**




Gan gydnabod yr effaith ar gyfraddau troseddu yn sgil y cyfyngiadau symud yn 2020 a 2021 a hefyd yr effaith ar y llysoedd a'r gwasanaethau cyfiawnder, mae'r cynnydd mewn dedfrydau rhwng 2018 a 2019 yn amlwg.

## Trais

Nid yn unig trais yn erbyn y person sydd â'r sgôr uchaf o ran troseddau yng Nghwm Taf Morgannwg; gall bod yn ddioddefwr trais, neu fyw mewn ofn o drais, gael effaith ddinistriol ar lesiant ar adeg y digwyddiad ac ymhellach i'r dyfodol.  Mae'n bwysig felly bod yr asesiad

hwn yn edrych ar bob agwedd ar drais yn erbyn y person. Mae'r asesiad hwn yn edrych ar drais gydag anaf a hebddo ac ar droseddau rhywiol.

Mae troseddau treisgar yn cwmpasu ystod o fathau o droseddau o fân ymosodiadau, fel gwthio sy'n arwain at ddim niwed corfforol, i lofruddiaeth. Mae hyn yn cynnwys troseddau lle cafodd y dioddefwr ei drywanu'n fwriadol, ei ddyrnu, ei gicio neu ei wthio yn ogystal â throseddau lle'r oedd y dioddefwr wedi'i fygwth â thrais, p'un a oes unrhyw anaf.

## Trais ag Anaf

Rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 bu 4180 o achosion o droseddau treisgar gydag anafiadau mewn lleoliadau domestig ac annomestig.

### Siart 44: Trais ag Anaf




Gostyngodd nifer y troseddau trais ag anafiadau bob mis ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg yn ystod cyfnodau cloi yn gynnar yn 2020 a diwedd 2020 ac yn gynnar yn 2021 ond ymddengys eu bod yn dod yn ôl i lefelau cyn cloi ar ôl yr amser hwnnw. Ar draws yr ardal mae cyfraddau trais ag anafiadau cyffredinol fesul 1000 o'r boblogaeth wedi gostwng rhwng Medi 2018 ac Awst 2021 o ychydig yn is na 6 i ychydig dros 5 trosedd fesul 1000 o'r boblogaeth.

### Siart 45: Trais ag anaf fesul 1000 o'r boblogaeth




Mae'n anochel y bydd y cyfyngiadau symud a osodwyd ym mis Mawrth 2020 wedi cael effaith ar y ffigurau hyn o'r pwynt hwnnw ymlaen. Ar gyfer cam-drin a thrais annomestig, nid yw pobl wedi bod yn cymysgu cymaint y tu allan i'w haelwyd, felly mewn llawer o achosion, byddai'r posibilrwydd o ddigwyddiadau treisgar yn lleihau.

## Trais heb anaf

Rhwng Medi 2018 ac Awst 2019, bu 11,985 o achosion o drais heb anaf yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

**Siart 46: Trais heb anaf**




| | |
|---|---|
| Sept 18 - Aug 19 | 11985 |
| Sept 19 - Aug 20 | 11447 |
| Sept 20 - Aug 21 | 11540 |

Bu gostyngiad bach mewn trais heb anaf ar draws y rhanbarth ers mis Medi 2018. Mae'r siartiau isod yn rhoi mwy o fanylion.

**Siart 47: Trais heb anaf fesul 1000 o'r boblogaeth**




Mae trais heb anaf yn gostwng rhwng y flwyddyn yn diweddu Awst 2019 a’r flwyddyn yn diweddu Awst 2020 ym mhob ardal. Mae’n bosibl bod y gostyngiad hwn oherwydd y cyfyngiadau symud cyntaf a phobl yn methu â mynd allan mor rhydd.

Er bod cam-drin domestig a thrais heb anaf wedi gostwng yn ystod y ddau gyfnod o gyfyngiadau, cynyddodd cam-drin a thrais heb anaf mewn sefyllfaoedd annomestig i'r ail gyfnod o gyfyngiadau i fyny at lefelau cyn y cyfyngiadau, a allai ddangos newid mewn ymddygiad yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau ac yn y cyfamser.

Mae gan Ferthyr a Phen-y-bont ar Ogwr gyfraddau o gwmpas neu islaw cyfartaledd yr heddlu mewn achosion annomestig tra bod cyfraddau ar gyfer RhCT wedi codi uwchlaw cyfartaledd yr heddlu rhwng Medi 2020 ac Awst 2021.

## Troseddau Rhywiol

Mae troseddau rhywiol yn cynnwys trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol eraill.

## Siart 48: Treisio




## Siart 49: Treisio Annomestig fesul 1000 o'r boblogaeth




## Siart 50: Troseddau Rhywiol Difrifol Eraill




Rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 roedd 521 o droseddau rhywiol difrifol eraill yng Nghwm Taf Morgannwg.

## Siart 51: Troseddau Rhywiol Difrifol Annomestig Eraill fesul 1000 o'r boblogaeth



Ffynhonnell: Heddlu De Cymru

## Trais a Cham-drin Domestig

Mae'r asesiad hwn wedi gwahaniaethu rhwng trais domestig ac annomestig a throseddau rhywiol.  Mae amgylchiadau pob un yn wahanol.  Wrth ystyried ofn trosedd, mae'r arolwg cenedlaethol yn holi ynghylch ofn trosedd oddi cartref.

### Trais Domestig gydag Anaf

**Siart 52: Trais ag anaf fesul 1000 o'r boblogaeth**




Mae'n anochel y bydd y cyfyngiadau symud a osodwyd ym mis Mawrth 2020 wedi cael effaith ar y ffigurau hyn o'r pwynt hwnnw ymlaen.  Gallai cyfraddau is o drais domestig yn dilyn mis Mawrth 2020 awgrymu nad oedd dioddefwyr troseddau domestig yn gallu, neu'n teimlo na allant, adrodd am ddigwyddiadau yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae RhCT a Merthyr wedi aros yn uwch na chyfartaledd yr heddlu ar gyfer trais domestig gydag anafiadau.

### Trais Domestig heb Anaf

**Siart 53: Trais heb anaf fesul 1000 o'r boblogaeth**




Mae cam-drin domestig a thrais ag anaf yn dangos lefelau cynyddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a RhCT yn ystod y misoedd Medi 2019 i Awst 2020.  Mewn cymhariaeth, mae trais heb anaf yn lleihau yn ystod y cyfnod hwn yn RhCT a Merthyr Tudful.  Mae gan RCT a Merthyr gyfraddau uwch na chyfartaledd yr heddlu ym mhob un o'r tair blynedd ar gyfer cam-drin domestig a thrais heb anaf.

Er bod cam-drin domestig a thrais heb anaf wedi gostwng yn ystod y ddau gyfnod o gyfyngiadau, cynyddodd cam-drin a thrais heb anaf mewn sefyllfaoedd annomestig i'r ail gyfnod o gyfyngiadau i fyny at lefelau cyn y cyfyngiadau, a allai ddangos newid mewn ymddygiad yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau ac yn y cyfamser.

### Troseddau rhywiol domestig difrifol eraill

**Siart 54: Troseddau Rhywiol Difrifol Eraill fesul 1000 o'r boblogaeth**




Ffynhonnell: Heddlu De Cymru

Rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 roedd 52 o droseddau rhywiol domestig difrifol.

Wrth edrych ar droseddau treisgar, mae'r dadansoddiad hwn wedi ystyried troseddau mewn lleoliad domestig ac annomestig. Fel y nodir uchod, er bod trais a cham-drin domestig yn gyfran fach o droseddau trais, mae cyfraddau Cwm Taf Morgannwg o gwmpas neu'n uwch na chyfartaledd yr heddlu.

Mae llawer o'r data'n cyd-daro â chyfyngiadau symud Covid o fis Mawrth 2020 ymlaen (gan gydnabod rhywfaint o lacio), ac yn groes i'r cyfraddau troseddau a adroddwyd uchod, adroddir bod cam-drin domestig wedi cynyddu oherwydd peidio â chael cysylltiad ag eraill a methu â gadael y cartref. Nododd Gofal Cymdeithasol Cymru fod cynnydd o 49% yn nifer y galwadau i linell gymorth Byw Heb Ofn yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y cynnydd mewn cam-drin domestig yn duedd nid yn unig yng Nghymru a'r DU, ond ledled y byd. Maent hefyd yn adrodd bod cam-drin yn amlach yn cael ei brofi gyda chyfnodau dwysáu byrrach https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/trais-a-cham-drin-domestig---arweiniad-i-weithwyr-proffesiynol

## Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol (VAWDASV)

Yn 2015, pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) – (VAWDASV

(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella:

a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
c) cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.

Gwyddom y bydd 1 o bob 3 menyw yng Nghymru yn profi trais corfforol neu rywiol yn ystod eu hoes. (Adroddiad ATA).

- Mae pedair o bob pum menyw yng Nghymru wedi profi rhyw fath o aflonyddu rhywiol yn y gweithle. (Dim Ardal Lwyd: Cymorth i Fenywod Cymru)
- Mae 1.5% o achosion o dreisio yr adroddir amdanynt yn arwain at gyhuddiad. (Y Swyddfa Gartref)

Mae cam-drin domestig yn cael ei gyflawni'n bennaf gan ddynion yn erbyn menywod; fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod yna ddynion sy'n dioddef camdriniaeth. Nid yw'r asesiad uchod yn gwahaniaethu rhwng rhywedd dioddefwyr troseddau treisgar.

Mae data gan Heddlu De Cymru yn dangos, ers mis Medi 2018/19, bod troseddau a gofnodwyd fel Cam-drin Domestig a Thrais wedi gostwng ychydig ym mhob ardal mewn perthynas â thrais gydag anaf/heb anaf.

Fodd bynnag, er bod treisio wedi gostwng ym Merthyr Tudful a RhCT, mae wedi cynyddu ychydig ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng Medi 2020 ac Awst 2021. Cynyddodd trais difrifol hefyd yn RhCT ar yr un pryd.

Dywedir bod effaith Covid a chyfyngiadau symud gyda'r neges i 'aros gartref' wedi arwain at fenywod mewn perygl sylweddol gan bartneriaid treisgar a chamdriniol. Dylid trin y data yn ofalus mewn perthynas â'r cynnydd, oherwydd mae'n bosibl y bydd rhai menywod nad ydynt wedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r blaen wedi gwneud hynny yn ystod y cyfyngiadau symud oherwydd bygythiadau cynyddol.

Mae treisio yn cael ei gyflawni'n bennaf yn erbyn menywod ac mae'r data'n dangos ei fod wedi cynyddu ar draws ardal CTM yn 2020/21 ar gyfer achosion cam-drin annomestig.

Roedd y cynnydd mewn cam-drin domestig yn duedd nid yn unig yng Nghymru a'r DU, ond ledled y byd. Maent hefyd yn adrodd bod cam-drin amlach yn cael ei brofi gyda chyfnodau dwysáu byrrach https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/trais-a-cham-drin-domestig---arweiniad-i-weithwyr-proffesiynol

## Gwasanaethau VAWDASV

Darparodd gwasanaethau VAWDASV ar draws y rhanbarth y gwasanaethau canlynol yn ystod 2020/21:
Darparodd lloches a llety gwasgaredig fan diogel ar gyfer:

- RCT 138
- Pen-y-bont ar Ogwr 94

Cefnogwyd dros 2000 o ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais yng Nghwm Taf Morgannwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y niferoedd a ddefnyddiodd y Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a gwasanaethau cymorth Cam-drin Domestig ar draws Cwm Taf Morgannwg rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021.

Tabl 29: Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n uniongyrchol

| Grŵp Targed | Dadansoddiad yn ôl risg uchel/canolig/isel | Cyfanswm nifer y buddiolwyr |
|---|---|---|
| **Menywod** | Uchel<br>Canolig | 1576<br>322 |
| **Dynion** | Uchel<br>Canolig | 182<br>25 |
| **CYFANSYMIAU** | | 2105 |

### Cryfderau

Mae Cwm Taf Morgannwg wedi sefydlu Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Rhanbarthol VAWDASV (Partneriaeth) sy'n dod â sefydliadau yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf (RhCT a Merthyr Tudful) ynghyd sy'n cynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau VAWDASV. Er y cydnabyddir bod heriau yn gysylltiedig ag effaith Covid a chyfyngiadau cysylltiedig, nid oedd hyn yn atal gwaith y Bartneriaeth rhag symud ymlaen i gyflawni ei nodau, sef:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.
2. Torri'r cylch cenedliadol o ymddygiad VAWDASV mewn teuluoedd trwy hyrwyddo perthnasoedd iach mewn plant a phobl ifanc.
3. Dal troseddwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cefnogi i newid eu hymddygiad
4. Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u comisiynu i ddiwallu anghenion poblogaeth Cwm Taf Morgannwg

Cryfder cael grŵp strategol ar draws y rhanbarth yw eu bod yn gallu cydweithio i gefnogi dioddefwyr camdriniaeth yn ogystal â hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth. Er bod heriau, mae'n darparu fforwm i'r rhain gael eu trafod a lle y gellir eu datrys.

## Troseddau Casineb

Mae Trosedd Gasineb yn drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn tuag at berson arall. Mae'n ymwneud â:

- Hil
- Crefydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hunaniaeth drawsryweddol
- Anabledd

Mae'n ymwneud â cham-drin geiriol, brawychu, bygythiadau, aflonyddu, ymosod, a difrod i eiddo. Cofnodir yr achosion o droseddau casineb, ac mae'r siartiau isod yn dangos y dadansoddiad ar gyfer ardal CTM. Darparwyd data gan Heddlu De Cymru ac mae'n debygol o gael ei ystumio gan y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod Covid ar gyfer data rhwng 2020 a 2021.

**Siart 55: Troseddau Casineb a Adroddwyd yn Gyffredinol**




**Siart 56: Troseddau Casineb fesul 1000 o'r boblogaeth**




Fel y gwelir o'r ciplun uchod, mae nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt yn cynyddu. Er ym Mhen-y-bont ar Ogwr fe wnaeth hyn ostwng yn 2020/21 a allai fod oherwydd cyfyngiadau Covid. Roedd y prif yrrwr ar gyfer cynnydd mewn adrodd am droseddau casineb ar draws y rhanbarth yn ymwneud â mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn dilyn llofruddiaeth George Floyd ym mis Mai 2020. Arweiniodd y llofruddiaeth at ffocws byd-eang ar droseddau casineb ac arweiniodd at brotestiadau wedi'u trefnu'n dda ar draws ardal CTM, a oedd yn cael ei adlewyrchu ar lefel genedlaethol.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd wedi gweithio i annog adrodd, trwy wythnos Troseddau Casineb a digwyddiadau eraill ac mewn ysgolion

Mae'r duedd leol hon yn groes i adroddiad Llesiant yng Nghymru a ganfu fod troseddau casineb hiliol cenedlaethol wedi gostwng ychydig 19-20.

Mae'r ychydig siartiau nesaf yn dangos dadansoddiad fesul ardal a math o drosedd casineb. Mae'r data rhwng 2018/19 a 2020/21 ac mae'n debygol o fod wedi'i effeithio gan gyfyngiadau Covid ar gyfer rhan olaf 2020 i 2021.

**Siart 57: Troseddau Casineb a adroddwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr**




Mae elfen hiliol yr ystadegau troseddau casineb yn gyson uwch na'r ardaloedd eraill. Mae cynnydd sylweddol mewn troseddau casineb yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol (56%) ac anabledd (63%) yn 2019/20 o gymharu â blynyddoedd eraill. Nid yw hyn yn cael ei ailadrodd yn yr ardaloedd eraill a allai ddangos bod hon yn duedd leol i Ben-y-bont ar Ogwr naill ai'n ymwneud â mwy o barodrwydd i adrodd, gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o'r drosedd neu mwy o achosion.

**Siart 58: Merthyr Tudful**




Mae data Merthyr Tudful yn dangos nifer uwch o droseddau casineb yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud â hiliol neu gyfeiriadedd rhywiol. Parhaodd y rhain i gynyddu yn 2020/21 gyda chynnydd o 60% mewn troseddau casineb a adroddwyd yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol. Cynyddodd y niferoedd ar gyfer troseddau casineb anabledd ychydig yn 2019/20 ond gostyngodd yn 2020/21. Gall y gostyngiad fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau Covid yn ogystal â phobl yn cysgodi ac felly ddim mewn cysylltiad â'r gymuned ehangach.

**Siart 59: Rhondda Cynon Taf**




Mae RhCT yn dangos cynnydd cyson mewn troseddau casineb yr adroddir amdanynt yn ymwneud â Hiliol, Anabledd a Chyfeiriadedd Rhywiol. Mae troseddau casineb yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol wedi cynyddu 26% rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae cynnydd bach hefyd mewn troseddau casineb sy'n ymwneud â thrawsrywedd.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn diffinio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fel:

*"Ymddygiad gan berson sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i berson sydd ddim yn yr un cartref â'r person."*

Gellir diffinio ASB fel ymddygiad gan unigolyn neu grŵp sy'n arwain at:

- Parti arall yn teimlo dan fygythiad **personol**;
- Creu **niwsans** cyhoeddus; neu
- Yn cael effaith andwyol ar yr **amgylchedd** ac felly'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd unigolyn neu'r gymuned gyfan.

Mae'r broses ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddefnyddir ar draws De Cymru yn seiliedig ar broses pedwar cam o atal, ymyrraeth gynnar a mesurau gorfodi ar gyfer cyflawnwyr a chymorth i ddioddefwyr. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy'r tîm partneriaeth diogelwch cymunedol lleol sy'n gwneud cyswllt cyntaf â'r troseddwr lle mae'n hysbys.

Digwyddiadau a gynhwysir yn y dadansoddiad isod yw'r rhai yr adroddir arnynt i'r Heddlu ac a ddilynir wedyn gan dimau aml-asiantaeth sy'n gysylltiedig â'r partneriaethau diogelwch cymunedol.

## Siart 60: Digwyddiadau ASB ddilynir wedyn




Mae'r data ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer 2020 i 2021 yn cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â thorri cyfyngiadau COVID 19 felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r siart troseddau misol uchod yn dangos yr effaith ar gyfraddau ar ôl mis Mawrth 2020.

Mae'r digwyddiadau y mae ein timau ASB wedi bod yn gweithio â nhw yn ystod y cyfnod hwn, heb gynnwys achosion o dorri amodau Covid wedi'u nodi yn Nhabl 30 isod.

| Blwyddyn | Nifer y digwyddiadau ASB | Nifer y digwyddiadau ASB | Nifer y digwyddiadau ASB | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| | PEN-Y-BONT AR OGWR | MERTHYR | RhCT | |
| **2018-19** | 1553 | 370 | 2294 | ASBIT |
| **2019-20** | 1828 | 567 | 2280 | ASBIT YNA NICHE O DACHWEDD |
| **2020-21** | 1727 | 795 | 2162 | NICHE |

Mewn blynyddoedd blaenorol mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn weddol gyson. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn adrodd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol ag eithrio achosion o dorri rheolau covid wedi lleihau yn ystod y cyfyngiadau symud ond ers hynny maent wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfyngiadau symud.

Ceir rhagor o fanylion am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y 3 awdurdod lleol yn siartiau 61 a 62 isod. Dylid nodi bod gan y tri awdurdod lleol boblogaethau gwahanol.






## Trais Difrifol

Disgrifir trais difrifol fel mathau penodol o droseddau fel lladdiad, troseddau cyllyll a throseddau gynnau, a meysydd troseddoldeb lle mae trais difrifol neu ei fygythiad yn gynhenid fel gangiau a delio cyffuriau llinellau cyffuriau.

### Siart 63: Trais Difrifol




| Date Range | Volume |
|---|---|
| Sept 18 - Aug 19 | 484 |
| Sept 19 - Aug 20 | 409 |
| Sept 20 - Aug 21 | 387 |

Rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 roedd 484 o droseddau a ddosbarthwyd fel trais difrifol.

### Siartiau 64 - 67 Trais Difrifol

Cam-drin a Thrais Domestig




Cam-drin a Thrais Annomestig









Ar gyfer trais domestig ac annomestig difrifol, mae gan Ferthyr gyfradd gyson uwch na'r ddwy ardal arall. Mae cyfraddau trais difrifol yn gyffredin â thrais arall ag anaf wedi gostwng i raddau helaeth mewn lleoliadau domestig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae cyfraddau wedi dechrau dychwelyd i lefelau cyn-covid mewn lleoliadau annomestig. Mae cyfraddau troseddau treisgar difrifol yng Nghwm Taf Morgannwg wedi aros yn is na chyfartaledd Cymru.

## Dyletswydd Trais Difrifol

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2019 cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'n cyflwyno dyletswydd trais difrifol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, asiantaethau cyfiawnder troseddol penodedig ac awdurdodau iechyd gydweithio i lunio dadansoddiad ar sail tystiolaeth o'r problemau cysylltiedig. gyda thrais difrifol mewn ardal ac yna cynhyrchu a gweithredu strategaeth yn manylu ar sut y byddant yn ymateb i'r materion penodol hynny. Diolch i'r drefn, mae achosion o drais difrifol yn isel ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg o gymharu â threfi a dinasoedd mwy yng Nghymru, ond bydd y ddyletswydd yn dal i fod yn berthnasol ac yn debygol o fod ar waith erbyn diwedd haf 2022.

# Iechyd

Mae gan iechyd ystod eang o elfennau i'w hystyried o ran pobl a chymunedau a gallai gael ei effeithio mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys ffyrdd o fyw, cydlyniant cymunedol, tai, cyflogaeth, yr amgylchedd a diwylliant. Mae'r wybodaeth a drafodwyd eisoes wedi ystyried iechyd yn y gwahanol gyd-destunau, ond mae yna elfennau eraill sydd hefyd yn effeithio ar iechyd unigolyn. Nodir y rhain yma.

## Unigrwydd

Mae gwahaniaeth rhwng unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Diffiniad a ddefnyddir yn eang o unigrwydd gan J. de Jong-Gierveld (1998) yw:

> *'Mae unigrwydd yn sefyllfa a brofir gan yr unigolyn lle mae diffyg annymunol neu annerbyniol o ran nifer neu (ansawdd) perthnasoedd penodol. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae nifer y perthnasoedd presennol yn llai na'r hyn a ystyrir yn ddymunol neu'n dderbyniol, yn ogystal â sefyllfaoedd lle nad yw'r agosatrwydd y mae rhywun yn ei ddymuno wedi'i wireddu.'*
> *(Gofal Cymdeithasol Cymru, Beth yw Unigrwydd)*

Mae'n bosibl nad yw nifer y bobl y mae unigolyn mewn cysylltiad â nhw yn dynodi ei fod yn unig neu ddim. Yn ôl y diffiniad uchod, gellir cysylltu unigrwydd ag ansawdd y berthynas sydd gan unigolyn â grŵp o ffrindiau/cydnabod yn hytrach na nifer y bobl y maent yn eu hadnabod. Gall arwahanrwydd cymdeithasol fod yn ddiffyg cyswllt cymdeithasol â phobl eraill.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Gallai pobl sy'n byw mewn cymunedau ddal i deimlo'n unig a gallai hyn ymwneud ag unrhyw oedran neu â statws yr unigolyn. Daw'r data isod o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac felly mae'n gynrychioliadol o garfan o bobl a gymerodd ran.  Maint y sampl ar gyfer y ddau siart oedd 11,400.

Mae'r siart isod yn rhoi syniad o'r gwahaniaeth yn ôl ystodau oedran:

**Siart 68: Canran y Bobl sy'n Teimlo'n Unig yn ôl Grŵp Oedran**



Mae canran y bobl iau rhwng 16 a 24 yn uwch na'r ystodau oedran eraill o ran teimlo'n unig ac weithiau'n teimlo'n unig ond mae'n is am beidio â bod yn unig.

Mae'r siart isod yn dangos y ganran ar gyfer amddifadedd materol:

**Siart 69: Canran Aelwydydd mewn amddifadedd materol**




Mae'n amlwg o'r siart uchod fod y rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol yn nodi eu bod yn fwy unig na'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol.

Mae unigrwydd yn cael effaith ar iechyd a lles person. Mae'n gysylltiedig â'r risg o iselder a marwolaethau cynnar yn ôl yr Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd (WCPP 2021).

Mae adroddiad WCPP hefyd yn nodi gwahaniaeth yn y math o unigrwydd - unigrwydd emosiynol (absenoldeb perthnasoedd agos), ac unigrwydd cymdeithasol (absenoldeb rhwydweithiau cymdeithasol ehangach). Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod angen deall pwy sy'n unig a sut mae'n effeithio ar y gwahanol grwpiau.

Cyhoeddodd yr Ymgyrch i Derfynu Unigrwydd adroddiad yn ymwneud â sut mae unigrwydd yn effeithio ar ystod o bobl, 'Alone in the Crowd: Loneliness and Diversity'. Mae'r adroddiad yn trafod sut mae unigrwydd yn effeithio ar amrywiaeth o bobl mewn gwahanol ffyrdd, gan gwmpasu amrywiaeth o bobl a materion sy'n cynnwys gofalwyr, rhywioldeb, hil a nam ar y synhwyrau. https://content.gulbenkian.pt/wp-content/uploads/sites/18/2014/05/01175456/27-05-14-CEL-Alone-in-the-crowd-loneliness-and-diversity.pdf

Yn ystod cyfyngiadau Covid roedd llawer o bobl wedi'u hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu. Roedd llawer o gynlluniau ar waith a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod hwn i gyfeillio a chefnogi pobl mewn gwahanol ffyrdd. Un enghraifft sy'n ymwneud â phobl hŷn yw menter sy'n cael ei chynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Lansiwyd **Cryfach Gyda'n Gilydd Pen-y-bont ar Ogwr**, menter Awen sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ddechrau'r cyfyngiadau symud Coronafeirws cyntaf i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl hŷn pan oedd y cyfyngiadau ar waith.

Roedd y prosiect yn annog y rhai oedd yn ymbellhau'n gymdeithasol neu'n hunan-ynysu gartref i fod yn fwy creadigol, ymgymryd â gweithgaredd newydd neu rannu diddordeb

presennol ag eraill yn yr un sefyllfa. Roedd y gweithgareddau a awgrymwyd yn cynnwys ysgrifennu creadigol, cadw dyddiadur, tynnu llun ac adrodd stori, dysgu hanfodion chwarae'r iwcalili, defnyddio offeryn cerdd arall i gyfrannu at berfformiad band rhithwir, bod yn rhan o gôr ar-lein, recordio atgofion melys a mwy. Amlygodd y fenter bopeth a oedd yn dda am gymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a bu'n gyfrwng llwyddiannus i godi ysbryd a chefnogi'r rhai oedd mewn perygl o fod yn ynysig.

Rhannwyd allbynnau'r prosiect hwn bob prynhawn dydd Gwener mewn sioe gylchgrawn a ddarlledwyd ar Facebook, yn cynnwys rhaglen wedi'i churadu o gyfweliadau gyda chyfranogwyr a sefydliadau cymunedol, ac a welwyd gan filoedd o bobl.

## Iechyd Cyffredinol

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) yn nodi iechyd cyffredinol y boblogaeth sy'n cael ei ddadansoddi yn ôl bwrdd iechyd ac awdurdod lleol. Mae'r siartiau isod yn dangos y ganran yn y gwahanol elfennau:

**Siart 70: Iechyd Cyffredinol – canran oedolion (16+) Blwyddyn 2018-19 a 2019-20**




Mae'r data'n dangos bod yna ganran uwch o lawer o'r boblogaeth sydd mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn. Mae lefelau uwch o'r rhai sy'n nodi bod ganddynt iechyd gwael neu wael iawn ar draws CTM o gymharu â Chymru. Mewn cymhariaeth mae'r lefelau hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Yn gyffredinol, nid yw'r gwahaniaeth canrannol yn sylweddol o gymharu â Chymru ym mhob categori.

Mae salwch yn cael ei gategoreiddio yn y siartiau isod fel iechyd cyffredinol, salwch a'r math o salwch:

**Siart 71: Salwch - Canran yr oedolion (16+) 2018-19 a 2019-20**




Mae salwch yn ardal CTM yn agos at gyfartaledd Cymru. Mae Merthyr Tudful yn dangos canran ychydig yn is gyda 2 neu fwy salwch hirsefydlog o gymharu â'r ardaloedd eraill sydd i gyd yn uwch.

**Siart 72: Math o Salwch - Canran yr oedolion (16+) 2018-19 a 2019-20**




Mae'r mathau o salwch a gofnodir yn dangos bod y gyfradd uchaf yn ymwneud â chwynion Cyhyrysgerbydol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ar draws ardal CTM. Mae'r gymhariaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn debyg gyda'r un ganran neu ychydig yn is ar draws pob math o salwch.

## Cefnogaeth ar gyfer Lles yn y Gymuned

Mae'r angen i gael dull cymunedol o gefnogi pobl o bob oed yn dod yn fwy amlwg. Defnyddir llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac eglwysi fwy a mwy i ddarparu gwasanaethau llesiant ar draws ystod o anghenion.

Mae presgripsiynu cymdeithasol a chydlynwyr cymunedol yn gysylltiadau allweddol i bobl gael mynediad at gyngor a chymorth i wella eu hiechyd a'u lles. Mae Canolfannau Cymunedol yn ganolbwynt ar gyfer cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor.

Mae Canolfannau Cymunedol yn bresennol ym mhob rhan o CTM ac yn dod â gwasanaethau gan yr awdurdod lleol, y sector iechyd a'r trydydd sector ynghyd i ddarparu cymorth i aelodau'r gymuned. Maent yn darparu amrywiaeth o gymorth gan gynnwys iechyd, cyflogaeth, cyngor ariannol yn ogystal â gweithgareddau i ddod â phobl ynghyd i ddatblygu sgiliau, dysgu a chymdeithasu. Nod yr holl elfennau hyn yw cefnogi iechyd corfforol a meddyliol y cymunedau, yng nghanol eu cymuned, fel eu bod yn hygyrch, yn lleol ac yn gallu annog cydlyniant cymunedol.

Nod strwythur canolfannau RhCT yw cefnogi'r canlynol:

- Un pwynt cyswllt o fewn cymunedau i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da.
- Llwyfan i ddatblygu gallu cymunedol a gwirfoddoli.
- Anogaeth i bobl gadw'n heini a chysylltu er mwyn oedi/rhwystro'r angen am wasanaethau statudol.
- Cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd meddwl, eu lles a'u hyder.
- Cyfleoedd i bobl wella neu gynnal eu hiechyd corfforol.
- Cyfleoedd i rieni a theuluoedd wella eu perthnasoedd a'u sgiliau magu plant.
- Cyfleoedd i bobl agored i niwed geisio cymorth a chael eu cyfeirio at wasanaethau eraill fel y bo'n briodol.
- Cyfleoedd i bobl ddysgu a datblygu sgiliau i gefnogi cyflogaeth.
- Darparu gofod cymunedol hyblyg i bobl gyfarfod, rhannu diddordebau a chymdeithasu, a thrwy hynny ymdrin ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae Canolfannau Cydnerthedd Cymunedol RhCT wedi'u lleoli yn:

- Aberpennar
- Glynrhedynog
- Pontypridd
- Porth

Mae Canolfannau Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u lleoli yn:

- Maesteg
- Y Pîl
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Sarn

Mae Canolfannau Cymunedol Merthyr Tudful wedi'u lleoli yn:

- Gurnos
- Twyn

### Cryfderau

- Mae datblygiad y Canolfannau Cymunedol ym mhob ardal yn darparu pwynt cymorth canolog o fewn y cymunedau. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn eang iawn gyda gwasanaethau'n cydweithio i gefnogi'r cymunedau.
- Mae'r cymorth a ddarparwyd yn ystod cyfyngiadau symud Covid i leihau unigedd yn y cymunedau yn gryfder, ac mae'r prosiect ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Cryfach Gyda'n

Gilydd Pen-y-bont ar Ogwr) yn enghraifft o weithgareddau sy'n cael eu darparu mewn gwahanol ffyrdd i gefnogi iechyd meddwl a llesiant y rhai a oedd yn ynysu.

### Cyfleoedd

- Bydd datblygu ar y mentrau a fu mor fuddiol i'r gymuned yn ystod y cyfyngiadau Covid yn gyfle i helpu pobl i gefnogi ei gilydd. Mae'n ymddangos bod pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau sy'n gallu eu cefnogi mewn rhai agweddau, yn enwedig lle mae gwasanaethau awdurdodau lleol a gwirfoddol wedi cadw mewn cysylltiad â'r rhai a oedd yn ynysu.

- Mae unigrwydd yn cael ei brofi gan bob oed. Amlygwyd hyn wrth ymgysylltu â phobl ifanc ac oedolion oedd yn nodi bod Covid wedi bod yn anodd oherwydd nad oeddent wedi gallu gweld teulu a ffrindiau. Roedd effaith cyfyngiadau Covid yn fwy anodd i rai fel y nodwyd gan un ymatebwr: *Cymdeithasu. Mae wedi bod yn 2 flynedd anodd iawn heb allu gweld teulu a ffrindiau yn iawn felly rwy'n meddwl bod angen i ni fynd yn ôl i allu gwneud hynny. Rwy'n gwybod bod fy iechyd meddwl wedi dioddef ac rwyf wedi cael adegau pan oeddwn yn teimlo'n eithaf unig.* Mae cyfleoedd i gefnogi'r rhai sy'n teimlo'n unig gan fod yr adborth wedi nodi bod rhai yn ymgymryd â gweithgareddau i osgoi unigedd. Ond roedd rhai yn profi unigrwydd ac arwahanrwydd yn fwy gyda'r nos ac ar benwythnosau pan oedd trafnidiaeth yn gyfyngedig, a phan nad oeddent yn gallu teithio i gwrdd â phobl eraill na mynd i weithgareddau.

## Crynodeb

Mae llawer o ffactorau sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r piler cymdeithasol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol, cydlyniant cymunedol a bywyd teuluol, a sut maent yn cysylltu â'r Nodau Llesiant.

Gellir mesur iechyd a lles pobl ar draws ein rhanbarth m ewn sawl ffordd. Gwyddom ein bod yn parhau i weld heriau o ran sut y caiff pobl eu cefnogi i fyw bywydau iachach a bod y cyd-destunau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol yn benderfynyddion sylweddol yn ein llwyddiant, ac mae hyn yr un mor wir am oedolion ag y mae ar gyfer plant. Gwyddom hefyd fod ein poblogaeth yn rhoi gwerth ar gymuned, a oedd yn amlwg yn ystod y pandemig, a phwysigrwydd y cartref.

Mae lles corfforol a meddyliol yn bwysig, ac er ein bod yn parhau i wynebu heriau wrth gefnogi pobl i fod yn iachach, mae effaith y pandemig ar ein lles meddyliol yn ffactor newydd a fydd yn ganolog i'n gwaith. Mae'r sgorau lles meddyliol yn awgrymu gwelliant ym mhrofiadau pobl er yn anecdotaidd bydd cyfnod diweddar y pandemig wedi effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd, yn enwedig y rhai sydd wedi cael profiad uniongyrchol o Covid, wedi dioddef yn ariannol neu wedi bod yn ddi-waith. Yn ogystal â Covid, profodd llifogydd diweddar wydnwch llawer o gymunedau. Y tebygrwydd yw y bydd tywydd eithafol o dan y newid yn yr hinsawdd yn arwain, er enghraifft, at fwy o lifogydd, gydag effeithiau economaidd ac ar iechyd.

Mae teuluoedd yn y rhanbarth yn parhau i gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth. Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar mewn amrywiaeth o fformatau yn amlwg yn allweddol ac wedi bod yn destun adolygu a mireinio i ddarparu nifer o ymyriadau gwahanol i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.

Mae angen cefnogi nifer fwy o bobl i fyw bywydau iachach os ydym am fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra ymhlith oedolion a phlant. Er bod cynnydd wedi bod yn y niferoedd

sy'n gwerthfawrogi'r awyr agored, rydym yn gwybod bod gan ein hadnoddau naturiol y sgôp i ni wneud mwy i hybu ffyrdd iachach o fyw.

Mae cysylltiadau clir rhwng gordewdra a lles economaidd. Mae'r cyfraddau'n uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae lefelau gordewdra ymhlith oedolion yn cynyddu gyda mwy na 60% o oedolion dros eu pwysau, gyda 24% o'r rheini'n ordew, sy'n awgrymu os bydd y duedd yn parhau y bydd y gyfradd yn parhau i gynyddu i 64% erbyn 2030. Mae'r effaith bosibl ar gyfraddau diabetes er enghraifft a heriau iechyd parhaus eraill yn risg sylweddol i iechyd y boblogaeth, a bydd cyfraddau afiechyd yn effeithio ar yr economi a'r galw am wasanaethau lleol.

Mae ein data a'n dadansoddiadau'n dangos bod pethau cadarnhaol i ni adeiladu arnynt a bod modd gwneud mwy i ddefnyddio effaith ein gwaith ar draws y pileri wrth i ni barhau â'n huchelgais i'r rhanbarth fod yn lle diogel, pleserus ac iach i fyw ynddo.

# Y Golofn Economaidd

### Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae gweithgarwch economaidd, ac anweithgarwch y boblogaeth o oedolion, ynghyd â phroffil o gyflogwyr a chyflogau yn rhoi darlun ar gyfer y rhanbarth ac yn caniatáu inni gymharu o fewn y rhanbarth ac yn ehangach â'r darlun ar draws Cymru.

Yn ôl adroddiad Llesiant Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Mae marchnad lafur Cymru yn parhau i berfformio'n gryf, gyda'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn culhau mewn termau hanesyddol.
- Fel ar draws y DU, mae'r twf yn yr economi ac mewn incwm real wedi bod yn araf ers dirwasgiad 2008, gan adlewyrchu twf cynhyrchiant gwan. Dros y tymor hwy, er 1999, mae Cymru wedi cadw i fyny â'r DU yn fras, ond mae ei pherfformiad yn parhau i fod yn wan o gymharu â llawer o rannau eraill o'r DU.
- Mae'r data diweddaraf yn dangos bod y bwlchcyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng i 4.3%, sef y lefel isaf erioed. Mae'r data diweddaraf hefyd yn dangos bod y bwlch cyflog ethnigrwydd wedi lleihau. Ar gyfartaledd, mae gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ennill tua 1.4% yn llai yr awr na gweithwyr gwyn Prydeinig, er bod gwahaniaethau mawr ymhlith gwahanol leiafrifoedd ethnig.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

## Cyflogaeth ac Incwm

Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn cofnodi enillion amcangyfrifedig yn flynyddol. Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrifon ar gyfer ardal CTM:

Tabl 31: Tâl wythnosol gweithwyr amser llawn (gros) – Ionawr 2022

| Ardal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 552.5 | 528.2 | 535.0 | 577.7 |
| **Merthyr Tudful** | 440.6 | 502.8 | 520.7 | 525.1 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 521.6 | 509.8 | 535.8 | 560.3 |
| **Y Deyrnas Unedig** | 568.3 | 585.2 | 585.7 | 610.7 |
| **Cymru** | 518.5 | 540.0 | 547.4 | 570.6 |

Ffynhonnell: Nomis Data downloads - Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Mae'r niferoedd uchod yn dangos bod y tâl wythnosol yn cynyddu ym mhob un o ardaloedd CTM. Fodd bynnag, mae'r tâl wythnosol ledled Cymru yn is na'r DU. Mae RhCT a Merthyr Tudful hefyd yn is na chyfartaledd Cymru.

Yn fras, mae'r diwydiannau y mae pobl yn ardal CTM yn gweithio ynddynt yn debyg i Gymru gyfan. Mae siart 73 isod yn dangos y niferoedd yn y diwydiannau gwahanol yn ôl ardal awdurdod lleol:




Mae cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer yr ardal ar ei huchaf yn y categori Gweinyddiaeth Gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd. Mae'r categori hwn yn ymgorffori 'Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol' sydd â'r nifer uchaf a gyflogir yn yr ardal. Mae'r isaf mewn Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota.

Bydd y sefyllfa bresennol o ran diffyg staff yn ymuno â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn her yn y dyfodol agos. Er bod trafodaethau o fewn y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellir datrys hyn, mae'r effaith ar y ddarpariaeth yn debygol o gael ei gweld yn y tymor byr i ganolig. Yn ôl proffiliau gweithlu a gasglwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru mae mwyafrif y gweithlu a gyflogir mewn gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn weithwyr gofal, swyddogion gofal neu gynorthwywyr gofal gyda 64% yn cael eu cofnodi yn 2019 er bod hyn wedi cynyddu o 62% yn 2018. Oedran y rhai a gyflogir mewn gwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru yw rhwng 41 a 60 oed. Bydd hyn yn her gan y bydd gweithlu sy'n heneiddio yn golygu'r angen i ddenu mwy i gymryd lle'r rhai sy'n gadael yn y 10 i 15 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, yn 2019 mae'r data'n dangos bod nifer uwch o staff wedi dod i mewn i'r gwasanaethau nag oedd yn gadael fel y gwelir yn siart 74 isod (SCW 2019).

**Figure 4: Number of staff who were recruited or left regulated services by local authority, 2019[10]**




Mae'r siart yn dangos bod RhCT wedi recriwtio dros 18% o staff y gwasanaethau a reoleiddir yn ystod y flwyddyn o gymharu â 0.2% a gafodd eu recriwtio ym Merthyr Tudful. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn nodi na roddwyd gwybod am unrhyw swyddi gwag yn RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr na Merthyr Tudful. Mae hyn mewn cyferbyniad â 68% o swyddi gwag ledled Cymru.

Bu rhywfaint o dystiolaeth o gyfraddau is o gofrestriadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol o addysg bellach i addysg uwch ar gyfer 2021/22. Yn anecdotaidd, mae'r rhesymau am y nifer is yn debygol o fod yn ymwneud â phandemig Covid a'r effaith ar weithwyr, yn ogystal â dull gwahanol o ddyfarnu canlyniadau TGAU sy'n golygu y gallai rhai myfyrwyr fod wedi cael canlyniadau uwch na'r disgwyl ac wedi aros yn yr ysgol i astudio at Safon UG. Nid yw'r niferoedd isel wedi bod ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol yn unig ac maent wedi bod ar draws nifer o feysydd.

Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 2020 yn ymwneud â phobl mewn cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, mae nifer uwch o fenywod yn y 'galwedigaethau proffesiynol'. Mae galwedigaethau proffesiynol yn ymwneud â galwedigaethau sy'n gofyn am 'radd neu gymhwyster cyfatebol, gyda rhai galwedigaethau yn gofyn am gymwysterau ôl-raddedig a/neu gyfnod ffurfiol o hyfforddiant cysylltiedig â phrofiad' (Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020). Cofnodir bod mwy o ddynion yn y 'crefftau medrus' yn RhCT a Merthyr Tudful, ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae  mwy o ddynion yn y galwedigaethau 'elfennol'.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y rhai sy'n hunangyflogedig a'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n rhan amser.

**Siart 75: Statws unigolion cyflogedig 30 Mehefin 2021**




Mae canran y menywod sydd mewn cyflogaeth ran amser yn uwch na'r dynion. Mae canran y menywod sy'n hunangyflogedig hefyd yn is na'r dynion.

Mae lefel y menywod sy'n gweithio'n rhan amser hefyd yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ebrill 2019) fel y dangosir isod. Mae hyn oherwydd bod lefel cyflog gweithwyr rhan amser yn is yr awr na chyflog amser llawn ac mae canran uwch o fenywod yn gweithio'n rhan amser o gymharu â dynion fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 32: Cymhariaeth yn y bwlch cyflog rhwng Dynion a Menywod

| Tâl yn ôl yr awr heb gynnwys goramser, canolrif, Ebrill 2018 (cyfran y gweithwyr) | Dynion | Menywod | Bwlch cyflog |
|---|---|---|---|
| **Amser llawn** | £14.81<br>(85% o ddynion) | £13.54<br>(58% o fenywod) | +8.6% |
| **Rhan amser** | £9.07<br>(15% o ddynion) | £9.47<br>(42% o fenywod) | -4.4% |
| **Pawb** | £14.00<br>(100% o ddynion) | £11.50<br>(100% o fenywod) | +17.9% |

Bydd gofal plant yn broblem i rai teuluoedd lle nad oes ganddynt deulu yn byw yn lleol i'w cynorthwyo i ofalu amdanynt. Gallai cost gofal plant hefyd fod yn afresymol i rai teuluoedd ar incwm isel. Ymdrinnir â'r elfen hon mewn holiaduron sy'n ymwneud â'r asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gynhyrchir o leiaf bob pum mlynedd. Cynhyrchwyd yr asesiadau diwethaf yn 2017. Mae asesiadau newydd a chyfredol yn cael eu datblygu ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2022 a byddant ar gael ym mis Mehefin 2022. Bydd y rhain yn helpu i roi darlun mwy diweddar o ddarpariaeth gofal plant a'r hyn sy'n atal/rhwystro rhieni rhag defnyddio gofal plant yn ardal CTM.

Fel y trafodir isod mae cyfraddau **Anweithgarwch Economaidd** yn cynyddu a bydd hyn yn effeithio ar yr economi leol. Gyda nifer uwch o bobl ddim yn gweithio neu ar incwm isel fe fydd effaith ar yr economi leol oherwydd lefelau gwariant is.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) yn darparu rhestr o ardaloedd bach yng Nghymru mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae'r rhestr yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn trefn sy'n mynd o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1909 (lleiaf difreintiedig) gyda sgôr cyffredinol a gwahanol fathau o amddifadedd fel y rhestrir isod:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad i Wasanaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Amgylchedd Ffisegol
- Tai

Ystyrir mai'r 10% uchaf yw'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Yn ardal CTM mae gan RhCT 28, mae gan Ferthyr Tudful 8 ac mae gan Ben-y-bont ar Ogwr 7 ardal. Mae rhai ardaloedd wedi'u nodi fel ardaloedd o 'Amddifadedd Dwfn'. Mae'r rhain yn ardaloedd sydd wedi aros o fewn y 50 uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig – sy'n cyfateb yn fras i'r 2.6% uchaf – ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y pum cyhoeddiad diwethaf o safleoedd MALIC/WIMD.

Tabl 33: LSOAs mewn Amddifadedd Dwfn

| | | 2019 | 2014 | 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | | | |
| | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 5 | 6 | 8 |
| **Rhondda Cynon Taf** | | | | |
| | Penrhiwceiber 1 | 6 | 15 | 5 |
| | Abercynon 2 | 33 | 37 | 30 |
| | Pen-y-waun 2 | 15 | 9 | 15 |
| | Tylorstown 1 | 4 | 5 | 10 |
| **Merthyr Tudful** | | | | |
| | Bro Merthyr 2 | 34 | 8 | 17 |
| | Penydarren 1 | 7 | 14 | 4 |

Mae mwyafrif y rhai sydd yn y 10% uchaf yn gyffredinol hefyd yn yr un safle ar gyfer incwm, cyflogaeth ac addysg. Mae cysylltiad tebygol rhwng yr elfennau hyn gan fod safon addysg dda yn fwy tebygol o arwain at gyflogaeth a chyflog teilwng.

Cyfeirir at y data ardaloedd is drwy gydol yr adroddiad ac mae data ategol yn ymwneud â phob un o'r saith ardal gymunedol ar gael yn y gadwrfa ddata. Mae hyn yn rhoi dadansoddiad ar draws yr holl ddangosyddion.

## Incwm Isel Absoliwt

Mae'r data'n ymwneud â phlant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae data ar gyfer 2019/20 yn ddata dros dro ac yn destun adolygiad mewn datganiadau dilynol.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae incwm isel absoliwt yn dangos bod incwm teulu yn is na 60% o ganolrif incwm 2010/11 gyda mesurau incwm gros cyn costau tai. Mae nifer cynyddol o aelwydydd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel absoliwt fel y gwelir yn y tabl isod:

Tabl 34: Incwm Isel Absoliwt

| | Statws | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **Mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 2886 | 2386 | 2700 |
| | **Ddim mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 1474 | 1681 | 1496 |
| | **Cyfanswm** | 4360 | 4067 | 4196 |
| **Merthyr Tudful** | **Mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 1460 | 1249 | 1304 |
| | **Ddim mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 918 | 1033 | 843 |
| | **Cyfanswm** | 2378 | 2282 | 2147 |
| **Rhondda Cynon Taf** | **Mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 5604 | 4687 | 5251 |
| | **Ddim mewn teuluoedd sy'n gweithio** | 3244 | 3872 | 3254 |
| | **Cyfanswm** | 8848 | 8559 | 8505 |

Ffynhonnell: Stats-Xplore

Nodyn: Diffinnir statws teulu "mewn gwaith" fel teulu sydd â chyfnod cronedig o 26 wythnos o leiaf o waith cyflogedig neu hunangyflogaeth o fewn y flwyddyn dreth 52 wythnos.

Mae'r data'n dangos bod teuluoedd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel absoliwt yn uwch mewn niferoedd na'r rhai nad ydynt mewn gwaith. Mae'r niferoedd yn dangos bod y rhai sy'n gweithio yn dal yn debygol o gael trafferthion ariannol er eu bod yn gweithio. Gostyngodd y niferoedd ychydig yn 2018/19 ond maent wedi cynyddu eto yn 2019/20. Gallai hyn fod oherwydd effaith Covid a phobl nad ydynt yn gallu gweithio neu ar ffyrlo.

Mae data incwm isel absoliwt hefyd yn rhoi data ar gyfer ardaloedd wardiau, aelwydydd un rhiant neu gwpl. Mae'r amrediad data yn fawr ac felly dangosir ciplun isod gan gymryd y cyfansymiau ar gyfer pob ardal yn ogystal â'r wardiau gyda'r lefelau uchaf (*mae dadansoddiad llawn o'r ardaloedd ar gael yn y gadwrfa ddata*).

Tabl 35: Cyfanswm y niferoedd sy'n byw mewn Incwm Isel Absoliwt – RhCT

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p*) |
|---|---|---|---|
| **Unig riant** | 3980 | 4459 | 4151 |
| **Cwpl** | 4871 | 4096 | 4357 |
| **Cyfanswm** | 8851 | 8555 | 8508 |

Tabl 36: Wardiau gyda'r nifer uchaf yn byw mewn Incwm Isel Absoliwt yn RhCT

| Ward | Math o Deulu | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|---|
| **Treherbert** | **Unig riant** | 116 | 114 | 102 |
| | **Cwpl** | 183 | 154 | 184 |
| | **Cyfanswm** | 299 | 268 | 286 |
| **Treorci** | **Unig riant** | 130 | 167 | 140 |
| | **Cwpl** | 196 | 143 | 134 |
| | **Cyfanswm** | 326 | 310304 | 274 |
| **Tylorstown** | **Unig riant** | 137 | 170 | 150 |
| | **Cwpl** | 138 | 132 | 132 |
| | **Cyfanswm** | 275 | 302 | 282 |
| **Ystrad** | **Unig riant** | 111 | 152 | 145 |
| | **Cwpl** | 170 | 155 | 147 |
| | **Cyfanswm** | 281 | 307 | 292 |

Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau - Stats-Xplore

Mae'r niferoedd cyffredinol ar gyfer ardal RhCT yn dangos bod nifer y teuluoedd sy'n byw ar incwm isel absoliwt yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ond mae nifer uwch o barau yn byw ar incwm isel absoliwt yn 2017/18 a 2019/20 o gymharu ag unig rieni. Mae'r ardaloedd sydd â'r nifer uchaf o deuluoedd yn byw ar incwm isel absoliwt i gyd yn ardal clwstwr y Rhondda.

Tabl 37: Cyfanswm y niferoedd sy'n byw mewn Incwm Isel Absoliwt – Pen-y-bont ar Ogwr

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|
| **Unig riant** | 1899 | 1927 | 1983 |
| **Cwpl** | 2462 | 2141 | 2214 |
| **Cyfanswm** | 4361 | 4068 | 4197 |

Tabl 38: Wardiau gyda'r nifer uchaf yn byw mewn Incwm Isel Absoliwt ym Mhen-y-bont ar Ogwr

| Ward | Math o Deulu | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|---|
| **Bracla** | **Unig riant** | 170 | 146 | 168 |
| | **Cwpl** | 211 | 154 | 176 |
| | **Cyfanswm** | 383 | 300 | 344 |
| **Caerau** | **Unig riant** | 140 | 168 | 156 |
| | **Cwpl** | 177 | 172 | 167 |
| | **Cyfanswm** | 317 | 340 | 323 |
| **Corneli** | **Unig riant** | 131 | 146 | 129 |
| | **Cwpl** | 200 | 144 | 166 |
| | **Cyfanswm** | 331 | 290 | 295 |

Tabl 39: Cyfanswm y niferoedd sy'n byw mewn Incwm Isel Absoliwt – Merthyr Tudful

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|
| **Unig riant** | 1124 | 1173 | 1096 |
| **Cwpl** | 1257 | 1110 | 1051 |
| **Cyfanswm** | 2381 | 2283 | 2147 |

Tabl 40: Wardiau gyda'r nifer uchaf yn byw mewn Incwm Isel Absoliwt ym Merthyr Tudful

| Ward | Math o Deulu | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 (p) |
|---|---|---|---|---|
| **Gurnos** | **Unig riant** | 156 | 213 | 164 |
| | **Cwpl** | 182 | 139 | 137 |
| | **Cyfanswm** | 338 | 352 | 301 |
| **Penydarren** | **Unig riant** | 157 | 153 | 146 |
| | **Cwpl** | 164 | 118 | 125 |
| | **Cyfanswm** | 321 | 271 | 271 |
| **Cyfarthfa** | **Unig riant** | 134 | 124 | 125 |
| | **Cwpl** | 138 | 124 | 131 |
| | **Cyfanswm** | 272 | 248 | 256 |

Mae'n debygol y bydd effaith bellach ar hyn yn y tymor byr gyda'r gostyngiad mewn taliadau Credyd Cynhwysol a'r cynllun ffyrlo yn dod i ben. Mae'n bosibl y bydd effaith ar nifer y bobl sy'n cadw eu swyddi unwaith y daw cynllun y Llywodraeth i ben. Ond yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ymddengys mai'r duedd yw bod y gyfradd ddiweithdra ar hyn o bryd yn gostwng 0.5% ar gyfer y chwarter presennol a bod cyflogaeth yn cynyddu 0.4%. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y cynnydd mewn cyflogaeth yn cael ei ysgogi gan waith rhan-amser yr ystyrir ei fod yn cynyddu yn dilyn gostyngiad ar ddechrau'r pandemig, a chynnydd mewn contractau dim oriau yn bennaf gyda phobl ifanc. Felly, er bod mwy o bobl yn gweithio

efallai nad yw o reidrwydd yn golygu eu bod yn gallu fforddio cymaint oherwydd bod cyflogau is yn cael eu talu am waith rhan amser fel y nodir uchod.

## Defnyddio Banciau Bwyd

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Bu cynnydd yn y defnydd o Fanciau Bwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r siart isod yn dangos y data gan Ymddiriedolaeth Trussel:

**Siart 76: Cyfanswm nifer y parseli a ddosbarthwyd**




| | Pen y Bont ar Ogwr | Merthyr Tudful | Rhondda Cynon Taf |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 5,525 | 5,218 | 15,269 |
| 2019/20 | 6,626 | 3,623 | 12,788 |

Er y cydnabyddir y bydd yna fanciau bwyd lleol eraill yn gweithredu yn ardal CTM mae'r niferoedd uchod yn dangos y bu cynnydd yn RhCT a Merthyr Tudful dros y 2 flynedd ddiwethaf. Ond gallai rhywfaint o hyn fod o ganlyniad i effaith Covid gyda phobl naill ai'n colli eu hincwm yn gyfan gwbl neu ar lai o incwm e.e. oherwydd ffyrlo. Tra bydd y defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu mae'r tebygolrwydd y bydd pobl yn gallu fforddio gwario yn yr economi leol yn lleihau.

## Aelwydydd Sengl

*Yr Her: Cefnogi aelwydydd sengl gyda phlant i mewn i waith a darparu gofal plant fforddiadwy*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae rhagamcanion aelwydydd rhwng 2018 a 2043 yn dangos y bydd cynnydd mewn aelwydydd gydag 1 oedolyn â phlant a gostyngiad mewn aelwydydd gyda 2 oedolyn â phlant. Rhagwelir hefyd y bydd cynnydd mewn aelwydydd gydag 1 unigolyn ynddynt.

Bydd hyn yn effeithio ar y math o dai sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol pobl yr ardal. Gallai hefyd effeithio ar y nifer sydd angen cymorth ariannol gyda'r cynnydd mewn aelwydydd gydag 1 oedolyn gyda phlant. Mae gwybodaeth am aelwydydd i'w gweld ar y ddolen ganlynol
https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Households/Projections/Local-Authority/2018-based/householdprojections-by-localauthority-householdtype-year

Mae'r tebygolrwydd y bydd y rhai sy'n sengl am wahanol resymau ac yn byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn uwch na'r rhai sy'n byw fel cwpl fel y gwelir yn y tabl isod:

Tabl 41: Dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig fesul ardal amddifadedd - Statws Priodasol

| | **Sengl** | **Priod / Partneriaeth Sifil** | **Wedi Ysgaru / Wedi Gwahanu / Partneriaeth Sifil wedi'i Diddymu** | **Gweddw / Partneriaeth Sifil yn Goroesi** |
|---|---|---|---|---|
| Y 10% ACEHI/LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 191) (2) | 12.1 | 5.8 | 10.2 | 7.7 |
| Y 10-20% ACEHI/LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 192 – 382) (3) | 10.2 | 7.7 | 10.8 | 9.3 |
| Yr 20-30% ACEHI/LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 383 - 573) (4) | 10.3 | 8.2 | 11.2 | 9.1 |
| Y 30-50% ACEHI/LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 574 - 955) (5) | 21.6 | 19.1 | 20.4 | 21.6 |
| Y 50% ACEHI/LSOA lleiaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 956-1909) (6) | 45.8 | 59.4 | 47.5 | 52.4 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae'n debygol y bydd her wrth gefnogi'r aelwydydd sengl hynny â phlant i barhau mewn gwaith neu i gael gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu am blant. Mae'n bosibl y bydd angen i rieni chwilio am waith rhan amser sydd, fel y trafodwyd yn flaenorol, ar gyflog is ac efallai y bydd angen i'r rhai sy'n gweithio'n amser llawn dalu am ofal plant a allai fod yn afresymol i rai.

Bydd hyn yn lleihau eu hincwm, oni bai bod cynllun talebau gofal plant neu gymorth ar gael lle maent yn gweithio. Gallai rhai fod yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant am ddim, a fydd yn rhyw fath o ryddhad ond eto bydd angen i hyn gyd-fynd ag oriau gwaith. Mae'n debygol hefyd y bydd cynnydd yn nifer y plant sy'n cael PYDd ar gyfer y rheini mewn teuluoedd incwm isel. Fel y nodir isod mae lefelau cyrhaeddiad y rhai sy'n cael PYDd yn is na'r rhai nad ydynt yn gymwys. Gallai hyn effeithio ar eu dyfodol a thrwy hynny greu cylch tlodi sy'n parhau drwy'r cenedlaethau.

## Addysg a Chyflogaeth

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae data lleol gan Gonsortiwm Canolbarth y De sy’n ymwneud â'r elfen hon yn gyfyngedig ac felly nid yw wedi'i gynnwys yma.

### Lefelau Cyrhaeddiad a Chymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim

Mae’r siart isod yn dangos canran y disgyblion sydd wedi cyflawni cymwysterau lefel 2.

**Siart 77: Canran y disgyblion, cyfnod allweddol 4, yn cyrraedd Lefel 2 2018/19**




Dengys y data fod y lefelau ym mhob ardal yn is na chyfartaledd Cymru yn ogystal â bod yn is ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru. Mae awdurdodau cyfagos yng Nghaerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen hefyd yn dangos canran is na’r cyfartaledd yn cyflawni lefel 2.

Mae’r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy’n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a’r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau. Mae hyn i’w weld yn y tabl isod:

Tabl 42: Cofrestriadau a chanlyniadau TGAU disgyblion blwyddyn 11 yn ôl statws PYDd ym mhob pwnc

| **Cymhwysedd i gael PYDd** | **Blwyddyn** | **Nifer y cofrestriadau** | **Canran y cofrestriadau a lwyddodd gyda gradd:** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| **Cymwys ar gyfer PYDd** | 2015/16 | 29,844 | 2.1 | 5.9 | 13.0 | 29.0 | 18.9 | 13.1 | 9.0 | 5.6 |
| | 2016/17 | 35,624 | 1.9 | 5.0 | 12.7 | 24.9 | 17.9 | 14.4 | 9.7 | 7.6 |
| | 2017/18 | 35,548 | 2.1 | 5.0 | 12.5 | 23.4 | 17.6 | 14.2 | 10.4 | 7.7 |
| | 2018/19 | 37,443 | 1.8 | 4.8 | 12.5 | 21.6 | 17.6 | 14.5 | 10.8 | 8.4 |
| | 2019/20 | 39,244 | 3.7 | 7.0 | 16.9 | 26.0 | 18.0 | 12.2 | 7.9 | 6.3 |
| | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ddim yn gymwys i gael PYDd** | 2015/16 | 214,819 | 7.3 | 15.3 | 22.5 | 29.8 | 13.2 | 6.2 | 3.3 | 1.6 |
| | 2016/17 | 238,180 | 7.5 | 14.2 | 22.8 | 27.2 | 13.0 | 7.6 | 3.9 | 2.3 |
| | 2017/18 | 236,988 | 7.6 | 14.1 | 23.2 | 26.0 | 13.0 | 7.6 | 4.1 | 2.6 |
| | 2018/19 | 245,130 | 7.6 | 13.9 | 22.8 | 24.6 | 13.5 | 8.1 | 4.5 | 2.8 |
| | 2019/20 | 245,782 | 12.4 | 16.0 | 24.6 | 25.3 | 11.5 | 5.5 | 2.7 | 1.6 |

Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru

Mae’r data ar gyfer 2019/20 yn dangos bod y bwlch wedi cynyddu ar gyfer graddau A*-A ond wedi gostwng ar gyfer graddau A-C. Oherwydd pandemig Covid dyfarnwyd graddau i’r disgyblion heb iddynt orfod sefyll arholiadau a allai fod wedi gwneud gwahaniaeth i’r graddau ar gyfer 2019/20. Roedd y graddau'n seiliedig ar 'amcangyfrif proffesiynol gorau'r athro o'r hyn y byddai'r disgybl yn ei gyflawni pe bai wedi gallu sefyll arholiad'.

Ehangodd y bwlch rhwng disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYDd a disgyblion oedd yn gymwys i gael PYDd y dyfarnwyd graddau A*-C iddynt rhwng 2015/16 a 2018/19, o 24.9 pwynt canran yn 2015/16 i 28.1 pwynt canran yn 2018/19.

Mae disgyblion ar PYDd yn ardal CTM yn dangos bod gan rai ysgolion cynradd sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig dros 40% o'r plant sy'n gymwys i gael PYDd.

Dangosir oedolion heb unrhyw gymwysterau isod; daw’r data o Malc/WIMD 2014 ac felly nid dyma'r wybodaeth ddiweddaraf ond mae'n rhoi syniad. Gellir cymharu hyn â data a gafodd ei ryddhau ar gyfer y cyfrifiad diweddaraf.

**Siart 78: Oedolion heb unrhyw gymwysterau (Malc/WIMD 2014)**




Mae’r data’n dangos bod gan Ferthyr Tudful y lefel uchaf o oedolion heb unrhyw gymwysterau ar draws pob oedran. Mae’r lefel uwch yn gyffredinol yn yr ystod oedran 35 i 49.

## Gweithgarwch Economaidd

Dangosir data sy'n ymwneud â'r rhai sy'n economaidd weithgar isod.

**Siart 79: Cyfradd Gweithgarwch Economaidd 16 i 64 oed**




Mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod gan Gymru gyfradd is na gweddill y Deyrnas Unedig. Mae ardal De-ddwyrain Cymru wedi gweld cynnydd mewn gweithgaredd economaidd rhwng 2018 a 2020 gyda gostyngiad eto yn 2021. Mae'r gostyngiad yn debygol o fod oherwydd effaith Covid ac mae'r un peth yn wir ym mhob ardal heblaw Caerffili a gynyddodd ychydig. Mae Merthyr Tudful yn dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgaredd economaidd yn 2018 gyda RhCT hefyd yn dangos cynnydd o gymharu â 2017.

Dangosir y cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi'u dadansoddi i ystodau oedran ar gyfer ardal CTM isod:

Tabl 43: Cyfradd gweithgaredd economaidd: Ystod oedran 16 i 64

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 77.8 | 78.2 | 78.5 | 78.9 | 78.5 |
| **Cymru** | 74.9 | 76.5 | 76.7 | 76.6 | 75.2 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 73.4 | 75.4 | 74 | 78.6 | 71.9 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 74 | 75.3 | 76.4 | 73.2 | 69.3 |
| **Merthyr Tudful** | 74 | 78.5 | 77.1 | 72.6 | 70.2 |

Tabl 44: Cyfradd gweithgaredd economaidd: Ystod oedran 16 i 24

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 61.6 | 61.3 | 61 | 61.1 | 59.4 |
| **Cymru** | 57.1 | 62.7 | 61.7 | 60.5 | 55.4 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 60.9 | 64.9 | 69.6 | 65.4 | 42.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 64 | 62.2 | 64.2 | 55.2 | 45.8 |
| **Merthyr Tudful** | 67 | 75.1 | 70.9 | 59.5 | 55.6 |

Tabl 45: Cyfradd gweithgaredd economaidd: Ystod oedran 25 i 49

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 86.1 | 86.6 | 87 | 87.3 | 87.4 |
| **Cymru** | 85.1 | 85.7 | 86.2 | 85.9 | 85.4 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 84.6 | 83.9 | 82.7 | 86.8 | 87.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 83.8 | 83.5 | 85.2 | 83.9 | 78.1 |
| **Merthyr Tudful** | 83 | 85.7 | 85.1 | 83 | 82.3 |

Tabl 46: Cyfradd gweithgaredd economaidd: Ystod oedran 50 i 64

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 72.5 | 73.2 | 73.8 | 74.4 | 73.8 |
| **Cymru** | 69.2 | 70.2 | 70.5 | 71.8 | 71.3 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 61.8 | 67.5 | 63.3 | 73.3 | 66.1 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 63.2 | 69.3 | 69.5 | 65.8 | 66.5 |
| **Merthyr Tudful** | 63 | 69.2 | 65.4 | 62.6 | 60.5 |

### Cyflogaeth Pobl Anabl

Tabl 47: Gweithgarwch economaidd yn ôl statws anabl unigolion 16 - 64 oed yn 2021

| | Cyfradd gweithgaredd economaidd | Cyfradd cyflogaeth | Cyfradd anweithgarwch economaidd |
|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 57.5 | 52.6 | 42.5 |
| **Cymru** | 52 | 46.9 | 48 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 49.3 | 44.7 | 50.7 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 53 | 50.4 | 47 |
| **Abertawe** | 53.6 | 45.1 | 46.4 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 55.1 | 51.4 | 44.9 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 49.4 | 43.7 | 50.6 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 38.9 | 34.8 | 61.1 |
| **Merthyr Tudful** | 43.8 | 37.5 | 56.2 |
| **Caerffili** | 52 | 48.8 | 48 |
| **Blaenau Gwent** | 37.1 | 33.2 | 62.9 |
| **Torfaen** | 42.1 | 34.6 | 57.9 |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n economaidd weithgar (yn abl ac eisiau gweithio) a'r rhai sy'n gyflogedig. Mae'r gyfradd sy'n economaidd weithgar yn uwch na'r gyfradd cyflogaeth ar draws pob ardal, ac adlewyrchir hyn ledled y DU hefyd. O'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl mae'r cyfraddau'n llawer uwch fel y dengys y tabl isod.

Tabl 48: Gweithgarwch economaidd yn ôl statws heb fod yn anabl 16 i 64 oed

| | Cyfradd gweithgaredd economaidd | Cyfradd cyflogaeth | Cyfradd anweithgarwch economaidd |
|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 83.8 | 80.1 | 16.2 |
| **Cymru** | 82.5 | 79.7 | 17.5 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 81.9 | 79.1 | 18.1 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 79 | 75.9 | 21 |
| **Abertawe** | 81.3 | 77.8 | 18.7 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 81.7 | 79.8 | 18.3 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 78.3 | 77.5 | 21.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 80.4 | 77.1 | 19.6 |
| **Merthyr Tudful** | 82.8 | 79 | 17.2 |
| **Caerffili** | 85 | 82.7 | 15 |
| **Blaenau Gwent** | 86.3 | 82 | 13.7 |
| **Torfaen** | 86.5 | 83.2 | 13.5 |

Er bod y gyfradd gweithgarwch Economaidd yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd gyflogaeth, mae cyfradd llawer uwch o weithwyr cyflogedig ac economaidd weithgar o gymharu â phobl anabl.

Mae'r data'n dangos bod y rhai sy'n anabl yn dymuno gweithio ac yn fodlon gweithio ond nad ydynt mewn cyflogaeth. Nododd yr Asesiad Effaith Cymunedol a gynhaliwyd ar gyfer Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a RhCT fod pobl ag anableddau dysgu yn dymuno:

*'Mwy o gyfleoedd a dewis o ran y gweithgareddau  yn ystod y dydd y maent yn ymwneud â nhw, gyda ffocws ar gyflogaeth arloesol, gwirfoddoli, ac opsiynau addysg sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu i integreiddio yn y gymuned. Amlygwyd y llwybrau hyn hefyd fel modd o gynyddu hunanwerth unigolion a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.' (t.36)*

Roedd ystyriaethau eraill a nodwyd gan y cyfranwyr yn cynnwys trafnidiaeth er mwyn gallu integreiddio i'r gymuned. Roedd cael trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd yn arbennig rhwng 8am a 6pm yn arbennig o bwysig. Hoffent hefyd i amserlenni gael eu trosi i fersiwn Hawdd ei Ddarllen fel eu bod yn gallu cynllunio eu teithiau eu hunain a bod yn fwy annibynnol. Roedd hyn nid yn unig er mwyn iddynt gwrdd â ffrindiau ond hefyd er mwyn datblygu sgiliau i gael mwy o berchnogaeth ar eu bywydau.

Mae ymchwil wedi nodi bod y cyfraddau cyflogaeth rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn eang ledled y byd *'Y gwir amdani yw, ledled y byd, mae unigolyn ag anabledd yn llai tebygol o gael ei gyflogi nag unigolyn heb anabledd, yn aml yn llawer llai tebygol'* (dyfynnwyd yn Bonaccio et al. 2019).

Mae'r diagram isod yn dangos y cylch cyflogaeth gan gynnwys y pryderon perthnasol y gallai fod gan reolwyr ym mhob cam o'r berthynas sy'n ymwneud â chyflogi unigolyn ag anableddau (Bonaccio et al. 2019 t.3)



Mae gwelededd anabledd yn elfen arall a drafodir yn yr erthygl uchod sy'n nodi efallai na fydd cyflogwyr yn 'gweld' anabledd gan nad oes 'amlygiad neu nodweddion gweladwy' ohono. Efallai hefyd na fydd y rhai sydd ag anabledd yn datgelu hyn rhag ofn cael eu gwrthod neu oherwydd sgil-effeithiau negyddol yn eu gyrfa. Nodir yn y drafodaeth:

*'Mae natur anweledig neu amrywiol llawer o anableddau yn aml yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddatgelu ar weithwyr. Mae datgelu yn benderfyniad personol a allai fod yn anodd, ac yn aml nid yw cyflogwyr yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth am ddatgelu a fydd yn arwain at ganlyniadau hirdymor cadarnhaol i'r ddau barti dan sylw. (t.4)'*

Mae yna ffyrdd o recriwtio pobl ag anableddau yn rhagweithiol, gan gynnwys partneriaeth ag asiantaethau galwedigaethol a sefydliadau cymunedol sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl ag anableddau. Gallai'r sefydliadau hyn gynorthwyo darpar gyflogwyr i addasu a deall anghenion pobl y gallent eu cyflogi.

Edrychodd astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ymddygiad recriwtio busnesau bach a chanolig (2011). Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd rhai cyflogwyr y byddai 'brocer swyddi' i baru ymgeiswyr anabl â swyddi gwag penodol yn eu cynorthwyo i gyflogi'r unigolyn gorau ar gyfer y swydd. Yr elfennau eraill y credent y byddai eu hangen oedd:

- Byddai angen addysgu'r gweithlu ehangach am faterion anabledd i frwydro yn erbyn agweddau gwahaniaethol posibl
- Sianel i roi gwybodaeth iddynt am gyflyrau iechyd a galluoedd ymgeiswyr â gwahanol fathau o namau a chyflyrau iechyd
- Treialon gwaith i asesu addasrwydd yr unigolyn ar gyfer rôl benodol

Roedd rhai o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth wedi ystyried rhai rhwystrau ariannol er mwyn gallu addasu'r amgylchedd ar gyfer rhai a allai fod ei angen. Byddai hyn ar gost ychwanegol a allai fod yn anodd i rai busnesau bach.

Er bod yr elfennau hyn wedi'u hamlygu gan y rhai a gymerodd ran, y mae mentrau ar waith i gefnogi rhai o'r rhain eisoes nad oedd yn ymddangos bod y cyflogwyr yn ymwybodol ohonynt megis y cynllun Mynediad i Waith a Chynghorwyr Cyflogaeth i'r Anabl a broceriaid swyddi. Efallai y bydd angen cymysgedd o gymorth gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael eisoes.

## Anweithgarwch Economaidd

*Her: Mae effaith Covid wedi bod yn anodd i rai busnesau a allai arwain at fwy o bobl yn bod yn economaidd anweithgar. Nodi'r meysydd angen a darparu sgiliau a hyfforddiant i lenwi bylchau lle mae cyfleoedd.*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer yr ardal yn cynyddu a gwelwyd y cynnydd mwyaf ym mis Mawrth 2020 a 2021. Mae'r ffigurau hyn yn debygol o gael eu heffeithio gan bandemig Covid. Mae'r siart isod yn dangos y duedd o 2017 ymlaen:

**Siart 80: Cyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) 16 – 64 oed (pawb)**




Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae data'n dangos bod cyfraddau anweithgarwch economaidd RhCT wedi gostwng yn raddol rhwng 2017 a 2019, gyda Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful wedi gostwng yn 2018 ond wedi cynyddu ychydig eto yn 2019. Y rhai rhwng 25 a 49 oed sydd â'r gyfradd anweithgarwch isaf yn gyffredinol a fyddai'n dangos eu bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio ac yn ennill cyflog.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau anweithgarwch economaidd dynion a menywod mewn gwahanol gategorïau oedran:

Tabl 49: Cyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) 16 i 64 oed

| | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2017 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2018 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2019 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2020 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| **Y Deyrnas Unedig** | 12.4 | 24.2 | 12.2 | 23.3 | 12.2 | 22.9 | 12.4 | 22.1 | 13.1 | 21.6 |
| **Cymru** | 16.1 | 25.2 | 15 | 24.5 | 14.8 | 24.5 | 15.6 | 24 | 18 | 23.1 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 20 | 28 | 15.9 | 28.2 | 17 | 30.6 | 14.2 | 24.1 | 16.8 | 27.9 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 20 | 28 | 16 | 25.8 | 17.4 | 23.7 | 18.2 | 27.3 | 22.8 | 30 |
| **Merthyr Tudful** | 20.3 | 26.9 | 14 | 24.9 | 15.6 | 24.5 | 20.6 | 26.6 | 22.9 | 26.5 |

Tabl 50: Cyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) 25 i 49 oed

| | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2017 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2018 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2019 | | Bl yn diweddu 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 6.7 | 19.6 | 6.6 | 18.7 | 6.5 | 18.3 | 6.8 | 17.6 |
| **Cymru** | 9.5 | 18.8 | 9.2 | 18.2 | 8 | 18.5 | 8.7 | 18.1 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 10.4 | 20.1 | 8.3 | 22.9 | * | 24.8 | 6.8 | 18.3 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 11.8 | 19.4 | 10.6 | 22 | 10.7 | 17.9 | 11.2 | 19.5 |
| **Merthyr Tudful** | 13 | 20.4 | 8.6 | 19.6 | 8.6 | 20.1 | 12.3 | 20.2 |

*Mae'r eitem ddata yn datgelu gwybodaeth neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

Ffynhonnell: Stats Cymru, Busnes, Yr Economi a'r Farchnad Lafur

Fel y gwelir, mae cyfraddau anweithgarwch benywod o gymharu â gwrywod yn uwch ar draws pob ardal, mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn y grŵp oedran 25 i 49. Mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd i ddangos bod menywod yn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu naill ai gyda phlant neu berthnasau. Gallai hyn gyfrif am y lefel uwch o gyfraddau anweithgarwch ymhlith merched.

## Credyd Cynhwysol

Newidiodd y system budd-daliadau gyda chyflwyno'r Credyd Cynhwysol a roddwyd ar waith fesul cam. Roedd yn cyfuno ystod o fudd-daliadau ac yn cael ei dalu p'un a oedd pobl mewn gwaith, ar incwm isel neu'n ddi-waith. Disodlodd y budd-dal y canlynol:

- Credyd Treth Plant
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Gwaith

Mae cyfradd yr hawlwyr ar gyfer Credyd Cynhwysol ym mhob ardal wedi cynyddu'n gyffredinol rhwng 2019 a 2021 fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 51: Nifer hawlwyr Credyd Cynhwysol

| | Mawrth 2019 | Mawrth 2020 | Mawrth 2021 | Awst 2021 (p) |
|---|---|---|---|---|
| **Merthyr Tudful** | 2113 | 3786 | 6469 | 6605 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 4510 | 7538 | 13103 | 13027 |
| **RhCT** | 4520 | 11209 | 21506 | 21594 |

Dangosir y dadansoddiad ar gyfer pob un o'r ardaloedd clwstwr yn y siartiau isod. Mae'r dyddiadau yn ymestyn rhwng 2019 a 2020 gan mai'r dyddiadau cynharach oedd y cyfnod pontio rhwng yr hen fudd-daliadau a Chredyd Cynhwysol.

**Siart 81: Clwstwr Cynon**




Mae gan Benrhiwceibr un ardal sydd yn 6ed yn y mynegai cyffredinol o amddifadedd lluosog ac yn 12fed yn gyffredinol ar gyfer amddifadedd incwm sydd yn y 10% uchaf. Mae Aberdâr yn y 20% i 40% o ardaloedd amddifadedd.

**Siart 82: Clwstwr y Rhondda 2019 - 2021**



Mae Treorci, Treherbert a Tylorstown yn dangos lefel uwch o hawlwyr Credyd Cynhwysol. Mae Tylorstown yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ond mae'n dangos lefelau hawlwyr is o gymharu â Threorci a Threherbert sydd o fewn yr 20% i 40% uchaf o'r ardaloedd ac eithrio un ardal yn Nhreherbert (Treherbert 2) sydd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

**Siart 83: Clwstwr Taf**




Mae Canol Rhydfelen/Llan 2 yn y 10% uchaf o ardaloedd amddifadedd gan ddod yn rhif 26 yn gyffredinol a 32 yn y parth incwm.

**Siart 84: Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr**




Mae gan Gaerau bedair o'i LSOAs yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyffredinol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar draws y parthau incwm a chyflogaeth eraill.

**Siart 85: Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr**




Bracla sydd â’r lefel uchaf o hawlwyr ac mae un ardal yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyffredinol yn ogystal ag yn y parth incwm a chyflogaeth.

**Siart 86: Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr**




Mae Y Pîl a Chorneli ill dau yn dangos nifer uchel o hawlwyr ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. Mae dwy ardal sydd o fewn yr 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y parth incwm a chyflogaeth.

**Siart 87: Merthyr Tudful**




Mae'r ardaloedd sy'n dangos lefelau uwch o hawlwyr i gyd yn y 10% uchaf o ardaloedd amddifadedd yn gyffredinol. Mae ardaloedd y Dref a Phenydarren hefyd yn uwch o ran hawlwyr, ond maent yn yr ystod 20% o amddifadedd, er bod ganddynt ardaloedd a ystyrir yn llai difreintiedig.

Mae’r wybodaeth uchod yn dangos bod tueddiad i’r rhai sy’n derbyn Credyd Cynhwysol fod yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad ydynt yn gweithio.  Efallai eu bod ar incwm is y gallant ychwanegu Credyd Cynhwysol ato. Mae cynnydd sylweddol hefyd yn 2020/21 sy’n debygol o gael ei briodoli i effaith Covid a’r angen i hawlio Credyd Cynhwysol naill ai i ychwanegu at eu henillion neu os ydy gweithwyr wedi colli eu gwaith.

Bu mentrau amrywiol i gefnogi pobl yn yr ardaloedd mwy difreintiedig fel Cymunedau yn Gyntaf oedd yn ymwneud â chael pobl i mewn i waith trwy ddatblygu sgiliau ac addysg. Daeth Cymunedau yn Gyntaf i ben yn 2011 a’i ddisodli gan Y Gronfa Waddol a oedd yn darparu cyllid i gefnogi agweddau mwyaf effeithiol Cymunedau yn Gyntaf. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Chymunedau am Waith sy'n helpu'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael cyflogaeth.

Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen sy’n targedu:

- pobl ddi-waith hirdymor 25 oed a throsodd sy’n byw yn hen ardaloedd cod post Cymunedau yn Gyntaf gyda sgiliau isel, cyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir
- pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) mewn hen ardaloedd cod post Cymunedau yn Gyntaf

Mae data o RhCT o fis Ebrill 2020 yn dangos bod y mwyafrif o’r rhai oedd yn cael eu hystyried yn 25 oed (280) a hŷn gyda’r mwyafrif yn ddynion (261). Mae nifer is o rai rhwng 16 a 24 oed (83). Mae’r ffigurau cronnol o ddechrau’r rhaglen hyd at fis Mawrth 2021 i’w gweld yn y tabl isod (RhCT):

Tabl 52: Cymunedau am Waith RhCT

| Gwybodaeth am gyfranogwyr | Nifer |
|---|---|
| **Gwryw** | 1714 |
| **Benyw** | 1156 |
| **16 - 24 oed** | 386 |
| **25 oed** | 2484 |
| **Cyflogedig** | 174 |
| **Di-waith** | 2696 |

Roedd mwyafrif y rhai sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen wedi bod yn ddi-waith am 0-6 mis (n1265). Roedd 769 heb unrhyw gymwysterau; ond roedd gan y mwyafrif rai cymwysterau rhwng lefel 1 a lefel 3. Daeth 948 o gyfranogwyr o hyd i gyflogaeth drwy'r rhaglen.

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr hefyd amrywiaeth o brosiectau cyflogadwyedd sy’n cael eu cynnal yn y sir, a daw'r mwyafrif ohonynt i ben yn 2022. Rhestrir prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) isod:

- Pontydd i Waith 2 – i’r rhai 25 oed a hŷn sy’n byw y tu allan i hen ardaloedd cod post Cymunedau yn Gyntaf.
- Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 – y rhai a gyflogir gyda lefel 2 neu is fel cymhwyster uchaf
- Meithrin, Cymhwyso, Ffynnu - i’r rhai sy’n cael eu tangyflogi - hy gweithio llai na 37 awr yr wythnos, contract tymor penodol neu dros dro
- Cymunedau am Waith (fel uchod)

- Ysbrydoli i weithio – unigolion NEET 16 a hŷn sy'n byw y tu allan i ardaloedd cod post Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r cyllid ar gyfer y rhaglenni cyflogadwyedd uchod tua £2m y flwyddyn, gyda mwy na 50 o aelodau staff, sy'n swm sylweddol o gyllid a staff ar gyfer y mentrau hyn. Er bod y prosiectau wedi cychwyn ar wahanol adegau, y dyddiad cychwyn cynharaf oedd 2015. Ers hynny, mae'r prosiectau wedi helpu 4,637 o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr i ennill 1,599 o gymwysterau galwedigaethol achrededig, a 1,571 o ganlyniadau cyflogaeth erbyn diwedd mis Hydref 2021.

Bydd colli'r prosiectau hyn yn cael effaith sylweddol ar drigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n debygol y collir cymorth profiadol, wedi'i dargedu allan mewn cymunedau, yn enwedig i'r rheini sydd â rhwystrau lluosog, cymhleth i waith ac sydd wedi bod yn ddi-waith ers blynyddoedd lawer, a bydd yn golygu colli mynediad am ddim i gyrsiau hyfforddiant galwedigaethol drutach. Efallai y bydd effaith hefyd ar leoliadau cymunedol a allai gau oherwydd diffyg cyllid.

Nid oes gwybodaeth glir ynglŷn â beth fydd ar gael i ariannu prosiectau tebyg yn y dyfodol ac felly mae hyn yn risg. Bydd perygl hefyd o golli staff y prosiectau os nad oes eglurder ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr ond ar bob prosiect o'r fath yn yr ardal a ledled Cymru.

### Cryfderau

- Mae data'n dangos bod tâl wythnosol yn cynyddu ym mhob un o ardaloedd CTM sy'n gadarnhaol. Roedd ymatebwyr yn y gweithgareddau ymgysylltu yn bryderus am gyflog ac roedd hyn yn ffactor pwysig iddynt. Roedd cyflog byw yn bwysig i godi pobl allan o dlodi a byddai'n helpu yn wyneb costau cynyddol am hanfodion y cartref ac eiddo. Er bod hyn yn gryfder mae angen mwy eto i ddod â chyflogau'r ardal i fyny at gyfartaledd Cymru.
- Mae'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n cael PYDd o gymharu â'r rhai nad ydynt yn cael PYDd yn lleihau. Mae'r data ar gyfer 2019/20 yn dangos bod y bwlch wedi cynyddu ar gyfer graddau A*-A ond wedi gostwng ar gyfer graddau A-C.
- Mae cyfraddau Gweithgaredd Economaidd yn uwch yn y grŵp oedran 25 i 49 gan ddangos eu bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio ac yn ennill cyflog. Mae cyfraddau Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2020 a 2021.
- Amlygwyd rôl sefydliadau dielw ac elusennau o ran cefnogi lles economaidd lleol gan nifer o ymatebwyr yn yr ymarferiad ymgysylltu. Roedd canolfannau Cyngor ar Bopeth, Canolfannau Cymunedol a gwasanaethau menter gymdeithasol sy'n rhoi cyngor ar reolaeth ariannol a budd-daliadau yn cael eu gwerthfawrogi.

### Cyfleoedd

- Dengys data fod mwy o fenywod na dynion mewn cyflogaeth ran amser a bod hyn yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae hyn oherwydd bod oriau rhan amser yn cael eu talu ar gyfradd is yr awr. Mae menywod rhwng 25 a 49 oed hefyd yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Mae tystiolaeth anecdotaidd i ddangos bod menywod yn yr ystod oedran hon yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu naill ai am eu plant eu hunain neu am eu rhieni. Mewn perthynas â gofal plant, mae hyn yn

rhwystr i rai rhag gallu gweithio’n amser llawn oherwydd cost ac argaeledd oriau sy’n gweddu i rai mathau o gyflogaeth. Mae’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a bydd y cyswllt â’r asesiad yn bwysig i ystyried anghenion rhieni sy’n gweithio a’r rhai sydd eisiau gweithio ond sy’n methu oherwydd materion gofal plant gan gynnwys fforddiadwyedd.

- Rhagwelir y bydd cynnydd mewn aelwydydd sengl gyda phlant. Bydd hon yn her lle mae rhieni sengl yn dymuno parhau i weithio gan eu bod yn debygol o fod angen cael mynediad i ofal plant er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i waith neu hyfforddiant. Unwaith eto, gellir cysylltu hyn â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant uchod.

- Mae nifer cynyddol o aelwydydd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel absoliwt. Roedd pryder gan yr ymatebwyr i’r gweithgareddau ymgysylltu fod hyfforddiant a gwella sgiliau yn allweddol i wella rhagolygon swyddi a hyder. Roedd pryder hefyd ynghylch costau byw yn cynyddu gyda chyflogau ddim yn cyd-fynd â’r cynnydd. Meddai un ymatebwr, ‘*Mae costau byw yn codi ond dyw fy nghyflog i ddim'.*

  Roedd eraill a oedd yn agosáu at ymddeol yn pryderu am eu pensiwn a'u gallu i fforddio pethau yn eu hymddeoliad. Gyda nifer yr heriau i’w hystyried ar gyfer yr elfen hon, bydd yn bwysig sicrhau bod y partneriaid perthnasol yn mynd ati i daclo’r mater hwn ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae cyfle i weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda’u huchelgais i greu 25,000 o swyddi newydd a buddsoddiad o £4 bn yn y sector preifat. Mae ganddynt strategaeth eisoes sydd â sgiliau blaenoriaeth i'w datblygu ar gyfer y gweithlu sy'n gam cadarnhaol ymlaen. Mae’r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn amlygu’r mathau o sgiliau a chymorth sy’n flaenoriaeth i gefnogi’r rhai sy’n dod i mewn i gyflogaeth a datblygu eu sgiliau yn ogystal â rhai cyflogwyr. Efallai y bydd hyn yn ymdrin â rhai o’r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgysylltu yn ymwneud â swyddi sgiliau isel a chontractau dim oriau sy’n arwain at gyflogau isel.

- Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn cynyddu, ond ar hyn o bryd mae amrywiaeth o fentrau i gefnogi pobl i mewn i waith sydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Daw’r cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a bydd hwn yn dod i ben i’r rhan fwyaf yn y flwyddyn nesaf oherwydd Brexit. Mae ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol i gefnogi mentrau o’r fath. Yn dibynnu ar y dyraniad cyllid sy’n debygol o ddod gan y llywodraeth ganolog, mae cyfle eto i weithio gyda Dinas-ranbarth Caerdydd i gynllunio sut y gellir ymdrin â hyn, gyda rhai cyfleoedd o bosibl i gronni arian.

- Mae cyfraddau gweithgaredd economaidd ar gyfer pobl anabl yn uchel, ond mae'r gyfradd cyflogaeth yn is. Mae tystiolaeth o ymgysylltu â phobl anabl eu bod am gael y cyfle i weithio a datblygu eu sgiliau trwy wirfoddoli, addysg a hyfforddiant. Hefyd, roedd angen mwy o gyfleoedd cyfartal a oedd yn cynnwys pobl ag anableddau. Meddai un rhiant '*Rwy'n rhagweld anawsterau gyda chefnogaeth i fy mab sydd ag awtistiaeth fel oedolyn yn y gymuned. Bydd yn gorffen ei gwrs sgiliau bywyd yn y coleg yn yr haf, ac rwy’n poeni am yr hyn sydd gan y dyfodol i’w gynnig, pa mor annibynnol fydd e ac ai ystadegyn fydd e yn y ganran uchel o bobl ag awtistiaeth sy’n methu â dod o hyd i waith.'*

## Busnesau

*Her: Cefnogi busnesau yn y sectorau yr effeithir arnynt fwyaf gan Covid fel y diwydiant hamdden a thwristiaeth. Cefnogi busnesau i arallgyfeirio gyda’r heriau amgylcheddol a newidiadau i adeiladu a’r cyfleustodau.*

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae Mentrau Gweithredol a gofnodwyd ym mhob ardal yn dangos y diwydiant adeiladu gyda’r lefelau gweithgarwch uchaf rhwng 2018 a 2019. Cynyddodd lefel y 'genedigaethau' yn y diwydiant adeiladu hefyd yn ystod y cyfnod hwn ar draws pob awdurdod. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dangos lefel uwch o 'gynhyrchu' yn yr ardal o gymharu â'r ddau awdurdod lleol arall, er bod hyn wedi gostwng rhwng 2018 a 2019 o 530 i 515 yn y drefn honno.

Mae’r tabl isod yn dangos y cynnydd yn y sector adeiladu ar draws awdurdodau lleol CTM:

Tabl 53: Genedigaethau a marwolaethau ymhlith busnes a mentrau gweithredol CTM Y Diwydiant Adeiladu

| Ardal | Blwyddyn | Genedigaethau | Marwolaethau | Mentrau gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2018 | 65 | 55 | 550 |
| | 2019 | 80 | 60 | 570 |
| **RhCT** | 2018 | 165 | 140 | 1205 |
| | 2019 | 180 | 125 | 1255 |
| **Merthyr Tudful** | 2018 | 55 | 45 | 365 |
| | 2019 | 55 | 55 | 370 |

Mae gan fanwerthu lefel uwch o weithgarwch yn RhCT o gymharu â’r ddau awdurdod arall, ond bu gostyngiad rhwng 2018 a 2019 fel y gwelir yn y tabl isod:

Tabl 54: Genedigaethau a marwolaethau ymhlith busnesau a mentrau gweithredol RhCT Y diwydiant adwerthu

| Blwyddyn | Genedigaethau | Marwolaethau | Mentrau gweithredol |
|---|---|---|---|
| **2018** | 535 | 160 | 1410 |
| **2019** | 150 | 220 | 1215 |

Er bod y sector manwerthu yn lleihau yn ardal CTM mae hon yn duedd gyffredinol yng Nghymru. Bydd hyn yn lleihau'r incwm sy'n dod i'r economi.

Mae Covid wedi cael effaith ar fusnesau ledled y DU a’r byd. Mae’r data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod gostyngiad o 64% yn y trosiant yng Nghymru rhwng 18 a 31 Mai 2020 o’r hyn y byddai busnesau fel arfer yn ei ddisgwyl yn y cyfnod hwnnw gyda 23% o fusnesau’n nodi gostyngiad o fwy na hanner. Y sectorau a gafodd eu heffeithio fwyaf oedd bwyd a llety a chelfyddydau a hamdden gyda mwy na hanner y busnesau yn cael eu cau dros dro. Gwelwyd mai’r trefi arfordirol bach a gafodd eu heffeithio fwyaf gan y cyfnod clo ac roedd hyn yn cynnwys Porthcawl (https://research.senedd.wales/research-articles/coronavirus-the-impact-on-the-welsh-economy/ )

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae hon yn rhaglen gydweithredol y cytunwyd arni rhwng 10 awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a llywodraethau Cymru a'r DU sydd â chronfa fuddsoddi o £1.3bn ar gyfer y rhanbarth.  Canlyniadau'r rhaglenni y maent yn buddsoddi ynddynt yw darparu 25,000 o swyddi newydd i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu £4bn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth dros 20 mlynedd (a ddechreuwyd yn 2016).

Mae'r gwaith yn cynnwys prosiectau i wella cysylltiadau trafnidiaeth yn y rhanbarth gyda datblygiad Metro De Cymru.  Bydd hyn yn cynyddu hygyrchedd trafnidiaeth gan ei gwneud yn fwy cyfleus i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd o gwmpas ar gyfer gwaith, yr ysgol, a chymdeithasu ac ati.

Mae mentrau hefyd i ddatblygu mwy o gartrefi i'r rhanbarth i ddatgloi datblygiadau preswyl sydd wedi'u hatal.  Mae hyn ar waith ar draws ardaloedd CTM gyda safleoedd wedi'u nodi ar gyfer cymorth.  Mae sgiliau a gweithlu yn elfen arall i flaenoriaethu sgiliau gyda strategaeth i ddatblygu'r sgiliau hyn yn unol ag anghenion cyflogwyr.  Mae cefnogi datblygiad y safleoedd diwydiannol yn ogystal â thechnoleg newydd a blaengar hefyd wedi'i gynnwys yn y gwaith sy'n mynd rhagddo (https://www.cardiffcapitalregion.wales/ ).

## Cryfderau

Mae Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â 'Dyfodol Economaidd' sydd wedi amlygu meysydd cryfder, cyfleoedd a themâu sy'n dod i'r amlwg. Mae canlyniad ac argymhellion y gwaith hwn yn gryfder ac yn gyfle i ddatblygu. Mae'r canfyddiadau dros dro wedi nodi 10 thema sy'n dod i'r amlwg o ddadansoddi data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a grynhoir isod:

- Cysylltedd Digidol – twf economaidd yn y dyfodol wedi'i gefnogi gan gysylltedd digidol rhagorol
- Carbon Isel –mae **cyfleoedd** economaidd sylweddol i'w hennill gan ranbarthau ac economïau sy'n cymryd **rôl arweiniol wrth hyrwyddo a datblygu arbenigedd mewn technolegau carbon isel**.
- Lle – tair prif dref ym Mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, gyda phob un â'i chymuned ei hun ac ymdeimlad cryf o le
- Cyfalaf Naturiol – Tynnodd yr holl randdeiliaid sylw at bwysigrwydd harddwch naturiol yr ardaloedd, mynyddoedd y cymoedd, yr arfordir, gan gynnwys ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.
- Gweithgynhyrchu Uwch – Mae Gweithgynhyrchu Uwch yn amlwg yn bwysig i'r economi leol, gyda chyflogwyr gweithgynhyrchu mawr fel Sony yma.
- Y Sector Cyhoeddus – Mae'r sector cyhoeddus yn **gyflogwr a buddsoddwr sylweddol** ym Mhen-y-bont ar Ogwr; mae ganddi rôl bwysig i'w chwarae'n lleol, mae'n cael effaith sylweddol ar allyriadau carbon, y gadwyn gyflenwi, ac wrth gefnogi mewnfuddsoddiad a thwf busnes drwy fod yn landlord sylweddol
- Datblygu Sgiliau – Cydnabyddir bod cyflenwad o **weithlu â sgiliau priodol** yn **sbardun twf economaidd** allweddol.
- Teithio Llesol a Chludiant Cyhoeddus - cafodd y mater yn ymwneud â'r **diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau i gefnogi pobl i gyrraedd eu man gwaith** ei godi lawer gwaith
- Marchnata – Er bod hysbysebu ar gyfer twristiaeth yn fwy datblygedig, credai rhanddeiliaid nad oedd yr un lefel o farchnata i fusnes neu bobl gan fod Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i sefydlu busnes ac i bobl fyw a gweithio ynddo – cyrchfan ffordd o fyw

Trwy ardal CTM i gyd mae yna straeon llwyddiant.

Yn 2020 cafodd y stryd fawr yn Nhreorci ei henwi fel y orau yn y DU a’i chanmol am ei chanolfan brysur a’i chymuned lewyrchus. Mae gan y stryd fawr tua 100 o siopau - gyda’r mwyafrif helaeth yn rhai annibynnol a 60% yn cael eu gweithredu gan fenywod. Mae'r gyfradd llenwi ar hyn o bryd yn 96% gyda dwy siop wag yn cael eu hadnewyddu. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51234575

Mae'r ardal hefyd wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad sylweddol. Gan ddefnyddio harddwch naturiol a hanes diwylliannol hen Lofa’r Tŵr yng Nghwm Rhondda, mae Zipworld Tower https://www.zipworld.co.uk/location/tower wedi ei sefydlu fel atyniad i ychwanegu at y cyfleoedd twristiaeth presennol.

Yn ystod yr ymarfer ymgysylltu roedd pobl yn gwerthfawrogi eu cymunedau lleol, canol y trefi a’r strydoedd mawr fel y dengys y dyfyniad isod:

*‘Crybwyllwyd busnesau lleol, y Stryd Fawr a Chanol y Dref i gyd fel pethau sy’n bwysig i les economaidd yr ardal. Cyfeiriwyd at y Stryd Fawr a Chanol y Dref fel 'calon y gymuned'.*

### Cyfleoedd

- Mae Covid wedi cael effaith ar fusnesau gyda llawer yn gorfod cau. Yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu, awgrymwyd bod angen mwy o fuddsoddiad yn y Stryd Fawr, Canol y Trefi a busnesau lleol yn gyffredinol. Dywedodd rhai busnesau lleol a ymatebodd i’r arolwg eu bod yn cael eu heffeithio’n andwyol gan Covid. Mae cyfleoedd i fusnesau a’r gymuned gydweithio i helpu ei gilydd i gefnogi mentrau lleol.

- Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella lles economaidd yn ystod ymgysylltu yn cynnwys 'Dewch â diwydiant i mewn – nid unedau bach ond cyflogwyr mawr i gynhyrchu mwy o incwm a'i gadw'n lleol'. Mae awgrymu y dylai gael ei gadw’n lleol yn golygu y byddai incwm yn cael ei ennill yn ogystal â'i wario'n lleol. Byddai hyn yn helpu i wella'r economi leol ac o bosibl yn gwella cyflogau. Nododd pobl hefyd fod busnesau lleol yn bwysig i ddiwylliant lleol, yn enwedig mewn ardaloedd llai cefnog.

- Roedd pryder y byddai pobl ifanc yn mudo allan o'r ardal heb gyfleoedd gwaith lleol da. Roedd yn bwysig i'r rhai a oedd yn ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu y byddai gwell swyddi a sgiliau yn dod â mwy o incwm i'r economi leol yn ogystal â chadw 'talent leol' gan ddarparu cyfleoedd i bobl iau. Gallai hyn eto gysylltu ag ysgolion, addysg bellach ac uwch yn ogystal â’r busnesau lleol a phartneriaeth sgiliau Dinas-ranbarth Caerdydd.

# Casgliadau

Mae'r Piler Economaidd yn gasgliad sylweddol o ddata a dadansoddiad sy'n dangos ein bod wedi gweld rhywfaint o gynnydd er gwaethaf cefndir economaidd heriol iawn. Yr hyn a wyddom yw bod gwaddol datblygiad diwydiannol yn parhau i gyflwyno heriau strwythurol wrth inni symud i ffwrdd i broffil economaidd gwahanol, a thrwy weithio ar y cyd â'r llywodraeth, busnes ac undebau llafur, mae awydd i roi ffocws newydd i'n hymdrechion i wneud y rhanbarth yn ddeniadol i fuddsoddi, i weithio a dechrau busnes ynddo.

Mae ein poblogaeth yn wynebu heriau ariannol gyda:

- Lefelau uwch na'r cyfartaledd o anghydraddoldeb economaidd, lle er gwaethaf gweld cynnydd mewn cyflog wythnosol ar draws y rhanbarth, mae pecynnau cyflog wythnosol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- Niferoedd uwch o bobl yn hawlio credyd cynhwysol gyda chynnydd sylweddol yn 2020/21 sy'n debygol o gael ei briodoli i effaith Covid a'r angen i hawlio Credyd Cynhwysol naill ai i ychwanegu at eu henillion neu os ydynt wedi colli eu gwaith.

Gwyddom hefyd, er gwaethaf heriau traddodiadol y gallwn gynyddu nifer y bobl mewn gwaith a lleihau cyfradd diweithdra:

- Dros gyfnod o bedair blynedd rydym wedi gweld rhywfaint o amrywiad mewn anweithgarwch economaidd, gyda chyfraddau yn RhCT yn gwella'n raddol rhwng 2017 a 2019 gyda Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful hefyd yn gwella yn 2018 ond wedyn yn gwaethygu ychydig eto yn 2019.
- Mae'r data'n rhoi hyder inni y gallwn, gyda'r mesurau cywir, ddychwelyd at gyfraddau gweithgarwch gwell sy'n gwneud y rhanbarth yn fwy cystadleuol na chyfartaledd Cymru.

Wrth ddeall ein hôl troed busnes, a'r potensial ar gyfer twf, gwyddom er enghraifft fod ein rhanbarth:

- Wedi gweld twf yn ei sail o fentrau adeiladu dros y tair blynedd o 2018
- Wedi parhau i fod yn gartref i'r rheini yn y sector gweithgynhyrchu uwch fel Sony
- Ag uchelgais i ymdrin â thrafnidiaeth gyhoeddus i gefnogi'r rhai mewn gwaith ac yn chwilio am waith
- Wedi cydnabod bod datblygu sgiliau a chyflenwi gweithlu â'r sgiliau priodol yn sbardun allweddol i dwf economaidd.
- Wedi nodi pwysigrwydd harddwch naturiol yr ardaloedd, mynyddoedd y cymoedd, yr arfordir, gan gynnwys ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig wrth i ni geisio denu buddsoddiad ar gyfer prosiectau a allai ddibynnu ar ein hasedau
- Mae gweld y strydoedd mawr yn ein trefi yn parhau i fod yn boblogaidd gyda nifer cynyddol o ymwelwyr a chyfraddau uchel o eiddo wedi'i feddiannu yn dangos gwerth siopau a gwasanaethau lleol.

# Y Piler Amgylcheddol

### Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae ardal CTM yn parhau i fod wedi'i nodweddu gan etifeddiaeth ddiwydiannol sydd wedi dod â chyfoeth a ffyniant yn y gorffennol ond hefyd effeithiau cysylltiedig ar iechyd a'r amgylchedd.

Mae gan yr adnoddau naturiol, er enghraifft, dŵr, glo, coed a ysgogodd chwyldro diwydiannol, y gallu i gefnogi chwyldro 'llesiant' tebyg sy'n gwerthfawrogi'r amgylchedd. Ers peth amser mae cynllun 'glasu'r cymoedd' wedi bod ar waith gyda'r nod o ymdrin â'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon. Yn ei lle, ceir safleoedd o safon fyd-eang, mannau gwyrdd sy'n darparu cyfleoedd economaidd gan dwristiaeth, hafanau i fywyd gwyllt a mannau lle gallai cymunedau gysylltu, gan gefnogi lles corfforol a meddyliol.

Yn ôl adroddiad Llesiant Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Mae Cymru ar flaen y gad o ran ailgylchu o gartrefi, ond rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi.
- Mae ansawdd aer wedi gwella'n fawr ers yr 1970au ond mae'n parhau i fod yn risg i iechyd dynol.
- Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi lleihau bron i draean ers yr 1990au, er gwaethaf rhai cyfnodau o gynnydd. Bydd angen newid cyflymach yn y dyfodol er mwyn cyrraedd targedau.
- Mae capasiti trydanol o ynni adnewyddadwy yn parhau i gynyddu ond yn arafach nag yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru (SoNaRR) yn dangos bod amrywiaeth fiolegol ar y cyfan yn dirywio. Mae'r rhan fwyaf o fathau o gynefinoedd wedi gweld gostyngiad mewn amrywiaeth dros y 100 mlynedd diwethaf, gyda chyfradd y dirywiad yn cynyddu o'r 1970au ymlaen.

Mae yna amrywiaeth o ddangosyddion allweddol sy'n amlygu pwysigrwydd yr amgylchedd gan gynnwys sut y gallai pobl ddefnyddio'r mannau awyr agored megis coetiroedd, ac ardaloedd arfordirol. Gallai effaith y boblogaeth ar yr amgylchedd megis ailgylchu, gwastraff a thipio anghyfreithlon hefyd roi darlun rhanbarthol o rai o'r heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy ynghyd â rhai problemau dybryd yn ymwneud ag ansawdd aer a llifogydd. Mae'r ddau yn faterion sylweddol sy'n effeithio nid yn unig ar y rhanbarth hwn ond ar Gymru gyfan.

## Rhagymadrodd

Yn y rownd gyntaf o Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Llesiant, roedd newid hinsawdd a'r sefyllfa o ran adnoddau naturiol Cymru yn faterion pwysig i'w hystyried.

Ers hynny, mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC), corff y Cenhedloedd Unedig ar gyfer asesu'r wyddoniaeth sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, wedi cyhoeddi ei chweched adroddiad asesu (https://www.ipcc.ch/report/ar6/wg1/) Mae'n nodi:

> *"Mae'n glir fod dylanwad dynol wedi cynhesu'r atmosffer, y cefnfor a'r tir. Mae newidiadau eang a chyflym wedi digwydd yn yr atmosffer, y cefnfor, y cryosffer a'r biosffer" ac*

*“Mae newid hinsawdd a achosir gan ddyn eisoes yn effeithio ar lawer o eithafion tywydd a hinsawdd ym mhob rhanbarth ar draws y byd. Mae tystiolaeth o newidiadau a welwyd mewn eithafion megis tonnau gwres, dyodiad (glaw) trwm, sychderau, a seiclonau trofannol, ac, yn benodol, y ffaith eu bod yn cael eu priodoli i ddylanwad dynol, wedi cryfhau ers y Pumed Adroddiad Asesu (AR5), a*

*“Bydd tymheredd arwynebau byd-eang yn parhau i godi tan o leiaf ganol y ganrif o dan yr holl senarios allyriadau a ystyriwyd. Bydd y byd yn cynhesu mwy na 1.5°C a 2°C yn ystod yr 21ain ganrif oni bai bod gostyngiadau dwfn mewn carbon deuocsid (CO2) ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill yn digwydd yn y degawdau nesaf.”*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cynhyrchu ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (https://naturalresources.wales/vidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=en ). Aeth yr adroddiad hwn ymhellach na’r adroddiad cyntaf yn 2016 a nododd 4 prif nod - Diogelu a Gwella Stociau o Adnoddau Naturiol; Ecosystemau Gwydn yn erbyn Newid Disgwyliedig ac Annisgwyl; Lleoedd Iach ar gyfer Pobl Cymru, wedi’u Hamddiffyn rhag Peryglon Amgylcheddol; Cyfrannu at Economi Adfywiol, Cyflawni Lefelau Cynhyrchu a Defnydd Cynaliadwy.

Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, gan nodi bod newid yn yr hinsawdd yn bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a’n hamgylchedd naturiol. Cyhoeddwyd argyfwng natur ar 30 Mehefin 2021 sy’n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofynion cyfreithiol-rwym i wrthdroi colledion bioamrywiaeth drwy dargedau statudol.

Mae effaith newid yn yr hinsawdd i’w theimlo ar draws pob agwedd ar yr amgylchedd, felly hefyd y trafodaethau ar sut rydym yn rheoli’r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn y dyfodol, ac felly mae hyn yn fframio’r drafodaeth sy’n dilyn. Cyfeiriwyd hefyd at Adroddiad Tystiolaeth 2017, Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU - Crynodeb i Gymru. https://www.theccc.org.uk/uk-climate-change-risk-assessment-2017/national-summaries/wales/

Ar adeg drafftio’r adroddiad hwn nid yw effaith Newid Hinsawdd *Cynhadledd y Pleidiau*'r Cenhedloedd Unedig (COP26) yn hysbys ond mae'n debygol o gael effaith yn y dyfodol.

## Trosolwg

Mae ardal CTM yn parhau i fod wedi'i nodweddu gan etifeddiaeth ddiwydiannol sydd wedi dod â chyfoeth a ffyniant yn y gorffennol ond hefyd effeithiau cysylltiedig ar iechyd a'r amgylchedd. Mae gan yr adnoddau naturiol, er enghraifft, dŵr, glo, coed a ysgogodd chwyldro diwydiannol y gallu i gefnogi chwyldro 'llesiant' tebyg sy'n gwerthfawrogi'r amgylchedd.

Ers peth amser mae cynllun ‘glasu’r cymoedd’ wedi bod ar waith gyda’r nod o ymdrin â'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon. Gan ddod â safleoedd o safon fyd-eang yn eu lle, mannau gwyrdd sy’n darparu cyfleoedd economaidd o dwristiaeth, hafanau i fywyd gwyllt a mannau lle gallai cymunedau gysylltu, gan gefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae morlin CTM hefyd wedi gweld gwelliant tebyg ac yn cael ei gydnabod am ansawdd uchel ei amwynderau.

Cynhyrchodd CNC becynnau gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer yr asesiadau llesiant cyntaf. Ers hynny mae wedi datblygu Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru (mapiau /

porth data CNC) ynghyd â phorth cyfatebol (Data /map stori SMNR) sy'n cysylltu â'r cyfleoedd ar gyfer wynebu heriau amgylcheddol.

Mae’r mapiau hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei holi. Caiff y mapiau hyn eu diweddaru'n rheolaidd a dylent fod yn fan cychwyn da ar gyfer trafodaeth ar gyflwr yr amgylchedd a chyfleoedd. Mae’r mapiau yn yr asesiad dechreuol a'r sefyllfa yn 2021 yn weddol debyg. Mae’r drafodaeth sy’n dilyn, felly, yn asesiad o’r ystyriaethau a ystyrir yn bwysig ar gyfer datblygu’r asesiad llesiant. Fel yr asesiad cyntaf, mae’n defnyddio rhywfaint o set ddata llesiant cenedlaethol (gweler Atodiad 1) wedi’i hategu gan wybodaeth leol.

Gyda’i gilydd, mae hyn yn rhoi darlun cyffredinol gan nodi heriau ar gyfer ardal CTM, a chryfderau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

## Asesiad o les amgylcheddol

### Mynediad a hamdden

**Yr her**: *Gallai darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad diogel a hamdden i bawb drwy ddefnyddio asedau naturiol ardal CTM ddod â buddion nid yn unig i gymunedau lleol ond hefyd i’r amgylchedd a’r economi*.

Mae tystiolaeth o sut a pham mae ein perthynas â natur mor bwysig a buddiol i’n hiechyd meddwl. Mae faint rydym yn sylwi, yn meddwl am ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd naturiol yn hanfodol i gefnogi iechyd meddwl da ac atal trallod. (https://www.mentalhealth.org.uk/campaigns/nature/nature-research). Mae angen i fannau o'r fath fod yn fwy diogel i ddefnyddwyr os ydym am sicrhau'r budd mwyaf posibl.

Mae gan ardal CTM lawer iawn o le hygyrch, y gellir ei ddefnyddio am ddim sydd wedi’i neilltuo drwy Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000. Mae hyn yn cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffylau cyhoeddus, cilffyrdd cyfyngedig, a chilffyrdd sy'n agored i bob traffig. Mae pobl â phroblemau ar eu golwg ac o ran symudedd yn cael eu crybwyll yn benodol gan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac mae gofynion ychwanegol Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn berthnasol. <https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/public-rights-of-way/?lang=en>

Mae gan ardal CTM dros 1,550 km o hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae’r defnydd o fannau naturiol hygyrch ac agosrwydd atynt yn ddangosydd allweddol o leoedd iach i bobl, sy’n rhydd rhag peryglon amgylcheddol. O fewn ardal CTM, mae 67% o aelwydydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 57% ym Merthyr a dim ond 27% yn Rhondda Cynon Taf yn byw ger mannau gwyrdd naturiol hygyrch, sydd o fewn 300m o gerdded i unrhyw safle (Llywodraeth Cymru, Safonau mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn ôl awdurdod lleol, 2011).

Fodd bynnag, ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae 58 (ha) o fannau gwyrdd naturiol hygyrch ar gyfer 1,000 o’r boblogaeth, 52 (ha) yn Rhondda Cynon Taf, 11 (ha) a 95 (ha) ym Merthyr Tudful. Mae gan Ferthyr Tudful y drydedd ardal fwyaf o ran poblogaeth yng Nghymru (LlC, 2011 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/State-of-the-Environment/Our-Local-Environment/AccessibleNaturalGreenspaceStandards-by-LocalAuthority>). Mae’r cyfle ar gyfer sicrhau mynediad gwell i fannau gwyrdd ym Merthyr Tudful yn sylweddol. Mae gan Ferthyr hefyd 15 gwobr Baner Werdd a gwobrau Baner Werdd Cymunedol ar gyfer mannau gwyrdd (Safleoedd y Dyfarnwyd Baner Werdd iddynt yn

2020/21 <https://www.keepwalestidy.cymru/Handlers/Download.ashx?IDMF=58f638ad-e9bf-474e-941d-44523b2f66c3>). Dangosir y darlun ar gyfer ardal CTM gyfan yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Siart 88: Llywodraeth Cymru, Safonau mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)**




https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/State-of-the-Environment/Our-Local-Environment/AccessibleNaturalGreenspaceStandards-by-LocalAuthority

Mae'r ffaith fod mynediad i fannau gwyrdd naturiol yn anghyfartal yn her i ardal CTM.

Mae'r map isod (Ffynhonnell CNC – Gwybodaeth o Gymru ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur (WINS), Seilwaith Gwyrdd) yn dangos hygyrchedd i fannau gwyrdd yn ôl nifer y bobl a'r amddifadedd cyffredinol yn yr ardal. Mae'r map isod (Ffynhonnell CNC – Gwybodaeth o Gymru ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur (WINS), Seilwaith Gwyrdd) – yn dangos hygyrchedd mannau gwyrdd yn ôl nifer y bobl a'r amddifadedd cyffredinol yn yr ardal.




Yn y Cynlluniau Llesiant cyntaf, nodwyd pwysigrwydd mannau gwyrdd, agored ar gyfer lles corfforol a meddyliol pobl. Atgyfnerthwyd ei bwysigrwydd yn ystod Pandemig COVID 19.

Yn Arolwg Mannau Gwyrdd a Mannau Agored BGC/PSB Pen-y-bont ar Ogwr (https://www.bridgend.gov.uk/media/9802/bridgend-public-service-board-open-and-green-spaces-survey-infographic-2020.pdf ) ac astudiaeth debyg ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd, (dangosir manylion yr arolwg yn ddiweddarach yn yr adran ar Barc Rhanbarthol y Cymoedd), roedd barn glir fod pobl yn ymweld â mannau gwyrdd ac agored yn amlach yn ystod y cyfyngiadau ar symud, bod mannau o'r fath wedi bod yn bwysicach, bod mannau gwyrdd yn agos at eu cartrefi yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi helpu gydag iechyd meddwl personol ac i werthfawrogi byd natur yn well.

Mae hyn wedi'i gadarnhau yn yr un modd mewn adroddiad sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban sy'n amlinellu sut y bu i natur helpu gyda lles meddwl yn ystod y pandemig. Dangosodd yr ymchwil hefyd fod ffactorau cymdeithasol-economaidd yn chwarae rhan bwysig o ran pwy sy'n ymweld â mannau naturiol, gydag oedolion ar incwm is, gyda safon addysg is, y di-waith a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gwneud llai o ymweliadau. (https://www.forestresearch.gov.uk/research/why-society-needs-nature-lessons-from-research-during-covid-19/).

Mae newid cadarnhaol mewn ymddygiad yn ystod y pandemig wedi'i gadarnhau mewn data ffonau symudol. Mae dadansoddiad yn ôl ardal awdurdod lleol yn dangos sut y newidiodd patrymau symudedd gyda chynnydd sylweddol yn y duedd i ymweld â pharciau, gerddi cyhoeddus a thraethau. (https://www.google.com/covid19/mobility/)

Cafwyd cipolygon pellach ar ble roedd buddion cadarnhaol o arolwg a gomisiynwyd gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA),y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad (FFCC) ynghyd â'r elusen fwyd The Food Foundation. Daethpwyd o hyd i nifer o newidiadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys pobl yn

gwerthfawrogi bwyd yn fwy ac yn sylwi ar aer glanach, gyda dim ond 9% o Brydeinwyr eisiau dychwelyd yn llwyr i “normal” ar ôl y cyfyngiadau clo.
https://www.thersa.org/press/releases/2019/brits-see-cleaner-air-stronger-social-bonds-and-changing-food-habits-amid-lockdown

Er gwaethaf her bendant o ran cael mwy o bobl ledled Cymru i elwa o fod yn yr awyr agored, mae llawer o enghreifftiau yn ardal CTM lle mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei gyflawni. Ystyrir y rhain fel cryfderau.

Mae’r twyni tywod ar hyd arfordir CTM yn amlygu sut y gallai amgylchedd, diwylliant, yr economi a hamdden gydfodoli mewn un lle, gyda rheolaeth ofalus. Mae gan y twyni tywod yng Nghynffig rhwng ymyl ddeheuol Bae Abertawe rhwng Port Talbot a Phorthcawl ddynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae ganddi nifer o nodweddion pwysig o ran yr arfordir ac o ran rhywogaethau ond dim ond un nodwedd forol – dolydd heli Iwerydd. Er nad yw’n cynrychioli dim ond 2% o’r safle, mae’r olaf yn brin ar hyd yr arfordir hwnnw ac mae ei gyflwr dangosol yn anffafriol oherwydd da byw yn pori a sbwriel. https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684390/kenfig-sac-ica-2018.pdf. Mae gan y safle hanes o ddefnydd milwrol yn ogystal â’r ffaith ei fod yn darparu lle pwysig ar gyfer hamdden a mynediad. Mae twyni BYW, https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/sands-of-life/?lang=en yn cwmpasu Cynffig a Merthyr Mawr yn ardal CTM yn ogystal â systemau twyni tywod eraill ledled Cymru.

Amcangyfrifwyd y bu £18.2 miliwn o fuddion iechyd i bobl a £2,870 miliwn mewn twristiaeth i Gymru gan bobl sy’n cerdded Llwybr Arfordir Cymru. (Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016)

Mae’r rhan 12m/19km o Lwybr Arfordir Cymru Gyfan sy’n ymestyn ar hyd de ardal CTM yn dod â buddion economaidd i ardal Pen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt. Mae darnau yn y gorllewin yn cynnwys twyni tywod Twyni Cynffig a Chwningar Merthyr Mawr yn y dwyrain, gyda bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol a chyfleoedd ar gyfer amwynderau.

Mae sicrhau cydbwysedd rhwng profi gwylltineb natur, gydag er enghraifft, twyni tywod symudol a hygyrchedd bob amser yn her. Ar hyd rhan Pen-y-bont ar Ogwr yn Rest Bay, mae darn 1km o lwybr pren gyda llwybrau caled a phalmentydd sy'n caniatáu mynediad i grŵp ehangach o ddefnyddwyr.

Mae cyfleoedd clir i hyd yn oed mwy o bobl elwa ar y fantais o fod yn yr awyr agored, gan wella’r profiad i ddefnyddwyr ac ymwelwyr a chynhyrchu mwy o incwm i’r economi leol.

Ond nid dim ond o ran Llwybr Arfordir Cymru y mae cyfleoedd yn bodoli. Mae gan Borth Gwybodaeth Amgylcheddol CNC fap rhyngweithiol a ddangosir isod ar gyfer Mynediad a Hamdden. Mae hwn yn ei gwneud yn bosibl i wneud mwy o ddadansoddiad o’r ardaloedd hamdden presennol a gallai hefyd helpu i nodi cyfleoedd yn y dyfodol.




Mae'n dilyn bod ansawdd yr amgylchedd yn bwysig. Y Faner Werdd yw'r nod ansawdd rhyngwladol ar gyfer parc neu fan gwyrdd gyda'r Faner Werdd Gymunedol gyfatebol yn cydnabod cryfder gwirfoddoli.

Yng Nghymru, yn 2020, derbyniodd 224 o barciau a mannau gwyrdd Wobrau Cymunedol y Faner Werdd a’r Faner Werdd. https://www.keepwalestidy.cymru/pages/category/greenflag

O fewn ardal CTM, derbyniodd 13 o safleoedd Wobrau'r Faner Werdd a dyfarnwyd Gwobrau Cymunedol y Faner Werdd i 21 o safleoedd. Mae safleoedd o'r fath nid yn unig yn darparu lle ar gyfer adloniant a chynhyrchu economaidd ond hefyd yn darparu cyfleoedd i gefnogi fflora a ffawna yn wyneb heriau newid hinsawdd ac argyfyngau natur.

| Gwobrau'r Faner Werdd 2020 |
|---|
| Parc Aberdâr, Parc Ffynnon Taf, Parc Coffa Ynys Angharad.<br>Parc Gwledig Bryngarw, Amlosgfa Llangrallo, Parc Lles Maesteg, Llyn Wildness Porthcawl, Ysbyty Glanrhyd.<br>Parc Cyfarthfa, Parc Taf Bargoed, Mynwent Aberfan, Parc Thomastown, Canolfan Goedwig Garwnant. |

Rhoddwyd nod arall o ‘safon aur’ yn 2020 i ansawdd dŵr ymdrochi yn yr ardal. Mae tri o draethau Porthcawl, Rest Bay, Bae Trecco a Sandy Bay wedi cael eu cydnabod am ansawdd rhagorol eu dŵr ymdrochi dros gyfnod asesu pedair blynedd rhwng 2017 a 2020 gyda lefelau isel o lygredd yn cael eu cofnodi wrth fonitro. https://gov.wales/bathing-water-list-wales-2020-html

Mae yna elfennau a allai effeithio ar lefelau llygredd o wahanol ddalgylchoedd yn yr ardal gan gynnwys ardaloedd amaethyddol, trefol a diwydiannol i Afon Ogwr. Mae risg o law trwm yn llethu'r system garthffosiaeth gan arwain at ddefnyddio gorlifoedd stormydd brys i atal llifogydd i eiddo yn yr ardal. Yn ogystal, mae yna 'ollyngfeydd storm' sy'n arllwys i Afon Ogwr a allai achosi i lefelau llygredd gynyddu. Byddai'r ddau ddigwyddiad hyn yn arwain at effaith andwyol bosibl ar ddŵr ymdrochi yn dilyn cyfnodau o law trwm. Mae prosiect ar y gweill fel y nodir isod:

> *'Mae prosiect o'r enw Monitro Hyd Digwyddiadau (EDM) ar y gweill i osod telemetreg ar Orlifoedd Carthffosydd Cyfun (CSOs) o fewn 2km i ddŵr ymdrochi erbyn 2020 fel bod Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) yn gwybod pryd mae'r Gorlifoedd Carthffosydd Cyfun yn gweithredu ac yn gallu gweithio i leihau gollyngiadau. Mae un o'r Gorlifoedd Carthffosydd Cyfun ger Rest Bay Porthcawl wedi'i gynnwys yn y prosiect' (Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Mae'r gwaith parhaus i sicrhau bod ansawdd dŵr ymdrochi yn cael ei gynnal yn arwydd da bod yr effeithiau amgylcheddol yn cael eu cadw i isafswm trwy reoli llygredd yn dda.

Trafodir ansawdd dŵr yn ardal CTM mewn man arall yn y ddogfen hon.

Ceir llawer o enghreifftiau o gyfleoedd lle mae camau cadarnhaol yn digwydd i ymdrin â llesiant pobl drwy, er enghraifft, bresgripsiynu cymdeithasol a gwella'r amgylchedd. Mae dod â mwy o bobl a byd natur yn nes at ei gilydd wedi bod yn nodwedd o Gynlluniau Llesiant blaenorol.

Un enghraifft yr ymddengys iddi fynd o nerth i nerth yw 'Welcome To Our Woods' (https://welcometoourwoods.org), enghraifft lle gellir dod â'r asedau naturiol, sef Stad Coetir Llywodraeth Cymru yn ardal Rhondda Fawr Uchaf yn yr achos hwn, yn nes at y gymuned leol. Mae hon yn bartneriaeth rhwng busnesau lleol yn y sector preifat a thirfeddianwyr, llywodraeth ac asiantaethau statudol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol lleol ac unigolion sy'n cynnig eu hamser a'u sgiliau. Gan reoli adnoddau lleol a mannau lleol yn gynaliadwy ar gyfer canlyniadau i iechyd, lles, hamdden, hyfforddiant a chyflogaeth, mae eu gwaith yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i oresgyn problemau cymdeithasol cysylltiedig. Mae hwn felly yn fodel gweithio gwahanol.

Mae lle i archwilio ymhellach sut y gellir cysylltu pobl leol yn ardal CTM yn well â'u hamgylchedd.

Un enghraifft yw Skyline, astudiaeth ddichonoldeb, (https://skyline.wales/sites/default/files/attachments/2019-11/skyline-final_1.pdf) sy'n cynnwys cymunedau yn Nhreherbert, Ynysowen a Chaerau. Archwiliodd yr astudiaeth fecanweithiau ar gyfer darparu stiwardiaeth tir cymunedol ar raddfa'r dirwedd, a oedd o fudd i fyd natur gyda model busnes a fyddai'n caniatáu i gymunedau dorri'n rhydd oddi wrth ddiwylliant o ddibyniaeth ar grantiau.

Mae'r hyn a ddysgwyd o Skyline bellach yn cael ei ddatblygu mewn astudiaeth bellach sy'n cynnwys y gymuned o amgylch Treherbert, gan Lywodraeth Cymru a CNC. Bydd yr astudiaeth yn defnyddio Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (TOMs) (https://www.nationalsocialvaluetaskforce.org/national-toms-wales) sydd wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i fesur a gwneud y mwyaf o'r gwerth cymdeithasol y maent yn ei greu. Mae'r gwaith hwn yn edrych yn benodol ar gyd-ddylunio gweledigaeth ar gyfer darn o goetir coedwigaeth, sefydlu menter goedwigaeth gymunedol a throsglwyddo asedau coedwigaeth i'r gymuned yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys hawliau economaidd o bren trwy archwilio gwerth cymdeithasol. Gellid cymhwyso'r dysgu mewn mannau eraill.

Yn ymestyn ar draws Cymoedd De Cymru, mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP)https://valleysregionalpark.wales/), a oedd yn y cam syniadau ar adeg y Cynlluniau Llesiant cyntaf, bellach wedi ei lansio. Gan ddysgu o safleoedd tebyg ar dir mawr Ewrop, mae 5 o'i 12 Safle Darganfod (Parc Gwledig Cwm Dâr, Aberdâr; Parc a Chastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful; Parc Gwledig Bryngarw, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwarchodfa Natur Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr a Pharc Ynys Angharad a Lido Cenedlaethol, Pontypridd ) yn ardal CTM.

Nod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yw gwneud y gorau o'r dirwedd, yr adnoddau naturiol a'r asedau diwylliannol gwych.

Yn ystod pandemig Covid bu cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored wrth i gyfyngiadau gael eu rhoi ar waith. Nododd arolwg Mannau Agored Gwyrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020, cyn y pandemig fod mwyafrif y bobl yn defnyddio parciau gwledig a choetiroedd yn bennaf, ac yna mannau gwyrdd trefol a thir comin/tir agored. Dywedodd mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi treulio rhwng 1 a 3 awr yn yr ardaloedd. Er bod nifer uchel yn defnyddio ceir i gyrraedd y cyrchfannau hyn (45%) roedd cymaint yn cerdded (44%) sydd, o safbwynt amgylcheddol, yn gadarnhaol. Cyn y cyfyngiadau symud dywedodd 23% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r ardaloedd bob dydd a dywedodd 33% eu bod yn eu defnyddio 2-5 gwaith yr wythnos. Yn ystod y cyfyngiadau symud newidiodd hyn i 56% a 30% yn y drefn honno. Gan eu bod yn defnyddio'r mannau agored yn amlach yn ystod y cyfyngiadau symud, nododd yr ymatebwyr (n421) eu bod wedi dod yn fwy ymwybodol o fywyd gwyllt (53% yn cytuno'n gryf; a 29% yn cytuno).

Er bod yr arolwg yn gadarnhaol o ran pobl yn ymgysylltu â'u hamgylchedd naturiol, roedd canran uchel (46%) yn siomedig gydag 'ymddygiad defnyddwyr eraill' megis pobl yn gollwng sbwriel a diogelwch cymunedol. Ond byddai 50% o ymatebwyr (n416) yn ystyried dod yn wirfoddolwr gan gymryd rhan mewn gweithgareddau fel codi sbwriel neu blannu coed yn y mannau gwyrdd agored. Yn yr un modd roedd y rhai oedd â gardd wedi gwneud gwelliannau gan gynnwys gwneud eu gardd yn fwy ystyriol o fywyd gwyllt a gosod pyllau. Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi trosolwg ffeithlun o'r canfyddiadau https://valleysregionalpark.wales/wp-content/uploads/2021/03/VRP-GREEN-SPACES-INFOGRAPHIC.pdf

### Cyfleoedd

Nododd yr ymarferiad Ymgysylltu Cymunedol mai mannau gwyrdd (yn ogystal â diogelwch a newid yn yr hinsawdd) oedd y materion pwysicaf wrth feddwl am les amgylcheddol yn yr Ardal.

Roedd mannau gwyrdd a'r awyr agored, gan gynnwys parciau, gerddi a rhandiroedd, yn amlwg iawn yn yr ymatebion, gan nodi defnyddiau'n amrywio o roi amser i'r teulu i redeg, mynd â chŵn am dro a seiclo. Y teimlad oedd bod pobl yn ffodus i gael mynediad am ddim a hygyrch 'ar garreg ein drws'.

Roedd manteision iechyd a lles bod yn yr awyr agored yn bwysig a dywedodd pobl sut roedd gallu cael mynediad iddynt yn ystod y cyfyngiadau symud yn eu helpu i ddod drwyddynt. Roedd yr un gwaith yn tynnu sylw at y pryder bod rhai mannau gwyrdd yn cael eu colli i ddatblygiadau tai ac roedd yr angen i warchod a chynnal yr ardaloedd hyn yn flaenoriaeth i lawer.

Yn ogystal, roedd hygyrchedd yn broblem gyda rhai mannau gwyrdd yn anhygyrch i'r rhai â phroblemau symudedd. Er bod pobl anabl yn gweld byd natur yn beth da ar gyfer lles meddyliol, roedd llawer yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu. Dywedodd y gymuned fyddar ei bod

yn anodd cael gafael ar wybodaeth trwy iaith arwyddion, bod cysylltiadau trafnidiaeth i ardaloedd gwyrdd yn wael a bod gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem i lawer.

Roedd diogelwch yn bwysig o ran lles amgylcheddol i lawer. Crybwyllwyd diogelwch personol hefyd, lle’r oedd rhai’n teimlo’n anniogel eu hunain neu’n pryderu am ddiogelwch pobl eraill, gan gynnwys plant a phartneriaid/gwŷr a gwragedd.

Nododd yr un ymarferiad y cyfle i grwpiau cerdded gyflwyno pobl i’w mannau gwyrdd, a thrwy hynny gysylltu pobl a’u helpu i ddysgu am eu treftadaeth a'r ardal.

Mae mynediad diogel i fannau gwyrdd wedi’i nodi fel rhywbeth sy’n bwysig i’r gymuned ac i rai, y dirwedd naturiol werdd a’r arfordir, yw rhai o’r pethau gorau am fyw yn yr ardal. Mae cyfle i ddiwallu’r angen hwnnw ymhellach.

Mae gwybodaeth ar gael sy’n dangos lle mae’r problemau lle nad oes gan bobl fynediad parod i fannau gwyrdd neu lle gallai fod lefelau uwch o lygredd a sŵn. Gallai ymyriadau wedi'u targedu trwy 'fapio cyfleoedd' ganiatáu buddsoddi cyllid neu weithredu gwirfoddol.

## Ansawdd Aer

**Yr Her:** *Mae gan ansawdd aer gwael gostau cymdeithasol enfawr oherwydd ei effeithiau ar iechyd, ac effeithiau andwyol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth.*

Mae gan Gymru beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU. Y llygryddion aer sy'n peri'r pryder mwyaf i iechyd y cyhoedd yw mater gronynnol (PM) a nitrogen deuocsid (NO2). Mae'r map isod yn dangos modelu crynoadau cefndir ar gyfer NO2 a PM2.5 ledled Cymru.







Yng Nghymru bob blwyddyn, mae'r hyn sy'n cyfateb i tua 1,604 o farwolaethau yn cael eu priodoli i amlygiad i PM2.5 a 1,108 o farwolaethau i amlygiad i NO2, (yn seiliedig ar ddata 2011/12; McCarthy a Brunt, 2018).

Mae ystod eang o effeithiau andwyol ar iechyd wedi'u cysylltu ag amlygiad i PM yn yr awyr agored. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/knowledge-directorate/research-and-evaluation/publications/making-a-difference-reducing-health-risks-associated-with-road-traffic-pollution-in-wales/

Nid oes tystiolaeth o lefel ddiogel o amlygiad i PM, na throthwy lle nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd yn digwydd oddi tano (Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO, 2013). Gallai amlygiad tymor byr arwain at lid y llygaid, y trwyn a'r gwddf, gwaethygu symptomau asthma, a chur pen a chyfog. Mae amlygiad hirdymor yn cynyddu risgiau morbidrwydd a marwolaethau o glefyd y galon a strôc, clefydau anadlol, canser yr ysgyfaint yn ogystal ag effeithiau niweidiol eraill ar iechyd (Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO, 2013).

Nid yw'n syndod bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi disgrifio ansawdd aer fel argyfwng iechyd cyhoeddus sydd angen sylw brys, yn ail yn unig i ysmygu. Maent hefyd yn cydnabod y cysylltiad sydd gan lygredd aer ag iechyd gwael ac amddifadedd. Mae ymchwilwyr wedi disgrifio bod 'effaith perygl triphlyg' (Brunt a Jones, 2019) ar waith – lle mae'r rhai o statws economaidd-gymdeithasol isel yn cael eu hamlygu i lefelau uwch o lygredd oherwydd lle maent yn byw neu'n gweithio. Canfu astudiaeth 2016 (Brunt et al.), fod llygredd aer yn uwch

yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Daeth i'r casgliad fod cysylltiad annatod rhwng llygredd aer, amddifadedd ac iechyd.

Nid yn unig y mae anghydraddoldebau o ran effaith llygredd aer ond amcangyfrifwyd bod llygredd aer yn costio £1 biliwn i Gymru bob blwyddyn o ran diwrnodau gwaith a gollir a chostau i'r gwasanaeth iechyd.

Mae allyriadau traffig ffyrdd yn cyfrif am ddwy ran o dair o lygredd aer mewn safleoedd monitro trefol. Mae traffig ffyrdd yn cynhyrchu PM a NO2 o allyriadau injans, teiars a thraul brêcs, llwch ffordd wedi'i ail-godi i'r awyr ac adweithiau cemegol yn yr aer. Mae llygredd aer o draffig yn achosi problem yn lleol ac ymhellach i ffwrdd, gan fod llygrwyr yn gallu teithio'n bell a lledaenu dros ardaloedd eang. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/knowledge-directorate/research-and-evaluation/publications/making-a-difference-reducing-health-risks-associated-with-road-traffic-pollution-in-wales/

Nid PM ac NO2 yw'r unig lygryddion sy'n peri pryder. Mae crynodiadau amonia yn parhau i gynyddu'n raddol, gan effeithio ar gydbwysedd naturiol ein hecosystemau. Gall allyriadau amonia drawsnewid yn yr atmosffer a chyfrannu at lefelau uwch o ddeunydd gronynnol ac osôn gan achosi niwed i iechyd pobl. Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu 85% o gyfanswm amonia Cymru.

Mae Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol 2020 yn cofnodi bod Nitrogen Deuocsid (N02) wedi gostwng rhwng 2010 a 2015, gyda chynnydd bach wedi hynny rhwng 2015 a 2016. Yn 2017 gostyngodd y crynodiad eto gyda 2018 yn cofnodi'r un lefel gyfartalog â 2017.

Gallai ansawdd aer lleol gwael ac effeithiau cysylltiedig ar les cymunedol hefyd ddeillio o danau gwyllt. Mae gan ardal CTM hanes o danau gwyllt. Archwilir hyn mewn adran ddiweddarach yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd drwy'r prosiect Llethrau Iach.

Gan ddefnyddio'r Map Rhyngweithiol Allyriadau y DU (beis.gov.uk) gellir archwilio data allyriadau.

Dangosir y ceir lefelau uchod o amonia yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.




(Ffynhonnell gwybodaeth CNC)



(Ffynhonnell gwybodaeth CNC)

Ar gyfer mwyafrif helaeth ardal CTM, mae ansawdd yr aer yn dda.

Ond mae nifer o leoliadau lle mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan. Dyma lle mae lefelau N02 yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer Cenedlaethol. Mae un ym Mhen-y-bont ar Ogwr (<https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/consultations/closed-consultations/park-street-air-quality-management-area/>, un ym Merthyr Tudful (https://www.merthyr.gov.uk/resident/pest-pollution-food-hygiene/air-pollution <https://www.merthyr.gov.uk/resident/pests-pollution-food-hygiene/air-pollution>) ac un ar bymtheg yn Rhondda Cynon-taf (<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/Airquality.aspx>)

Mae pob un yn gysylltiedig â chyffyrdd trefol prysur.

### Cyfleoedd

Mae cyfleoedd i ymdrin â'r broblem hon drwy hyrwyddo a gweithredu atebion teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.

Mae gwneud teithiau byrrach fel teithiau i siopau neu ysgolion ar droed neu ar feic yn golygu ennill £8 am bob £1 a fuddsoddwyd. Ar gyfer teithiau hirach, mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â cherdded a beicio hefyd yn cefnogi gwelliant. Mae cysylltu lleoedd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt trwy seilwaith cerdded a beicio yn golygu ennill £10 am bob £1 a fuddsoddir. Mae yna gynlluniau cymhelliant megis cynlluniau teithio allyriadau isel corfforaethol fel cynlluniau beicio i'r gwaith sydd ag enillion o £6 am bob £1 a fuddsoddir.

Byddai gostwng terfynau cyflymder trefol o 30mya i 20mya yn lleihau allyriadau PM, anafiadau yn dilyn damweiniau a marwolaethau yn ogystal â chefnogi gwell cydlyniant cymunedol. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/knowledge-directorate/research-and-evaluation/publications/making-a-difference-reducing-health-risks-associated-with-road-traffic-pollution-in-wales/

## Seinweddau a Llygredd Sŵn

***Yr her:*** *Mae sŵn yn dod yn fwy a mwy o bryder i bobl a'u lles.*

Mewn ardaloedd trefol ledled Cymru, mae 27% o bobl yn cael eu poeni gan sŵn (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018). Roedd y rhai a oedd yn cael eu poeni gan sŵn yn llawer llai tebygol o fod yn fodlon ynghylch eu cartrefi.

Ond nid dyma'r prif achos sylfaenol. Traffig ffyrdd yw'r elfen sy'n cyfrannu fwyaf at sŵn trefol, a chofnodir lefelau sŵn uwch mewn ardaloedd difreintiedig (SoNaRR, 2020). Mae gan Dde Cymru ardaloedd lle mae llygredd sŵn yn broblem fawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful a'r cyffiniau. Mae llygredd sŵn yn cynyddu'r risg o afiechyd ac ansawdd bywyd gwael. Ar ôl llygredd aer, sŵn sy'n achosi'r baich afiechyd sy'n gysylltiedig â llygredd ail uchaf yn Ewrop, ac mae'n gyfrifol am golli mwy o flynyddoedd bywyd na phlwm, osôn neu ddiocsinau (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2021).

'Sŵn o'r Ffordd Fawr 2017, Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/noise-and-soundscape-action-plan.pdf>

Map 2 Noise from major roads (2017)




© Crown Copyright and database right 2018. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

Sŵn o Draffig Ffyrdd (dB) a Sŵn Diwydiannol (dB) (LAeq 16hr 2017) Sŵn Amgylcheddol




## Llifogydd

**Her:** *lleihau'r risg i bobl a busnesau o effeithiau llifogydd*

Mae effeithiau mwyaf difrifol newid yn yr hinsawdd i'w teimlo'n aml yn ystod digwyddiadau meteorolegol eithafol fel glaw ac eira trwm, sychder, tywydd poeth, cyfnodau o dywydd oer, a stormydd. Gallai'r rhain arwain at neu waethygu digwyddiadau eraill sy'n cael effeithiau mawr megis llifogydd, tirlithriadau, tanau gwyllt ac eirlithriadau. Yn 2018, cafodd 61% o'r holl ddadleoliadau mewnol eu sbarduno gan drychinebau oedd yn gysylltiedig â'r tywydd. (Evidence base of long-term trends for UK policy makers, Spring 2021" UK Trend Deck Gwanwyn 2021 (cyhoeddwyd 28 Mehefin 2021)

Mae llifogydd yn cael effaith negyddol a pharhaus sylweddol ar les meddyliol a chorfforol pobl, eu cartrefi a'u busnesau. Mae'r tywydd eithafol sy'n achosi llifogydd hefyd yn cael effeithiau andwyol eraill ar y dirwedd ehangach oherwydd tirlithriadau. Gellir effeithio ar seilwaith y mae pob cymuned yn dibynnu arno megis ffyrdd, pontydd, rhwydweithiau rheilffyrdd, gwasanaethau cyhoeddus ac adeiladau cyhoeddus. Cafodd ei gydnabod fel her yn y Cynlluniau Llesiant cyntaf a nodwyd ardaloedd mewn perygl.

Mae dros 40,000 eiddo (>10,000 o eiddo yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr; >5,000 yn CBS Merthyr Tudful a > 25,000 yn CBS Rhondda Cynon Taf ) mewn rhyw lefel o berygl o lifogydd. Mae'r nifer hwn bron yn sicr o gynyddu o dan ragamcanion newid yn yr hinsawdd.

Tabl 55: Perygl o Lifogydd

| Crynodeb Perygl Llifogydd yn CTM | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | Merthyr Tydfil | Rhondda Cynon Taf |
| • Mae 3,147 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd afonol (369 mewn perygl uchel)<br><br>• Mae 6,053 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb (1872 mewn perygl uchel)<br><br>• Mae 632 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd llanw (32 mewn perygl uchel)<br><br>• Llifogydd dŵr wyneb yw'r ffynhonnell gyda'r nifer fwyaf o eiddo mewn perygl uchel gyda 2066 (1872 preswyl a 194 dibreswyl)<br><br>• *Mae tua 1,100 o eiddo dibreswyl mewn perygl o naill ai lifogydd afonol, y llanw neu ddŵr wyneb. | • Mae 918 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd afonol (90 mewn perygl uchel)<br><br>• Mae 3,963 o eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb (1707 mewn perygl uchel)<br><br>• Llifogydd dŵr wyneb yw'r ffynhonnell gyda'r nifer fwyaf o eiddo mewn perygl uchel gyda 2129 (1707 preswyl a 422 dibreswyl)<br><br>• *Mae tua 650 eiddo dibreswyl mewn perygl o naill ai lifogydd afonol, y llanw neu ddŵr wyneb. | • Mae 5909 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd afonol (692 mewn perygl uchel)<br><br>• Mae 18,853 eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb (7730 mewn perygl uchel)<br><br>• Llifogydd dŵr wyneb yw'r ffynhonnell gyda'r nifer fwyaf o eiddo mewn perygl uchel gyda 8472 (7730 preswyl a 742 dibreswyl)<br><br>• *Mae tua 2450 o eiddo dibreswyl mewn perygl o naill ai lifogydd afonol, y llanw neu ddŵr wyneb. |

**Nodyn:**

Gallai nifer yr eiddo sydd mewn perygl amrywio dros amser; byddant yn lleihau gyda chynlluniau newydd i liniaru llifogydd a gwelliannau eraill i safonau amddiffyn; a chyda gwell technegau modelu a modelu lleol (cyfrifoldeb CNC yn gyffredinol), gallai'r niferoedd gynyddu neu leihau.

Mae daearyddiaeth a thopograffeg ardal CTM yn dylanwadu'n drwm ar y perygl o lifogydd. Mae'n bwysig nodi y gallai llifogydd dŵr wyneb effeithio ar y rheini y tu allan i orlifdiroedd afonydd traddodiadol ac felly efallai nad yw pobl yn ymwybodol o'r perygl.

Mae ardal CBS Rhondda Cynon Taf wedi'i nodweddu'n bennaf gan gymoedd ag ochrau serth, gyda'r cymunedau niferus yn ffurfio ardaloedd trefol llinellol bron yn barhaus ar hyd gwaelodion cul y cymoedd a'r llethrau is. Mae'r llednentydd niferus ac o ganlyniad, y prif afonydd (Rhondda, Cynon a Thaf) yn ymateb yn gyflym i achosion o law trwm. Mae llawer o'r cyrsiau dŵr sy'n rhedeg oddi ar y llethrau yn llifo drwy gylfatau o dan y cymunedau (gan gynnwys seilwaith allweddol) cyn cyrraedd y brif afon. Mae'r gostyngiad yng nghapasiti cludo'r cylfatau oherwydd croniad o falurion ynghyd â gor-lenwi'r sianel yn ystod glaw trwm yn broblemau sylweddol.

Y ffynhonnell fwyaf o berygl llifogydd trwy'r ardal i gyd bron yw dŵr wyneb; mae ardaloedd cymunedol Pentre, Treorci, Treherbert, Rhydfelin, Penygraig, Tonypandy a Blaenrhondda i gyd yn yr 20 ardal uchaf yng Nghymru sydd mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Pentre yw'r safle sydd ar y brig o ran bod yn y perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb yng Nghymru, gyda Threorci yn 3ydd.

Yr ardaloedd cymunedol sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd afonol yw Pentre, Treorci ac Aberdâr.

Wrth ystyried y peryglon dŵr wyneb a llifogydd afonol gyda'i gilydd mae 9 ardal gymunedol yn y 50 uchaf (allan o 2000+ yng Nghymru) sef Pentre, Treorci, Treherbert, Rhydfelin, Aberdâr, Penygraig, Blaenrhondda, Trecynon a Thonypandy.

Yn ardal CBS Merthyr Tudful, mae sawl ardal gymunedol mewn perygl sylweddol o lifogydd. Ar gyfer perygl llifogydd afonol, mae 3 ardal yn y 100 uchaf, sef Merthyr Tudful, Troedyrhiw a Ynysowen. Ar gyfer perygl llifogydd dŵr wyneb, mae 5 ardal yn y 100 uchaf, sef Merthyr Tudful, Troedyrhiw, Abercanaid, Pentrebach a Chefncoedycymer. Mae'r risgiau cyfunol o ddŵr wyneb ac afonol yn gosod Merthyr Tudful a Throedyrhiw yn 6ed ac yn rhif 16eg o ran yr ardaloedd yn y perygl mwyaf yng Nghymru.

Yn ardal CBS Pen-y-bont ar Ogwr, y gymuned sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd llanw yw Porthcawl – sydd ar safle 16 yng Nghymru.

Mae 5 ardal gymunedol – Maesteg, Dyffryn, Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr a Phen-coed yn y 100 cymuned sydd wedi'u rhestru uchaf ar gyfer perygl llifogydd afonol a dŵr wyneb. (Ffynhonnell data Cofrestr Cymunedau mewn Perygl CNC 2019).

Ond ers yr asesiad llesiant diwethaf, bu llifogydd sylweddol ar draws ardal CTM. Yn ystod Chwefror a Mawrth 2020 cafodd Cymru ei tharo gan bedair storm fawr a gafodd effaith sylweddol ar gymunedau.

Yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, cafwyd llifogydd mewn 29 eiddo, ym Merthyr Tudful digwyddodd hyn mewn 225 eiddo ond roedd yr effaith fwyaf yn Rhondda Cynon Taf pan gafodd 1,576 eiddo eu boddi gan ddŵr llifogydd.

Amcangyfrifwyd y byddai'r gost [o drin y llifogydd] yn Rhondda Cynon Taf yn unig yn fwy na £91m. Wrth i hinsawdd y DU ddod yn llawer gwlypach, cynhesach ac anrhagweladwy o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, teimlir y bydd tywydd eithafol iawn yn fwy tebygol yn y dyfodol agos.
https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Meetings/Cabinet/2020/12/18/Reports/Item6ReviewoftheCouncilsResponsetoStormDennis.pdf

Trwy ymgyrchoedd ymgysylltu â'r gymuned leol, mae ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd wedi cael eu hannog i gynhyrchu eu Cynlluniau Dalgylchoedd Llifogydd eu hunain. Mae'r cynlluniau'n wirfoddol, yn cael eu harwain gan y gymuned ac yn cael eu cefnogi gan CNC. Mae 4 cynllun gweithredol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnwys cyfanswm o 219 eiddo - yn y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr (Llys Faen a'r Beeches) a 2 ym Mhencoed (Heol y Croes a Phenybont). Mae yna 3 yn Rhondda Cynon Taf, Ynysddu (Pont-y-clun), Treorci a Robertstown yn cynnwys cyfanswm o 6 eiddo yn unig. Nid oes unrhyw gynlluniau cymunedol yn ardal Merthyr Tudful.

Mae cael cymunedau i ymgysylltu a pharatoi'n well ar gyfer y posibilrwydd o lifogydd yn nod hirdymor. Gallai perchnogion cartref neu fusnes y mae eu heiddo mewn perygl o lifogydd dderbyn negeseuon rhybudd CNC dros y ffôn, e-bost neu neges destun os bydd llifogydd yn bosibl.

Nifer yr eiddo/cyfeiriadau sydd wedi cofrestru a % yr eiddo sy'n derbyn y gwasanaeth rhybuddion llifogydd o fewn Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd CNC yw:

- Ardal Merthyr Tudful: 533 – 30.9%
- Ardal Pen-y-bont ar Ogwr: 1879 – 48%

- Ardal Rhondda Cynon Taf: 5017 – 63%

Mae Datganiad Ardal CNC ar gyfer Canol De Cymru yn nodi sut, yn un o'i bedair blaenoriaeth, Gweithio gyda Dŵr, y mae'n bwriadu gweithio gydag eraill i sicrhau ymyriadau ar gyfer adfer dalgylchoedd i weithio ochr yn ochr â'n hamddiffynfeydd llifogydd ffisegol, gan leihau'r cyfnodau brig mewn llif a, lle bo modd, yr angen am amddiffynfeydd llifogydd ffisegol ychwanegol neu fwy a mwy drud, ynghyd â pharatoi ar gyfer y perygl cynyddol o lifogydd. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/introduction-to-south-central-area-statement/?lang=en

Mae rhannau o ardal CTM yn rhai arfordirol ac felly mewn perygl o lifogydd o'r môr.

Mae mapiau wedi'u cynhyrchu gan Climate Central sy'n rhagweld senarios posibl o effaith newid hinsawdd ar yr arfordir. Mewn un senario, os rhagwelir codiad tymheredd byd-eang o ddwy radd, gallai rhannau o'r ardal o amgylch Porthcawl fod o dan ddŵr erbyn 2030. https://coastal.climatecentral.org/map/9/-2.9198/51.2952/?theme=sea_level_rise&map_type=year&basemap=roadmap&contiguous=true&elevation_model=best_available&forecast_year=2030&pathway=rcp45&percentile=p50&return_level=return_level_1&slr_model=kopp_2014

Dylid nodi bod cynnydd ym mapiau lefel y môr a llifogydd arfordirol Climate Central yn seiliedig ar wyddoniaeth a adolygwyd gan gymheiriaid mewn cyfnodolion blaenllaw. Mae gan y map ddatganiad amodol sy'n nodi gan fod y mapiau hyn yn ymgorffori setiau data mawr sydd bob amser yn cynnwys rhywfaint o wallau, y dylid ystyried y mapiau hyn fel offer sgrinio i nodi lleoedd y gallai fod angen ymchwilio i risg ynddynt yn ddyfnach.

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn gynlluniau lefel uchel sy'n nodi lle y dylem barhau i amddiffyn yr arfordir a lle y byddai'n fwy cynaliadwy addasu dros amser. (https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/marine-area-statement/nature-based-solutions-and-adaptation-at-the-coast/?lang=en) Maent yn egluro sut y dylid rheoli'r morlin dros y tymor byr (2005-2025), y tymor canolig (2025-2055) a'r hirdymor (2055-2105) gydag un o'r polisïau rheoli a ganlyn ar gyfer pob cyfnod:

- **Dal y llinell** drwy gynnal neu newid y safon warchodaeth bresennol
- **Symud y llinell ymlaen** drwy ymestyn amddiffynfeydd newydd i'r môr (ddim yn berthnasol yng Nghymru)
- **Adlinio rheoledig** sy'n caniatáu i'r draethlin symud yn ôl ac ymlaen, gyda rheolaeth i reoli neu gyfyngu ar y symudiad
- **Dim ymyrraeth weithredol** lle nad oes buddsoddiad mewn amddiffynfeydd arfordirol a bod prosesau naturiol yn cael eu caniatáu

Mae'r ffigur isod yn dangos y polisïau rheoli a ffefrir ar draws y tri chyfnod. Mae'n dangos yn glir y symudiad arfaethedig o barhau i amddiffyn i ddull mwy addasol mewn rhai lleoliadau.

**Siart 89: Rheoli Traethlinau**




Lle mae newidiadau arfaethedig i ‘adlinio rheoledig’ neu ‘ddim ymyrraeth weithredol', bydd rhannau o'r arfordir yn colli eu gwarchodaeth bresennol. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ac mae angen casglu tystiolaeth, ymgysylltu a buddsoddi sylweddol mewn adnoddau er mwyn dechrau paratoi ar gyfer addasu arfordirol.

Ystyrir y gallai Newton ger Porthcawl fod mewn perygl a mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd o beidio â diogelu eiddo yno ar ôl 25 mlynedd. Mae’n anochel y bydd materion fydd yn peri pryder i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau na fyddant yn cael eu hamddiffyn mwyach. https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/sea-defences-eventually-fail-newton-8181728. Yn allweddol i sut y bydd y sefyllfa’n symud ymlaen fydd ymgysylltu â’r rhai a allai gael eu heffeithio.

Mae amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu gwella yn yr ardal. Ym Mhorthcawl, mae gwaith wedi dechrau ar gynllun newydd gwerth £6.4m a fydd yn amddiffyn Porthcawl rhag llifogydd ac unrhyw gynnydd posibl yn lefel y môr yn y dyfodol (https://www.bridgend.gov.uk/news/work-to-begin-on-porthcawl-s-64m-flood-defence-scheme/

Mae llawer o amddiffynfeydd rhag llifogydd eisoes yn darparu cyfleoedd mynediad a hamdden pwysig. Wrth symud ymlaen gyda dylunio mae cyfleoedd i gynnwys cynefinoedd a nodweddion amgylcheddol cysylltiedig mewn seilwaith hanfodol o’r fath. Gallai atebion o’r fath sy’n seiliedig ar natur, yn wahanol i atebion traddodiadol gynnig llawer o fanteision eraill. Er enghraifft, gallwn ailgyflenwi traethau neu warchod morfeydd heli fel ffordd o amddiffyn ein harfordir. Gallai’r dull hwn ar yr un pryd greu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, amddiffyn storfeydd carbon, bod yn llefydd i ni eu mwynhau a gallent ddenu twristiaeth i hybu economïau lleol. Mae morfeydd heli, yn arbennig, yn gynefinoedd pwysig ac yn storfeydd carbon hynod effeithlon, gan eu gwneud yn ddefnyddiol iawn o bosibl yn ein hymdrechion i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Mae yna hefyd ‘ddulliau hybrid’ a allai bontio'r bwlch rhwng seilwaith gwyrdd a llwyd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gosod strwythurau ar ochr sy’n wynebu’r môr amddiffynfa bresennol i ddal gwaddod ac annog twf morfa heli. Yna mae’r morfa heli hwn yn diogelu’r

strwythur amddiffyn yn ogystal â darparu buddion eraill i'r ecosystem. [https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/marine-area-statement/nature-based-solutions-and-adaptation-at-the-coast/?lang=en](https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/marine-area-statement/nature-based-solutions-and-adaptation-at-the-coast/?lang=en)

Dyma enghraifft o sut y gallai atebion sy'n seiliedig ar natur ymdrin â heriau fel llifogydd mewn ffordd ymaddasol sy'n darparu buddion o ran lles a bioamrywiaeth.

Yn ogystal â'r cynlluniau mawr, mae llawer o fentrau lleol a allai fod yn effeithiol wrth ymdrin â llifogydd. Mae dwy enghraifft yn RhCT yn edrych ar ffyrdd naturiol y gallwn fynd i'r afael ag effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.

- cynllun gardd law 'Pretty Ponty' yn Heol y Felin, a ariennir gan Fenter Canol Trefi Llywodraeth Cymru, a
- rheoli Cors Pant, ger ysgol Y Pant, Pont-y-clun, i gynnal y gorlifdir pwysig hwn.

Ffynhonnell. Adroddiad Perfformiad Corfforaethol drafft RhCT 2021-22

### Cyfleoedd

Pwysleisiwyd y newid yn yr hinsawdd ac effaith ddinistriol llifogydd drwy'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Roedd pobl yn poeni am yr effaith ar eu safon byw o ganlyniad i newid hinsawdd a llifogydd yn y dyfodol. Eisoes roedd llifogydd wedi effeithio ar gartrefi, busnesau a'r amgylchedd.

*Dwn i ddim ai newid hinsawdd ydy e ond roedd y llifogydd hynny'n ofnadwy ac rwy'n meddwl ein bod yn mynd i weld mwy ohonyn nhw ond alla' i ddim fforddio symud'* oedd un sylw.

Roedd llawer yn dymuno gweld mwy o fuddsoddiad mewn atal llifogydd.

Nid yw'n bosibl cael gwared ar y perygl o lifogydd yn llwyr ac felly bydd addasu, datblygu mwy o wydnwch cymunedol ac ymhlith busnesau yn nodweddion allweddol o'r ffordd yr ydym yn symud ymlaen. Bydd deall maint y risg drwy fodelu'r holl ddalgylch dŵr yn ffactor pwysig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd y modelu yn archwilio'r blaenddwr, ochrau'r cymoedd, y cyfle ar gyfer seilwaith gwyrdd o fewn amgylcheddau trefol yn ogystal ag amddiffynfeydd llifogydd traddodiadol. Bydd ystyriaethau anochel ar gyfer cynnal a chadw parhaus a chost, a bydd angen cytuno ar hyn pan gynigir datblygiadau.

Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru (Nodyn Cyngor Technegol 15) gyda mapiau llifogydd yn dangos y perygl presennol ac yn y dyfodol yn debygol o fod ar gael ym mis Mehefin 2023. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i nodi'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen sylweddol deall yn well sut mae dalgylchoedd yn ymateb o fewn digwyddiadau meteorolegol eithafol. Bydd un maes gwaith sylweddol yn canolbwyntio ar ddalgylch Afon Taf yn dilyn llifogydd 2020.

Bydd cyfleoedd i reoli llifogydd yn naturiol yn cael eu harchwilio. Dyma lle mae gweithio gyda natur (atebion yn seiliedig ar natur) yn gallu cael ei reoli'n well fel y gallai pridd amsugno mwy o ddŵr neu gellir creu morfeydd heli ar yr arfordir i amsugno ynni'r tonnau. Mae hyn wedi cynorthwyo i warchod cymunedau a gwella cynefinoedd i natur.

Bydd meithrin gwydnwch o fewn cymunedau yn eu galluogi i fod yn fwy parod ar gyfer llifogydd posibl.

## Iechyd dŵr

***Yr Her**: mae gwella ansawdd ein hafonydd yn bwysig i bobl ac yn gwneud byd natur yn fwy gwydn i newid*

Mae iechyd dŵr (ansawdd) mewn afonydd ac ar hyd yr arfordir yn ddangosydd da o gyflwr yr amgylchedd ehangach. Cydnabyddir pwysigrwydd afonydd glân i bobl gan ei fod yn cefnogi nifer sylweddol o weithgareddau awyr agored yn amrywio o bysgota i gychod a hamdden cyffredinol. Mae cysylltiadau agos, felly, â lles dynol a'r economi.

Mae'r system ar gyfer dosbarthu iechyd corff dŵr (afonydd, camlesi, llynnoedd, aberoedd, a dyfroedd arfordirol) yn seiliedig ar ystyriaeth o'r hyn a elwir yn Statws Ecolegol Da (GES). Mae'r amrediad yn amrywio o 'Da', i 'Cymedrol', i 'Gwael' i 'Drwg'. Mae'r elfennau sy'n rhan o Statws Ecolegol Da yn cynnwys ystyried elfennau biolegol megis presenoldeb pysgod, macro infertebratau a chydrannau cemegol fel amonia ac ocsigen toddedig. Po fwyaf amrywiol yw ecosystem ddŵr, yr iachach yw hi. Mae hyn yn golygu ei bod yn fwy tebygol o allu ymateb i newid yn y dyfodol a pharhau i ddarparu buddion i bobl a'r amgylchedd.

Mae cyfanswm o 26 o gyrff dŵr o fewn ardal CTM. Mae'r rhain wedi'u lleoli o fewn 5 dalgylch ar wahân sy'n gysylltiedig ag afonydd Ogwr, Ewenni, Cynffig, Trelái a Thaf.

Dangosir iechyd cyrff dŵr yn CTM yn y tabl a'r map isod.

| Iechyd Cyrff Dŵr yn CTM | |
|---|---|
| Da | 6 |
| Cymedrol | 11 |
| Gwael | 8 |
| Drwg | 1 |

Ffynhonnell gwybodaeth CNC




**Adrodd ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Arsylwi Dyfroedd Cymru [Arsylwi Dyfroedd Cymru (cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)]**

Y rhesymau dros beidio â chyflawni Statws Ecolegol Da yw poblogaethau isel o bysgod ac infertebratau. Yr achosion yn bennaf yw addasiadau ffisegol gan gynnwys rhwystrau i fudo ond hefyd cynefinoedd gwael, gwaddodiad a phrosesau naturiol. Achosion eraill yw llygredd organig o ffynonellau gwasgaredig ac o darddle penodol, gan gynnwys amaethyddiaeth a chamgysylltiadau yn y system garthffosiaeth (Arsylwi Dyfroedd Cymru). Dangosir data ar gyfer digwyddiadau llygredd ar draws CTM, wedi'u dadansoddi ar gyfer pob awdurdod lleol, yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Mae'r gwaethaf o'r afonydd hyn o fewn dalgylchoedd Elái a Thaf – mae Afon Clun yn un o ddim ond tair afon yng Nghymru sydd â statws ecolegol gwael (Arsylwi Dyfroedd Cymru) ac maent wedi'u nodi gan CNC fel ffocws ar gyfer y 7 mlynedd nesaf. Bydd y gwaith yn ymdrin ag addasiadau ffisegol a gwella ansawdd cynefinoedd a dŵr. Ffocws arbennig fydd y gollyngiadau gormodol o orlifau carthffosydd cyfun (CSO).

Mae data gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd yn dangos bod adegau sylweddol o orlifo yn 2020. Gollyngodd CSO Parc Lanelay 127 o weithiau am gyfanswm o 433 awr, gollyngodd CSO Penygawsi 45 gwaith am gyfanswm o 199 awr a gollyngodd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhiwsaeson 239 o weithiau am gyfanswm o 2657 awr. (Ymddiriedolaeth Afonydd, 2020).

Nid yw arferion o'r fath yn unigryw i ardal CTM ac mae gollyngiadau carthffosiaeth yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon yn bryder ledled Cymru a'r DU. (https://www.theriverstrust.org/key-issues/sewage-in-rivers). Mae'r map isod yn dangos y nifer fawr o fannau gollwng.

**Map yr Ymddiriedolaeth Afonydd o Bwyntiau Gollwng** [Ydy fy afon i yn ffit i chwarae ynddi? (arcgis.com)](https://experience.arcgis.com/experience/e834e261b53740eba2fe6736e37bbc7b/)
https://experience.arcgis.com/experience/e834e261b53740eba2fe6736e37bbc7b/




Gallai llygredd effeithio ar gorff dŵr mewn dwy brif ffordd. Un sefyllfa yw pan fydd yr effaith yn sydyn ac yn ddifrifol, a'r llall yw lle gallai'r effaith fod yn gymharol fach ond y gallai dros amser hwy fod yn ddinistriol. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'marwolaeth drwy fil o doriadau'.

O fewn ardal CTM, rhwng 2016 a 2020, RhCT sydd wedi cael y nifer fwyaf (402) o ddigwyddiadau llygredd amgylcheddol yr adroddwyd amdanynt. Roedd 10% o'r digwyddiadau hyn yn rhai Uchel – Effaith Arwyddocaol.

Y ffigyrau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr oedd 203, ac ym Merthyr Tudful roedd yn 76. Y tebygrwydd yw y byddai'r effaith yn cael ei deimlo ar draws dalgylch yr afon ac nid yn gyfyngedig i ardal benodol.

Map yn dangos nifer yr achosion o lygredd a gadarnhawyd gan CNC ym mhob awdurdod lleol yn 2019.



## Siart 90: Llygredd Amgylcheddol




Er bod cyfnod o adferiad ers gorffennol diwydiannol yr ardal sydd wedi gweld gwelliant mewn iechyd dŵr, mae ffynonellau newydd o lygryddion o drefoli cynyddol wedi digwydd. Mae microblastigau wedi'u darganfod o fewn yr amgylchedd dŵr yn nalgylch Taf sy'n dangos bod plastigion wedi'u trosglwyddo o ysglyfaeth i ysglyfaethwr ac o oedolyn i epil.

Roedd crynodiadau plastig yn uwch mewn ardaloedd mwy trefol. (D'Souza et al. 2020). Unwaith eto, nid yw hyn yn unigryw i ardal CTM ac mae'n dangos effeithiau eang a gwasgaredig amgylchedd trefol ar iechyd ecosystemau dŵr croyw.

Fel y gwelir, mae'r darlun o iechyd dŵr yn gymysg ar draws ardal CTM. Mae chwech o'r ddau ddeg chwech o gyrff dŵr (23%) mewn statws ecolegol da tra bod dros draean mewn cyflwr Gwael neu Ddrwg sy'n golygu bod eu gallu i allu gwrthsefyll newid wedi'i wanhau.

Ond mae prosiectau i wella iechyd dŵr wedi bod ar y gweill ers peth amser.

Mae un enghraifft yn ymwneud ag Afon Taf-Bargoed, is-ddalgylch o ddalgylch Taf ger Merthyr Tudful. Mae hwn yn ddalgylch afon ôl-ddiwydiannol nodweddiadol sydd wedi profi addasiadau ffisegol sylweddol, gan amharu ar y prosesau naturiol, gan arwain at ansawdd dŵr gwaeth a cholli amrywiaeth ffisegol a biolegol. Mae prosiect adfer afon 3 blynedd ar y gweill o fewn yr is-ddalgylch hwn, i ymdrin â mater gwaddodiad cynyddol, sydd wedi arwain at golli gwerth Llynnoedd Taf-Bargoed o ran hamdden.

Gan weithio gyda'r gymuned ac asiantaethau eraill, mae CNC yn edrych ar y ffordd orau o adfer prosesau naturiol i leihau'r problemau gyda gwaddodiad, gwella gwerth ecolegol yr afon a chynnal ac adfer defnydd pwysig y llyn o ran hamdden. Nid yw'r manteision yn ymestyn i wella iechyd yr afon yn unig. Mae'r llynnoedd yn asedau cymunedol gwerthfawr sy'n denu ymwelwyr i'r ardal gan gynnwys cynnal digwyddiadau caiacio cenedlaethol.

Mae gan brosiectau ar raddfa sylweddol y cyfle i gael yr effaith fwyaf. Mae Prosiect y Mawndiroedd Coll (https://www.heritagefund.org.uk/news/south-wales-lost-peatlands-given-new-lease-life) yn ymestyn ar draws ardal RhCT ac ardal gyfagos Castell-nedd Port Talbot ar safle fferm wynt Pen y Cymoedd. Y nod yw cynyddu arwynebedd y mawndir a chynefinoedd ucheldirol cysylltiedig gan gynnwys rhan o flaenddyfroedd dalgylch Taf.

Bydd hyn yn arwain at welliannau i reolaeth ansawdd a maint y dŵr yn ogystal â gwella cynefinoedd. Un elfen bwysig yw'r agwedd addysgiadol a fydd yn cynnwys gweithio gyda'r cymunedau lleol yn ogystal â chefnogi'r uchelgeisiau datgarboneiddio mewn ymateb i her newid hinsawdd.

Er nad yw'r darlun cyffredinol o iechyd dŵr yn afonydd yr ardal yn dda, mae ansawdd dŵr y tri thraeth ymdrochi ym Mhorthcawl (gweler y map isod) yn parhau i fod yn rhagorol. Mae ansawdd dŵr mor rhagorol yn cefnogi'r gwaith o ennill Baneri Glas ar gyfer y traethau hynny ac maent yn gyrchfannau pwysig i dwristiaeth. Mae gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i warchod y traethau hyn i'w gweld mewn man arall yn yr adroddiad hwn.




### Cyfleoedd

Yn yr un modd â llifogydd, mae angen deall y dalgylch dŵr o'r blaenddyfroedd ymlaen yn well, yn ogystal ag archwilio'r prif fewnbynnau sy'n arwain at halogi. Bydd defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur yn helpu i adeiladu gwytnwch ecolegol mewn dalgylch penodol

Mae angen uchelgais i wella'r holl gyrff dŵr yn ardal CTM ar sail blaenoriaeth. Bydd gwaith presennol ac yn y dyfodol yn edrych ar ddileu addasiadau ffisegol i wella mudo, nodi a datrys llygredd o ffynhonnell benodol a llygredd gwasgaredig a gwella cynefinoedd. Bydd sylw yn ymestyn y tu hwnt i'r corff dŵr ei hun ac yn edrych ar y dalgylch ehangach i nodi ffynonellau llygredd. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio agos rhwng y gwahanol asiantaethau a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gweld gwelliant mewn iechyd dŵr.

## Tanau gwyllt

**Yr Her**: *Mae tanau gwyllt yn cael effaith gynyddol yn yr ardal*

Ar draws y byd bu cynnydd yn yr achosion o danau gwyllt (https://www.carbonbrief.org/explainer-how-climate-change-is-affecting-wildfires-around-the-world), sydd wedi'u priodoli'n rhannol i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae tanau gwyllt yn cael effaith nid yn unig ar yr amgylchedd ond hefyd ar gymunedau. Mae'r duedd hon yn cael ei hadlewyrchu yng Nghymru ac yn ardal CTM.

Yn 2020, ymdriniodd Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru â 2,253 o danau glaswellt, cynnydd bach o 2019 gyda nifer y tanau damweiniol yn cynyddu 20%. Mae Ymgyrch Dawns Glaw, tasglu aml-asiantaeth wedi'i sefydlu ledled Cymru a Healthy Hillsides/Llethrau Llon. Mae'n bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), Ymddiriedolaethau Natur a CNC, ac mae wedi canolbwyntio camau gweithredu ar draws rhannau o ardal CTM.

Rhwng 2018 a 2020 adroddodd GTADC am 418 o danau gwyllt bwriadol. Adroddodd hefyd fod graddfa ac amlder y tanau yn cynyddu gyda dros hanner (264) o ddigwyddiadau yn ardaloedd RhCT a Merthyr Tudful. Mae'r map gwres isod yn amlygu'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf mewn melyn.







## Mapiau a siart gan GTADC a nodyn briffio CNC

Mae nifer y tanau damweiniol yn ardal y tri awdurdod lleol yn isel o gymharu â'r rhai sy'n cael eu hachosi'n fwriadol. Mae'r data'n dangos bod nifer y tanau gwyllt bwriadol wedi aros yn weddol gyson ar wahân i gynnydd yn 2018/19. Mae'r siart isod yn dangos nifer yr achosion ym mhob sir ers 2017/18:

**Siart 91: Bwriadol – tanau glaswelltir, coetir a chnydau**




Ffynhonnell: Diweddariad olaf Stats Cymru Medi 2021

### Cyfleoedd

Mae effaith tanau gwyllt yn mynd y tu hwnt i lygredd aer i gynnwys ansawdd dŵr a bioamrywiaeth i bryder o fewn cymunedau. Mae prosiect cydweithredol, dysgu a rhannu gan Healthy Hillsides/Llethrau Llon (https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/679661/rhondda-case-study-healthy-hillsides.pdf?mode=pad&rnd=131503023880000000) yn gyfle i CTM fod ar flaen y gad yn yr ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae ei ffocws ar atal ac addysg yn ogystal ag ymateb i'r digwyddiad i'w gweld trwy becyn cymorth sy'n cael ei ddatblygu. Mae'r bryn yn nhip Tylorstown (Penrhys) wedi'i ddewis fel safle arddangos.

Byddai rheoli tir fel nad yw deunydd ar gael mor rhwydd fel ffynhonnell tanwydd neu ddŵr ffo yn fesur ataliol yn ogystal â chefnogi gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth.

## Bioamrywiaeth

**Yr her:** *Ymateb i golli bioamrywiaeth a'r argyfwng natur*

Mae gwerthfawrogi natur, o ran yr hyn y mae'n ei wneud i ni o ran buddion (gwasanaethau ecosystem) ac er ei fwyn ei hun yn bwysig. Heb ecosystem iach o bryfed yn peillio cnydau, priddoedd iach yn cefnogi'r cyflenwad bwyd a systemau dŵr ffyniannus sy'n darparu dŵr yfed, byddai ein byd yn araf yn dod i ben.

Mae'r dirywiad yng ngwydnwch ecosystemau yng Nghymru yn bygwth gallu adnoddau naturiol i ddarparu llif cynaliadwy o fuddion i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol (Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 – Pecyn Tystiolaeth Drafft F2).

Mae ardal CTM yn gartref i bron i 450,000 o bobl sy'n dibynnu ar fyd natur am yr anghenion sylfaenol hynny yn ogystal â darparu cyfleoedd hamdden ac amddiffyniad rhag llifogydd.

Ledled y byd, mae diraddio tir trwy weithgareddau dynol yn effeithio'n negyddol ar les pobl trwy ddirywiad bioamrywiaeth a difodiant rhywogaethau o ganlyniad i newid a cholli cynefinoedd, llygredd, newid hinsawdd, rhywogaethau ymledol ac adeiladu ffyrdd.

[Datganiad i'r Cyfryngau: Nature's Dangerous Decline 'Unprecedented'; Species Extinction Rates 'Accelerating' | IPBES secretariat](#)
[Global Assessment Report on Biodiversity and Ecosystem Services | IPBES secretariat](#)

Yn nes adref, yn ôl Adroddiad Cyflwr Byd Natur 2019 (https://nbn.org.uk/stateofnature2019/), mae bywyd gwyllt yng Nghymru yn parhau i ddirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod **17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu**.



*Source: State of Nature Report 2019 - A Summary for Wales*

Mae'r un adroddiad yn datgelu, ers i waith monitro gwyddonol ar rywogaethau'r DU ddechrau ym 1970, fod gostyngiad o 13% wedi bod yn niferoedd cyfartalog bywyd gwyllt, gyda **6% o'r gostyngiad hwnnw wedi digwydd yn y degawd diwethaf**. Ar gyfartaledd mae dosbarthiad rhywogaethau'r DU wedi gostwng 5% ers 1970, gyda cholled o 2% wedi digwydd yn y degawd diwethaf.

Mae bywyd gwyllt yng Nghymru hefyd wedi'i ganfod mewn llai o safleoedd, gyda gostyngiad o 10% yn nosbarthiad rhywogaethau cyfartalog ers 1970. Mae hyn ddwywaith cyfradd y gostyngiad cyfartalog yn nosbarthiad rhywogaethau (5%) a welwyd yn y DU gyfan.



*Source: State of Nature Report 2019*

Nid oes ffigur cyfartalog cyffredinol ar gyfer newidiadau yn nifer y rhywogaethau ar gyfer bywyd gwyllt Cymru.

Ond mae data ar gael ynghylch rhai grwpiau: mae niferoedd cyfartalog glöynnod byw wedi gostwng yng Nghymru ers 1976, tra mae tueddiadau cyfartalog mewn mamaliaid a rhai

grwpiau adar yn cynyddu. (https://research.senedd.wales/research-articles/the-state-of-nature-2019-report-17-of-species-in-wales-are-at-risk-of-extinction/)

Mae'r pwysau mawr sydd wedi achosi colli bywyd gwyllt yn cynnwys rheoli ffermydd, rheoli coetiroedd, llygredd o wrtaith a phlastig, trefoli cynyddol, newid hydrolegol, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau ymledol. Mae'n nodi mai'r môr, newid yn yr hinsawdd a physgota sy'n cael yr effaith fwyaf ar fioamrywiaeth forol.

Nodwyd mai newid rheolaeth amaethyddol sydd wedi cael yr effaith unigol fwyaf ar natur. Mae'r adroddiad yn dangos, gyda 72% o dir y DU yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffermio, ac 88% yng Nghymru, fod llai o le i fywyd gwyllt fodoli yn rhydd o ddylanwad arferion amaethyddol. Mae newidiadau i reolaeth tir yng Nghymru wedi achosi colli mwy na 90% o gynefinoedd glaswelltir lled-naturiol ers yr 1930au, gan effeithio'n negyddol ar rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefin hwn. (https://research.senedd.wales/research-articles/the-state-of-nature-2019-report-17-of-species-in-wales-are-at-risk-of-extinction/

Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn dangos y gorau o'n treftadaeth naturiol o ran fflora a ffawna neu nodweddion daearegol a ffisiolegol. Mae eu gwerth cadwraeth yn uchel ac mae arnynt angen lefel uchel o amddiffyniad. Maent yn cynrychioli'r hyn a elwir yn 'barth craidd' Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn ac yn rhoi cyfle sylweddol i Gymru ymateb i'r Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur. Gallant ddarparu clustogfeydd wedi'u cysylltu trwy goridorau fel rhan o barth sy'n cael ei reoli ar gyfer adferiad trwy, er enghraifft, gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae'n bwysig ystyried gwydnwch ecosystemau'r rhwydweithiau hyn gyda'i gilydd yn ogystal ag yn unigol, er mwyn hwyluso symudiad ystod o rywogaethau dros ardal fwy oherwydd newid yn yr hinsawdd a natur drawsffiniol rhwydweithiau ecolegol.

Felly, mae'n bosibl fod y safleoedd dynodedig yn ardal CTM yn ategu'r asedau o safon fyd-eang eraill sydd i'w cael megis y safleoedd Baner Werdd a'r ansawdd dŵr ymdrochi rhagorol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y safleoedd dynodedig yn ardal CTM gyda dadansoddiad cymharol o'u cyflwr o gymharu ag Ardal Ganolog De Cymru CNC (y mae'r ardal CTM yn rhan ohoni) a Chymru gyfan. Nid yw ardal CTM na Chymru gyfan yn adrodd stori gadarnhaol o ran cyflwr y safleoedd dynodedig hyn nac o ran darparu sail ar gyfer adfer natur.

Tabl 56: Safleoedd Dynodedic SoDdGA a ACA

| Ardal CTM | Ardal Ganolog De Cymru CNC | Cymru |
|---|---|---|
| 37 SoDdGA<br>119 nodwedd<br>• 51% mewn cyflwr anffafriol<br>• 34% mewn cyflwr anhysbys<br>• 13% mewn cyflwr ffafriol<br>• 2% wedi'i dinistrio | 78 SoDdGA<br>211 nodwedd<br>• 42.2% mewn cyflwr anffafriol<br>• 39.3% mewn cyflwr anhysbys<br>• 17.1% mewn cyflwr ffafriol<br>• 1.4% wedi'i dinistrio | >1000 o SoDdGA<br>3756 nodwedd<br>• 27.5% mewn cyflwr anffafriol<br>• 51.6% mewn cyflwr anhysbys<br>• 20.1% mewn cyflwr ffafriol<br>• 0.8% wedi'i dinistrio |

| | | |
|---|---|---|
| 5 ACA<br>12 nodwedd<br>• 83.4% mewn cyflwr anffafriol<br>• 0% mewn cyflwr anhysbys<br>• 8.3% mewn cyflwr ffafriol<br>• 8.3% wedi'i dinistrio | 7 ACA<br>16 nodwedd<br>• 86.6% mewn cyflwr anffafriol<br>• 0% mewn cyflwr anhysbys<br>• 6.7% mewn cyflwr ffafriol<br>• 6.7% wedi'i dinistrio | 95 ACA<br>339 nodwedd<br>• 63.1% mewn cyflwr anffafriol<br>• 21.2% mewn cyflwr anhysbys<br>• 14.7% mewn cyflwr ffafriol<br>• 1% wedi'i dinistrio |

Ffynhonnell: Asesiad Sylfaenol o Safleoedd Gwarchodedig (2020)

Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad llinell sail o safleoedd gwarchodedig 2020
Mae hyn yn awgrymu nad yw mwyafrif llethol y safleoedd yng Nghymru a CTM mewn cyflwr ffafriol, neu nid yw'r cyflwr yn hysbys. Honnir bod hyn oherwydd diffyg cyllid wrth fonitro safleoedd mor bwysig, gyda galwad i LlC i osod cynllun i arbed bioamrywiaeth i warchod 30% o dir a môr ar gyfer natur erbyn 2030. https://community.rspb.org.uk/getinvolved/wales/b/wales-blog/posts/failure-to-protect-nature-at-most-special-sites.

Ond mae'r ffaith fod nodweddion mewn cyflwr ffafriol yn bwysig gan fod hyn yn dangos sail i weithio arno er mwyn adfer natur ar y safle dynodedig hwnnw.

Mae'r twyni tywod ar hyd arfordir CTM yn amlygu sut y gallai nodweddion amgylcheddol, diwylliannol, economaidd a hamdden gydfodoli mewn un lle, gyda rheolaeth ofalus. Mae gan y twyni tywod yng Nghynffig rhwng ymyl ddeheuol Bae Abertawe rhwng Port Talbot a Phorthcawl ddynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae gan y twyni nifer o nodweddion arfordirol a rhywogaethau ond dim ond un nodwedd forol – dolydd heli Iwerydd. Er nad yw'n cynrychioli dim ond 2% o'r safle, mae'r olaf yn brin ar hyd yr arfordir hwnnw ac mae ganddo gyflwr dangosol anffafriol oherwydd da byw yn pori a sbwriel. https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684390/kenfig-sac-ica-2018.pdf . Mae gan y safle hanes o ddefnydd milwrol yn ogystal â bod yn darparu lle pwysig ar gyfer hamdden a mynediad. Mae Twyni BYW https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/sands-of-life/?lang=en yn cwmpasu Cynffig a Merthyr Mawr yn ardal CTM yn ogystal â systemau twyni tywod eraill ledled Cymru. Dynamiaeth mewn twyni tywod yw'r allwedd i wella'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac adfywio cynefinoedd sy'n gartref i rai o'n bywyd gwyllt prinnaf. Mae'r gwaith yn dod â llawer o'r ystyriaethau hyn ynghyd gyda'r nod o adfer bioamrywiaeth trwy reoli tir yn briodol ar gyfer pori, cydnabod arwyddocâd hanesyddol a defnydd ar gyfer hamdden. Mae taro'r cydbwysedd hwnnw ar gyfer y defnyddiau niferus ee diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yn tanlinellu'r heriau yn ogystal â'r cyfleoedd i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Er bod cryn dipyn o waith i'w wneud i gyflawni'r gwaith adfer hwnnw, mae yna enghreifftiau ar draws ardal CTM lle mae cynnydd yn cael ei wneud.

Yn 2018, dilëwyd y rhwystr mawr olaf i ymfudiad pysgod ar afon Taf ym Mro Merthyr. Rhoddodd hyn well mynediad i dros 10km o gynefin silio a physgod ifanc ar lannau Taf Fechan a Fawr i fyny'r afon o Ynysowen. Nid bywyd gwyllt yn unig a welodd y buddion, gan fod gwelliannau wedi digwydd i amwynderau lleol a'r gymuned. (https://www.merthyr.gov.uk/news-and-events/latest-news/barrier-to-fish-migration-removed/). Roedd hyn yn enghraifft o wella iechyd dŵr a bioamrywiaeth wrth barchu pwysigrwydd hanesyddol cyn safle lofaol.

Nid sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector yn unig sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae enghraifft o le mae pobl ifanc yn gwneud eu marc, yn amlygu sut mae byd natur yn adennill tir diwydiannol https://www.collieryspoil.com/. Weithiau mae safleoedd gwastraff y glofeydd, nodwedd eiconig yn nhirwedd Cymoedd De Cymru, yn cael eu cymysgu gyda'r canfyddiad o adfeiliad. Mae'r hyn y dylid ei ystyried yn ased ecolegol yn dal i gael ei weld yn aml fel problem y mae angen ei 'thin'. Sefydlwyd 'Menter Bioamrywiaeth Gwastraff Glofeydd' gan entomolegydd ifanc i godi ymwybyddiaeth o werth bioamrywiaeth pwysig safleoedd gwastraff glofeydd. Datgelodd hyn amrywiaeth syfrdanol o rywogaethau o infertebratau o wenyn i chwilod i nadroedd miltroed.

Mae RhCT wedi nodi bod 85 o wahanol fathau o wenyn, ynghyd ag amrywiaeth eang o bryfed, cennau, ffyngau a blodau eraill, wedi'u darganfod ar hen domenni yn yr ardal. (Ffynhonnell - Adroddiad Perfformiad Corfforaethol RhCT 2021-22). Mae safleoedd gwastraff y glofeydd ar draws CTM yn rhoi enghreifftiau o le gall bioamrywiaeth ffynnu mewn safleoedd sydd fel arall heb eu dynodi.

### Cyfleoedd

Nododd y gwaith ymgysylltu â'r gymuned leol bwysigrwydd gwarchod bywyd gwyllt a bioamrywiaeth i arwain at les amgylcheddol, gydag awgrymiadau i greu cynefinoedd a lonydd glas cysylltiedig, plannu coed a choedwigoedd a lleihau sbwriel sy'n peri risg i fywyd gwyllt.

Roedd codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ac addysgu pobl am bwysigrwydd gwerthfawrogi a diogelu'r amgylchedd naturiol yn fater allweddol i lawer. Roedd pobl yn pryderu ynghylch mwy na mannau gwyrdd agored. Cyfeiriodd cymunedau yn ogystal at adfywio canol y trefi, effaith datblygiadau adeiladu a'r angen i warchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Trwy gysylltu cynefinoedd pwysig yn well (rhai dynodedig a heb eu dynodi) mae cyfle i ddatblygu a gwella gwytnwch ecolegol rhywogaethau. Mae'r map isod, er nad yw'n dangos gwybodaeth am yr arfordir, yn rhoi syniad o ble y gallai'r cyfle fod yn ardal CTM. Deellir bod gwaith pellach ar rwydweithiau ecolegol cydnerth yn cael ei wneud gan CNC a bydd ar gael ym mis Ebrill 2022.




Mae adfer/ail-wlychu mawndiroedd sydd wedi diraddio yn ffordd o gefnogi adferiad bioamrywiaeth ac ymdrin â newid hinsawdd. Yn RhCT mae gwaith ar y gweill i edrych ar sut y gallai hyn ddigwydd ar dir ffermydd gwynt yn ogystal â thir arall sy'n eiddo i'r cyhoedd (Ffynhonnell gwybodaeth - Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Drafft RhCT 2021-22) (https://www.heritagefund.org.uk/news/south-wales-lost-peatlands-given-new-lease-life)

Mae cyfleoedd eraill yn cynnwys cefnogi gwell cysylltiadau rhwng pobl a natur, gwella cyflwr safleoedd dynodedig, creu a chyflawni Cam Gweithredu Adfer Natur lleol a chyflawni'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Gallai'r ffordd y caiff tir cyhoeddus ei reoli fod yn ffordd effeithiol o gefnogi bioamrywiaeth – hy 'lleihau'r pethau negyddol a chynyddu'r pethau cadarnhaol'. Mae lleihau'r nifer o weithiau mae glaswellt yn cael ei dorri ar ymylon y ffyrdd eisoes yn fuddiol iawn wrth greu coridorau bywyd gwyllt.

Mae angen i Gymru greu mwy o goetiroedd. Ar hyn o bryd yng Nghymru nid yw ein lefel o blannu yn ddigon i gyrraedd y targedau a osodwyd gan Gomisiwn y DU ar Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hyn nid yn unig yn cynorthwyo bioamrywiaeth ond hefyd yn mynd i'r afael â newid hinsawdd.

## Adnoddau

**Yr her:** *gwneud defnydd gwell o'n hadnoddau naturiol a datblygu economi adfywiol*

Mae Cymru yn defnyddio adnoddau adnewyddadwy ac anadnewyddadwy mewn ffordd anghynaliadwy. Mae hyn yn golygu pe bai pawb yn y byd yn bwyta'r un faint â'r dinesydd Cymreig cyffredin, amcangyfrifir y byddai angen ychydig dros 2.5 planed (Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 – Pecyn Tystiolaeth Drafft F.2).

Derbynnir yn gyffredinol bod Cymru yn gorddefnyddio ei chyfran o adnoddau byd-eang ar gyfradd o 2.5:1. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi nad oes sefyllfa debyg yn bodoli ar draws ardal CTM.

Os yw cymdeithas am fod yn gynaliadwy yna mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sut yr ydym yn rheoli adnoddau cyfyngedig y blaned, gan leihau cynhyrchiant gwastraff a sicrhau bod cymaint o ailgylchu â phosibl yn cael ei wneud. Hefyd, nid yw cost darparu ein bwyd yn cynnwys y gost o ymdrin ag effeithiau amgylcheddol negyddol.

Ers y cynllun llesiant cyntaf mae'r tri awdurdod lleol yn ardal CTM wedi gweld gwelliant yn y swm o wastraff preswyl o gartrefi ar gyfer pob unigolyn nad yw'n cael ei gasglu i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio.

Y ffigyrau gwirioneddol ar gyfer blwyddyn 2018/19 oedd Pen-y-bont ar Ogwr, 126 kg/yr unigolyn, Merthyr Tydfil, 196 kg/yr unigolyn, a Rhondda Cynon Taf 189kg/yr unigolyn,. Yn Atodiad 1, mae graffiau'n dangos sefyllfa'r duedd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn erbyn ffigur gwaelodlin o 794kg/yr unigolyn, yn 2012.

Mae targed o 64% wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae'r ffigurau ar gyfer 2019/20 yn dangos bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni 68%, Merthyr Tudful wedi cyflawni 65% a Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni 65%. Mae hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol tuag at gyflawni targed LlC o ddim gwastraff erbyn 2050 a symud tuag at economi gylchol carbon isel, adfywiol. Mae cyflawni targedau cynyddol yn gam cadarnhaol ac yn dangos bod ymgysylltu yn gweithio. Bydd deall y rhesymau y tu ôl i hyn yn helpu i gyrraedd y nod o ddim gwastraff.

**Siart 92: Cyfradd Ailgylchu a Gollyngiadau a Osgowyd**




Mae ynni yn rhan allweddol o gyflawni ein nodau hinsawdd. Mae hefyd yn ystyriaeth bwysig o ran tlodi tanwydd. Rhaid inni ddatgarboneiddio ein system ynni mewn ffordd sy'n gwella llesiant yng Nghymru. Rhaid inni ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, lleihau allyriadau o gynhyrchu tanwydd ffosil a chynyddu cynhyrchiant o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Bydd angen cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy os ydym am fodloni'r galw cynyddol am drydan o ganlyniad i ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth. Rydym wedi cael cryn lwyddiant o ran cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy yng Nghymru: yn 2018 cynhyrchwyd digon o drydan adnewyddadwy i ddiwallu hanner ein defnydd o drydan.

Ein targed yw 70% erbyn 2030. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/energy-use-in-wales-2018.pdf

Ar draws ardal CTM mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddatgarboneiddio. Yn 2018 yn RhCT, adroddwyd bod 3,862 o brosiectau ar y gweill ym maes cynhyrchu ynni carbon isel. *(Ffynhonnell: Stats Cymru*), ac roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd camau i ddatblygu prosiectau arddangos arloesol a oedd yn canolbwyntio ar greu cymunedau carbon isel gan gynnwys rhwydweithiau gwres i ranbarthau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerau.

https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/s23531/Bridgend%202030%20DECARBONISATION%20STRATEGY%20v1.1%20JN%20070121.pdf)

Mae Heddlu De Cymru (HDC) hefyd wedi cymryd camau tebyg i edrych ar y ffordd y mae'n rheoli adnoddau naturiol. O fewn ei Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol (ac Achrediad Amgylcheddol Lefel 3 y Ddraig Werdd), mae wedi datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r uchelgais a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i bob sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd targed o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Yn ogystal â phennu cyfeiriad, mae gan HDC dargedau ar gyfer defnyddio adnoddau, rhaglen o ddatgarboneiddio a gwaith arall i gwmpasu ei holl weithrediadau o reoli fflyd a chaffael i seilwaith safleoedd ac adeiladau. Mae'r cynllun cyffredinol hefyd yn ymgorffori datblygu mannau gwyrdd agored a phlannu coed, lle gellir hyrwyddo mentrau lles ar gyfer staff a gwella bioamrywiaeth i gryfhau natur.

Gellir rhannu'r hyn a ddysgir o'r holl waith datgarboneiddio hwn a'i ddefnyddio i ysbrydoli sefydliadau eraill.

Mae fferm wynt Pen y Cymoedd yn rhan o ardal CTM o fewn stad Coetir Llywodraeth Cymru a reolir gan CNC. Gallai ei 76 o dyrbinau gynhyrchu digon o drydan i bweru 15% o gartrefi

Cymru yn flynyddol. Felly mae'n chwaraewr pwysig i ateb her newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio ein ffordd o fyw. Nid dyna'r cyfan, sefydlwyd **Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd** (https://penycymoeddcic.cymru/cartref/ <https://penycymoeddcic.cymru/home/>) gan y cwmni ynni Vattenfall er budd y cymunedau sy'n cynnal y fferm wynt yng Nghwm Nedd, ac ar draws cymoedd Afan, Rhondda a Chwm Cynon. Mae Cwm Rhondda a Chwm Cynon o fewn ardal CTM. Mae gan y Gronfa gyllideb flynyddol o £1.8 miliwn tan 2043 ac mae'n cynnig cyfle i bobl leol fuddsoddi ynddynt eu hunain a'u syniadau - gan ddatblygu ar bopeth sydd orau yn eu cymunedau. Mae prosiectau sydd wedi derbyn cyllid yn amrywio o'r rhai sy'n datblygu sgiliau ac addysg, cadwraeth gwlyptiroedd a llwybrau natur i adnewyddu asedau cymunedol er budd pobl leol.

### Cyfleoedd

Nodwyd yr angen am weithredu unigol a chyfunol i fyw'n fwy cynaliadwy yn y gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Ystyriwyd bod angen newid ymddygiad er mwyn cael dyfodol cynaliadwy ac awgrymwyd mesurau i leihau carbon a chynhyrchu ffynonellau ynni cynaliadwy. Ond er gwaethaf nodi bod angen gweithredu, roedd ymdeimlad cyffredinol o deimlo'n ddi-rym a heb gysylltiad â mudiadau gwyrdd a diffyg ymddiriedaeth a rhwystredigaeth gan bobl ifanc tuag at wleidyddion a phobl mewn grym.

Gallai datgarboneiddio gael effaith sylweddol ac mae'n bosibl iddo ganolbwyntio ar nifer o feysydd: ynni, trafnidiaeth, adeiladau a mannau agored. Byddai'r ffocws ar leihau faint o ynni a ddefnyddir a symud cynhyrchiant ynni i ffynonellau glân. Gallai adeiladau gael eu defnyddio'n well, gallai rhai newydd gael eu dylunio i fod yn ynni-effeithlon a gallai mannau agored gael eu defnyddio ar gyfer gwrthbwyso carbon ac i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd edrych ar sut y gellir ailddefnyddio adnoddau naturiol dro ar ôl tro yn cefnogi economi gylchol, adfywiol.

Gallwn ddysgu o gydweithrediad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd â Llywodraeth Cymru i greu Weledigaeth a Strategaeth Ynni arloesol ar gyfer De-ddwyrain Cymru: https://www.cardiffcapitalregion.wales/news-events/latest-news/cardiff-capital-region-and-welsh-government-collaborate-to-create-pioneering-energy-vision-and-strategy/#:~:text=To%20meet%20the%20targets%2C%20CCR,reduction%20in%20road%20transport%20emissions.

## Tipio anghyfreithlon

**Yr her:** *lleihau faint o dipio anghyfreithlon sy'n digwydd a'i effeithiau ar yr amgylchedd a chymunedau*

Nododd trigolion fod achosion o dipio anghyfreithlon yn bryder mawr yn yr asesiadau amgylcheddol cyntaf a'r cynllun llesiant. Mae'n effeithio arnom ni i gyd. Mae'n drosedd ddifrifol sy'n weledol, yn difetha ein cymdogaethau lleol ac yn gallu effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned leol. Mae hefyd yn fygythiad i bobl a bywyd gwyllt trwy drosglwyddo clefydau a llygredd a halogi pridd, gan wneud ardaloedd yn fwy agored i broblemau draenio a llifogydd. Gallai arian sy'n cael ei wario ar glirio tipio anghyfreithlon gael ei wario'n well mewn meysydd gwaith eraill fel gofal cymdeithasol ac addysg.

Mae amgylchedd naturiol sydd wedi dirywio sy'n cael ei ddifetha gan dipio anghyfreithlon yn effeithio nid yn unig ar ein hiechyd a'n lles hirdymor, ond hefyd ar ein gallu i dyfu ein heconomi. Gallai effeithio ar botensial twristiaeth a'r cyfle i ddenu mewnfuddsoddiad i ardal https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/140604draft-fly-tipping-strategy-cy.pdf

Dangosir cymhariaeth o'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer tipio anghyfreithlon yn ôl awdurdod lleol yn y tabl isod. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Fly-tipping/recordedflytippingincidents-by-localauthority

Tabl 57: Tipio Anghyfreithlon

| Awdurdod Lleol | 2019/20 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,788 | 1604 |
| Merthyr Tydfil | 1,850 | 2273 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,946 | 3,349 |
| Cyfanswm CTM | 6,584 | 7,226 |
| De-ddwyrain Cymru | 20,037 | 20,910 |
| Cymru | 33,542 | 35,434 |

Ar y cyfan ar draws CTM, bu gostyngiad bach yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt ers 2017/18. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r darlun cenedlaethol ledled Cymru.

At ddibenion cymharu, yn 2019/20, y ffigurau priodol ar gyfer Caerdydd, Casnewydd a Chaerffili oedd 5,378; 2,725 a 2,214 o achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddwyd yn eu cylch. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Fly-tipping/recordedflytippingincidents-by-localauthority

Er nad dyma'r unig ddangosydd o lwyddiant wrth ymdrin â thipio anghyfreithlon o bell ffordd, nifer y canlyniadau erlyn ledled Cymru yw 2017/18 (75 o achosion); 2018/19 (122 o achosion) a 2019/20 (32 o achosion). https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Fly-tipping/flytippingprosecutionoutcomes-by-year

Er bod llai o achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu hadrodd i'r awdurdod lleol ar draws ardal CTM gyfan, mae tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem ac mae'n debygol o barhau i beri pryder i drigolion a'u lles. Mewn gwirionedd, un o nodweddion pandemig COVID 19 oedd er bod llawer o bobl wedi ailddarganfod, ailgysylltu a gwerthfawrogi eu hardaloedd lleol yn fwy, adroddwyd yn y cyfryngau am ddigwyddiadau o ollwng mwy o sbwriel mewn mannau prydferth lleol a sbwriel yn cael ei ddympio pan oedd cyfleusterau amrywiol ar gau. https://gov.wales/written-statement-litter-and-fly-tipping-prevention-plan-wales-consultation

Ceir enghreifftiau o gamau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Mewn un achos, gosodwyd dirwyon o £1331 ar gwmni sgipiau yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon yn RhCT. Mae gweithredu o'r fath yn anfon negeseuon pwysig i'r rhai a fyddai'n dymuno elwa drwy ddifetha'r dirwedd. https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Newsroom/PressReleases/2020/August/SkipCompanyOwnerCaughtFlyTipping.aspx

### Cyfleoedd

Dangosodd yr ymarferiad ymgysylltu cymunedol awydd gwirioneddol i lanhau'r amgylchedd er budd cymunedau yn ogystal â bywyd gwyllt.

Dywedodd pobl eu bod am weld strydoedd glanach, gyda llai o sbwriel a baw cŵn.

> *‘Cael lleoedd bwyd cyflym i roi enwau, cyfeiriadau neu rywbeth ar bapur lapio fel nad ydy pobl yn gallu ei ollwng ar y llawr na'i daflu o geir.' ‘Clirio sbwriel a baw cŵn, mae yna bobl o hyd nad ydyn nhw’n glanhau ar eu holau ac mae’n ymddangos nad ydyn nhw byth yn cael eu dal.'*

Mae cyfle i’r asiantaethau amrywiol gydweithio i dargedu mannau problemus a chefnogi cymunedau sy’n dioddef o dipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel. Nid gorfodi yn unig yw'r camau gweithredu gofynnol ond hefyd monitro a gwerthuso'r broblem, addysg a chodi ymwybyddiaeth gan arwain at newid ymddygiad.

## Tirlithriadau

**Yr her:** *amddiffyn pobl a'r amgylchedd rhag tirlithriadau.*

Mae gan ardal CTM, yn yr un modd â rhannau eraill o Gymru, etifeddiaeth o’i gorffennol diwydiannol ar ffurf tomenni sbwriel o gloddio am lo. Mae gan safleoedd o'r fath y potensial i effeithio ar ddiogelwch cymunedau a'r amgylchedd. Ar yr un pryd, maent yn safleoedd sydd â hanes cymdeithasol, gwerth diwylliannol ac amgylcheddol sy'n mynd yn ôl sawl degawd. Daw hyn â chymhlethdod a chyfleoedd hefyd i ddod o hyd i atebion hirdymor.

Mae rhai o effeithiau mwyaf difrifol newid hinsawdd yn gysylltiedig â digwyddiadau meteorolegol eithafol fel glaw ac eira trwm, sychder, tywydd poeth a stormydd. Gallai’r rhain achosi neu waethygu digwyddiadau eraill sy’n cael effaith fawr megis llifogydd, tirlithriadau, tanau gwyllt ac eirlithriadau (Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol 2021 – Drafft Awst 2021). Mae'n debygol y bydd digwyddiadau o'r fath yn dod yn amlach ar draws ardal CTM.

Mae hanes o drasiedi yn deillio o domenni glo yn ardal CTM. Yn Aberfan ym 1966, bu farw 144 o blant a phobl o ganlyniad i dirlithriad, trychineb cenedlaethol sydd hyd heddiw yn cael ei gofio ar draws cymunedau. Yn fwy diweddar (2020) yn dilyn stormydd, bu tirlithriadau yn Nhylorstown a Wattstown yn RhCT ( <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-government-refuses-list-most-21822545>). Er nad yw’r pryder ynghylch tomennydd glo fyth wedi diflannu, fe wnaeth y digwyddiadau diweddar ail-ganolbwyntio sylw ar ddiogelwch tomennydd a'r effaith debygol ar gymunedau a'r amgylchedd.

Mae effeithiau digwyddiadau o'r fath yn eang ac nid yn gyfyngedig i ddiogelwch a'r amgylchedd yn unig. Gallai fod effeithiau megis digartrefedd, lles cyffredinol pobl a hyfywedd yr economi leol yn y tymor byr a’r hirdymor wrth roi pwysau trwm ar adnoddau’r awdurdodau lleol a’r gwasanaethau brys. Ar yr un pryd, gellir gweld yr ymdeimlad cryf o gymuned (https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Meetings/Cabinet/2020/12/18/Reports/Item6ReviewoftheCouncilsResponsetoStormDennis.pdf).

Ar ôl y tirlithriad cyntaf yn Nhylorstown, sefydlwyd Tasglu Diogelwch Tomenni Glo gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU, i asesu statws tomenni glo yng Nghymru ar unwaith ac adolygu’r fframwaith polisi a deddfwriaethol presennol sy’n ymwneud â rheoli tomennydd glo segur. Comisiynwyd yr Awdurdod Glo (CA) i gynnal archwiliadau tir brys o domenni glo yng Nghymru, gan nodi unrhyw waith brys a statws risg pob tomen.

Cefnogodd yr Awdurdod Glo yr Awdurdodau Lleol drwy gynnal rhai o’r arolygiadau ar y tomenni risg uchel hyn. Nododd yr arolygiadau y gofynion o ran gwaith cynnal a chadw, a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau. Mewn nifer fach o achosion, amlygodd yr arolygiadau waith yr oedd ei angen ar unwaith i sicrhau bod y domen yn cael ei chynnal i safon angenrheidiol i allu gwneud gwaith monitro arferol https://gov.wales/written-statement-update-coal-tip-safety

Drwy'r dull partneriaeth hwn rhwng yr Awdurdod Glo, Awdurdodau Lleol, CLILC a Chyfoeth Naturiol Cymru, gwnaeth y tasglu gynnydd sylweddol o ran cael darlun manwl o dirwedd y pyllau glo ledled Cymru, gan nodi 2144 o domenni glo, yn bennaf yng Nghymoedd De Cymru. Mae mwyafrif y tomenni glo mewn perchnogaeth breifat, gydag eraill o dan reolaeth Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo. https://gov.wales/written-statement-update-coal-tip-safety

Dangosir y sefyllfa o fewn ardal CTM isod.

Tabl 58: Tomenni Glo

| Ardal Awdurdod Lleol | Nifer o Safleoedd Risg Uchel |
|---|---|
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | 31 |
| CBS Merthyr Tydfil | 59 |
| CBS Rhondda Cynon Taff | 75 |

Ffynhonnell gwybodaeth – Llywodraeth Cymru

Daeth adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol a gynhaliwyd gan y tasglu i'r casgliad nad yw'n ddigon cadarn nac yn addas i'r diben, mewn perthynas â chyfundrefnau arolygu a chynnal a chadw. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn gorfodi archwiliadau rheolaidd o domenni segur nac unwaith y daw tomen yn segur. Gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2020 i gynnal adolygiad annibynnol o'r ddeddfwriaeth berthnasol a darparu argymhellion ar gyfer Bil yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd Comisiwn y Gyfraith yn cyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2022.

Mae'r tasglu yn datblygu polisïau ochr yn ochr â gwaith Comisiwn y Gyfraith. Yr amcan polisi yn y tymor hwy yw datblygu dull cyson i'w ddefnyddio ledled Cymru ar gyfer asesiadau risg a chategorïau risg. Bydd rheolaethau rheoli, gan gynnwys cronfa ddata ganolog, ar gyfer pob tomen yn cael eu datblygu hefyd.

Mae LlC wedi dweud y bydd trefn archwilio a chynnal a chadw gadarn yn sicrhau bod diogelu ein cymunedau yn parhau'n flaenoriaeth, gan sicrhau bod pobl sy'n byw ger tomenni glo yn teimlo'n ddiogel. Mae'r rhaglen adfer hirdymor yn debygol o barhau am hyd at 10 mlynedd a bydd angen pecyn ariannu cynhwysfawr ar ei chyfer. Bydd gwaith fel monitro sefydlogrwydd y tomenni a rhoi'r camau angenrheidiol ar waith yn rhan o'r ffordd ymlaen i ymdrin â'r tomenni hynny sy'n peri'r perygl mwyaf. https://gov.wales/written-statement-update-coal-tip-safety

### Cyfle

Nid oes amheuaeth bod diogelwch tomenni glo yn parhau i fod yn bryder i gymunedau a'r amgylchedd. Fe'i nodwyd fel problem drwy gydol yr ymarferiad ymgysylltu cymunedol. Mae yna gyfle i ddatblygu cynllun tymor hir.

I rai, dim ond cael gwared ar y domen lo fydd yn tawelu eu pryderon (https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/coal-tips-should-removed-after-17877334), ac i eraill bydd y gwaith helaeth gan yr asiantaethau amrywiol i fonitro a chynnal sefydlogrwydd a chyflawni gwaith angenrheidiol yn ddigon. Yn hanfodol i unrhyw gynllun mae'r cyfle i ddatblygu ar yr ymdeimlad cryf o gymuned a ddangoswyd yn dilyn y stormydd diweddaraf gan achosi tirlithriadau (a llifogydd). Gallai'r cynllun hefyd sicrhau y gallai cyfleoedd diwylliannol ac amgylcheddol fod yn rhan annatod o faterion diogelwch.

## Crynodeb

I grynhoi, mae'r adran hon wedi ceisio dwyn ynghyd ac asesu'r wybodaeth amgylcheddol sydd ar gael.

Cyflwynwyd hon i nodi’r heriau o fewn ardal CTM ond ar yr un pryd i nodi cryfderau'r gwaith sydd ar y gweill a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae’r pethau sy’n bwysig i’r gymuned o ran lles amgylcheddol wedi’u nodi ac mae hyn yn cefnogi parodrwydd i fod eisiau gweld pethau'n newid. Roedd cymunedau’n gwerthfawrogi’r lle y maent yn byw ynddo, a’r hygyrchedd am ddim i’r dirwedd naturiol a’r arfordir. Cafodd y buddion meddyliol a chorfforol eu nodi a'u cydnabod fel rhai pwysig gan gymunedau. Roedd pobl yn dymuno i fannau gwyrdd gael eu diogelu gan nodi pryderon yn ymwneud â datblygiadau tai. Yn yr un modd, maent am weld newid yn y ffordd y mae pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd.

Ar yr un pryd, mae heriau wedi'u nodi gan gymunedau. Tynnwyd sylw at y newid yn yr hinsawdd a’r modd y mae hyn yn cael ei amlygu yn lleol mewn llifogydd, y bygythiadau i’r amgylchedd naturiol sy’n darparu dŵr glân a bwyd i bobl, a llygredd aer ac afonydd. Ond mae yna enghreifftiau o amwynder o safon fyd-eang sy'n darparu lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Hefyd, mae ailgylchu gwastraff gan awdurdodau lleol yn llwyddiant. Mae’n bosibl fod rhai o safleoedd ein cynefinoedd pwysicaf o dan straen sylweddol ac er gwaethaf eu hiechyd gwael, mae cyfle i ailadeiladu wrth i bobl gydnabod eu harwyddocâd.

Serch hynny, wrth i’r diffiniad o les amgylcheddol gael ei adlewyrchu gan gyflwr adnoddau naturiol mewn ardal, ni ellir dweud bod ‘llesiant amgylcheddol’ mewn cyflwr iach. Nid yw hyn yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru a gellir ei weld fel cynnyrch gweithredoedd dros Gymru gyfan, y DU ac yn lleol ddoe a heddiw.

Mae’r asesiad yn dangos natur gydgysylltiedig y pileri a sut, wrth ymdrin ag un mater penodol, y mae angen deall sut y gellir cael effaith gadarnhaol ar fater arall.

O’r herwydd, mae’r asesiad hwn yn cyflwyno darlun o les amgylcheddol a sut mae’n gysylltiedig ag iechyd, hunaniaeth ddiwylliannol a ffyniant economaidd yr ardal ac yn eu cefnogi. Mae yna gysylltiadau clir â’r Nodau Llesiant, ac mae hyn yn dangos sut mae ardal CTM yn chwarae ei rhan.

# Piler Diwylliannol

## Cyflwyniad

Beth mae 'Diwylliant' yn ei olygu i bobl ac i gymunedau? Mae hwn yn gysyniad eang ac mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, nid oes diffiniad o'r term yn y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn nodi nodau llesiant 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' sydd ill dau yn ymwneud â diwylliant. Gan ddod â'r rhain at ei gilydd i ystyried yr hyn y maent yn ymwneud ag ef, mae amrywiaeth o ffactorau sy'n cysylltu'r rhain yn yr ardal CTM sy'n cynnwys y dreftadaeth ddiwydiannol a'r dirwedd, cymunedau sydd wedi tyfu a datblygu o'u gorffennol diwydiannol, cerddoriaeth drwy ganu gan gynnwys corau ac Eisteddfod, gweithgareddau chwaraeon a chlybiau yn ogystal â theatr gymunedol, y celfyddydau a llyfrgelloedd a mwynhau amgylchedd naturiol a chestyll ac adeiladau'r gorffennol. Mae'r holl elfennau hyn yn gysylltiedig â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg sydd wedi'u gwreiddio yng nghymunedau'r ardal.

Gellir diffinio cymunedau eu hunain mewn ffyrdd gwahanol gyda chymunedau mawr lle mae pobl wedi'u gwreiddio megis lle maent yn byw. Gall cymunedau fod ar raddfa lai, fel cymunedau sydd â'r un diddordebau neu gefndir megis ffydd, diddordebau, gweithgareddau hamdden ac ati. Felly, mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng sut mae cymunedau a diwylliant yn rhyngweithio ac yn ymwneud â'i gilydd i ddod at ei gilydd mewn grwpiau bach neu fwy.

Ystyriodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) y diffiniad isod o Seland Newydd a ddefnyddiwyd gan y Weinyddiaeth Diwylliant a Threftadaeth:

*"Y bywiogrwydd y mae cymunedau ac unigolion yn ei fwynhau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, creadigol a diwylliannol [a'r] rhyddid i gadw, dehongli a mynegi eu celfyddydau, eu hanes, eu treftadaeth a'u traddodiadau." (Gweinyddiaeth Diwylliant a Threftadaeth Seland Newydd, n.d)*

Mae'r diffiniad hwn yn ymgorffori'r gweithgareddau a grybwyllir uchod gan ystyried yr unigolion a'r cymunedau y maent yn eu ffurfio.

Crynhoir gwaddol diwydiannol gorffennol Cymru gan Cadw:
*'Roedd y genedl yn geffyl blaen yn Chwyldro Diwydiannol Prydain, grym tanbaid a newidiodd yr ynysoedd hyn – a'r byd – am byth.*

*Yng Nghymru, roedd yn chwyldro llwyr, yn cwmpasu cynhyrchiant metel a mwyngloddio. Tywalltodd 'aur du' allan yn ddi-ben-draw o fwyngloddiau yng Nghymoedd Rhondda a mannau eraill yn y De.'*

Felly, mae mynd i'r afael â lles Diwylliannol yn safbwynt eang sy'n ystyried yr unigolyn a'r gymuned a sut y maent yn diffinio ac yn profi eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain o'r gorffennol, yn awr ac yn y dyfodol.

### Yr hyn rydym ni'n ei wybod

Yn ôl adroddiad Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021:

- Cyn y pandemig, doedd dim newid yng nghyfran yr oedolion na’r plant a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Yn fwy diweddar, mae'r pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Mae’r data arolwg diwethaf yn awgrymu bod cynnydd yng nghanran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. Mae'r defnydd o'r iaith yn parhau'n gyson.
- Mae cyflwr adeiladau rhestredig yng Nghymru wedi bod yn sefydlog ar y cyfan, ond mae llai o henebion sydd wedi cael eu hasesu’n ddiweddar mewn cyflwr sefydlog.

Mae’r Gymraeg yn elfen allweddol o ddiwylliant Cymru. Mae gofyniad statudol i sicrhau ei bod ar gael i bawb, gydag ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn goruchwylio’r gwaith o hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg. Mae hyn wedi'i ymgorffori ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gyflwynodd Safonau'r Gymraeg y mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol eu bodloni.

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

## Y Gymraeg

Mae nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu ar draws ardal CTM fel y gwelir yn y siart isod:

**Siart 93: Y gallu i siarad Cymraeg, blwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth.**




Ffynhonnell: StatsCymru o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth SYG

Er bod gostyngiad yn y gallu i siarad Cymraeg yn RhCT 2020 mae hyn wedi cynyddu eto yn 2021. Mae hyn yn gyson â chyfartaledd Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Ar y cyfan o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, mae gan bob ardal ganran is sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n gyson ar draws yr holl awdurdodau a ddangosir. Yn ne Cymru dim ond Sir Gaerfyrddin sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyda 51.4% o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae clystyrau o'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws ardal CTM. Mae data sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2011 ar lefel LSOA yn dangos bod pobl ym mhob un o'r ardaloedd sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae'r tabl isod yn dangos y 3 ardal uchaf ym mhob awdurdod (mae dadansoddiad manwl o'r holl ardaloedd ar gael yn y taflenni data cysylltiedig)

Tabl 59: Canran y trigolion sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (2011)

| Awdurdod Lleol | LSOA | % |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Llangynwyd 1 | 13.1 |
| | Gorllewin Maesteg 1 | 12.9 |
| | Bryncethin | 11.1 |
| **Rhondda Cynon Taf** | Pentre'r Eglwys 3 | 18.7 |
| | Llanilltud Faerdref 2 | 18.3 |
| | Pentre'r Eglwys 2 | 16.9 |
| **Merthyr Tudful** | Treharris 1 | 12.4 |
| | Cyfarthfa 1 | 10.5 |
| | Treharris 3 | 9.5 |

Mae strategaethau Cymraeg yn ofynnol i weithio tuag at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Ymhlith y strategaethau mae cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni mewn cymunedau. Atgyfnerthwyd yr angen i gynyddu'r Gymraeg yn 2017 gan weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae pob awdurdod lleol wedi nodi bod angen iddynt gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd eu targedau erbyn 2050 fel y nodir isod:

- Nododd Pen-y-bont ar Ogwr fod angen i 21% o'u preswylwyr siarad Cymraeg erbyn 2050. Bydd angen iddynt gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o leiaf 1.9% yn ystod oes pob strategaeth tan 2050.
- Nododd RhCT fod angen iddynt gynyddu eu siaradwyr Cymraeg 1.66% erbyn 2021
- Mae Merthyr Tudful wedi dweud y byddai angen cynnydd o 0.3% y flwyddyn i gyrraedd y targed siaradwyr Cymraeg erbyn 2050,

Mae gan bob awdurdod lleol amrywiaeth o fentrau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn lleoliadau gwaith, addysgol a chymunedol. Mae mentrau ym mhob ardal sy'n dod â'r Gymraeg i leoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r Cylch Meithrin yn darparu addysg cyn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ac maent ym mhob un o ardaloedd CTM. Mae'r grwpiau'n cynnwys Cylch Ti a Fi i rieni gyfarfod gyda'u plant i gymdeithasu.

Ymddengys bod hyrwyddo gwasanaethau i gefnogi dysgu a chynnal y Gymraeg yn cefnogi cynnydd mewn Cymraeg llafar.

## Dathlu'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Gymraeg yn cael ei dathlu a'i defnyddio mewn cymunedau nid yn unig yng Nghymru ond ymhellach i ffwrdd ar draws y DU a thramor e.e. Patagonia. Mae dathlu'r iaith a'r diwylliant yn amlwg mewn gwahanol ffurfiau gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a'r

celfyddydau yn ogystal â ffydd. Mae’r rhain yn ddigwyddiadau ac yn gynulliadau sy’n dod â phobl ynghyd i ddathlu’r balchder o fod yn Gymry ac i ddathlu’r iaith.

Mae corau meibion Cymru yn adnabyddus ledled y byd a sefydlwyd 'Cymdeithas Corau Meibion Cymru' yn y 1960au. Mae'r aelodaeth wedi cynyddu o 26 yn 1962 i 97 hyd yma sy'n cynnwys aelodaeth o bob cwr o'r DU a 5 aelod tramor. Un o amcanion y gymdeithas yw

*'Meithrin a hyrwyddo crefft cerddoriaeth Corau Meibion a gweithiau corawl Cymreig'.*

Yn ogystal â hyrwyddo elfennau diwylliannol Cymru mae'n hyrwyddo'r Gymraeg gan alluogi'r rhai sy'n byw yn yr ardal i ddod at ei gilydd i fwynhau'r iaith. Mae hefyd yn weithgaredd sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n dod ag aelodau newydd i gynnal ei hirhoedledd fel y gwelwyd gyda'r niferoedd cynyddol. Mae'r rhai sydd wedi'u sefydlu yn ardal CTM wedi bod yma ers nifer o flynyddoedd o'r 1920au a thu hwnt mewn rhai achosion ac maent yn parhau i ganu. Mae'r corau wedi esblygu o amrywiaeth o feysydd o waith, grwpiau crefyddol a chwaraeon.

Dathliad cenedlaethol a lleol o iaith a diwylliant Cymru yw'r Eisteddfod sy'n cael ei dathlu yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr Cymru sy'n cynnwys pob oed a chefndir, gyda’i chychwyniad modern yn 1861 ond gellir ei holrhain yn ôl i 1176. Cynhaliodd Merthyr Tudful un o'r Eisteddfodau Cenedlaethol cyntaf yn 1881. Gan ddarparu gŵyl o ddigwyddiadau a gweithgareddau mae miloedd o bobl yn ymweld â hi ac felly mae'n rhoi llwyfan i arddangos y Gymraeg a’i diwylliant. Mae hyd yr amser y mae wedi'i gynnal a'r lefel gynyddol o weithgarwch a phresenoldeb yn dyst i'w llwyddiant.

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn RhCT yn 2024 ac ystyriwyd cyfleoedd ynghylch sut y gallai hyn fod o fudd i'r cynnydd yn y Gymraeg yn y cymunedau lleol. Dyma gyfle i adeiladu ar gryfder traddodiad Cymreig ac i ddathlu’r Gymraeg a’i diwylliant.

Mudiad ieuenctid Cymru yw Urdd Gobaith Cymru sydd â chyswllt da ag ysgolion a gweithgareddau cymunedol lleol. Wedi'i sefydlu yn 1922 mae'n hyrwyddo'r Gymraeg i bobl ifanc rhwng 8 a 25 oed gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a chlybiau lle gall pobl ifanc ddysgu, siarad a mwynhau'r iaith. Mae’r isod wedi’i godi o'u gwefan (https://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/beth-urdd/):

***“Mae’r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o’u gwlad, yn agored i’r byd ac yn ymgorfforiadau o’n hiaith a’n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922. Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd y sefydliad yng Nghymru. Mae ei gyfraniad i genedlaethau yng Nghymru, i fywydau, hyder, ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd wedi bod yn anferth."***

Mae gan yr Urdd dros 55,000 o aelodau bob blwyddyn ac mae hyd at 95,000 yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd bob blwyddyn. Mae Eisteddfod yr Urdd yn cadw'r dathlu'n fyw gyda chystadlaethau lleol a rhanbarthol gyda'r enillwyr yn mynd drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Gan barhau i ddod â'r Gymraeg yn fyw i blant, eu blaenoriaethau i’r dyfodol yw:

- Datblygu apêl Eisteddfod yr Urdd i'n haelodau ac i'n hymwelwyr.
- Ymestyn arlwy a chyrhaeddiad cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol yr Urdd.
- Sefydlu model gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg cenedlaethol ar draws Cymru.
- Buddsoddi yn y 3 gwersyll er mwyn cynnig y profiadau gorau.
- Ymestyn cyrhaeddiad ein gwasanaethau awyr agored ar draws Cymru.

- Darparu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc ar draws Cymru.
- Anelu at gyrhaeddiad byd eang ar gyfer Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd.
- Cynnig cyfleoedd a phrofiadau rhyngwladol i aelodau'r Urdd.
- Sefydlu system ddata sy’n cryfhau ein dulliau cyfathrebu gyda’n haelodau a phartneriaid.
- Creu arlwy celfyddydol i’n haelodau yn eu cymunedau.
- Dathlu canmlwyddiant yr Urdd 2022 drwy gydnabod y gorffennol ac arloesi at y dyfodol.
- Datblygu Pentre’ Ifan, Sir Benfro, yn bedwerydd Gwersyll yr Urdd.

## Treftadaeth

Mae ardal y Cymoedd CTM yn gyfoethog o ran treftadaeth ddiwydiannol. Gwelir hyn yn y dirwedd unigryw lle mae’r cymoedd wedi glasu yn ogystal â sut y defnyddiwyd rhai o'r hen strwythurau a'r pyllau glo i'n hatgoffa o'r gorffennol. Mae’r gyd-ddibyniaeth rhwng RhCT, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr yn amlwg yn y diwydiannau mwyngloddio a’r mynediad i gludiant o’r cymoedd i’r ardaloedd arfordirol i gludo glo a haearn.

Mae Cadw wedi cydnabod bod tirweddau Cymru wedi'u llunio gan weithgarwch dynol ac mae am gadw agweddau hanesyddol a diwylliannol ar y rhain. Er mwyn sicrhau bod perchnogion tir, cyrff statudol a datblygwyr yn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus i ddiogelu'r tirweddau pwysicaf, maen nhw wedi datblygu cofrestr o dirweddau o ddiddordebau eithriadol ac arbennig. Mae gofalu am dirweddau hanesyddol yn bwysig ond mae angen ei gydbwyso ag esblygiad mewn ymateb i anghenion modern. Mae Cadw yn datgan bod '*Yr her yw rheoli newid tra’n diogelu cyfoeth y gorffennol.'* (Cadw 2019). Mae'r gofrestr yn cynnwys 58 o dirweddau sy'n cynnwys 7 ardal yn CTM a ddangosir ar y map isod (http://lle.gov.wales/catalogue/item/RegisteredLandscapesOfOutstandingHistoricInterestInWales/?lang=cy)




Mae amrywiaeth o amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth i ymweld â nhw ac i ddysgu oddi wrthynt i bobl leol o bob oed ac i ymwelwyr. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu gorffennol diwydiannol a diwylliannol yr ardal.

Mae'r safleoedd treftadaeth yn amrywio o lofeydd i adeiladau a chestyll hanesyddol sy'n gyforiog o hanes ac yn adeiladu ar hanes yr ardal. Adlewyrchir treftadaeth yr ardal hefyd yn y pentrefi a'r cymunedau lleol ar draws ardal CTM o'r cymoedd ac aneddiadau gwledig i'r llain arfordirol.

Mae asedau hanesyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys:

- 373 o adeiladau a strwythurau rhestredig
- 60 o henebion cofrestredig
- 16 ardal gadwraeth
- pum parc a gardd hanesyddol
- 525 o adeiladau ar y rhestr leol ddrafft
- safleoedd neu ardaloedd o arwyddocâd archeolegol
- un dirwedd hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol eithriadol yng Nghymru
- un dirwedd hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru, ac un ar ffin y sir

Mae gan Ferthyr Tudful 233 o adeiladau rhestredig sy'n amrywio o draphontydd i dai teras o bwysigrwydd hanesyddol. Mae'r map isod yn dangos map Treftadaeth Merthyr o barciau a gerddi hanesyddol yn ogystal â henebion cofrestredig yn yr ardal. Mae'r Henebion Cofrestredig yn cynnwys safleoedd hanesyddol sy'n ymwneud â gwaith haearn yn yr ardal fel y Pentref Mwyngloddio Haearn anghyfannedd yn Ffos-y-frân sy'n dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn yn cysylltu ag etifeddiaeth ddiwydiannol yr ardal ac mae'n bwysig oherwydd ei photensial i wella gwybodaeth am waith haearn y ddeunawfed ganrif neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac arferion diwydiannol eraill. (Henebion Cofrestredig Cadw http://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=en&id=913 )



Mae gan RhCT bron i 360 o adeiladau rhestredig yn yr ardal a ddangosir ar y map isod:




Dangosir yr Henebion Cofrestredig a restrir gyda Cadw ar y map isod, mae'r rhain yn cynnwys Gwersyll Rhufeinig Twyn y Bridallt. Mae hyn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Rhufeinig, pan orchfygwyd Cymru gan y Rhufeiniaid ac mae o bwysigrwydd cenedlaethol o ran gwella ein gwybodaeth am drefniadaeth filwrol Rufeinig (sydd ar frig ochr dde i'r map).




Yn ogystal â'r tirweddau ffisegol a'r dreftadaeth ddiwydiannol mae elfennau eraill sydd wedi codi o'r cyfnod diwydiannol hynny. Mae corau meibion (fel y trafodwyd uchod) yr ardal a

dyfodd o'r gymuned lofaol yn adnabyddus ledled y byd ac er bod rhai wedi mynd mae eraill yn dal i ffynnu. Mae hyn yn adlewyrchiad cywir o ddiwylliant cymunedau Cymru sy'n gydlynol ac yn falch o'u treftadaeth. Mae'r corau yn parhau i ffynnu ym mhob un ardal o fewn CTM.

Bu prosiectau i gynnwys pobl ifanc yn eu treftadaeth leol fel Treftadaeth Ddisylw (https://treftadaethddisylw.cymru/blaenrhondda/). Roedd y prosiect hwn yn fenter ledled Cymru a ariannwyd drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac a arweiniwyd gan Cadw. Roedd Plant y Cymoedd yn rhan o'r prosiect, ac fe fu grŵp o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwaith o amgylch hen Lofa Fernhill a Stryd Caroline, sydd wedi'i dymchwel, lle'r oedd teuluoedd gweithwyr yn arfer byw.

Daeth hyn â chryn dipyn o ddealltwriaeth a dysg am y gorffennol diwydiannol i'r bobl ifanc a hefyd ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned a oedd wedi byw yno ac wedi gweithio yn y pwll glo. Gellir gweld fideo o'r pwll glo wedi'i ail-greu drwy Minecraft yma https://www.facebook.com/UnlovedHeritage/videos/233641817869616/

## Llyfrgelloedd

Mae cyfoeth o wasanaethau'n cael eu darparu mewn Llyfrgelloedd sy'n anelu at wella a chefnogi lles y cymunedau. Mae'r rhain yn adnoddau ardderchog nid yn unig ar gyfer dysgu ond ar gyfer cymdeithasu a lleihau unigrwydd. Maen nhw ar gael i'w defnyddio nawr naill ai drwy ymweld â nhw neu drwy fynd ar-lein sy'n ei gwneud hi'n haws cael gafael ar ddeunydd darllen a deunyddiau eraill i'r rhai nad ydynt efallai'n gallu ymweld â'r gwasanaethau.

O fewn y llyfrgelloedd, yn ogystal â llyfrau, maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i blant/pobl ifanc ac oedolion. Mae'r gweithgareddau hyn yn cysylltu â diwylliant a threftadaeth yr ardal leol yn ogystal â gweithgareddau eraill. Dengys data fod nifer yr e-lyfrau, lawrlwythiadau sain a benthyciadau rhwng 2018/19 a 2020/21 yn cynyddu ar draws ardal CTM ar gyfer oedolion a phlant.

Mae cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y llyfrau Cymraeg a lawrlwythwyd rhwng 2019/20 a 2020/21 fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 60: Llyfrau Cymraeg a lawrlwythwyd 2019/20 a 2020/21

| Awdurdod lleol | Cyfanswm benthyciadau Cymraeg 2020/21 | Cyfanswm benthyciadau Cymraeg 2019/20 |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 176 | 51 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 341 | 106 |
| **Merthyr Tudful** | 42 | 12 |

Mae'r gweithgareddau yn llyfrgelloedd RhCT yn cynnwys yr isod:

- Dosbarthiadau Cymraeg, grwpiau darllen a boreau coffi
- Ymarfer côr meibion
- Grwpiau ysgrifennu creadigol a barddoniaeth
- Grwpiau hanes teuluol a grŵp hanes lleol
- Dosbarthiadau celf
- Tylino babanod ac amser rhigwm Cymraeg
- Clwb llyfrau

Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau i ddysgu a rhannu am dreftadaeth.

Mae RhCT hefyd yn edrych ar ddatblygu 'llyfrgell ddynol' sy'n cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu eu profiadau diwylliannol. Mae'r cysyniad yn ymwneud â benthyca pobl yn hytrach na llyfrau i chwalu rhwystrau a dysgu o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd. Darperir cyfleoedd i ddod â phobl at ei gilydd na fyddent fel arfer yn siarad â'i gilydd neu nad sydd â chysylltiad â'i gilydd. Yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddysgu o wahanol ddiwylliannau gall ddarparu gwell dealltwriaeth o'r bobl sy'n byw yn y cymunedau a sut maen nhw'n byw.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae Awen yn darparu amrywiaeth o weithgareddau diwylliant sy'n cynnwys rheoli llyfrgelloedd a theatrau. Mae llyfrgelloedd Awen yn darparu ystod o weithgareddau sy'n cynnwys:

- Rhythm a Rhigwm
- Amser Stori
- Daeargelloedd a Dreigiau
- Teimlo'n Dda am Oes (ar gyfer cleifion dementia)
- Grwpiau darllen
- Grwpiau Cymraeg (ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl)
- Paned gyda Phlismon
- Sesiynau crefft
- Sesiynau galw heibio digidol
- Sesiynau hel atgofion gyda chartrefi gofal (drwy Zoom)
- Gweithgareddau gwyliau ysgol i deuluoedd
- Darllen yn Well Gyda... casgliadau ar gyfer iechyd meddwl, cymorth dementia

Addasodd llyfrgelloedd Awen yn gyson yn ystod 2020-21 i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn wydn ac yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned, er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan y coronafeirws i wasanaethau rheng flaen, sy'n wynebu cwsmeriaid.

Lansiwyd gwasanaeth newydd sbon, 'archebu a chasglu' ym mis Mehefin 2020 a'i gyflwyno i'r rhan fwyaf o ganghennau yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Roedd y cynllun yn caniatáu i gwsmeriaid gael gafael ar lyfrau corfforol yn ystod y pandemig, gan gynnig achubiaeth i gynifer o bobl, yn enwedig y rhai oedd fwyaf mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol.

Cafodd gwasanaeth cymunedol hanfodol arall – Llyfrau ar Olwynion – ei adfer mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl, i ddarparu llyfrau a chymorth arall i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ a/neu sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Cafodd y gwasanaeth hwn ei gynnwys ar ITV Wales News, gyda chwsmeriaid yn esbonio pam eu bod yn elwa o gael pethau wedi'u dosbarthu ar garreg y drws.

Bu Awen hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, Halo a Chanolfan Cydweithredol Cymru i gynnig cyfle i ofalwyr fenthyca iPad wedi'i lwytho ymlaen llaw ag apiau defnyddiol, er mwyn rhoi cyfle i'r rhai sy'n wynebu risg uwch o ynysu cymdeithasol gyfathrebu, ymgysylltu â chael eu diddanu, ac i wella eu sgiliau digidol.

Cymerodd staff y llyfrgell amser i gysylltu â dros 1,300 o ddefnyddwyr dros y ffôn i gael sgwrs gyda nhw a chynnal arolygon byr i helpu i lunio eu gwasanaeth.

*"Y llyfrgell fu'r rheswm pam fy mod wedi datblygu sgiliau i ddefnyddio'r rhyngrwyd. Fe wnaethant fy helpu i greu cyfeiriad e-bost. Maen nhw mor gefnogol ac yn siarad â mi drwy*

*bob cam o sut i wneud pethau. Rwy'n defnyddio'r llyfrgell, yn bennaf ar gyfer mynediad cyfrifiadurol, felly mae'n dda gwybod bod mynediad cyfyngedig ar gael pan fydd y mesurau clo yn codi, a sut fydd hynny'n edrych (archebu ymlaen llaw, hylendid yr ardal, tracio ac olrhain, arian cywir ac ati). Byddaf yn edrych ar wasanaethau llyfrgell ar-lein/ar y ffôn fel cylchgronau a hel achau."*

*"Rwy'n meddwl os yw pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain fel fi, neu bobl sy'n unig ar hyn o bryd, yn teimlo fel y gallant alw heibio'r llyfrgell i weld wyneb cyfeillgar aelod o staff neu eraill a chael ychydig bach o gwmni, bod hynny mor fuddiol. Mae'r llyfrgell yn teimlo fel lle diogel a lleol i gael hynny efallai."*

*" Mae wedi bod yn achubiaeth i mi, yn enwedig gan nad ydw i wedi gallu mynd allan yn ystod y pandemig ond rydw i wedi gallu defnyddio'r gwasanaeth archebu a chasglu ac mae fy merch wedi gallu casglu unrhyw lyfrau rydw i wedi'u harchebu. Diolch."*

*"Y llyfrgell yw un o'm lleoedd hapus."*

Mae'r llyfrgelloedd bellach yn datblygu'n ganolfannau lles cymunedol sy'n cyfrannu at les y gymuned leol drwy ddarparu lle i ymweld ag heb stigma. Mae'r gweithgareddau'n helpu i ddod â phobl at ei gilydd sy'n meithrin cwmnïaeth rhwng pobl o bob oed.

## Gwirfoddoli

Mae gwirfoddolwyr yn ased sylweddol i gymunedau nid yn unig o ran rhoi o'u hamser ond o ran y sgiliau sydd ganddynt i'w cynnig. Yn ystod Covid gwelwyd tystiolaeth o hyn ar draws y wlad gyda phobl yn dod at ei gilydd i helpu ei gilydd drwy gyfleoedd gwirfoddoli ffurfiol, gan ddarparu cymorth anffurfiol i sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed yn gallu cael bwyd, meddyginiaeth a chael rhywun i siarad â nhw.

Mae data sy'n ymwneud â gwirfoddoli ar gael yn genedlaethol, ond mae'n gyfyngedig. Mae data lleol ar gael hefyd, ond unwaith eto mae hyn yn dibynnu ar y gwasanaethau unigol ac a oes angen iddynt gasglu data fel rhan o ddyraniad cyllid.

Mae tri chyngor gwirfoddol sirol ar draws ardal CTM

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- Interlink – RhCT
- Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Y sefydliadau hyn yw conglfaen cymorth i grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn ogystal â sefydliadau dielw a mentrau cymdeithasol. Mae'r holl grwpiau hyn fel arfer yn lleol ac yn cefnogi'r gymuned leol mewn gwahanol ffyrdd.

Maent wedi bod yn bartner allweddol wrth gefnogi aelodau o'u cymunedau cyn, yn ystod a thu hwnt i Covid, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd.

## Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cymdeithas Sefydliad Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) yn darparu cymorth a chyngor i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn bartner allweddol wrth ddarparu gwasanaethau a darpariaeth leol i'r cymunedau.

Mae'r data canlynol (Tabl 61) wedi'i gymryd o'r Adroddiad Effaith Blynyddol ar gyfer BAVO sy'n dangos nifer y gwirfoddolwyr y maent wedi ymwneud â nhw:

| BAVO | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | Ymholiadau gwirfoddolwyr yr ymatebwyd iddynt | Cyfweliadau gwirfoddoli a gynhaliwyd | Gwirfoddolwyr a leolwyd | Pobl ifanc a leolwyd fel gwirfoddolwyr |
| **2019/20** | 1,257 | 283 | 253 | 45 |
| **2018/19** | 687 | 282 | 204 | 72 |
| **2017/18** | 976 | 423 | 268 | 105 |
| **2016/17** | 1,286 | 486 | 259 | 128 |

Mae amrywiaeth o weithgareddau y gall gwirfoddolwyr fod yn rhan ohonynt sy'n torri ar draws yr amrywiaeth oedran. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys cael gafael ar gyllid drwy ffrydiau grant gwahanol, gyda rhan o hyn yn cael ei wneud drwy weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

Roedd gwasanaethau a ddarparwyd cyn Covid yn gallu addasu'n gyflym i gefnogi cymunedau fel y gwasanaeth Cyfeirio Cymunedol:

Mae Cyfeirio Cymunedol yn cysylltu pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol â gweithgareddau yn eu cymuned. Mae hyn yn cefnogi gwaith y sector iechyd a gofal cymdeithasol o ran lleihau neu ohirio'r angen i ymwneud â'r gwasanaethau hyn.

Yn ystod Covid, newidiodd rôl y gwasanaeth Cyfeirio Cymunedol i gefnogi pobl yn eu cartrefi. Digwyddodd y newid ar fyrder gan fod y timau eisoes wedi'u sefydlu ac yn gweithio o fewn ardaloedd clwstwr penodedig. Yn ogystal, roedd y timau hefyd yn ymwybodol o ba wasanaethau oedd ar gael ac roeddent yn gallu cysylltu i weld beth yr oedden nhw'n ei wneud mewn ymateb i'r pandemig. Nododd adborth gan bartneriaid mewn gwerthusiad o ymateb BAVO yn ystod y pandemig mai *'Cyfeirio Cymunedol oedd y bobl a oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd yn eu cymuned leol.'* (Urban Foundry 2021).

Yn ystod Covid gweithiodd BAVO mewn partneriaeth i ddarparu'r ymateb cymunedol a oedd yn cynnwys cefnogi unigolion a gwasanaethau ehangach y trydydd sector. Fe wnaeth bron i 1,500 o bobl newydd gofrestru, ac aethant ati i'w paru â sefydliadau lleol i gefnogi cymunedau lleol. Cafodd gwirfoddolwyr eu paru i gefnogi banciau bwyd, siopa, fferylliaeth, cyfeillio dros y ffôn a chymorth gwarchod.

Dosbarthwyd gwirfoddolwyr ar draws yr ardal gyda 93 o yrwyr gwirfoddol yn cefnogi siopa, dosbarthu presgripsiwn a dosbarthu nwyddau banciau bwyd. Roedd y dosbarthiadau hyn fel a ganlyn sy'n adlewyrchu dwysedd y boblogaeth yn yr ardaloedd:

- Pen-y-bont a Phencoed – 60
- Porthcawl – 3
- Sarn/Bryncethin, Brynmenyn/Tondu – 10
- Cwm Llynfi – 5
- Cynffig, Y Pîl, Corneli – 4
- Cwmogwr a Chwm Garw – 11

Nododd cymorth dros y ffôn o fewn BAVO newidiadau yn anghenion pobl wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen. Roedd un newid yn ymwneud â lles unigolion a bod angen mwy o gymorth

yn gysylltiedig â hyn. Mewn ymateb, estynnwyd argaeledd cefnogaeth ffôn y tu allan i oriau gwaith arferol. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, derbyniwyd cyfanswm o 4,004 o atgyfeiriadau gan y gwasanaethau gyda phenllanw ym mis Mehefin 2020 yn delio â 900 o atgyfeiriadau.

Yn ogystal â hyn, gan weithio gyda'r awdurdod lleol, roeddent yn cefnogi ymweliadau â'r rhai a oedd yn gwarchod. Lle na chafwyd cyswllt ar ôl tri galwad ffôn gan yr awdurdod lleol, byddai gwirfoddolwyr BAVO yn cynnal ymweliad carreg drws. Cynhaliwyd 1,126 o ymweliadau ac roedd y bobl y siaradwyd â hwy yn ddiolchgar iawn. Os na fyddai ymweliad carreg drws yn arwain at gyswllt, yna hysbyswyd Heddlu De Cymru.

Mae'r uchod yn dangos sut mae'r holl wasanaethau wedi gweithio mewn partneriaeth yn ystod y pandemig i gefnogi'r cymunedau. Dim ond rhai o'r enghreifftiau a ddarparwyd yw'r rhan ac mae llawer mwy a roddodd gefnogaeth effeithiol yn y gymuned ac i sefydliadau bychain.

## Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Mae Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) yn darparu cymorth yn ardal Merthyr Tudful gyda'u gwaith yn canolbwyntio'n fras ar y canlynol:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llunio, dylanwadu ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol a gwytnwch y sector
- Codi proffil y sector

Maent yn cynrychioli ac yn cefnogi sefydliadau trydydd sector a gwirfoddoli yn yr ardal.

Mae Adroddiad Blynyddol VAMT (Tabl 62) yn dangos bod nifer y gwirfoddolwyr yr oeddent wedi'u lleoli fel a ganlyn:

| VAMT | |
|---|---|
| | Nifer y gwirfoddolwyr a leolwyd (pob oed) |
| **2019/20** | 97 |
| **2018/19** | Dim data |
| **2017/18** | 152 |
| **2016/17** | 162 |

## Awdurdodau Lleol

Yn ystod Covid darparwyd cymorth gwirfoddoli hefyd gan awdurdodau lleol. Roedd angen sicrhau bod lles y rhai a oedd yn hunanynysu yn cael ei fodloni drwy allu cael gafael ar eu meddyginiaeth a chael bwyd. Yn ogystal â'r elfennau hyn, darparwyd mathau eraill o gymorth. Mae'r tabl isod yn dangos y gweithgareddau gwirfoddoli yn RhCT:

Tabl 63: Gweithgareddau gwirfoddoli ar gyfer 2020 a 2021

| Gweithgaredd | Ebrill i Hydref 2020 | Ionawr i Hydref 2021 |
|---|---|---|
| **Mynd â chŵn am dro** | 858 | 170 |
| **Casglu presgripsiynau** | 164 | 71 |
| **Ymateb Symudol** | 766 | 0 |
| **Siopa** | 9 | 134 |
| **Galwadau ffôn cyfeillgar** | 241 | 380 |

Tabl 64: Rhyngweithiadau Gwirfoddolwyr

| | Ebrill i Hydref 2020 | Ionawr i Hydref 2021 |
|---|---|---|
| **Rhyngweithiadau** | 2038 | 2574 |
| **Preswylwyr gweithgar (wedi'u cefnogi)** | 960 | 976 |
| **Gwirfoddolwyr gweithgar** | 127 | 133 |
| **Oriau gwirfoddoli** | 1581.08 | 2024.12 |
| **Oriau cyfartalog fesul gwirfoddolwr gweithgar** | 12.27 | 15.13 |

Rhwng 2020 a 2021 bu cynnydd mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r gwirfoddolwyr a oedd yn cefnogi preswylwyr. Newidiodd y cymorth a ddarparwyd rhwng 2020 a 2021 gyda llai o bresgripsiynau'n cael eu casglu ond mwy o siopa'n cael ei ddarpar.. Gallai hyn fod wedi digwydd oherwydd amrywiaeth o ffactorau megis trefniadau amgen yn cael eu gwneud gyda ffrindiau a theulu a newidiadau i'r cyfyngiadau.

## Y Celfyddydau a'r Theatr

Mae'r data cenedlaethol sy'n dangos cyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol i'w weld yn y tabl isod:

Tabl 65: Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn fesul awdurdod lleol

| | 2019-20 | 2017-18 | 2019-20 | 2017-18 | 2019-20 | 2017-18 | 2019-20 | 2017-18 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16-24 oed | 24-44 oed | | 45-64 oed | | 65-74 oed | | 75+ oed | |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | 84 | 80 | 69 | 60 | 65 | 59 | 59 | 56 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 75 | 78 | 76 | 68 | 62 | 62 | 61 | 38 | 54 |
| **Merthyr Tudful** | | 86 | 72 | 63 | 59 | * | * | | |

Mae'r arolwg blynyddol a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru (2019) yn dangos bod mwy o fenywod (88.9%) na dynion (84.5%) yn 2019 wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae lefel presenoldeb is hefyd ymhlith y rhai sy'n byw yn y graddau cymdeithasol is. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau yn cynnwys ardal 'canol de' Cymru sy'n cynnwys Caerdydd lle bydd mwy o leoliadau a dewis ehangach o weithgareddau i'w mynychu. Mae'r arolwg yn dangos mai canol y de yw'r rhanbarth sydd â'r lefelau uchaf o bresenoldeb mewn digwyddiadau gydag 89.1% yn mynychu digwyddiad unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Y ffurf gelfyddydol a fynychwyd amlaf oedd y sinema gyda 6 o bob 10 oedolyn yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Y cyfraddau presenoldeb isaf oedd balet 5.5% ac opera 6.1%.

Cynhaliodd Cyngor Celfyddydau Cymru (2019) arolwg hefyd yn ymwneud â phresenoldeb plant mewn digwyddiadau. Dangosodd hyn fod y rhan fwyaf wedi mynychu carnifal a chelfyddydau stryd a oedd wedi gostwng ychydig yn 2019. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn cerddoriaeth glasurol a mynychu opera ymhlith plant o'i gymharu â 2018.

Yn RhCT mae'r tabl isod yn dangos niferoedd mynychu'r theatr rhwng 2014/5 a 2019/20.

Tabl 66: Niferoedd mynychu theatr Y Parc a'r Dâr a'r Coliseum yn RhCT

| | **Y Parc a'r Dâr Treorci** | **Y Colisëwm Aberdâr** | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | Yn Bresennol | Yn Bresennol | CYFANSWM |
| **14/15** | 31,706 | 34,121 | 65,827 |
| **15/16** | 31,927 | 26,476 | 58,403 |
| **16/17** | 34,089 | 32,374 | 66,463 |
| **17/18** | 30,008 | 28,741 | 58,749 |
| **18/19** | 30,918 | 31,380 | 62,298 |
| **19/20** | 23,959 | 24,864 | 48,823 (wedi'i effeithio gan y pandemig) |

Mae'r niferoedd yn amrywio ond yn parhau ar lefel resymol o ran presenoldeb. Er y bydd y pandemig wedi effeithio ar ffigurau 2019/20 nid yw'r niferoedd yn sylweddol is a allai ddangos lefel dda o fynychu cyn y cyfyngiadau. Roedd y rhai a fynychodd y rhaglenni digidol a gyflwynwyd ar gyfer theatrau RhCT yn ystod 2020/21 yn sylweddol uwch gyda 116,242 o gyfranogwyr. Er nad yw'n glir a oedd pawb a wnaeth wylio yn dod o'r ardal, efallai y bydd y rhai sy'n byw yn yr ardal yn fwy tebygol o fynychu'r theatr ar ôl gweld perfformiadau o bell.

Ceir enghreifftiau o brosiectau a ddarperir yn lleol lle mae pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol. Daw'r wybodaeth isod gan RhCT:

Comisiwn Teuluoedd yn Gyntaf RhCT: Rhaglen Diwydiant Cerddoriaeth Ieuenctid a Chelfyddydau Ieuenctid SONIG

2020/21 Data Perfformiadau

Nifer y plant a'r bobl ifanc NEWYDD (8-25 oed) a gefnogir gan y prosiect – 140

**Gwell Lles Emosiynol / Meddyliol**

Nifer y cyfranogwyr y nodwyd bod llesiant emosiynol/meddyliol gwell yn amcan ar eu cyfer – 106

Nifer y cyfranogwyr y nodwyd bod llesiant emosiynol/meddyliol gwell yn amcan ar eu cyfer – 74%

**Newidiadau i Ffordd o Fyw / Ymddygiad**

Nifer y teuluoedd / unigolion y nodwyd bod cyfrannu at newidiadau i'w ffordd o fyw/ymddygiad yn amcan – 106

Canran y teuluoedd / unigolion sy'n llwyddo i gyflawni'r canlyniad hwn – 75%

**Gwell Gwydnwch**

Nifer yr unigolion y nodwyd bod gwell gwydnwch yn amcan ar eu cyfer - 14

Canran yr unigolion sy'n llwyddo i gyflawni'r canlyniad hwn – 93%

**Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd**

Mae Awen wedi derbyn £5.4 miliwn o gyllid Codi'r Gwastad i ailddatblygu'r adeilad gyda'i bensaernïaeth gothig. Bwriedir defnyddio rhaglen gymysg o ddigwyddiadau gyda cherddoriaeth fyw fel cam i fyny o leoliadau llai. Mae'n cael ei ddatblygu at ddefnydd y gymuned fel rhywbeth mwy bywiog ac addasol. https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CompletedConsultations/TheFutureofPontypriddsMuniArtsCentre.aspx

## Pen-y-bont ar Ogwr – Awen

Gan na chaniateir perfformiadau byw ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, trodd tîm creadigol Awen at ffyrdd amgen o ddiddanu, addysgu a llenwi'r mannau a rennir y mae theatrau'n eu cynnig fel arfer.

Gan weithio mewn partneriaeth â Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr a Theuluoedd Arbennig Llynfi, daeth 'dawnsfeydd carreg y drws' a ddarparwyd gan y perfformwyr Kitsch n Sync â llawenydd i 60 o aelwydydd o bobl hynod ynysig â chyfrifoldebau gofalu a/neu rannu.

*"Diolch yn fawr, fe wnes i fwynhau bob munud, roeddwn i'n teimlo mor arbennig, ac roedd y merched yn anhygoel!"*

*"Rydw i mor ddiolchgar. Yr unig ddiwrnod arall a oedd yn well na hyn oedd fy niwrnod priodas!"*

Roedd arddangosfeydd misol y tu allan i Bafiliwn y Grand, 'Promenart', yn cefnogi artistiaid lleol, llawrydd, dylunwyr graffig a gwneuthurwyr propiau i arddangos eu gwaith, tra bod y lleoliad ar gau. Mae'r rhain wedi cynnwys trigolion ac ymwelwyr â Phorthcawl mewn celf weledol mewn fformat hygyrch ac ar yr un pryd yn cefnogi gweithwyr llawrydd a oedd ymhlith y grwpiau yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn economaidd. Mae'r tu allan i'r lleoliad hefyd wedi'i oleuo mewn goleuadau o wahanol liwiau drwy gydol y flwyddyn i goffáu ac i ddathlu gwahanol achosion elusennol.

Rhoddodd partneriaeth arall, gyda Citrus Arts, gyfle i deuluoedd fwynhau gweithgareddau crefft ar thema (Dydd Gŵyl Dewi, y Pasg, Llusernau) gartref a mynediad i ofod cymunedol i rannu lluniau o'u creadigaethau ar-lein. Fe wnaeth cwrs pedair wythnos o ddosbarthiadau gwneud ffilmiau digidol wella sgiliau deg o bobl ifanc bob sesiwn. Cefnogodd Awen awduron,

cyfarwyddwyr a phobl greadigol lleol addawol i droi drama a oedd i fod i'w berfformio yng ngŵyl Fringe, Caeredin yn ddrama radio, fel bod eu gwaith yn dal i gael ei ddarlledu. Er mwyn parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid drwy gydol y cyfnod clo, mentrodd Awen ddangos sioeau ar-lein am y tro cyntaf, gan gynnig amrywiaeth o berfformiadau y gellid eu ffrydio'n ddigidol i bobl gartref.

Adeg y Nadolig, gydag absenoldeb y pantomeim blynyddol, perfformiodd cerddor unigol gerddoriaeth dymhorol a jazz clasurol o flaen y Pafiliwn i godi hwyliau'r gymuned leol a rhoi cyfle i gerddorion llawrydd berfformio.

**Neuadd y Dref Maesteg**

Er gwaetha'r pandemig, parhaodd y gwaith ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg gwerth £8m. Er bod oedi anochel cyn cwblhau'r prosiect oherwydd materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a dulliau gweithio newydd sy'n benodol i safleoedd adeiladu oherwydd COVID-19, mae'r uchelgais, serch hynny, ar y trywydd iawn i gael ei gwireddu yn 2022.

Fe wnaeth ymgysylltu â chymunedau lleol godi momentwm ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y lleoliad, diolch i ffotograffau o ddarganfyddiadau anarferol yn ystod y cyfnod gwagio a nodweddion o ansawdd uchel a osodwyd yn ystod y cyfnod adfer. Cefnogodd nifer o wirfoddolwyr a haneswyr lleol brosiect casglu gwybodaeth i ddatblygu'r cynnwys ar gyfer y gwaith dehongli treftadaeth, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, tra cyhoeddwyd cyfres o fideos yn cofnodi gwaith atgyweirio paentiadau enwog Christopher Williams y Neuadd ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://maestegtownhall.com/cy/dyfodol/

Roedd effaith ar y sector celfyddydau a theatr yn ystod cyfyngiadau Covid oherwydd bod theatrau a chanolfannau celfyddydol eraill ar gau. Er bod y cyfyngiadau bellach wedi'u codi mae pobl wedi ymateb yn betrus wrth ddychwelyd i'r theatrau.

Cynhaliwyd arolwg ledled y DU o sefydliadau diwylliannol gan Indigo i edrych ar farn y gynulleidfa ar ddychwelyd i ddigwyddiadau byw yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail glo (Indigo 2020). Fe wnaeth 258 o sefydliadau diwylliannol gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd ymatebion yr arolwg yn cynnwys 7% (2,855) o'r cyfanswm o Gymru, anfonodd Theatr y Grand ym Mhorthcawl ddolen ar gyfer yr arolwg allan i'w rhestr cyfranogwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg rhwng 55 a 74 oed ac roeddent wedi mynychu'r theatr 4 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn cyn Covid. Nododd 16% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn anabl. Mae'r arolwg yn awgrymu bod ymatebwyr yn dal i fod ychydig yn bryderus wrth fynychu'r theatrau gyda dim ond 20% yn archebu lle ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Ni fyddai 67% o'r ymatebwyr ychwaith yn ystyried archebu lle ar gyfer digwyddiadau am o leiaf 3 mis. Yn anecdotaidd, mae hyn i'w weld yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda nifer y bobl sy'n archebu ymhellach ymlaen llaw yn isel o gymharu â'r rhai sy'n archebu'n agosach at ddyddiad digwyddiad. Yn ogystal â bod yn bryderus ynghylch bod mewn man caeedig gyda nifer o bobl, gallai hefyd fod oherwydd bod pobl yn pryderu am eu hamgylchiadau eu hunain yn ymwneud â Covid a gorfod ynysu neu unrhyw gyfyngiadau eraill a osodir. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn ymwneud â dychwelyd i leoliadau ar ôl llacio'r cyfyngiadau dywedodd 67% y byddent yn ystyried mynychu digwyddiadau a lleoliadau pe baent yn ailagor gyda phellter cymdeithasol ond dim ond 14% a fyddai'n mynd i leoliadau cyn gynted ag y byddent yn agor. Fodd bynnag, mae 72% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn disgwyl i ddigwyddiadau y maen nhw wedi archebu tocyn ar eu cyfer fynd rhagddynt. Mae archebion hwyrach ar gyfer digwyddiadau yn anodd i leoliadau o ran marchnata ac a yw pobl yn ymwybodol o'r digwyddiad neu'n wyliadwrus, yn ogystal ag a fydd digwyddiad yn mynd yn ei flaen os bydd archebion yn isel iawn.

Ystyriwyd diwylliant digidol hefyd fel rhan o'r arolwg uchod ac roedd 62% o'r ymatebwyr eisoes wedi profi diwylliant ar-lein cyn ac yn ystod cyfyngiadau Covid. O'r rhai a wyliodd ddiwylliant digidol roedd 80% wedi gwylio cynyrchiadau hyd llawn a 31% wedi rhoi rhodd er mwyn gwylio perfformiad. Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd, 'Pe na baech yn gallu mynd i ddigwyddiadau diwylliannol mewn lleoliad am beth amser eto, a fyddai gennych ddiddordeb mewn ymwneud â digwyddiadau diwylliannol AR-LEIN?'. O'r rhai a ymatebodd dywedodd 70% fod ganddynt ddiddordeb a 37% na fyddai ganddynt ddiddordeb a'r prif reswm oedd 'nad yw'r profiad ar-lein yn ddewis deniadol yn lle'r digwyddiad BYW'. Roedd gan y rhai a fyddai'n ymwneud â digwyddiadau ar-lein ddiddordeb yn bennaf mewn:

- Perfformiad a grëwyd yn arbennig i'w wylio AR-LEIN (78%)
- Recordiad ARCHIF o berfformiad gyda chynulleidfa lawn wedi'i llwyfannu cyn y Coronafeirws (74%)
- Digwyddiad BYW wedi'i ffilmio y tu ôl i ddrysau caeedig (72%)
- Digwyddiad BYW gyda'r gynulleidfa'n cadw pellter cymdeithasol na allaf ei fynychu'n bersonol (66%)
- RECORDIAD o ddigwyddiad a ffilmiwyd y tu ôl i ddrysau caeedig (63%)
- RECORDIAD o ddigwyddiad gyda'r gynulleidfa'n cadw pellter cymdeithasol na allwn ei fynychu'n bersonol (66%)

Yn gyffredinol, dengys yr ymateb y gall digidol fod yn werth chweil ond nad yw'n atgynhyrchu digwyddiad byw. Byddai dros 2/3 o'r ymatebwyr yn talu i wylio rhywbeth newydd.

Ystyriwyd digwyddiadau awyr agored hefyd yn yr arolwg ac roedd 80% (Ton 2) wedi mynychu digwyddiadau awyr agored a dywedodd 55% y byddent yn mynd i ddigwyddiadau diwylliannol yn yr awyr agored pe na baent yn gallu mynd i ddigwyddiadau dan do yn ystod y cyfnod clo. Theatr awyr agored a dramâu (84%) a chyngherddau a gigs awyr agored (76%) oedd y digwyddiadau mwyaf tebygol y byddent yn eu mynychu yn yr awyr agored. O ran talu i fynychu roedd llawer mwy o awydd i dalu'r un peth â digwyddiadau byw ar gyfer digwyddiadau awyr agored na digwyddiadau digidol.

Gofynnwyd i fynychwyr anabl hefyd am ddychwelyd i'r theatr a dyma oedd yr ystyriaethau pwysicaf iddynt wrth wneud penderfyniad i ddychwelyd:

- Hyder y bydd cyfleusterau toiled hygyrch ar gael o hyd
- Hyder y bydd seddi hygyrch yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cadw pellter cymdeithasol
- Mynediad â blaenoriaeth i fynychwyr anabl os cyflogir rheolwyr ciwiau

Mae'r arolwg yn dangos y byddai'r rhai a fynychai ddigwyddiadau diwylliannol o'r blaen yn dychwelyd er bod rhai ychydig yn bwyllog. Mae cysylltiad cadarnhaol hefyd â digwyddiadau digidol ac awyr agored i rai gydag arwydd y byddent yn hapus i dalu i fynychu/gweld digwyddiadau o'r fath. Er bod y cyfranogwyr ledled y DU, mae'n rhoi syniad o'r hyn y gellid ei ddarparu a'r awydd i gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd.

## Chwaraeon a Hamdden

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden o fudd i les pobl yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae'r cyfleoedd yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd gyda'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon yn ogystal â mannau awyr agored. Cynyddodd y defnydd o'r awyr agored, fel y trafodwyd yn flaenorol, yn ystod y pandemig gyda mwy o bobl yn defnyddio parciau a'r dirwedd naturiol. Mae llawer o gysylltiadau â gwahanol elfennau'r

asesiad a chwaraeon, yn enwedig o ran iechyd meddwl, rheoli pwysau a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.

Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon yn cael ei gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Daw'r wybodaeth isod o ganlyniadau'r arolwg. Mae'r siart gyntaf yn dangos y gyfradd weithgarwch cyffredinol ledled Cymru ym mhob awdurdod.

**Siart 94: Canran ym mhob Awdurdod Lleol sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon neu beidio 2019/20**




Mae Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT yn uwch na chyfartaledd Cymru (59%) ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Merthyr Tudful yn is na'r cyfartaledd, sef 47%, ond mae'r gweithgaredd wedi cynyddu o'i gymharu â 2018/19 fel y dangosir yn y siart isod.

**Siart 95: Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (dangosydd CD 38)**



Mae'r gyfradd weithgarwch cyffredinol ar draws CTM yn is na chyfartaledd Cymru, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn agosach at y cyfartaledd na Merthyr Tudful a RhCT. Mae cynnydd mewn gweithgarwch ym Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr a ddangosir yn 2019/20 gyda gweithgareddau'n gostwng yn RhCT, ond yn dal i fod yn uwch na Merthyr Tudful. Mae amrywiaeth o resymau pam nad yw rhai yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a drafodir ymhellach isod.

Mae oedrannau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn uwch yn y grŵp oedran 16 i 44. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad ar gyfer Cymru gyfan:

**Siart 96: Canran y rhai sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon 2019/20 yn ôl ystod oedran**




Ffynhonnell: Dangosydd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru

Daw'r siart isod o adroddiad Cyflwr y Genedl ar gyfer 2018/19 sy'n dangos y gwahaniaeth mewn gweithgareddau rhwng oedran, rhywedd a chyfranogiad mewn gweithgareddau.

**Siart 97: Amlder cyfranogiad yn ôl oedran a rhywedd.**

***Figure 1.1***: *Frequency of participation (week) – by gender and age*




Mae adroddiad Cyflwr y Genedl gan Chwaraeon Cymru (2019) yn darparu dadansoddiad o'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â gweithgareddau chwaraeon. Trafodir gwahaniaethau o ran amlder gweithgarwch yn yr adroddiad gyda chyfradd cyfranogiad is yn gysylltiedig ag anabledd a statws cyflogaeth. Dangosir y rhain yn y siart isod:

**Siart 98: Canran Cyfranogiad yn ôl Statws Economaidd fesul blwyddyn**




Nid yw'r rhesymau y tu ôl i'r gyfradd weithgarwch is yn cael eu hystyried yn ehangach. Fodd bynnag, bydd rhesymau economaidd dros fforddiadwyedd o ran cael mynediad i rai gweithgareddau yn ogystal â chael mynediad at drafnidiaeth er mwyn mynychu cyfleusterau. Yn ychwanegol at hyn, mae'r adroddiad yn ystyried y 'galw' ac mae'n nodi bod y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon ond sydd â galw:

*'yn fwy tebygol o fod yn fenywod, 45-64 oed, sy'n byw mewn amddifadedd materol, sydd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, ac sydd â'r cwotâu isaf o les uchel ac iechyd cyffredinol da/da iawn. Mae'r grŵp hwn hefyd i'w weld ar lefel uwch na'r disgwyl yn Ne*

*Cymru ac mewn Ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Dewis darpariaeth galw'r clwstwr hwn yw gemau neu weithgareddau dan do' (t16)*

Unwaith eto, gallai hyn fod yn gysylltiedig â fforddiadwyedd er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu sy'n gofyn am dâl i gymryd rhan.

Mae yna ffyrdd o gael mynediad i weithgareddau mewn gwahanol ffyrdd ac mae rhai ohonyn nhw am ddim. Yn benodol, yn ardal CTM mae amrywiaeth o glybiau a gweithgareddau.

### ParkRun

Mae Parkrun yn sefydliad cenedlaethol sy'n dod â phobl at ei gilydd i redeg, cerdded, loncian neu wirfoddoli ac mae'n rhad ac am ddim. Fe'u gwelir fel digwyddiad cymunedol gyda'r mynychwyr yn 'rhedeg' 5km. Anogir y rhai sy'n mynychu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, rhedeg neu feicio i'r digwyddiadau yn hytrach na gyrru, er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae ethos y fenter yn cysylltu ag ystod o elfennau lles sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol, cydlyniant cymunedol a'r amgylchedd. Yn ogystal â hyn maent yn defnyddio caffis lleol sy'n dod â pheth budd i'r economi. Mae'r ParkRuns yn ardal CTM yn cael eu cynnal ar fore Sadwrn ac mae'r rhai sydd wedi cofrestru ar wefan ParkRun i'w gweld isod gyda rhai o'r ystadegau https://www.parkrun.org.uk/

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr ParkRun ar fore Sadwrn yn y lleoedd canlynol:

- Dechreuodd Porthcawl yn 2013 ac maen nhw wedi cynnal 374 o ddigwyddiadau gyda chyfartaledd o 272 o bobl yn gorffen y pellter o 5k bob wythnos. Maent 739 o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan hefyd. Mae hyn yn digwydd ar lan y môr.
- Dechreuodd Maesteg yn 2017 ac mae ganddyn nhw ParkRun mewn parc lleol ac maen nhw wedi cynnal 147 o ddigwyddiadau, gyda chyfartaledd o 59 o bobl yn gorffen y pellter o 5k bob wythnos. Y cyfanswm sydd wedi gorffen hyd yma yw 2,023, mae ganddynt hefyd nifer o wirfoddolwyr yn cymryd rhan - 331 hyd yma.

Mae gan RhCT ParkRuns yn:

- Dechreuodd Aberdâr yn 2018 ac maent yn cynnal eu ParkRun mewn parc lleol ac wedi cynnal 100 o ddigwyddiadau gyda chyfartaledd o 98 yn gorffen bob wythnos. Y cyfanswm sydd wedi gorffen hyd yma yw 2,429, mae ganddyn nhw hefyd 171 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r digwyddiad rhedeg.
- Dechreuodd Pontypridd yn 2013 a chaiff eu ParkRun ei gynnal mewn parc lleol ac maent wedi cynnal 316 o ddigwyddiadau hyd yn hyn, gyda chyfartaledd o 214 yn gorffen bob wythnos. Y cyfanswm sydd wedi gorffen hyd yma yw 9,034, mae ganddyn nhw hefyd 742 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r digwyddiad rhedeg.

Dechreuodd Merthyr ParkRun yn 2017 ac mae'n cael ei gynnal yn y Pentref Hamdden gyda 158 o ddigwyddiadau hyd yma, mae ganddyn nhw gyfartaledd o 46 o yn gorffen bob wythnos. Y cyfanswm sydd wedi gorffen hyd yma yw 2,302 ac mae 378 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r digwyddiadau.

Dangosir map o rai o'r ParkRuns yn ardal de-ddwyrain Cymru isod




Mae ganddynt hefyd ParkRuns Iau yn yr ardal a ddangosir ar y map isod:




## Nofio am Ddim

Nod y fenter Nofio am Ddim a lansiwyd gyntaf yn 2003 oedd cael mwy o blant o dan 16 oed ac oedolion dros 60 oed i nofio ac i wneud hynny'n fwy rheolaidd. Mae'r siartiau isod yn dangos cyfradd y plant a fanteisiodd ar y nofio am ddim hyd at 2019:

**Siart 99: Plant o dan 8 oed**




**Siart 100: Plant rhwng 8 ac 11 oed**




**Siart 101: Plant rhwng 12 ac 16 oed**




Fel y gwelir yn y siartiau, mae cyfradd y plant sy'n cymryd rhan mewn nofio am ddim yn gostwng ar draws yr ardal CTM. Er bod cyfraddau Merthyr Tudful wedi gostwng, maent wedi aros yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer plant hyd at 11 oed. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr a RhCT gyfraddau uwch yn yr ystod oedran 11 i 16 ond maent yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru. O gymharu ag awdurdodau cyfagos, mae gan Flaenau Gwent a Thorfaen gyfraddau cyson uwch ar draws pob oedran yn 2018/19.

Yn dilyn adolygiad o'r fenter Nofio Am Ddim canfuwyd bod y niferoedd sy'n cymryd mantais yn lleihau, gyda 'sesiynau sblash' cychwynnol ar gyfer pobl ifanc yn codi o lai na 400,000 i 800,000 yn 2004/2005, a gynhaliwyd am rai blynyddoedd. Gostyngodd nifer y 'sesiynau sblasio' ar gyfer nofwyr iau i 145,000 yn 2016/17. Canfuwyd bod hyn oherwydd bod nifer y sesiynau nofio am ddim oedd ar gael yn lleihau. Roedd yr effaith yn debyg i'r grwpiau oedran hŷn a fu'n cymryd rhan yn y fenter nofio am ddim. Casgliad yr adolygiad oedd nad oedd bellach yn addas at y diben ac nad oedd yn '*gwasanaethu amcanion cydraddoldeb a llesiant Llywodraeth Cymru na Chwaraeon Cymru yn effeithiol*' (UKRCS 2018).

O ganlyniad i'r adolygiad, newidiwyd y fenter yn 2019 ac er ei bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r un ystod oedran, mae bellach yn blaenoriaethu pobl o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i nofio yn gallu dysgu nofio ac yn nofio'n amlach.

### Cryfderau

- Defnyddio a datblygu'r dirwedd ddiwydiannol: Mae yna fentrau busnes sy'n defnyddio'r dirwedd ddiwydiannol gyda datblygiad Zip World Tower yn Hirwaun. Daw hyn â phobl a thwristiaeth i'r ardal gyda'r gweithgareddau, ond mae ganddo elfen hanesyddol hefyd gyda stori Glofa'r Tŵr. Mae hyn yn torri ar draws yr holl bileri sy'n defnyddio'r amgylchedd lleol drwy hanes yr ardal yn ogystal ag effaith economaidd dod â phobl i'r ardal a manteision y gweithgareddau.
- Mae gallu'r Gymraeg yn cynyddu yn yr ardal gan symud tuag at y targedau ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan bob ardal darged i'w gyflawni ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unol â gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru.
- Mae amrywiaeth o grwpiau o blant ifanc i oedolion sy'n dod at ei gilydd i fwynhau'r Gymraeg.

- Mae diwylliant yn bwysig iawn i'r ardal gyda phobl yn gwerthfawrogi'r gorffennol ac yn mwynhau'r hyn sydd yma ar hyn o bryd. Adlewyrchwyd hyn yn yr ymgysylltu â chymunedau. Roedd hunaniaeth ddiwylliannol i lawer yn golygu ymdeimlad o le, perthyn, ac, yn benodol, eu Cymreictod. Ystyriwyd bod hyrwyddo gorffennol diwylliannol a chyfleoedd presennol yr ardal yn allanol ac o fewn cymunedau yn bwysig, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg.
- Yn ystod yr ymgysylltu un o'r 'pethau gorau am yr ardal' oedd: Hanes a threftadaeth yr ardal a'i rôl wrth ddod â thwristiaid i'r ardal, '*Mae diwylliant Cymreig cryf yma a defnydd cynyddol o'r Gymraeg*
- Mae llyfrgelloedd yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n dda gan aelodau'r gymuned gydag ystod o weithgareddau i bobl gymryd rhan ynddynt. Roedden nhw'n achubiaeth i rai yn ystod cyfyngiadau Covid. Dengys data fod nifer yr e-lyfrau, lawrlwythiadau sain a benthyciadau rhwng 2018/19 a 2020/21 yn cynyddu ar draws ardal CTM ar gyfer oedolion a phlant
- Mae cyfranogiad cyffredinol mewn chwaraeon yn dda. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon am ddim yn yr ardal yn dda gyda nofio am ddim ar gael ac eraill yn cymryd rhan yn y ParkRuns amrywiol.

# Cyfleoedd

### Y Gymraeg

Mae holl ardaloedd CTM yn paratoi neu wedi paratoi eu Strategaeth ar gyfer y Gymraeg ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bydd gan gynnwys y strategaethau feysydd allweddol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hardaloedd a fydd yn cynnwys sut y maent yn gweithio i gyfrannu at y nod o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Yn ystod yr ymgysylltu, mynegodd un ymatebydd y canlynol:

*'Hoffwn weld ysgolion Saesneg yn gwneud mwy am yr hyn mae bod yn Gymro neu'n Gymraes yn ei olygu - ein hanes a'n diwylliant - a mwy o gefnogaeth Gymraeg i'r rhieni hynny sy'n methu siarad Cymraeg ond sy'n anfon eu plant i ysgol Gymraeg. Dwi'n gwybod eu bod nhw eisiau cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ond alla i ddim gweld neb yn gwneud dim am y peth.'*

Mae angen hyrwyddo'r gwaith da sy'n mynd rhagddo i hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'r sbardunau ar gyfer y strategaethau fel eu bod yn gweld bod rhywbeth yn cael ei wneud yn ei gylch.

Oherwydd y gwaith cynhwysfawr sy'n digwydd wrth ddatblygu'r strategaethau ym mhob ardal, mae cyfle i'r BGC gefnogi'r blaenoriaethau. Bydd hyn yn darparu dull rhanbarthol o gefnogi'r Gymraeg yn y cymunedau lleol. Mae adborth o'r gwaith ymgysylltu wedi dangos bod pobl yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac mewn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

### Y Celfyddydau a'r Theatr

Mae amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol ar gael yn ardal CTM o theatrau bach i leoliadau mwy fel y Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl. Fodd bynnag, mae sector y celfyddydau wedi wynebu heriau digynsail yn ystod y 18 mis diwethaf oherwydd cyfyngiadau Covid. Cefnogwyd y sectorau diwylliannol a chelfyddydol ag arian drwy'r pandemig, gyda'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a Chronfa Gwytnwch y Celfyddydau. Mae lleoliadau'n dechrau agor a gall dod â phobl yn ôl i theatrau gyflwyno heriau. Yn benodol, yr heriau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y sector a phobl a adawodd yn ystod y pandemig yn symud ymlaen i gyflogaeth arall.

Mae cyllid yn ei gwneud yn bosibl adnewyddu adeiladau hanesyddol yn y cymunedau i ddod â chymunedau at ei gilydd.

### Treftadaeth

Adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn yr ardal ar draws yr ystodau oedran. Ceisir cyllid pellach yn RhCT i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb plant ac oedolion. Yn ystod ymgysylltu roedd llawer o falchder yn yr ardal a'r awydd i gadw a rhannu'r hanes lleol a'r dreftadaeth ddiwydiannol.

### Llyfrgelloedd

Mae llawer yn cael ei ddarparu mewn adeiladau llyfrgell ac yn y cymunedau gyda llyfrgelloedd symudol yn achubiaeth i rai yn ystod cyfyngiadau Covid. Cafodd y cysylltiad rhwng llyfrgelloedd a diwylliant ei gasglu gan yr ymgysylltu, gyda galwadau am fwy o lyfrau a gwybodaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ac â diwylliant Cymru. Mae llyfrgelloedd hefyd yn allweddol i bobl gyfarfod a chymdeithasu, maent yn bwysig i rai sy'n teimlo'n unig. Maen nhw'n dod yn ganolfannau lles ac mae'n amlwg bod hyn yn gwella'r gwasanaethau a'r

hybiau cymunedol sydd eisoes ar waith. Nododd un ymateb eu bod nhw '*Angen mwy o ganolfannau cymunedol neu fannau cyfarfod i bobl fynd iddynt. Alla i ddim fforddio parhau i brynu coffi!*'

Fe wnaeth y gwaith ymgysylltu ganfod bod: Cymdeithasu yn cryfhau perthnasoedd drwy ddod â phobl at ei gilydd, gan eu helpu i wneud ffrindiau. Teimlai ymatebwyr fod cymdeithasu yn lleihau unigrwydd ac yn cefnogi gwell iechyd meddwl, ond mae angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth mewn rhai ardaloedd i wella'r gallu i gymdeithasu.

### Gweithgareddau Chwaraeon a Hamdden

Mae amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden ym mhob ardal ac mae mynediad i nofio am ddim a ParkRuns yn ogystal â'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau ymarfer corff a hamdden.

Un maes a amlygwyd yn yr ymgysylltu oedd fforddiadwyedd mynediad i rai cyfleusterau hamdden. Roedd hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc a soniodd am y gost o wneud gweithgareddau o chwaraeon i raddau piano. Roedd eraill a ddywedodd, er eu bod yn byw mewn ardaloedd mwy cyfoethog, nad oedd hynny'n golygu bod eu rhieni'n gallu fforddio talu am weithgareddau.

Amlygwyd cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ymwneud â chwaraeon hefyd ar gyfer rhai merched a siaradodd am sut mae chwaraeon yn cael eu haddysgu yn ôl rhyw y cyfranogwyr yn yr ysgol. Hefyd y tu allan i'r ysgol mae rhai chwaraeon a gweithgareddau wedi'u targedu'n benodol at fechgyn e.e. motocross

Dengys data ystadegol cenedlaethol fod y rhai sydd mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na'r rhai nad ydynt. Gall hyn fod oherwydd fforddiadwyedd gallu cymryd rhan neu gael mynediad i weithgareddau chwaraeon a hamdden oherwydd diffyg trafnidiaeth. Nododd yr ymgysylltu fod y rhai mewn ardaloedd mwy cyfoethog yn cael eu gyrru i weithgareddau (e.e. nofio, *Guides*).

Roedd yr ymatebion i'r ymgysylltu yn cynnwys Gweithgareddau Cymunedol – 'mwy o bethau i'w gwneud nad ydynt yn costio llawer o arian. Dwi eisiau gallu gwneud mwy o chwaraeon'. Roedd galw hefyd am fwy o weithgareddau mewn rhai ardaloedd (cymunedau tlotach yn bennaf) a gweithgareddau a chyfleusterau cost isel/ dim cost e.e. grwpiau ieuenctid, parc sglefrio.

### Gwirfoddoli

Mae cyfleoedd i adeiladu ar weithgareddau pobl a fu'n gwirfoddoli yn ystod y pandemig. Gall y rhain gysylltu â phob agwedd ar les mewn cymunedau sy'n ymwneud â threftadaeth, yr economi, yr amgylchedd, cydlyniant diwylliannol a chymunedol. Trafododd llawer o'r ymatebwyr wirfoddoli yn y sesiynau ymgysylltu, er mwyn cael mynediad i waith yn ogystal ag ar gyfer cyfarfod â phobl. Roeddent yn credu bod gwirfoddoli'n gwneud i bobl deimlo 'cysylltiad cymdeithasol'. Roedd rhai o'r farn bod angen cyfleoedd gwirfoddoli mwy amrywiol.

Ymhlith y ffactorau sy'n cael eu hystyried i gefnogi lles cymdeithasol roedd:

**Gwirfoddoli -** Mae'n helpu i gysylltu â phroses ddwy ffordd - mae pobl yn teimlo eu bod eu heisiau a'u bod o ddefnydd
yn eu cymuned a'r manteision cymunedol. Mae hefyd yn helpu pobl i gwrdd â phobl newydd.

### Trafnidiaeth

Trafnidiaeth oedd y rhwystr mwyaf cyffredin i gael mynediad at weithgareddau diwylliannol. Roedd angen amlwg am well cysylltiadau trafnidiaeth i bobl o bob oed allu cael mynediad at weithgareddau. Dyma rai o'r sylwadau a amlygwyd yn yr adroddiad ymgysylltu:

- *Mae angen i drafnidiaeth fod yn fwy dibynadwy ac ar gael yn hwyrach yn y nos i alluogi pobl i deithio.*
- *Ar gyfer yr ardal, byddwn yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Rwy'n credu ei bod yn hurt mai dim ond unwaith yr awr y gallwn ddal trên a dim ar ddydd Sul. Mae'r trên yn stopio am 10pm ar y penwythnos sydd wir yn cyfyngu ar opsiynau ar gyfer teithio, nid yn unig ar gyfer y tu allan i'r ardal ond hefyd i mewn - rydym am annog pobl i ymweld â'n hardal ond yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl nad ydynt yn gyrru neu sy'n methu gyrru.*
- *Roedd trafnidiaeth yn tueddu i beidio â bod ar gael i lawer o weithgareddau fel bod y rhai yr oedd gan eu rhieni gar yn eu gyrru i weithgareddau a hobïau, gan gynnwys dawns, Guides, chwaraeon a chadetiaid ambiwlans*

Mae cyfleoedd i fynd i'r afael â hyn gyda Metro newydd De Cymru, ond bydd elfennau eraill y mae angen eu hystyried. Soniodd un ymatebydd am drafnidiaeth gymunedol a allai fod yn gyfle i ystyried ardaloedd mwy gwledig nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus.

## Crynodeb

I grynhoi, mae'r adran hon wedi ceisio dwyn ynghyd ac asesu'r wybodaeth sydd ar gael sy'n ymwneud â'r gweithgareddau diwylliannol yn yr ardal CTM.

Nodwyd hyn gan ddangos pwysigrwydd cymuned a diwylliant i'r ardaloedd. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn yr ymgysylltu ag amrywiol aelodau o gymunedau lleol. Mae balchder amlwg yn yr ardal, o fod yn Gymry a bod yn rhan o ddiwylliant Cymru.

Mae heriau yn cael eu nodi megis fforddiadwyedd i allu cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau yn ogystal â chludiant i allu cael mynediad i weithgareddau. Nid yw'r rhain yn anorchfygol i'w goresgyn gyda gwasanaethau a chymunedau'n cydweithio.

Mae rhai cyfleoedd cyffrous i'r ardal ddatblygu a chydweithio i adeiladu ar yr amgylchedd naturiol sy'n ffurfio'r ardaloedd o'r dirwedd ddiwydiannol i'r ardaloedd arfordirol. Mae cyllid yn cael ei roi i'r ardal i wella'r gweithgareddau diwylliannol gydag adeiladau'n cael eu hadnewyddu i'w defnyddio gan y cymunedau megis ym Maesteg a Phontypridd.

Mae cysylltiadau clir â'r Nodau Lles o ran cefnogi iechyd, diwylliant, ffyniant a chymunedau cydlynol. Mae elfen ddiwylliannol lles yn rhoi cyswllt clir â'r agweddau pwysig hyn ar les a gall y cyfleoedd sydd ar gael wella agweddau diwylliannol yr ardal ymhellach.

# Cyfeiriadau


Alma Economics (2021), Lles meddyliol plant a phobl ifanc yn ystod pandemig Covid-19, Iechyd Cyhoeddus Cymru Mai 2021 https://phw.nhs.wales/publications/publications1/children-and-young-peoples-mental-wellbeing-during-the-covid-19-pandemic-report/

Cyngor Celfyddydau Cymru (2019), Arolwg Omnibws yr Oedolion 2019: Mynychu a Chymryd Rhan

Athow J, (2019), Decoding the gender pay gap: how a Bletchley Park codebreaker helped explain a strange paradox, ONS blog https://blog.ons.gov.uk/2019/04/16/decoding-the-gender-pay-gap-how-a-bletchley-park-codebreaker-helped-explain-a-strange-paradox/

Bailey L, 2015, Adroddiad Cynllun Peilot Rhaglen Mesur Plant Blwyddyn 4 2012/13, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yn https://phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/additional-reports/report-of-year-4-child-measurement-programme-pilot-2012-13/

Bellis M, Ashton K, Hughes K, Ford K, Bishop J and Paranjothy S (2015) Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Iechyd Cyhoeddus Prifysgol John Moores Lerpwl

Bonaccio S, Connelly CE, Gellatly IR, Jetha A, Ginis KAM 2019, The Participation of People with Disabilities in the Workplace Across the Employment Cycle: Employer Concerns and Research Evidence, Journal of Business and Psychology (2020) 35:135–158 https://doi.org/10.1007/s10869-018-9602-5

Cadw (2007) Gofalu am Dirweddau Hanesyddol, https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Caring_for_Historic_Landscapes_EN_CY.pdf

de Jong-Gierveld, J.A (1998) A review of loneliness: Concepts and definitions, determinants and consequences, Reviews in Clinical Gerontology, (8), 73-80 https://research.vu.nl/ws/portalfiles/portal/2781577/111286.pdf

Davidson J, 2011 A qualitative study exploring employers' recruitment behaviour and decisions: small and medium enterprises, Department of Work and Pensions, Research Summary https://www.gov.uk/government/publications/employers-recruitment-behaviour-and-decisions-rr754

Grace C Dr (2018) Free Swimming in Wales: A Review, UK Research and Consultancy Services, Ltd. https://democracy.npt.gov.uk/documents/s52972/Free%20Swimming%20Report%20Final.pdf

Hodges H, Goldstone R, Durrant H, Collins E T, 2021, Iechyd ac unigrwydd yng Nghymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Mewnwelediad Data Hydref 2021

Kolb H, Martin S, 2017, Environmental /Lifestyle factors in the pathogenesis and prevention of type 2 diabetes, BMC Medicine 15:131, https://bmcmedicine.biomedcentral.com/track/pdf/10.1186/s12916-017-0901-x.pdf

Local Government Association 2020, Delivery of council housing: Developing a Stimulus package post-pandemic, cyrchwyd o https://www.local.gov.uk/delivery-council-housing-stimulus-package-post-pandemic (cymerwyd o ymchwil gan Capital Economics 2018: Setting Social Rent Economic analysis of policy options for social rents after 2020 accessed at http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/5417d73201925b2f58000001/attachments/original/1519256246/CapExRents.pdf?1519256246 )
Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru Mai 2021, Fframwaith NYTH os oes angen i chi wybod mwy

Morgan Dr D (2010) Ymchwil ar Unigrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru, https://gofalcymdeithasol.cymru/curadur-yr-ymchwil/ymchwil-ar-unigrwydd#section-29682-anchor

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) Gordewdra yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yn https://phw.nhs.wales/topics/obesity/obesity-in-wales-report-pdf/

Raines K 2020, Act 2 National Audience Research: Audience views on booking tickets now, returning to live cultural events with social distancing, and experiencing culture in different formats. Indigo http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/supercool-indigo/Act-2-Report-wave-2-results.pdf

Steward-Brown S, Platt S, Parkinson J, Joseph S, Weich S, Secker J, Stansfield S, Lewis G 2007, Warwick Edinburgh Mental Wellbeing Scale, Warwick Medical School https://warwick.ac.uk/fac/sci/med/research/platform/wemwbs/

Gofal Cymdeithasol Cymru 2019, Proffil y Gweithlu Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/SCW_workforce_profile_2019_LA-Regulated-Services_final_cymV2.pdf